# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 02/12/2014

Cynnwys Contents

[Cwestiynau i'r Prif Weinidog](#)
[Questions to the First Minister](#)

[Datganiad a Chyhoeddiad Busnes](#)
[Business Statement and Announcement](#)

[Datganiad: Cyflwyno Bil Cymwysterau Cymru](#)
[Statement: Introduction of the Qualifications Wales Bill](#)

[Datganiad: Gwyddoniaeth yng Nghymru—Ysbrydoli'r Genhedlaeth Nesaf](#)
[Statement: Science in Wales—Inspiring the Next Generation](#)

[Effaith y Polisi Caffael yng Nghymru](#)
[The Impact of Procurement Policy in Wales](#)

[Adroddiad Blynyddol 2014 ar y Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau](#)
[Substance Misuse Strategy Annual Report 2014](#)

[Cyfnod Pleidleisio](#)
[Voting Time](#)

*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

## Questions to the First Minister

### Argymhellion Comisiwn Smith

### The Recommendations of the Smith Commission

13:30 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*1. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y goblygiadau i Gymru o argymhellion adroddiad y comisiwn Smith? OAQ(4)2001(FM)*

*1. Will the First Minister make a statement on the implications for Wales of the recommendations of the Smith commission report? OAQ(4)2001(FM)*

13:30 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae'n rhaid cynnig beth bynnag sy'n cael ei gynnig i'r Alban i Gymru hefyd. Ni ddylai fod gwahaniaeth rhwng y ddau.

Whatever is being offered to Scotland must be offered to Wales too. There should be no difference between the two.

13:30 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Brif Weinidog. Byddwch chi wedi gweld, efallai, fod eich rhagflaenydd, Rhodri Morgan, wedi dweud tua phythefnos yn ôl, yn y 'Western Mail':

Thank you, First Minister. You may have seen that your predecessor, Rhodri Morgan, said around a fortnight ago in the 'Western Mail':

'If Wales had Scottish levels of funding, I have no doubts that Welsh Labour would be happy to kick-start the referendum process and then campaign for a YES vote on income tax devolution.'

Pe byddai gan Gymru yr un lefelau o arian â'r Alban, nid oes gennyf unrhyw amheuaeth y byddai Llafur Cymru yn hapus i gychwyn y broses refferendwm ac yna ymgyrchu dros bleidlais IE ar ddatganoli treth incwm.

Mae Plaid Cymru, wrth gwrs, wedi amcangyfrif bod cyllido cyfartal i'r Alban yn rhywbeth yn debyg i £1.2 biliwn. Beth yw'ch asesiad chi o'r cyllido cyfartal hynny, a phryd, felly, ydych chi'n meddwl y byddwn ni'n ymgyrchu dros bwerau treth incwm yma yng Nghymru?

Now, Plaid Cymru, of course, has estimated that equal funding with Scotland would amount to some £1.2 billion. What is your assessment of that parity of funding, and when do you believe we will be campaigning for income tax powers here in Wales?

13:31 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Wel, ein barn ni yw'r hyn a ddywedodd comisiwn Holtham—dyna beth oedd barn eich plaid chi ar un adeg. Fodd bynnag, ta beth yw'r ffigur, yr hyn sy'n bwysig yw bod hynny'n cael ei ddelio ag ef cyn bod unrhyw sôn am dreth incwm. Nawr, mae pethau wedi newid yn gyfangwbl ers yr wythnos diwethaf o ran yr hyn sydd wedi cael ei gynnig i'r Alban. Mae'n rhaid i ni, felly, fodelu yr hyn sydd wedi cael ei gynnig i'r Alban yma yng Nghymru, ond, wrth gwrs, rydym yn dal i fod yn yr un sefyllfa, lle nad yw Barnett yn rhoi unrhyw 'favour' i Gymru.

Well, our view is the Holtham commission position—and it was your party's position at one time. However, whatever the figure is, then what is important is that that is dealt with before there is any talk of the devolution of income tax. Now, things have entirely changed since last week in terms of what has been proposed for Scotland. Therefore, we have to model what has been proposed for Scotland here in Wales, but, of course, we remain in the same position, where Barnett does not do Wales any favours.

13:31 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Does the First Minister agree that, following the publication of the Smith commission report, it is even more urgent that we have a constitutional convention, because we may end up with part of the UK federal, and part unitary, and that this is unsustainable in the long term? Does he agree that we should move towards a written constitution, preceded by a constitutional convention and a referendum?

A yw'r Prif Weinidog yn cytuno, ar ôl cyhoeddi adroddiad comisiwn Smith, bod hyd yn oed mwy o frys i ni gael confensiwn cyfansoddiadol, oherwydd gallem weld yn y pen draw rhan o'r DU yn ffederal, a rhan yn unedol, a bod hyn yn anghynaladwy yn y tymor hir? A yw'n cytuno y dylem symud tuag at gyfansoddiad ysgrifenedig, wedi ei ragflaenu gan gonfensiwn cyfansoddiadol a refferendwm?

13:32 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I certainly believe in a constitutional convention. I would not want the convention to look at powers. I think that powers must run parallel to a convention process, mainly because I would not want the issue of powers to be wrapped up in a convention process that might take many years. That is depriving the people of Wales of the powers that they need. What the convention needs to look at is the structure of the UK, and how the four nations relate to each other—I think that that is perfectly practical. It may well lead to, at least in part, a written constitution, because what we need is certainty in terms of who can do what. It is quite clear that the constitution that we have had is not fit for purpose for this coming century, and we need to get it right for all the people who live in the UK.

Rwy'n sicr yn credu mewn confensiwn cyfansoddiadol. Ni fyddwn eisiau i'r confensiwn ystyried pwerau. Rwy'n credu bod yn rhaid i bwerau redeg yn gyfochrog â phroses confensiwn, yn bennaf oherwydd na fyddwn eisiau i'r mater o bwerau gael ei gynnwys mewn proses confensiwn a allai gymryd blynyddoedd lawer. Mae hynny'n amddifadu pobl Cymru o'r pwerau sydd eu hangen arnynt. Yr hyn y mae angen i'r confensiwn ei ystyried yw strwythur y DU, a sut mae'r pedair gwlad yn ymwneud â'i gilydd—rwy'n credu bod hynny'n gwbl ymarferol. Gallai'n wir arwain, yn rhannol o leiaf, at gyfansoddiad ysgrifenedig, gan mai'r hyn sydd ei angen arnom yw sicrwydd o ran pwy all wneud beth. Mae'n gwbl eglur nad yw'r cyfansoddiad sydd gennym yn addas at ei ddiben ar gyfer y ganrif nesaf, ac mae angen i ni ei gael yn iawn ar gyfer pawb sy'n byw yn y DU.

13:32 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Brif Weinidog, rydych wedi ei gwneud yn glir unwaith eto heddiw eich bod chi eisiau gweld y pwerau sy'n cael eu cynnig i'r Alban yn cael eu cynnig i Gymru. Fodd bynnag, nid ydym yn clywed wrthych ba bwerau y byddech chi'n eu derbyn. A allwch chi ddweud wrthym ni, felly, ba bwerau sydd yn adroddiad comisiwn Smith na fyddech chi'n eu derbyn i Gymru?

First Minister, you have made it clear once again today that you want to see the powers offered to Scotland also offered to Wales. However, we are not hearing from you what powers you would accept. Can you tell us, therefore, what powers contained in the Smith commission report you would actually reject for Wales?

13:33 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Byddem yn derbyn popeth—popeth—ar wahân, wrth gwrs, i Barnett. Beth sydd yng nghomisiwn Smith? Mae comisiwn Smith yn dweud y dylai Barnett aros. Nid wyf yn derbyn hynny o gwbl o ran sefyllfa gyllido Cymru. Rwy'n agored i'r syniad y dylai Cymru gael ei chyllido mewn ffordd Barnett 'plus', ond, cyn bod hynny'n cael ei ddatrys, ni fyddai'n gall i ni, felly, gymryd pwerau dros dreth incwm—pwerau eang, wrth gwrs, sydd wedi dod o gomisiwn Smith, a rhywbeth sy'n llawer mwy eang na'r hyn yr ydym wedi ei gael o'r blaen, felly, byddai'n rhaid ystyried beth fyddai hynny'n ei olygu i bobl Cymru. Fodd bynnag, o ran treth ar hedfan—toll teithwyr awyr—er enghraifft, byddai'n rhywbeth hollol annerbyniol pe bai'r Alban yn cael hynny, ac nid Cymru. Nid oes reswm dan haul pam y dylai hynny ddigwydd.

We would accept everything but, of course, for Barnett. What the Smith commission said was that Barnett should remain. I do not accept that at all in terms of the funding position of Wales. I am open to the idea that Wales should be funded in a Barnett-plus approach, but, until that is resolved, then it would not be wise for us to take on income tax powers—broad-ranging powers, of course, are proposed by the Smith commission, which are far broader than what has been proposed in the past, so we would have to consider what that would mean for the people of Wales. However, in terms of, for example, air passenger duty, it would be entirely unacceptable if Scotland were to get those powers, and Wales were not. There is no reason at all why that should be the case.

### Cysylltiadau rhwng Cymru a Tsieina

### Links Between Wales and China

13:34 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography Senedd.tv Fideo Video

*2. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gysylltiadau rhwng Cymru a Tsieina? OAQ(4)1995(FM)*

*2. Will the First Minister make a statement on links between Wales and China? OAQ(4)1995(FM)*

13:34 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We do have active links between Wales and China, across a broad range of areas, including business, tourism, education and culture.

Mae gennym ni gysylltiadau gweithredol rhwng Cymru a Tsieina, ar draws ystod eang o feysydd, gan gynnwys busnes, twristiaeth, addysg a diwylliant.

13:34 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister. Will you join me in condemning the practice of forced organ harvesting from prisoners in China, and what action can your Government take to support the international efforts to stop this appalling practice?

Diolch yn fawr, Brif Weinidog. A wnewch chi ymuno â mi i gondemnio'r arfer o gynaeafu organau gorfodol gan garcharorion yn Tsieina, a pha gamau all eich Llywodraeth eu cymryd i gefnogi'r ymdrechion rhyngwladol roi terfyn ar yr arfer erchyll hwn?

13:34 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Could I join the Member in expressing my great concern at this practice? We believe as a Government, of course, that any trade in organs, or forced organ donation, is abhorrent, and must end. It is, in any case, illegal in the UK to trade in organs. I understand that European Union directives require that all organs should be fully traceable, and so there should be no question of such organs arriving in Europe. Of course, we are aware of the campaign run by Doctors Against Forced Organ Harvesting and it is right, of course, that this issue should be raised in this Chamber quite properly, and, of course, we would join the UK Government in expressing our abhorrence at this practice.

A gaf i ymuno â'r Aelod i fynegi fy mhryder mawr am yr arfer hwn? Rydym yn credu fel Llywodraeth, wrth gwrs, bod unrhyw fasnach mewn organau, neu roi organau'n orfodol, yn wrthun, ac mae'n rhaid iddo ddod i ben. Beth bynnag, mae masnachu mewn organau yn anghyfreithlon yn y DU. Rwy'n deall bod cyfarwyddebau'r Undeb Ewropeaidd yn ei gwneud yn ofynnol y dylid gallu olrhain pob organ yn llawn, ac felly ni ddylai fod unrhyw gwestiwn o organau o'r fath yn cyrraedd Ewrop. Wrth gwrs, rydym ni'n ymwybodol o'r ymgyrch sy'n cael ei rhedeg gan Doctors Against Forced Organ Harvesting, ac mae'n iawn, wrth gwrs, y dylai'r mater hwn gael ei godi yn y Siambr hon yn gwbl briodol, ac, wrth gwrs, byddem yn ymuno â Llywodraeth y DU i fynegi ein hatgasedd tuag at yr arfer hwn.

13:35 **William Graham** Bywgraffiad Biography Senedd.tv Fideo Video

May I join the First Minister and the previous speaker in condemning that abhorrent practice? I am very pleased to note that, last month, as part of Export Week, 11 Welsh companies took part in an international food and drink trade event with China. What is the First Minister doing to further promote those links?

A gaf i ymuno â'r Prif Weinidog a'r siaradwr blaenorol i gondemnio'r arfer ffiaidd hwnnw? Rwy'n falch iawn o nodi, y mis diwethaf, yn rhan o Wythnos Allforio, y cymerodd 11 o gwmnïau o Gymru ran mewn digwyddiad masnach bwyd a diod rhyngwladol gyda Tsieina. Beth mae'r Prif Weinidog yn ei wneud i hybu'r cysylltiadau hynny ymhellach?

13:35 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

China is very, very important to us as a food market. For example, it is a market where we have the ability to supply many products. In terms of the recent trade mission, I can say that as part of that a food and drink showcase was held in Shanghai last month, and there were enquiries for beer, cheese, preserves and, indeed, whisky, among other things. So, there is clearly a demand for Welsh produce in China.

Mae Tsieina yn bwysig iawn, iawn i ni fel marchnad fwyd. Er enghraifft, mae'n farchnad lle mae'r gallu gennym i gyflenwi llawer o gynhyrchion. O ran y daith fasnach ddiweddar, gallaf ddweud y cynhaliwyd sioe arddangos bwyd a diod Shanghai y mis diwethaf yn rhan o hynny, a chafwyd ymholiadau am gwrw, caws, cyffeithiau ac, yn wir, wisgi, ymhlith pethau eraill. Felly, mae'n amlwg bod galw am gynnyrch Cymreig yn Tsieina.

13:36 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, rwyf yn croesawu'n fawr iawn eich datganiad mewn ymateb i gwestiwn gan Jocelyn Davies. Cawsom gyfarfod a noddais yma yn y Cynulliad yr wythnos diwethaf gyda meddygon a gwleidyddion sy'n gwrthwynebu'r modd y mae organau yn cael eu cymryd oddi wrth garcharorion yn Tsieina. A wnewch chi yn siŵr nad oes unrhyw gysylltiad rhwng ysbytai yng Nghymru a'r arfer hwn a hefyd nad oes cysylltiad rhwng unrhyw ganolfannau megis y canolfannau Confucius sy'n bodoli mewn rhai prifysgolion yng Nghymru a'r arfer hwn?

First Minister, I very much welcome your statement in response to the question from Jocelyn Davies. We had a meeting that I sponsored at the Assembly last week of doctors and politicians that oppose the way in which organs are taken from prisoners in China. Can you ensure that there is no contact between hospitals in Wales and this practice and also no contact between any centres such as the Confucius centres that exist in some universities in Wales and this practice?

13:36 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Fel y dywedais yn yr ateb blaenorol, mae system Ewropeaidd sy'n delio â hwn. Wrth gwrs, mae'n rhaid inni sicrhau nad oes unrhyw organau yn dod yn y modd hwn i Ewrop ac felly i Gymru. Mae systemau mewn lle ar draws Ewrop yn gyfan gwbl a dylai'r systemau hynny osgoi bod hyn yn digwydd yng Nghymru a gweddill Ewrop.

Well, as I said in my previous response, there is a European system that deals with issue. Of course, we need to ensure that no organs are bought into Europe and into Wales using these methods. The systems in place on a pan-European basis should ensure that this does not happen in Wales or in the rest of Europe.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from the Party Leaders

13:37 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First this afternoon is the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.

Arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood, sydd gyntaf y prynhawn yma.

13:37 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

Diolch, Lywydd. First Minister, I note that you have repeatedly said that powers offered to Scotland in the light of the Smith commission should be offered to Wales. There is a big difference between being offered powers and then saying that you want powers. I heard what you said earlier in relation to the Barnett formula. I wonder whether you could be clear with us here this afternoon and with the people of Wales: do you want the Smith and Silk commissions' recommendations implemented in full in relation to Wales or not?

Diolch, Lywydd. Brif Weinidog, sylwaf eich bod wedi dweud dro ar ôl tro y dylai'r pwerau a gynigiwyd i'r Alban yng ngoleuni comisiwn Smith gael eu cynnig i Gymru. Mae gwahaniaeth mawr rhwng cael cynnig pwerau ac yna dweud eich bod chi eisiau pwerau. Clywais yr hyn a ddywedasoch yn gynharach ynglŷn â fformiwla Barnett. Tybed a allech chi fod yn eglur gyda ni yma y prynhawn yma a chyda phobl Cymru: a ydych chi eisiau i argymhellion comisiynau Smith a Silk gael eu rhoi ar waith yn llawn o ran Cymru ai peidio?

13:37 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes, with one small exception, and that is that I would not want to see us take powers over income tax unless the issue of our funding is addressed.

Ydw, gydag un eithriad bach, sef na fyddwn i eisiau ein gweld ni'n cymryd pwerau dros dreth incwm oni bai bod mater ein cyllid yn cael ei ddatrys.

13:37 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, you appear to be more concerned with caveats than with responsibility. You either want parity with Scotland or you do not. You did not want income-tax sharing powers unless there was fair funding. You did not want income-tax sharing powers where there was a lockstep. Now, you are asking to be offered powers but you will not say if you want them or if you will take them. How much responsibility—[Interruption.]

Brif Weinidog, mae'n ymddangos eich bod yn poeni mwy am gafeatau na chyfrifoldeb. Rydych chi naill ai eisiau cydraddoldeb gyda'r Alban neu ddim ei eisiau. Nid oeddech chi eisiau pwerau rhannu treth incwm oni bai bod ariannu teg. Nid oeddech chi eisiau pwerau rhannu treth incwm lle'r oedd camu clos. Nawr, rydych chi'n gofyn i gael cynnig pwerau ond ni wnewch chi ddweud a ydych chi eu heisiau nhw nac os byddwch chi'n eu cymryd. Faint o gyfrifoldeb—[Torri ar draws.]

13:38 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order, order.

Trefn, trefn.

13:38 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

How much responsibility do you take for Wales having third-rate devolution?

Faint o gyfrifoldeb ydych chi'n ei gymryd am y ffaith bod gan Gymru ddatganoli trydedd radd?

13:38 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I am slightly speechless, because I did give a very clear answer, I thought, and that is that we would like to have all the powers in part 2 of Silk and what is in the Smith commission, except we need to ensure that Wales is fully funded. Scotland is in that position. The reality is that we could not accept the Smith commission as it would apply to Wales because the Smith commission enshrines Barnett. We know that Barnett does not work in Wales's interest and that there needs to be a way of addressing that underfunding. So, if that underfunding is addressed I would then anticipate that we look at the modelling on how income tax would work for Wales, because, remember, this is a new proposal. This is not what we saw before. This is a wholly new proposal, not entirely with logic, I have to say, because why would personal allowances not be devolved and yet all of income tax be devolved? I can say that, having met with my colleague the First Minister of Scotland last week, I said to her that I was supportive of Scotland getting the powers suggested in the Smith commission. She, in turn, is supportive of powers being transferred to Wales. I look forward to working with her. There are some things we do not agree on, independence being one example, but we will be supportive of each other, I am sure, in terms of making sure that devolution rolls out further.

Rwyf wedi fy syfrdanu braidd, gan fy mod i wedi rhoi ateb eglur iawn, roeddwn i'n meddwl, sef yr hoffem ni gael yr holl bwerau yn rhan 2 Silk a'r hyn sydd yng nghomisiwn Smith, ac eithrio bod angen i ni sicrhau bod Cymru'n cael ei hariannu'n llawn. Mae'r Alban yn y sefyllfa honno. Y gwir amdani yw na allem ni dderbyn comisiwn Smith fel y byddai'n berthnasol i Gymru gan fod comisiwn Smith yn diogelu Barnett. Rydym ni'n gwybod nad yw Barnett yn gweithio er lles Cymru a bod angen ffordd o fynd i'r afael â'r tanariannu hwnnw. Felly, os rhoddir sylw i'r tanariannu hwnnw, byddwn yn rhagweld wedyn y byddem yn edrych ar y modelu ar sut y byddai treth incwm yn gweithio ar gyfer Cymru, oherwydd, cofiwch, mae hwn yn gynnig newydd. Nid dyma welsom ni o'r blaen. Mae hwn yn gynnig newydd sbon, nid â rhesymeg yn gyfan gwbl, mae'n rhaid i mi ddweud, oherwydd pam na fyddai lwfansau personol yn cael eu datganoli er bod treth incwm yn cael ei datganoli'n gyfan? Gallaf ddweud, ar ôl cwrdd â'm cydweithiwr, Prif Weinidog yr Alban yr wythnos diwethaf, fy mod wedi dweud wrthi fy mod i'n gefnogol i'r Alban gael y pwerau a awgrymir yng nghomisiwn Smith. Mae hithau, yn ei thro, yn gefnogol o bwerau'n cael eu trosglwyddo i Gymru. Rwyf yn edrych ymlaen at weithio gyda hi. Ceir rhai pethau nad ydym yn cytuno arnynt, annibyniaeth yn un enghraifft, ond byddwn yn cefnogi ein gilydd, rwy'n siŵr, o ran sicrhau bod datganoli'n cael ei gyflwyno ymhellach.

13:39 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Is not the truth of the matter, First Minister, that you cannot even agree in your own party about what you want for Wales? Plaid Cymru is clear. We want parity with Scotland. We want parity of powers, and we want parity of funding. Now, we are not asking for parity to be offered; we are demanding parity. Now Scotland is getting new powers—[Interruption.]

Onid yw'n wir, Brif Weinidog, mai'r ffaith yw na allwch chi hyd yn oed gytuno yn eich plaid eich hun am yr hyn yr ydych chi ei eisiau i Gymru? Mae Plaid Cymru yn eglur. Rydym ni eisiau cydraddoldeb â'r Alban. Rydym eisiau cydraddoldeb o ran pwerau, ac rydym ni eisiau cydraddoldeb o ran cyllid. Nawr, nid ydym yn gofyn i gydraddoldeb gael ei gynnig; rydym ni'n mynnu cael cydraddoldeb. Nawr mae'r Alban yn cael pwerau newydd—[Torri ar draws.]

13:40 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. I want to hear what the leader is saying.

Trefn. Rwyf eisiau clywed yr hyn y mae'r arweinydd yn ei ddweud.

13:40 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

[Continues.]—and it is maintaining its funding. Northern Ireland is getting more powers. The English regions look set to get more powers too and you are here making excuses and caveats. First Minister, will you take responsibility, and when will you get behind Plaid Cymru's demands for parity with Scotland?

[Yn parhau.]—ac mae'n cynnal ei chyllid. Mae Gogledd Iwerddon yn cael mwy o bwerau. Mae'n edrych yn debyg y bydd rhanbarthau Lloegr yn cael mwy o bwerau hefyd ac rydych chi yma'n gwneud esgusodion a chafeatau. Brif Weinidog, a wnewch chi gymryd cyfrifoldeb, a phryd wnewch chi gefnogi gofynion Plaid Cymru am gydraddoldeb â'r Alban?

13:40 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I do wonder sometimes whether I should bother answering the questions, to be honest. Twice I have given as clear an answer as I possibly could. She talks about parity with Scotland. Parity with Scotland means accepting Barnett, so, no, I do not want parity with Scotland in that regard; of course not. She seems to suggest that, somehow, fair funding for Wales is a side show, something that we should try to ignore. Well, it is not a side show; it is crucially important. Even in Scotland, with the powers that the Smith commission proposes, by Nicola Sturgeon's own estimate, 70% of the funding will still come from sources that are not controlled in Scotland. On that basis, it makes perfect sense to sort out the basis of funding first, to get that right, rather than lock in that underfunding through taking income tax powers without thinking. I am all in favour of leading the people of Wales forward when it comes to devolution; I cannot agree with leading the people of Wales off the edge of a cliff without thinking. The difference between her and me is this: I want to see part 2 of Silk implemented. The Smith commission proposals should be offered to Wales. What I am not prepared to do is to take new powers blindly without thinking about the financial consequences for the people I represent. That is, I think, the sensible way of approaching this issue.

Rwy'n meddwl weithiau tybed a ddylwn i drafferthu i ateb y cwestiynau, a dweud y gwir. Rwyf wedi rhoi ateb mor eglur ag y gallaf ddwywaith. Mae hi'n siarad am gydraddoldeb â'r Alban. Mae cydraddoldeb â'r Alban yn golygu derbyn Barnett, felly, na, nid wyf eisiau cydraddoldeb â'r Alban yn hynny o beth; wrth gwrs nad ydwyf. Mae'n ymddangos ei bod yn awgrymu, rywsut, bod cyllid teg i Gymru'n fater ymylol, rhywbeth y dylem ni geisio ei anwybyddu. Wel, nid yw'n fater ymylol; mae'n hanfodol bwysig. Hyd yn oed yn yr Alban, gyda'r pwerau y mae comisiwn Smith yn eu cynnig, yn ôl amcangyfrif Nicola Sturgeon ei hun, bydd 70% o'r arian yn dal i ddod o ffynonellau nad ydynt yn cael eu rheoli yn yr Alban. Ar y sail honno, mae'n gwneud synnwyr perffaith i gael trefn ar sail y cyllid yn gyntaf, i'w gael yn iawn, yn hytrach na gwneud y tanariannu hwnnw'n barhaol trwy gymryd pwerau treth incwm heb ystyried. Rwy'n bendant o blaid arwain pobl Cymru ymlaen pan ddaw i ddatganoli; Ni allaf gytuno ag arwain pobl Cymru oddi ar ymyl clogwyn heb ystyried. Y gwahaniaeth rhyngddi hi a mi yw hyn: rwyf i eisiau gweld rhan 2 Silk yn cael ei rhoi ar waith. Dylai cynigion comisiwn Smith gael eu cynnig i Gymru. Yr hyn nad wyf yn barod i'w wneud yw cymryd pwerau newydd yn ddall heb feddwl am y canlyniadau ariannol i'r bobl rwy'n eu cynrychioli. Dyna, yn fy marn i, yw'r ffordd synhwyrol o fynd i'r afael â'r mater hwn.

13:41 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to questions from the leader of the opposition, Andrew R.T. Davies.

Symudwn nawr at gwestiynau gan arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies.

13:41 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. First Minister, tomorrow we have the autumn statement, and, by all accounts, from reports that are kicking around in the media at the moment, there will be a significant consequential coming the Welsh Government's way. What I would ask of the First Minister is: if those reports are to be believed, and it is confirmed in the statement tomorrow, will you use an element of that funding to deliver a new cancer treatments fund here in Wales?

Diolch i chi, Lywydd. Brif Weinidog, rydym yn cael datganiad yr hydref yfory, ac, yn ôl pob sôn, o adroddiadau sy'n cael eu rhannu yn y cyfryngau ar hyn o bryd, bydd cyllid canlyniadol sylweddol yn dod i Lywodraeth Cymru. Yr hyn y byddwn yn ei ofyn i'r Prif Weinidog yw: os yw'r adroddiadau hynny'n wir, ac y caiff ei gadarnhau yn y datganiad yfory, a wnewch chi ddefnyddio elfen o'r cyllid hwnnw i gyflwyno cronfa triniaethau canser newydd yma yng Nghymru?

13:42 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

I do not know whether he means a cancer drugs fund or a cancer treatments fund; the two are different, of course. However, we already spend far more per head on cancer treatment in Wales than England does. We already do better in terms of waiting times for cancer treatment here in Wales. We do not know yet what the consequential will be. Normally, when we are told that this is money that comes from departmental underspends, there is no consequential. So, it is not clear at the moment what the consequential will be, whether there will be a consequential, or whether there will be a consequential for health, but parts of it will be recouped by consequentials going down in other areas. We do not know yet, but, when we get that information—I have seen it tweeted and I have seen it in the papers, but we have not had it officially from the UK Government yet—and when we have that money, we will, of course, consider the best way of using it. All Members will be aware, of course, that there continue to be pressures, as there are across the whole of the UK, when it comes to health, and, no doubt, we will consider how that money is best used to the benefit of the people of Wales.

Nid wyf yn gwybod a yw'n golygu cronfa cyffuriau canser neu gronfa triniaethau canser; mae'r ddau beth yn wahanol, wrth gwrs. Fodd bynnag, rydym ni eisoes yn gwario llawer mwy y pen ar driniaeth canser yng Nghymru nag y mae Lloegr yn ei wneud. Rydym eisoes yn gwneud yn well o ran amseroedd aros am driniaeth canser yma yng Nghymru. Nid ydym yn gwybod eto beth fydd y cyllid canlyniadol. Fel arfer, pan ddywedir wrthym bod hwn yn arian sy'n dod o danwariant adrannol, nid oes unrhyw gyllid canlyniadol. Felly, nid yw'n eglur ar hyn o bryd beth fydd y cyllid canlyniadol, pa un a fydd cyllid canlyniadol, neu a fydd cyllid canlyniadol ar gyfer iechyd, ond bydd rhannau ohono'n cael eu hadennill trwy gyllid canlyniadol yn gostwng mewn meysydd eraill. Nid ydym yn gwybod eto, ond, pan gawn ni'r wybodaeth honno—rwyf wedi ei gweld yn cael ei thrydar ac rwyf wedi ei gweld yn y papurau newydd, ond nid ydym wedi ei chlywed yn swyddogol gan Lywodraeth y DU hyd yn hyn—a phan fydd yr arian hwnnw gennym, byddwn, wrth gwrs, yn ystyried y ffordd orau o'i ddefnyddio. Bydd yr holl Aelodau'n ymwybodol, wrth gwrs, bod pwysau o hyd, fel y mae ledled y DU, pan ddaw i iechyd, ac, heb os, byddwn yn ystyried y ffordd orau o ddefnyddio'r arian hwnnw er budd pobl Cymru.

13:43 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I worded the question very carefully, First Minister, because, invariably, after autumn statements, there are some form of consequentials. The reporting seems to indicate a figure of between £70 million to £80 million. I appreciate that none of us are aware of the exact figure, because the statement will be delivered tomorrow. However, last week, Byron Davies, my colleague, highlighted the case of Elizabeth Richards, for example; I could highlight any number of constituents the length and breadth of Wales—indeed, in your own local papers—who come forward time and time again and are unable, regrettably, to access the new treatments that are available for cancer patients. In particular, some of those patients are actually selling up and moving to the other side of Offa's Dyke. That is a fact and that cannot be denied.

Geiriais y cwestiwn yn ofalus iawn, Brif Weinidog, oherwydd, yn ddieithriad, ar ôl datganiadau'r hydref, ceir rhyw fath o gyllid canlyniadol. Mae'n ymddangos bod yr adroddiadau'n nodi ffigur rhwng £70 miliwn ac £80 miliwn. Rwy'n sylweddoli nad oes yr un ohonom yn ymwybodol o'r union ffigur, gan y bydd y datganiad yn cael ei gyflwyno yfory. Fodd bynnag, yr wythnos diwethaf, amlygodd Byron Davies, fy nghyd-Aelod, achos Elizabeth Richards, er enghraifft; gallwn dynnu sylw at unrhyw nifer o etholwyr ar hyd a lled Cymru—yn wir, yn eich papurau lleol eich hun—sy'n dod ymlaen dro ar ôl tro ac yn methu, yn anffodus, â chael mynediad at y triniaethau newydd sydd ar gael i gleifion canser. Yn arbennig, mae rhai o'r cleifion hynny yn gwerthu eu tai ac yn symud i ochr arall Clawdd Offa. Mae honno'n ffaith ac ni ellir gwadu hynny.

In the case of Elizabeth Richards, her family has spent £25,000 on Avastin, because, obviously, she has been declined that on the Welsh NHS. Only last Tuesday, her third application for exceptionality was declined again. Why is Elizabeth Richards wrong and you are right to deny her, and many hundreds of other patients across Wales, the ability to access these treatments?

Yn achos Elizabeth Richards, mae ei theulu wedi gwario £25,000 ar Avastin, oherwydd, yn amlwg, gwrthodwyd hwnnw iddi ar y GIG yng Nghymru. Dim ond ddydd Mawrth diwethaf, gwrthodwyd ei thrydydd cais am eithriad eto. Pam mae Elizabeth Richards yn anghywir a chithau'n iawn i'w hatal hi, a channoedd lawer o gleifion eraill ledled Cymru, rhag cael gafael ar y triniaethau hyn?

13:44 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

These issues are always difficult. It is always difficult when individuals who are in a difficult position with cancer are affected. I think that it is worth saying that. However, we have to understand that drugs like Avastin are not automatically available in England; they still have to be applied for. The UK Government now plans to introduce an element of cost-efficiency into the cancer drugs fund. If that happens, it is no different from the National Institute for Health and Care Excellence process. One of the drugs that has been mentioned specifically is Avastin, and the fact that it would then be removed as a drug that would be available for metastatic breast cancer. There is no point having a cancer drugs fund in those circumstances, and so the situation in England will decline inevitably as a result of it.

Mae'r materion hyn bob amser yn anodd. Mae bob amser yn anodd pan fydd unigolion sydd mewn sefyllfa anodd gyda chanser yn cael eu heffeithio. Rwy'n credu ei bod yn werth dweud hynny. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni ddeall nad yw cyffuriau fel Avastin ar gael yn awtomatig yn Lloegr; mae'n rhaid gwneud cais amdanynt o hyd. Mae Llywodraeth y DU bellach yn bwriadu cyflwyno elfen o gost-effeithlonrwydd i'r gronfa cyffuriau canser. Os bydd hynny'n digwydd, nid yw ddim gwahanol i broses y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. Un o'r cyffuriau sydd wedi cael ei grybwyll yn benodol yw Avastin, a'r ffaith y byddai'n cael ei ddiddymu wedyn fel cyffur a fyddai ar gael ar gyfer canser metastatig y fron. Nid oes diben cael cronfa cyffuriau canser dan yr amgylchiadau hynny, ac felly mae'n anochel y bydd y sefyllfa yn Lloegr yn dirywio o ganlyniad i hynny.

I come back to this point: cancer drugs are rolled out more quickly in Wales once they are approved by NICE, and we have a system of doing that. It is also the case that cancer treatment is available more quickly in Wales and that we spend more on cancer treatment in Wales. I think that those things are certainly worth emphasising. We take the view that it is important to spend money particularly on treatments that work. One of the difficulties with the cancer drugs fund is that it has sent the price of cancer drugs upwards. What normally happens in the NICE process is that drugs are examined and, if they are deemed not to be cost-effective, quite often the drug company will come back in with a lower price. They do not have to do that now with cancer drugs and so the price goes up for everybody. Now, I know that it is difficult for individuals. Without going into their personal circumstances, I am not in a position to judge—I am not a medic—whether somebody should have a particular drug or not. However, it is certainly not the case that somehow people in Wales are disadvantaged when it comes to cancer treatment overall compared with people in England.

Dychwelaf at y pwynt hwn: mae cyffuriau canser yn cael eu cyflwyno'n gynt yng Nghymru ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo gan NICE, ac mae gennym system o wneud hynny. Mae hefyd yn wir fod triniaeth canser ar gael yn gyflymach yng Nghymru a'n bod yn gwario mwy ar driniaeth canser yng Nghymru. Rwy'n credu bod y pethau hynny'n sicr yn werth eu pwysleisio. Rydym o'r farn ei bod yn bwysig gwario arian yn benodol ar driniaethau sy'n gweithio. Un o'r anawsterau gyda'r gronfa cyffuriau canser yw ei bod wedi cynyddu pris cyffuriau canser. Yr hyn sy'n digwydd fel rheol ym mhroses NICE yw bod cyffuriau'n cael eu harchwilio, ac os ystyrir nad ydynt yn gost-effeithiol, bydd y cwmni cyffuriau yn dod yn ôl gyda phris is yn eithaf aml. Nid oes rhaid iddynt wneud hynny nawr gyda chyffuriau canser ac felly mae'r pris yn cynyddu i bawb. Nawr, rwy'n gwybod ei bod yn anodd i unigolion. Heb drafod eu hamgylchiadau personol, nid wyf mewn sefyllfa i farnu—nid wyf yn feddyg—pa un a ddylai rhywun gael cyffur penodol ai peidio. Fodd bynnag, mae'n sicr nad yw'n wir fod pobl yng Nghymru dan anfantais rywsut pan ddaw i driniaeth canser yn gyffredinol, o'u cymharu â phobl yn Lloegr.

13:46 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, I would disagree with you on that point. Obviously, more than 55,000 people have benefited from the cancer drugs fund in England. I can appreciate the well-argued points that you have just put to me. There is no easy solution to this. That is why we have tried to approach it in a constructive way. However, time and again in our postbags—and Nick Ramsay only two or three weeks ago received a petition here in the Assembly with 100,000 signatories calling for the Welsh Government to set up a cancer treatments fund here in Wales. There is the ability, if this consequential comes through to you tomorrow, for the Government to consider the establishment of such a fund. Am I right to deduce from the answers you have given me here today that that clearly is off the table in respect of the Welsh Government and that you will not be using any of that additional money, if it were to become available to you, to provide such funding within the Welsh NHS for cancer patients?

Brif Weinidog, byddwn yn anghytuno â chi ar y pwynt hwnnw. Yn amlwg, mae mwy na 55,000 o bobl wedi elwa ar y gronfa cyffuriau canser yn Lloegr. Gallaf werthfawrogi'r pwyntiau wedi'u dadlau'n dda yr ydych chi newydd eu gwneud i mi. Nid oes unrhyw ateb hawdd i hyn. Dyna pam rydym ni wedi ceisio mynd i'r afael â'r mater mewn ffordd adeiladol. Fodd bynnag, dro ar ôl tro yn ein bagiau post—a derbyniodd Nick Ramsay ddeiseb yma yn y Cynulliad yn cynnwys 100,000 o lofnodwyr dim ond dwy neu dair wythnos yn ôl, yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu cronfa triniaethau canser yma yng Nghymru. Gallai'r Llywodraeth, os byddwch yn derbyn y cyllid canlyniadol hwn yfory, ystyried sefydlu cronfa o'r fath. Ydw i'n iawn i ddiddwytho o'r atebion yr ydych chi wedi eu rhoi i mi yma heddiw ei bod yn eglur na fydd hynny'n cael ei gynnig o ran Llywodraeth Cymru ac na fyddwch chi'n defnyddio dim o'r arian ychwanegol hwnnw, pe byddai ar gael i chi, i ddarparu cyllid o'r fath o fewn y GIG yng Nghymru ar gyfer cleifion canser?

13:47 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, no. First of all, we do not know whether there will be a consequential. Secondly, we do not know what that consequential might be if there is a consequential. Thirdly, we have not taken a decision yet as to how that money would be used. We will use the money for the benefit of the people of Wales in the most effective way possible, and we will consider how to do that when and if we know there is a consequential.

Wel, nac ydy. Yn gyntaf oll, nid ydym yn gwybod pa un a fydd cyllid canlyniadol. Yn ail, nid ydym yn gwybod beth allai'r cyllid canlyniadol hwnnw fod os bydd cyllid canlyniadol. Yn drydydd, nid ydym wedi gwneud penderfyniad eto o ran sut y byddai'r arian hwnnw'n cael ei ddefnyddio. Byddwn yn defnyddio'r arian er lles pobl Cymru yn y ffordd fwyaf effeithiol posibl, a byddwn yn ystyried sut i wneud hynny pan ac os ydym ni'n gwybod bod cyllid canlyniadol.

Senedd.tv Fideo Video

13:47 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

Symudwn nawr at arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

Senedd.tv Fideo Video

13:47 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Thank you, Presiding Officer. First Minister, the elderly and vulnerable citizens of Powys have endured months of turmoil since the council outsourced its domiciliary care services. After many months of reassurances from the council that things were getting better, it is simply not the case. Only last week, I was contacted by the daughter of a 98-year-old lady who had been left at home two mornings running when her carers did not arrive to assist her. I have received a whistleblowing e-mail from an ex-employee of one of these companies that talked about significant failings in care standards, and two of the subcontractors have handed back their clients to the main contractor because they have not had their bills paid. I have, of course, reported all of this to the Care and Social Services Inspectorate Wales but will you investigate the situation regarding domiciliary care for the elderly and vulnerable in Powys?

Diolch i chi, Lywydd. Brif Weinidog, mae dinasyddion oedrannus ac agored i niwed Powys wedi dioddef misoedd o helbul ers i'r cyngor drefnu ei wasanaethau gofal cartref ar gontract allanol. Ar ôl misoedd lawer o sicrwydd gan y cyngor bod pethau'n gwella, nid yw hynny'n wir. Dim ond yr wythnos diwethaf, cysylltodd merch i wraig 98 mlwydd oed â mi, ac roedd ei mam wedi cael ei gadael gartref ddau fore ar ôl ei gilydd pan na ddaeth ei gofalwyr i'w cynorthwyo. Rwyf wedi derbyn e-bost yn chwythu'r chwiban gan gyn-weithiwr cyflogedig un o'r cwmnïau hyn yn sôn am fethiannau sylweddol o ran safonau gofal, ac mae dau o'r isgontractwyr wedi trosglwyddo eu cleientiaid yn ôl i'r prif gontractwr gan nad oedd eu biliau wedi eu talu. Rwyf, wrth gwrs, wedi hysbysu Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru am hyn i gyd, ond a wnewch chi ymchwilio i'r sefyllfa o ran gofal cartref i'r henoed a'r rhai sy'n agored i niwed ym Mhowys?

Senedd.tv Fideo Video

13:48 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The Member will appreciate, of course, that these are matters entirely for Powys County Council. She has reported the matter. I would advise her to do that; she has done it anyway. I will write, of course, to her to respond to the concerns she has raised, even though of course primarily they are matters for the county council.

Bydd yr Aelod yn gwerthfawrogi, wrth gwrs, mai materion i Gyngor Sir Powys yw'r rhain yn gyfan gwbl. Mae hi wedi adrodd am y mater. Byddwn yn ei chynghori i wneud hynny; mae hi wedi gwneud hynny beth bynnag. Byddaf yn ysgrifennu, wrth gwrs, ati i ymateb i'r pryderon a godwyd ganddi, er mai, wrth gwrs, materion i'r cyngor sir ydynt yn bennaf.

Senedd.tv Fideo Video

13:48 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Of course, Powys County Council has responsibility for ensuring that the elderly and vulnerable are looked after. I would bring this to your attention only if I was not convinced that there was capacity within the organisation to deal appropriately with these problems. The issue is not just affecting those in receipt of care packages. The situation has got so bad that I am now being contacted by GPs and consultants raising concerns that their patients cannot get domiciliary care packages because there is no capacity in the system for that to be provided. I would urge you to do more than just write, First Minister, but satisfy yourself that the elderly and vulnerable in Powys will be safeguarded over this winter.

Wrth gwrs, mae gan Gyngor Sir Powys gyfrifoldeb i sicrhau bod yr henoed a'r rhai sy'n agored i niwed yn derbyn gofal. Byddwn yn tynnu eich sylw at hyn dim ond pe na byddwn wedi fy argyhoeddi bod gallu o fewn y sefydliad i ymdrin yn briodol â'r problemau hyn. Nid ar y rhai sy'n derbyn pecynnau gofal yn unig y mae'r mater hwn yn effeithio. Mae'r sefyllfa mor wael erbyn hyn fel bod meddygon teulu ac ymgynghorwyr yn cysylltu â mi yn codi pryderon na all eu cleifion gael pecynnau gofal cartref oherwydd nad oes gallu yn y system i hwnnw gael ei ddarparu. Byddwn yn eich annog i wneud mwy na dim ond ysgrifennu, Brif Weinidog, ond i fodloni eich hun y bydd yr henoed a'r rhai sy'n agored i niwed ym Mhowys yn cael eu diogelu yn ystod y gaeaf hwn.

Senedd.tv Fideo Video

13:49 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, first of all, of course, we have to investigate the situation in Powys. Secondly, the Member has referred to a situation where there is an element of push-back into the NHS, which clearly is, at least indirectly, a matter for the Welsh Government. When I say that I will write to her, what I want to do first of all is see what the situation is on the ground and what the effect is, particularly with primary care services. Then, of course, I will write back to her, comprehensively.

Wel, yn gyntaf oll, wrth gwrs, mae'n rhaid i ni ymchwilio i'r sefyllfa ym Mhowys. Yn ail, mae'r Aelod wedi cyfeirio at sefyllfa lle mae elfen o wthio yn ôl i mewn i'r GIG, sy'n amlwg, yn anuniongyrchol o leiaf, yn fater i Lywodraeth Cymru. Pan rwy'n dweud y byddaf yn ysgrifennu ati, yr hyn yr wyf i eisiau ei wneud yn gyntaf oll yw gweld beth yw'r sefyllfa ar lawr gwlad a beth yw'r effaith, yn enwedig o ran gwasanaethau gofal sylfaenol. Yna, wrth gwrs, byddaf yn ysgrifennu yn ôl ati'n gynhwysfawr.

Senedd.tv Fideo Video

13:50 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Thank you, First Minister, for that. Issues of domiciliary care, I know, are not just a matter of concern for those of us who represent Powys. Talking to other colleagues, I know that there are problems in other parts of the country. We know that one of the major issues facing the NHS in Wales this winter is the number of emergency admissions and unscheduled care. One way to tackle that is to ensure that we have sustainable, robust and quality domiciliary care services in our communities. What is your Government doing, as we go into the winter months, to ensure that those services are available the length and breadth of Wales?

Diolch i chi, Brif Weinidog, am hynna. Gwn nad yw'r materion yn ymwneud â gofal cartref yn fater o bryder i'r rhai ohonom sy'n cynrychioli Powys yn unig. O siarad â chydweithwyr eraill, rwy'n gwybod bod problemau mewn rhannau eraill o'r wlad. Rydym yn gwybod mai un o'r prif faterion sy'n wynebu'r GIG yng Nghymru y gaeaf hwn yw nifer y derbyniadau brys a'r gofal heb ei drefnu. Un ffordd o fynd i'r afael â hynny yw sicrhau bod gennym wasanaethau gofal cartref cynaliadwy, cadarn ac o ansawdd yn ein cymunedau. Beth mae eich Llywodraeth yn ei wneud, wrth i ni fynd i mewn i fisoedd y gaeaf, i sicrhau bod y gwasanaethau hynny ar gael ar hyd a lled Cymru?

Senedd.tv Fideo Video

13:50 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

First, plans for the winter are put in place on a regular basis by the local health boards. Secondly, it is a matter for local authorities as the providers of social care to ensure that that care is at a satisfactory level, and of course, it is for the inspectorate to satisfy itself that that is the case. Where issues are flagged up and the inspectorate finds failings, then of course, we would expect local authorities to take remedial action, and we, as a Government, would seek to ensure that that happens.

Yn gyntaf, rhoddir cynlluniau ar gyfer y gaeaf ar waith yn rheolaidd gan y byrddau iechyd lleol. Yn ail, mater i awdurdodau lleol fel y darparwyr o ofal cymdeithasol yw sicrhau bod y gofal hwnnw ar lefel foddhaol, ac wrth gwrs, cyfrifoldeb yr arolygiaeth yw bodloni ei hun bod hynny'n wir. Pan gaiff materion eu nodi ac y bydd yr arolygiaeth yn canfod methiannau, yna, wrth gwrs, byddem yn disgwyl i awdurdodau lleol gymryd camau adferol, a byddem ni, fel Llywodraeth, yn ceisio sicrhau bod hynny'n digwydd.

Senedd.tv Fideo Video

13:51 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now go back to questions on the paper. I call David Rees.

Dychwelwn yn awr at y cwestiynau ar y papur. Galwaf ar David Rees.

Senedd.tv Fideo Video

### Mewnfuddsoddi

### Inward Investment

13:51 **David Rees** Bywgraffiad Biography

*3. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am fewnfuddsoddi yng Nghymru? OAQ(4)2003(FM)*

*3. Will the First Minister make a statement on inward investment in Wales? OAQ(4)2003(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

13:51 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes. With 1,100 foreign-owned companies in Wales employing over 150,000 people, I am committed to ensuring that foreign companies continue to view Wales as an excellent place in which to invest.

Gwnaf. Gan fod 1,100 o gwmnïau sy'n eiddo tramor yng Nghymru yn cyflogi dros 150,000 o bobl, rwyf wedi ymrwymo i sicrhau bod cwmnïau tramor yn parhau i ystyried Cymru fel lle gwych i fuddsoddi ynddo.

Senedd.tv Fideo Video

13:51 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you for that answer, First Minister. I agree with you that it is important that we get the continuation of jobs—and not just new jobs, but a continuation of jobs—here in Wales. To that extent, on your recent visit to India, did you meet with senior executives from Tata Steel to look at what their investment prospects are for steel projects in Wales, particularly in the Port Talbot plant? I would like to be able to give reassurances and some positive messages back to my constituents over the future of that plant.

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Rwy’n cytuno â chi ei bod yn bwysig ein bod yn cael parhad o ran swyddi—ac nid swyddi newydd yn unig, ond parhad o ran swyddi—yma yng Nghymru. O’r safbwynt hwnnw, yn ystod eich ymweliad diweddar ag India, a wnaethoch chi gwrdd ag uwch swyddogion gweithredol o Tata Steel i edrych ar beth yw eu rhagolygon buddsoddi ar gyfer prosiectau dur yng Nghymru, yn enwedig yn ffatri Port Talbot? Hoffwn allu rhoi sicrwydd a rhai negeseuon cadarnhaol yn ôl i’m hetholwyr ynghylch dyfodol y ffatri honno.

13:51 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Yes. I did meet with Tata Steel representatives. What impressed me was their commitment to Wales and to Port Talbot. We are fortunate in that Tata sees itself as a company that needs to invest in order to become more profitable, rather than to cut back, and that is to our advantage. They have said to me that they want to continue to invest in Wales. There are two matters of concern: the first is the difficulty, still, with the price of steel, which is something that we are obviously aware of, and secondly, energy costs in the UK. Again, they are saying to me that it is difficult. They are very happy with the support that they get from Government and with the workforce in Port Talbot and their other plants in Wales, but they continue to wrestle with the fact that energy costs are so high. They are looking now at putting investment in to look at alternative power sources, but unfortunately, it is an issue that comes up on a regular basis in discussions with me and with the Minister.

Do. Fe wnes i gwrdd â chynrychiolwyr Tata Steel. Yr hyn a wnaeth argraff arnaf i oedd eu hymrwymiad i Gymru ac i Bort Talbot. Rydym yn ffodus bod Tata yn ystyried ei hun yn gwmni sydd angen buddsoddi er mwyn bod yn fwy proffidiol, yn hytrach na gwneud toriadau, ac mae hynny o fantais i ni. Maen nhw wedi dweud wrthyf eu bod eisiau parhau i fuddsoddi yng Nghymru. Ceir dau fater sy'n peri pryder: y cyntaf yw'r anhawster, o hyd, gyda phris dur, sy'n rhywbeth yr ydym ni’n amlwg yn ymwybodol ohono, ac yn ail, costau ynni yn y DU. Unwaith eto, maen nhw’n dweud wrthyf ei bod yn anodd. Maen nhw’n hapus iawn gyda'r gefnogaeth maen nhw’n ei chael gan y Llywodraeth a chyda'r gweithlu ym Mhort Talbot a’u ffatrïoedd eraill yng Nghymru, ond maen nhw’n parhau i frwydro â'r ffaith bod costau ynni mor uchel. Eu nod nawr yw buddsoddi i ystyried ffynonellau ynni amgen, ond yn anffodus, mae hwn yn fater sy'n codi’n rheolaidd mewn trafodaethau gyda mi ac â'r Gweinidog.

13:52 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, in respect of inward investment, there has been some good news of late after the disastrous decline in inward investment over many years here in Wales. Under the old Welsh Development Agency, we used to attract 15% of inward investment into the United Kingdom; I think we are on about 4.5% or 5% now. What potential do you think that Wales has between those two figures of attracting a greater amount of inward investment, or do you see 4.5% or 5% as being the new norm for attracting inward investment into Wales?

Brif Weinidog, o ran mewnfuddsoddi, cafwyd rhywfaint o newyddion da’n ddiweddar ar ôl y gostyngiad trychinebus i fewnfuddsoddiad dros flynyddoedd lawer yma yng Nghymru. Dan yr hen Awdurdod Datblygu Cymru, roeddem ni’n arfer denu 15% o’r mewnfuddsoddiad i'r Deyrnas Unedig; rwy'n credu ein bod ni ar tua 4.5% neu 5% erbyn hyn. Pa botensial ydych chi’n credu sydd gan Gymru rhwng y ddau ffigur hyn o ddenu mwy o fewnfuddsoddiad, neu a ydych chi o’r farn mai 4.5% neu 5% yw’r norm newydd ar gyfer denu mewnfuddsoddiad i Gymru?

13:53 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

First, the figure that he refers to was an exceptional figure in the early 1990s. After that, it declined. The WDA declined, almost year on year, going into the last decade. There were reasons for that. First, the competition is much hotter. In the early 1990s, the iron curtain had just come down, we did not see the competition from the far east, for example, that we do now, and we did not get the high levels of investment—LG was probably the last one—for many, many years. Also, we have to remember that a lot of the investment that came in in the late 1980s and early 1990s came into Wales because wage rates were lower than anywhere else. They left and went elsewhere when they could. The levels that we are getting now are increasing and they are the best levels that we have had for 30 years. Importantly, I believe that the investment is sustainable.

Yn gyntaf, roedd y ffigur y mae'n cyfeirio ato'n ffigur eithriadol yn y 1990au cynnar. Gostyngodd ar ôl hynny. Dirywiodd y WDA, flwyddyn ar ôl blwyddyn bron, wrth fynd i mewn i'r degawd diwethaf. Roedd rhesymau am hynny. Yn gyntaf, ceir llawer mwy o gystadleuaeth. Ddechrau'r 1990au, roedd y llen haearn newydd ddod i lawr, ac nid oeddem yn gweld y gystadleuaeth o'r dwyrain pell, er enghraifft, yr ydym ni'n ei gweld heddiw, ac ni chawsom y lefelau uchel o fuddsoddiad—LG oedd yr olaf, mae'n debyg—am flynyddoedd lawer. Hefyd, mae'n rhaid i ni gofio y daeth llawer o'r buddsoddiad a ddaeth ar ddiwedd y 1980au a dechrau'r 1990au i Gymru gan fod cyflogau'n is nag yn unman arall. Fe wnaethant adael a mynd i fannau eraill pan y gallent. Mae'r lefelau yr ydym ni'n eu gweld nawr yn cynyddu a dyma'r lefelau gorau yr ydym ni wedi eu cael ers 30 mlynedd. Yn bwysig, rwy'n credu bod y buddsoddiad yn gynaliadwy.

We are now getting investors who come into Wales, not on the basis that we are cheaper than anywhere else, but on the basis that we have the skills, that we have the environment in which they can prosper, and that they can get Government support in a way that was not the case before. So, I am confident that we will see investment continue to increase in Wales. We have seen some very good announcements in the course of the last month, and there will be more to come.

Erbyn hyn, rydym ni'n cael buddsoddwyr sy'n dod i mewn i Gymru, nid ar y sail ein bod ni'n rhatach nag unman arall, ond ar y sail bod y sgiliau gennym, bod yr amgylchedd gennym lle gallant ffynnu, ac y gallant gael cefnogaeth gan y Llywodraeth mewn ffordd nad oedd yn wir o'r blaen. Felly, rwy'n hyderus y byddwn yn gweld buddsoddiad yn parhau i gynyddu yng Nghymru. Rydym ni wedi gweld rhai cyhoeddiadau da iawn yn ystod y mis diwethaf, a bydd mwy i ddod.

13:54 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Tomorrow, we will debate the Enterprise and Business Committee's report on inward investment, and one of the recommendations in that is that the Welsh Government should publish key performance indicators for trade missions with targets for the number of businesses and the number of orders that are received as a direct result. How do you feel your Government can justify trade missions to a sceptical public if you do not publish rigorous data to demonstrate the value of them?

Yfory, byddwn yn trafod adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar fewnfuddsoddi, ac un o argymhellion hwnnw yw y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer teithiau masnach gyda thargedau ar gyfer nifer y busnesau a nifer yr archebion a dderbynnir o ganlyniad uniongyrchol. Sut ydych chi'n teimlo y gall eich Llywodraeth gyfiawnhau teithiau masnach i gyhoedd amheus os nad ydych chi'n cyhoeddi data cadarn i ddangos eu gwerth?

13:54 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

You think that we should not have trade missions. The implication of her comment is that we should not have trade missions. The difficulty is this: you take a trade mission to a country, but you do not get orders immediately. Quite often, businesses will use that as an opportunity to make connections, and then they will get orders subsequently down the line. That has been my experience from trade missions, and that is the case. You do not go somewhere and then suddenly get contracts. Quite often, it is a way of opening doors so businesses get contracts down the line. In terms of how you measure that, well, look at the inward investment figures for the past 30 years. It would be—and I use this word diplomatically—'unwise' to suggest that, somehow, we should not have trade missions, while every other country in the word does.

Rydych chi'n credu na ddylem ni gael teithiau masnach. Goblygiad ei sylwadau yw na ddylem ni gael teithiau masnach. Yr anhawster yw hyn: rydych chi'n mynd ar daith fasnach i wlad, ond nid ydych chi'n cael archebion ar unwaith. Yn aml iawn, bydd busnesau'n defnyddio hynny fel cyfle i wneud cysylltiadau, ac yna byddant yn cael archebion wedyn yn ddiweddarach. Dyna fu fy mhrofiad i o deithiau masnach, a dyna'r gwir amdani. Nid ydych chi'n mynd i rywle ac yn ennill contractau'n sydyn. Yn aml iawn, mae'n ffordd o agor drysau fel bod busnesau'n ennill contractau'n ddiweddarach. O ran sut yr ydych chi'n mesur hynny, wel, edrychwch ar y ffigurau mewnfuddsoddi ar gyfer y 30 mlynedd diwethaf. Byddai'n—ac rwy'n defnyddio'r gair hwn yn ddiplomataidd—'ffôl' awgrymu, rywsut, na ddylem ni gael teithiau masnach, tra bod pob gwlad arall yn y byd yn gwneud hynny.

13:55 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Would you agree with me, First Minister, that, following the recent investment summit in Newport, Newport is ideally placed for inward investment with its transport and communication links, particularly as part of the Cardiff city capital region, but also as part of the wider region, including Bristol?

A fyddech chi'n cytuno â mi, Brif Weinidog, yn dilyn yr uwchgynhadledd buddsoddiad ddiweddar yng Nghasnewydd, bod Casnewydd mewn sefyllfa ddelfrydol ar gyfer mewnfuddsoddi gyda'i chysylltiadau trafnidiaeth a chysylltiadau, yn enwedig fel rhan o ddinas-ranbarth Caerdydd, ond hefyd fel rhan o'r rhanbarth ehangach, gan gynnwys Bryste?

Senedd.tv Fideo Video

13:55 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Can I say that I admire the bravery of the Member in describing Newport as part of the Cardiff city capital region? However, I understand his point. I think that Newport is well placed to attract investment. It has done already. We saw, of course, as with SPTS Technologies in the last week, the important investment into the city. Newport has been in the eyes of the world with the NATO summit and now with the investment summit.

A gaf i ddweud fy mod yn edmygu dewrder yr Aelod wrth ddisgrifio Casnewydd fel rhan o ddinas-ranbarth Caerdydd? Fodd bynnag, rwy'n deall ei bwynt. Rwy'n credu bod Casnewydd mewn sefyllfa dda i ddenu buddsoddiad. Mae wedi gwneud hynny'n barod. Gwelsom, wrth gwrs, fel gyda SPTS Technologies yn ystod yr wythnos ddiwethaf, y buddsoddiad pwysig i mewn i'r ddinas. Mae Casnewydd wedi bod yng ngolwg y byd gydag uwchgynhadledd NATO a chyda'r uwchgynhadledd fuddsoddi nawr.

Senedd.tv Fideo Video

## Buddsoddi mewn Rheilffyrdd (Gogledd Cymru)

## Rail Investment (North Wales)

13:56 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

*4. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i sicrhau buddsoddiad mewn rheilffyrdd yng ngogledd Cymru? OAQ(4)1989(FM)*

*4. What action is the Welsh Government taking to secure rail investment in north Wales? OAQ(4)1989(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

13:56 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We recognise the importance of rail investment in the north, of course. The north Wales transport taskforce will be providing recommendations for further improvements.

Rydym ni'n cydnabod pwysigrwydd buddsoddi mewn rheilffyrdd yn y gogledd, wrth gwrs. Bydd tasglu trafnidiaeth gogledd Cymru yn gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau pellach.

Senedd.tv Fideo Video

13:56 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Thank you for that answer, First Minister. You will know how welcome it was that the electrification of the south Wales line is to be funded by the UK Government, but, of course, north Wales also is in need of investment and, certainly, electrification is one of those things on the wish list for North Wales Assembly Members. You will be aware that the UK Department for Transport has established a taskforce on electrification in the north-west of England. I wonder what work the Welsh Government's taskforce might be able to undertake with that jointly in order to strengthen any business case for investment from the UK Government and elsewhere.

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Byddwch yn gwybod faint o groeso oedd i'r newyddion y bydd y gwaith o drydaneiddio rheilffordd de Cymru yn cael ei ariannu gan Lywodraeth y DU, ond, wrth gwrs, mae gogledd Cymru angen buddsoddiad hefyd ac, yn sicr, mae trydaneiddio'n un o'r pethau hynny sydd ar restr dymuniadau Aelodau Cynulliad Gogledd Cymru. Byddwch yn ymwybodol bod Adran Drafnidiaeth y DU wedi sefydlu tasglu ar drydaneiddio yng ngogledd-orllewin Lloegr. Tybed pa waith allai tasglu Llywodraeth Cymru ei wneud ar y cyd â hwnnw er mwyn cryfhau unrhyw achos busnes dros fuddsoddiad gan Lywodraeth y DU a lleoedd eraill.

Senedd.tv Fideo Video

13:57 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I would fully support the Member in his view that the main line should be electrified. It is not a matter for the Welsh Government; nevertheless, I think we are on the same page in that regard. We ourselves have put the investment into the partial redoubling between Wrexham and Saltney junction to make sure that the services there become more frequent. We welcome the fact that the UK Government is looking to improve the Halton curve, which will enable services to run through to Liverpool from Wrexham. Where there are opportunities to work together, we will, of course, do so for the benefit of people in the north-west of England and the north of Wales.

Byddwn yn cefnogi'r Aelod yn llawn o ran ei safbwynt y dylid trydaneiddio'r brif reilffordd. Nid yw hynny'n fater i Lywodraeth Cymru; serch hynny, rwy'n meddwl ein bod ar yr un dudalen yn hynny o beth. Rydym ni ein hunain wedi buddsoddi yn yr ailddyblu rhannol rhwng Wrecsam a chyffordd Saltney i wneud yn siŵr bod gwasanaethau amlach yno. Rydym ni'n croesawu'r ffaith bod Llywodraeth y DU yn ceisio gwella troad Halton, a fydd yn galluogi gwasanaethau i redeg drwodd i Lerpwl o Wrecsam. Lle ceir cyfleoedd i gydweithio, byddwn, wrth gwrs, yn gwneud hynny er lles pobl yng ngogledd-orllewin Lloegr a gogledd Cymru.

13:57 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Un o'r bygythiadau, wrth gwrs, i seilwaith y rheilffordd presennol yn y gogledd yw erydiad o'r môr a llifogydd arfordirol. Mae Gweinidogion eich Llywodraeth chi yn y gorffennol wedi dweud y byddent yn awyddus i drafod gyda'r sector preifat yn ehangach—cwmnïau yswiriant ac yn y blaen—am y posibiliadau o ddenu buddsoddiad i fynd i'r afael â rhai o'r problemau hynny. A allwch chi roi diweddariad inni, o bosibl yn ysgrifenedig, ynglŷn ag unrhyw drafodaethau sydd wedi digwydd?

One of the threats, of course, to the current rail infrastructure in north Wales is erosion from the sea and coastal flooding. Ministers of your Government have in the past stated that they would be eager to discuss with the private sector more broadly—insurance companies and so on—the possibilities of attracting investment to tackle some of those problems. Can you give us an update, possibly in written form, about any negotiations that have taken place?

13:58 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Wrth gwrs. Rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog yn ysgrifennu atoch. Rydym i gyd yn deall pa mor bwysig ydyw, wrth gofio am newid yn yr hinsawdd, ein bod yn gallu atal—nid yw bob amser yn bosibl atal llifogydd—neu leihau effeithiau llifogydd yn y pen draw. Rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog yn ysgrifennu atoch gyda mwy o fanylion.

Of course. I am sure that the Minister will write to you. We all understand how important it is, in view of climate change, that we can prevent—it is not always possible to prevent flooding—or reduce the impact of flooding at the end of the day. I am sure that the Minister will write to you with more details.

13:58 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, mae tasglu'r Gweinidog, rwy'n gobeithio, yn mynd i adrodd yn fuan iawn. Mae'r adroddiad, sydd wedi cael ei gomisiynu gan chwe awdurdod y gogledd, yn dweud y bydd tua £1.5 biliwn o fudd i economi'r gogledd os bydd llinell y gogledd yn cael ei deuoli. A gaf i ofyn i chi, felly, a oes angen cael strwythurau mwy ffurfiol rhwng gogledd Cymru a'r gogledd-orllewin? Mae penderfyniadau yn cael eu cymryd yn y gogledd-orllewin sy'n dylanwadu ar faterion y mae angen inni fod yn ymwybodol ohonynt yn y gogledd.

First Minister, the ministerial taskforce, I hope, will report very soon. The report, which has been commissioned by six north Wales authorities, states that there would be some £1.5 billion of benefit to the economy of north Wales if the northern line were doubled. Can I ask you, therefore, whether there is a need for more formal structures between north Wales and the north-west of England? Decisions are being taken in the north-west of England that have a bearing on issues that we need to be aware of in north Wales.

13:59 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Wrth gwrs, fel y dywedais yn gynharach, rydym wastad yn awyddus i weithio gyda Llywodraethau ar ochr draw i'r ffin. Rydym wedi gwneud hynny'n hanesyddol drwy Gynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy, ac rydym yn ddigon parod i weithio gydag awdurdodau er mwyn sicrhau bod gwelliannau yn y rhwydwaith trafnidiaeth ar y ddwy ochr i'r ffin.

Of course, as I said previously, we are always eager to collaborate with Governments on the other side of the border. We have done that historically through the Mersey Dee Alliance, and we are quite willing to work with authorities to ensure that there are improvements in the transport network on both sides of the border.

## Tai Fforddiadwy

## Affordable Housing

13:59 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

*5. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy? OAQ(4)1996(FM)*

*5. What is the Welsh Government doing to increase the supply of affordable housing? OAQ(4)1996(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

13:59 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Our social housing grant programme is investing over £400 million in this term of the Government to increase the supply of affordable housing. In terms of what that actually means on the ground, we have delivered 6,890 additional affordable homes, against our target of 10,000. That is excellent progress, and we believe that we are course to meet what is an ambitious target.

Mae ein rhaglen grant tai cymdeithasol yn buddsoddi dros £400 miliwn yn ystod tymor hwn y Llywodraeth i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy. O ran yr hyn y mae hynny'n ei olygu mewn gwirionedd ar lawr gwlad, rydym ni wedi darparu 6,890 o dai fforddiadwy ychwanegol, o'i gymharu â'n targed o 10,000. Mae hynny'n gynnydd rhagorol, ac rydym ni'n credu ein bod ni ar y trywydd iawn i gyrraedd targed sy'n uchelgeisiol.

Senedd.tv Fideo Video

14:00 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

That is excellent progress, First Minister, but, unfortunately, there remain very large numbers of people who are trapped in unaffordable private rented housing. Some of them are simply unable to work because they cannot earn enough to cover the private rented costs. We have also seen, globally, the rise and rise of claims for housing benefit from people in work, which tells us that there is not nearly enough affordable housing. What exploration has the Government carried out about getting a loan from the European Investment Bank, which is less than 3%, that could provide the possibility of sub-market affordable housing? Obviously, the money has to be returned within three years, but it is another way in which we could provide more housing for people like my constituents who are faced with 12,000 people on the housing waiting list.

Mae hynny'n gynnydd rhagorol, Brif Weinidog, ond, yn anffodus, ceir nifer fawr iawn o bobl sy'n gaeth mewn tai rhent preifat fforddiadwy o hyd. Ni all rhai ohonynt weithio oherwydd nad ydynt yn gallu ennill digon i dalu'r costau rhentu preifat. Rydym ni hefyd wedi gweld, yn fyd-eang, cynnydd parhaus hawliadau am fudd-dal tai gan bobl sy'n gweithio, sy'n dweud wrthym nad oes hanner digon o dai fforddiadwy ar gael. Pa waith archwilio mae'r Llywodraeth wedi ei wneud o ran cael benthyciad gan Fanc Buddsoddi Ewrop, sy'n llai na 3%, a allai gynnig y posibilrwydd o dai fforddiadwy is-farchnad? Yn amlwg, mae'n rhaid ad-dalu'r arian o fewn tair blynedd, ond mae'n ffordd arall y gallem ddarparu mwy o dai i bobl fel fy etholwyr i sy'n wynebu 12,000 o bobl ar y rhestr aros am dai.

Senedd.tv Fideo Video

14:01 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

European Investment Bank funding for affordable housing usually comes through the Housing Finance Corporation Limited; that is the national organisation set up specifically to aggregate and service the housing associations' long-term debt requirements. I know that a number of housing associations in Wales have taken advantage of the long-term finance available through the THFC, which also runs a finance product endorsed by the Welsh Government. We are in early discussions with the European Investment Bank around the potential for it to be involved in the second phase of the housing finance grant.

Daw cyllid Banc Buddsoddi Ewrop ar gyfer tai fforddiadwy drwy'r Housing Finance Corporation Limited fel rheol; dyna'r sefydliad cenedlaethol a sefydlwyd yn benodol i agregu a gwasanaethu gofynion dyled hirdymor y cymdeithasau tai. Gwn fod nifer o gymdeithasau tai yng Nghymru wedi manteisio ar y cyllid hirdymor sydd ar gael drwy'r THFC, sydd hefyd yn rhedeg cynnyrch cyllid a gymeradwyir gan Lywodraeth Cymru. Rydym ni mewn trafodaethau cynnar gyda Banc Buddsoddi Ewrop ynghylch y posibilrwydd o gymryd rhan yn ail gam y grant cyllid tai.

Senedd.tv Fideo Video

14:01 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

First Minister, Swansea has over 1,000 empty properties, but, last year, only 13 of these were targeted to be converted into affordable homes. With the budgetary pressures, and possibly mergers looming as well, can you tell us what the Government is doing to assist the speeding up of the conversion of empty houses into affordable homes?

Brif Weinidog, mae dros 1,000 o adeiladau gwag yn Abertawe, ond, y llynedd, dim ond 13 o'r rhain gafodd eu targedu i gael eu troi'n gartrefi fforddiadwy. O ystyried y pwysau cyllidebol, ac achosion posibl o uno ar y gorwel hefyd, a allwch chi ddweud wrthym beth mae'r Llywodraeth yn ei wneud i gynorthwyo i gyflymu'r broses o droi tai gwag yn gartrefi fforddiadwy?

Senedd.tv Fideo Video

14:02 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

This, of course, is an initiative that we have put in place as a Government. It is still in its relatively early days. Nevertheless, we are pleased with the progress made so far, and we recognise how important it is to make sure that empty buildings are put to use for people rather than sitting there untenanted and unoccupied for many years.

Menter yw hon, wrth gwrs, yr ydym ni wedi ei sefydlu fel Llywodraeth. Mae'n dal i fod yn ei chyfnod gymharol gynnar. Serch hynny, rydym ni'n falch gyda'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn, ac rydym ni'n cydnabod pa mor bwysig yw hi i sicrhau bod adeiladau gwag yn cael eu defnyddio ar gyfer pobl yn hytrach nag eistedd yno heb denantiaid ac yn wag am flynyddoedd lawer.

Senedd.tv Fideo Video

14:02 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Brif Weinidog, byddai trafod gyda Banc Buddsoddi Ewrop y posibilrwydd o gael cynllun eang, yn enwedig yn yr ardaloedd hynny sydd yn derbyn cymorth gan gronfeydd Ewropeaidd, yn rhywbeth gwerth ei wneud. Fodd bynnag, yng nghyd-destun y cwestiwn o dai gwag yn cael eu dychwelyd i'r farchnad ac awdurdodau sydd am adeiladu tai i'w rhentu, rydych chi'n cynnig grantiau i gymdeithasau tai, ond a ydych chi'n ystyried cynnig grantiau i gynghorau lleol fel sir Gaerfyrddin, sy'n awyddus i adeiladu tai i'w rhentu?

First Minister, discussions with the European Investment Bank about the possibility of having a broad scheme, particularly in those areas that receive European fund support, would be a very good thing to do. However, as regards the question of empty houses being returned to the market and the authorities that wish to build more housing for rent, you offer grants to housing associations and, therefore, are you considering offering grants to local councils, such as Carmarthenshire, which are eager to build houses for rent?

Senedd.tv Fideo Video

14:02 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae'r sefyllfa yn wahanol ynglŷn â'r gyfraith, os cofiaf yn iawn, gyda'r ddau, ond rydym ni'n ddigon hapus i hybu awdurdodau lleol lle maen nhw am adeiladu tai newydd cyhoeddus. Rydym ni'n gwybod bod cyngor sir Gâr wedi gwneud hyn ac am sicrhau ei fod yn digwydd yn y dyfodol. Felly, rydym ni'n awyddus i weithio gyda chynghorau i sicrhau bod yr un manteision ar gael iddyn nhw hefyd.

The position in terms of the law, between the two, is different, if my memory serves me correctly, but we are happy to encourage local authorities that wish to build new social housing. We know that Carmarthenshire council has done this, and we want to ensure that it happens for the future. Therefore, we are eager to work with councils to ensure that the same benefits are available to them too.

Senedd.tv Fideo Video

14:03 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

First Minister, although there are signs that house prices have started to pick up in Wales, there is evidence that developers are struggling to meet their section 106 agreement obligations in relation to the provision of affordable homes and that some developers are going back to local councils saying that they are not able to generate enough profit and asking councils to release them from those obligations. May I ask, therefore, that your Government reviews the section 106 provisions in terms of that side of your affordable homes policy to see whether local authorities can be reinforced in their demand to have more affordable homes built under this particular mechanism?

Brif Weinidog, er bod arwyddion fod prisiau tai wedi dechrau codi yng Nghymru, ceir tystiolaeth bod datblygwyr yn cael trafferth i fodloni eu rhwymedigaethau cytundeb adran 106 o ran y ddarpariaeth o dai fforddiadwy a bod rhai datblygwyr yn mynd yn ôl at gynghorau lleol yn dweud nad ydynt yn gallu gwneud digon o elw ac yn gofyn i gynghorau eu rhyddhau o'r rhwymedigaethau hynny. A gaf i ofyn, felly, i'ch Llywodraeth adolygu'r darpariaethau adran 106 o ran yr agwedd honno ar eich polisi tai fforddiadwy i weld a ellir atgyfnerthu awdurdodau lleol o ran eu galw i weld mwy o gartrefi fforddiadwy yn cael eu hadeiladu drwy'r dull penodol hwn?

Senedd.tv Fideo Video

14:04 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

If there are examples of that happening, I would be more than happy for the Member to write with those examples. We have to be careful in the sense that, quite often, if section 106 obligations are not met, their cost must be met from the public purse, particularly with regard to road adoption and, more generally, with community facilities, particularly with the larger developments, such as schools, as the Member will be well aware. Bearing that in mind, if he provides us with examples, I am sure that we will be able to look at what might be done in order to secure that the flow of affordable housing continues.

Os oes enghreifftiau o hynny'n digwydd, byddwn yn fwy na bodlon i'r Aelod ysgrifennu gyda'r enghreifftiau hynny. Mae'n rhaid i ni fod yn ofalus o'r safbwynt, yn aml iawn, os na fodlonir rhwymedigaethau adran 106, mae'n rhaid talu eu costau o'r pwrs cyhoeddus, yn enwedig o ran mabwysiadu ffyrdd ac, yn fwy cyffredinol, gyda chyfleusterau cymunedol, yn enwedig gyda'r datblygiadau mwy, fel ysgolion, fel y bydd yr Aelod yn gwybod yn iawn. Gan gadw hynny mewn cof, os gwnaiff roi enghreifftiau i ni, rwy'n siŵr y byddwn yn gallu edrych ar yr hyn y gellid ei wneud er mwyn sicrhau bod y llif o dai fforddiadwy yn parhau.

Senedd.tv Fideo Video

## Hyrwyddo Hawliau Plant

## The Promotion of Children's Rights

14:04 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*6. Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i hyrwyddo hawliau plant yng Nghymru yn ystod y 12 mis nesaf? OAQ(4)1991(FM)*

*6. What action will the Welsh Government take to promote children's rights in Wales in the next twelve months? OAQ(4)1991(FM)*

14:04 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We will continue to lead the way in promoting the rights of children and young people. How we do that is clearly set out in the children's rights scheme.

Byddwn yn parhau i arwain y ffordd o ran hybu hawliau plant a phobl ifanc. Mae sut yr ydym yn gwneud hynny wedi ei nodi'n eglur yn y cynllun hawliau plant.

14:05 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister. A key international standard in relation to national human rights institutions for children is their independence from Government. Concerns have been expressed that the children's commissioner's independence is potentially undermined because the office is funded through a Welsh Government Minister rather than directly by the National Assembly. Will the First Minister commit to looking at the way that the children's commissioner's office is funded to ensure that Wales is in compliance with international human rights standards?

Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Un safon ryngwladol allweddol o ran sefydliadau hawliau dynol cenedlaethol i blant yn eu hannibyniaeth ar y Llywodraeth. Mynegwyd pryderon bod annibyniaeth y comisiynydd plant o bosibl yn cael ei danseilio oherwydd bod y swyddfa'n cael ei hariannu trwy un o Weinidogion Llywodraeth Cymru yn hytrach na chan y Cynulliad Cenedlaethol yn uniongyrchol. A wnaiff y Prif Weinidog ymrwymo i edrych ar y ffordd y mae swyddfa'r comisiynydd plant yn cael ei hariannu er mwyn sicrhau bod Cymru'n cydymffurfio â safonau hawliau dynol rhyngwladol?

14:05 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The difficulty with that argument, of course, is that if that were to happen then the commissioner would not be independent of the Assembly. So, there is no easy way of resolving this. The view that we take as a Government is that it is important that, in the appointments process, Members are involved from all parties in this Chamber—that much is happening—and, secondly, when that person is appointed, that they are independent. I would argue that not just the children's commissioner but all of our commissioners have been very robust in terms of criticising the Government when that is required. They have certainly never had any negative comeback from us. I think that the system does work. I think that the independence is there. The fact that we have reports that challenge Government from time to time shows that the system is robust.

Yr anhawster gyda'r ddadl honno, wrth gwrs, yw pe byddai hynny'n digwydd, yna ni fyddai'r comisiynydd yn annibynnol ar y Cynulliad. Felly, nid oes ffordd rwydd o ddatrys hyn. Ein safbwynt ni fel Llywodraeth yw ei bod yn bwysig, yn y broses benodi, bod Aelodau o bob plaid yn y Siambr hon—mae cymaint â hynny'n digwydd—ac, yn ail, pan benodir yr unigolyn hwnnw, ei fod yn annibynnol. Byddwn yn dadlau bod nid yn unig y comisiynydd plant ond pob un o'n comisiynwyr wedi bod yn gadarn iawn o ran beirniadu'r Llywodraeth pan fo hynny'n ofynnol. Nid ydynt erioed wedi cael unrhyw ymateb negyddol gennym ni yn sicr. Rwy'n meddwl bod y system yn gweithio. Rwy'n credu bod yr annibyniaeth yno. Mae'r ffaith ein bod yn cael adroddiadau sy'n herio'r Llywodraeth o bryd i'w gilydd yn dangos bod y system yn gadarn.

14:06 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, yr wythnos hon, dywedodd Comisiynydd Plant Lloegr fod toriadau yn gywilyddus—o ran yr hyn sy'n cael ei dorri o'r system les ac yn y blaen—a'u bod i'r fath raddau fel y byddant yn torri'r UNCRC. A ydych wedi siarad â'r comisiynydd yng Nghymru ynglŷn â'r ffaith y gallai hyn gael yr un effaith yng Nghymru? Sut fyddech chi'n symud ymlaen pe bai Prydain yn torri'r UNCRC?

First Minister, this week the Children's Commissioner for England said that the cuts were disgraceful—in terms of the cuts made to the welfare system and so on—to such an extent that they would be in breach of the UNCRC. Have you spoken to the commissioner in Wales about the fact that this could be having a similar impact in Wales? How, then, would you proceed if Britain is to contravene the UNCRC?

14:06 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Nid wyf wedi siarad yn bersonol â'r comisiynydd ynglŷn â hyn, ond rwy'n gwybod bod gwaith yn cael ei wneud gyda'r comisiynydd ar hyn o bryd er mwyn sicrhau bod fersiwn newydd o erthyglau'r UNCRC yn cael ei hailgyflwyno yma yng Nghymru. Rwy'n siŵr bod hyn yn rhan o'r trafodaethau sy'n digwydd.

I have not spoken personally to the commissioner about this matter, but I know that work is being done with the commissioner at present in order to ensure that any new version of the articles of the UNCRC are re-presented here in Wales. I am sure that that will form part of the discussions taking place.

### Y Rheilffordd o Gaerwen i Amlwch

### The Railway Line from Gaerwen to Amlwch

14:07 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*7. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddichonoldeb ailagor y rheilffordd o Gaerwen i Amlwch? OAQ(4)2002(FM)*

*7. Will the First Minister make a statement on the feasibility of reopening the railway line from Gaerwen to Amlwch? OAQ(4)2002(FM)*

14:07 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae seilwaith rheilffyrdd yn gyfrifoldeb i Lywodraeth y Deyrnas Unedig, ond cyhoeddodd Network Rail adroddiad ar ymarferoldeb ailagor y rheilffordd hon yn 2010.

Railway infrastructure is the responsibility of the UK Government, but Network Rail published a report on the feasibility of reopening this stretch of track in 2010.

14:07 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr. Rwy'n gwerthfawrogi, yn sicr, y cyfyngiadau ariannol presennol, er hynny byddwn yn gwerthfawrogi cefnogaeth y Prif Weinidog i'r egwyddor o geisio ailagor y lein yn yr hirdymor. Mae camau y gallwn ni eu cymryd i agor mwyafrif y lein yn y byrdymor. A wnaiff y Prif Weinidog felly roi ei gefnogaeth i'r ymdrechion i ailagor rheilffordd dreftadaeth o Langefni tua'r gogledd, ac ymchwilio i unrhyw ffordd y gall y Llywodraeth helpu i symud hynny ymlaen cyn gynted â phosibl, gan gynnwys ceisio dylanwadu ar Network Rail i ganiatáu i hynny ddigwydd?

Thank you. I certainly appreciate the financial restrictions upon us at present. However, I would welcome the First Minister's support to the principle of trying to reopen the line in the longer term. There are steps that we could take to open most of that line in the shorter term. Therefore, will the First Minister give his support to efforts to reopen the heritage railway from Llangefni northbound and to look at any possibilities whereby the Government could assist in proceeding with that scheme as soon as possible, which includes trying to bring influence to bear on Network Rail to allow that to take place?

14:08 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Rwy'n deall o'r adroddiad y byddai'n costio tua £25.1 miliwn i ailagor y rheilffordd, nid i Amlwch ond o gyffordd Gaerwen i Langefni. Mae sawl rhwystr ymarferol ynglŷn â gwneud hynny, ond rwy'n deall bod cwmni yn edrych ar wneud hyn ar hyn o bryd. Wrth gwrs, mae'n ddiddorol dros ben gweld bod ganddo ddiddordeb i wneud hynny. Byddwn yn gobeithio, felly, y byddai Network Rail yn gweithio'n agos gyda'r cwmni er mwyn sicrhau, os yw'r cynllun busnes yn gweithio, fod y prosiect yn symud ymlaen.

I understand, from the report, that it would cost around £25.1 million to reopen the railway, not to Amlwch but from Gaerwen junction to Llangefni. There are a number of practical barriers to doing that, however I understand that a company is looking at the feasibility of doing this at present. Of course, it is extremely interesting to see that it is interested in doing so. Therefore, I would hope that Network Rail would work closely with the company in order to ensure that, if the business plan works, the project proceeds.

14:08 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As you have indicated, that 2010 report on that 4.5 mile stretch indicates a £25.1 million cost. I think that our colleague from Anglesey raises an interesting point about the heritage railway option. The precedent has been established in Llangollen with the link to Corwen, not only as a heritage connection but as an economic and social connection for people. Could the Welsh Government consider supporting models such as that—such as stage 2 in Llangollen, and such as the line that we are talking about from Gaerwen to Llangefni on Anglesey—as a means not only of driving the heritage agenda, but of wider economic regeneration within the areas.

Fel yr ydych chi wedi ei nodi, mae'r adroddiad hwnnw o 2010 ar y darn 4.5 milltir hwnnw'n dangos cost o £25.1 miliwn. Rwy'n credu bod ein cyd-Aelod o Ynys Môn yn codi pwynt diddorol am yr opsiwn rheilffordd treftadaeth. Mae'r cynsail wedi ei sefydlu yn Llangollen gyda chysylltiad i Gorwen, nid yn unig fel cysylltiad treftadaeth ond fel cysylltiad economaidd a chymdeithasol i bobl. A allai Llywodraeth Cymru ystyried cefnogi modelau fel hwnnw—fel cam 2 yn Llangollen, ac fel y rheilffordd yr ydym ni'n sôn amdani o Gaerwen i Langefni ar Ynys Môn—fel ffordd o sbarduno'r agenda treftadaeth, yn ogystal ag adfywio economaidd ehangach yn yr ardaloedd.

14:09 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes. What has changed over the years is that heritage railways, until one time, were seen as tourist railways and as nothing else. I think that that has changed. The West Somerset Railway was the first to do this; that is, run services through the winter—and that is a 20-mile-long line in any case—and act as a line for local people at the same time. I think that some railway companies even have price differentials in terms of the fare structure for commuters and for tourists. I think that there is a lot of mileage to be made, if you forgive the pun, out of doing that. For example, in terms of a reopening from Llangefni—I mean, the trains would have to run through, I suspect, to Llandudno Junction, or at least to Bangor to make the service viable—there is potential for looking at a railway not just in terms of its tourist potential, but in terms of the links that can be created between communities. So, that is something that we would certainly be keen to investigate and work on with any potential company in terms of being able to deliver that.

Ie. Yr hyn sydd wedi newid dros y blynyddoedd yw bod rheilffyrdd treftadaeth, tan ryw adeg, yn cael eu hystyried fel rheilffyrdd twristiaid a dim byd arall. Rwy'n credu bod hynny wedi newid. Rheilffordd Gorllewin Gwlad yr Haf oedd y gyntaf i wneud hyn; hynny yw, rhedeg gwasanaethau drwy'r gaeaf—ac mae honno'n rheilffordd 20 milltir o hyd beth bynnag—a gweithredu fel rheilffordd i bobl leol ar yr un pryd. Rwy'n meddwl bod gan rai cwmnïau rheilffordd wahaniaethau o ran prisiau yn y strwythur pris i gymudwyr ac i dwristiaid. Rwy'n credu bod llawer i'w ennill o wneud hynny. Er enghraifft, o ran ailagor y rheilffordd o Langefni—hynny yw, byddai'n rhaid i'r trenau redeg, rwy'n amau, i Gyffordd Llandudno, neu i Fangor o leiaf, i wneud y gwasanaeth yn hyfyw—ceir y potensial i edrych ar reilffordd nid yn unig o ran ei botensial twristiaeth, ond o ran y cysylltiadau y gellir eu creu rhwng cymunedau. Felly, mae hynny'n rhywbeth y byddem yn sicr yn awyddus i'w ymchwilio a gweithio arno gydag unrhyw ddarpar gwmni o ran bod yn gallu darparu hynny.

## Cynhyrchaint Ynni Adnewyddadwy

## Renewable Energy Production

14:10 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd yng nghynhyrchiant ynni adnewyddadwy yng Nghymru? OAQ(4)1998(FM)*

*8. Will the First Minister make a statement on the increase in renewable energy production in Wales? OAQ(4)1998(FM)*

14:10 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae 'Ynni Cymru: Newid i Economi Carbon Isel' yn amlinellu'r camau rydym yn eu cymryd i annog prosiectau ynni adnewyddadwy a gwneud y gorau posibl o'r manteision economaidd ac amgylcheddol i Gymru. Mae'n rhaid inni gofio, wrth gwrs, nad yw'r pwerau gennym, fel sydd â phawb arall yn y Deyrnas Unedig, i sicrhau bod adnoddau Cymru yn dod o dan reolaeth pobl Cymru.

'Energy Wales: A Low Carbon Transition' sets out what we are doing to encourage renewable energy projects and maximise their economic and environmental benefits to Wales. We must bear in mind, of course, that we do not have the powers, as everybody else has in the United Kingdom, to ensure that the resources of Wales come under the control of the people of Wales.

14:11 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch. Yr wythnos diwethaf, fe wnaethom ni groesawu i'r Cynulliad gynllun ynni hydro Anafon, o Abergwyngregyn—sy'n enw hyfryd iawn, gyda llaw—yn fy etholaeth i. Bydd yn weithredol o'r flwyddyn nesaf, gobeithio, ond dim ond yr ail gynllun gweithredol fydd hwn sydd wedi cael cymorth o gynllun Ynni'r Fro. Mynegodd aelodau o'r cynllun cymunedol hwn eu rhwystredigaeth ynglŷn â'r drefn sy'n bodoli wrth geisio sefydlu cynlluniau cymunedol fel hwn. Mae Llywodraeth Cymru wedi methu â chyrraedd ei tharged o ran ynni adnewyddadwy. Nid oes gennych darged bellach, wrth gwrs. Pam hynny, a beth fyddwch chi'n ei wneud i wella'r sefyllfa?

Thank you. Last week, we welcomed to the National Assembly the Anafon hydro energy scheme in Abergwyngregyn—which is a wonderful name—in my constituency. It is hoped that the scheme will be operational from next year. However, this will be only the second scheme to have been assisted by the Ynni'r Fro programme. Members of this community scheme have expressed frustration in terms of the regime that exists when it comes to establishing community schemes such as this. The Welsh Government has failed to achieve its target in terms of renewable energy. You no longer have a target, of course. Why is that the case and what will you do to improve the situation?

14:11 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae dau gwestiwn yn y fan honno. Yn gyntaf, mae'n amhosibl cael targedau ynglŷn â rhywbeth nad oes gennym reolaeth drosto. Rydym wedi dweud o'r blaen nad yw'n deg bod rheolaeth gan bobl Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon dros eu hadnoddau nhw, mewn ffordd nad oes gennym ni yng Nghymru.

There were two questions there. First of all, it is impossible to have targets as regards something that we do not have control over. We have said before that it is not fair that the people of England, Scotland and Northern Ireland have control over their resources in a way that Wales does not.

Ynglŷn ag Ynni'r Fro, sydd yn rhywbeth sydd yn dod o dan reolaeth Llywodraeth Cymru, gallaf ddweud bod 50 o gynlluniau wedi cael eu cefnogi gan y rhaglen honno ac y dylai 16 o'r cynlluniau hynny fod yn barod ac yn creu ynni erbyn diwedd y flwyddyn nesaf.

As regards Ynni'r Fro, which does come under the control of the Welsh Government, I can say that the programme has supported 50 schemes and that 16 of those schemes should be ready and generating energy by the end of next year.

14:12 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, would you agree that tidal lagoons have considerable potential to boost our renewable energy output in Wales? The Severn offers considerable potential for tidal lagoons, and, in my own patch, the mouth of the Usk eastwards is a prime example of a further possible tidal lagoon that would help with Wales's performance.

Brif Weinidog, a fyddech chi'n cytuno bod gan forlynnoedd llanw botensial sylweddol i roi hwb i'n hallbwn ynni adnewyddadwy yng Nghymru? Mae Afon Hafren yn cynnig potensial sylweddol ar gyfer morlynnoedd llanw, ac, yn fy milltir sgwâr i, mae aber Afon Wysg tua'r dwyrain yn enghraifft wych o forlyn llanw arall posibl a fyddai'n helpu gyda pherfformiad Cymru.

14:13 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes, it would. As somebody who previously had responsibility for major energy projects, it is difficult to explain how complicated all these things are in terms of electricity—the electricity market reform, strike prices, the renewables obligation certificates. It is a phenomenally complicated area.

Byddai, mi fyddai. Fel rhywun a oedd yn gyfrifol am brosiectau ynni mawr yn y gorffennol, mae'n anodd esbonio pa mor gymhleth yw'r holl bethau hyn o ran trydan—diwygio'r farchnad drydan, prisiau taro, y tystysgrifau rhwymedigaeth ynni adnewyddadwy. Mae'n faes arbennig o gymhleth.

The difficulty facing any investor in investing in energy generation is knowing what the price will be. Quite often that is not clear—the strike price, as it is called. It is also not helped by the fact that we have seen over the past few months, and certainly the past few years, changes in the Department of Energy and Climate Change's priorities in terms of what it wants to see and a sudden change from one form of energy to another. What we need is for DECC to ensure that it has a long-term strategy and that it sticks to it, which it has not done so far, and also, of course, for any developer to understand what price it will get for the energy that it generates. That often is the problem in terms of securing the investment.

Yr anhawster sy'n wynebu unrhyw fuddsoddwr o ran buddsoddi mewn cynhyrchu ynni yw gwybod beth fydd y pris. Yn aml iawn, nid yw hynny'n eglur—y pris taro, fel y'i gelwir. Nid yw'n cael ei helpu ychwaith gan y ffaith ein bod wedi gweld yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf, ac yn sicr yr ychydig flynyddoedd diwethaf, newidiadau i flaenoriaethau'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd o ran yr hyn y mae eisiau ei weld a newid sydyn o un math o ynni i un arall. Yr hyn yr ydym ni ei angen yw i'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd sicrhau bod ganddi strategaeth hirdymor a'i bod yn cadw ati, er nad yw wedi gwneud hyd yn hyn, a hefyd, wrth gwrs, i unrhyw ddatblygwr ddeall pa bris y bydd yn ei gael am yr ynni y mae'n ei gynhyrchu. Dyna yw'r broblem yn aml o ran sicrhau'r buddsoddiad.

14:13 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

To go back to Ynni'r Fro, First Minister, that has been running since 2010 and there were supposed to be 22 projects completed by March 2015. Over £3 million of public money has gone into this scheme, with just one project built, and that project having to be intermittently turned off. So, will you be looking at your value-for-money criteria—it has been turned off, First Minister; you look puzzled. It is because Natural Resources Wales has said that it is causing damage to migratory salmon. However, given that you have spent £3 million on the scheme and that only one has been built, will you undertake a review of it and provide reassurance that public money is being effectively spent?

I ddychwelyd at Ynni'r Fro, Brif Weinidog, mae hwnnw wedi bod yn rhedeg ers 2010 ac roedd 22 o brosiectau i fod i gael eu cwblhau erbyn mis Mawrth 2015. Mae dros £3 miliwn o arian cyhoeddus wedi mynd i mewn i'r cynllun hwn, a dim ond un prosiect sydd wedi ei adeiladu, ac mae'n rhaid diffodd y prosiect hwnnw bob hyn a hyn. Felly, a fyddwch chi'n edrych ar eich meini prawf gwerth am arian—mae wedi cael ei ddiffodd, Brif Weinidog; rydych chi'n edrych yn ddryslyd. Y rheswm yw bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi dweud ei fod yn achosi difrod i eogiaid mudol. Fodd bynnag, o gofio eich bod chi wedi gwario £3 miliwn ar y cynllun ac mai dim ond un sydd wedi ei adeiladu, a wnewch chi gynnal adolygiad ohono a rhoi sicrwydd bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n effeithiol?

14:14 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We always review any scheme, of course. However, coming back to the point I made earlier, it is supporting 50 schemes at the moment and 16 will be constructed and they will be generating renewable energy by the end of next year.

Rydym ni bob amser yn adolygu unrhyw gynllun, wrth gwrs. Fodd bynnag, i ddychwelyd at y pwynt a wneuthum yn gynharach, mae'n cefnogi 50 o gynlluniau ar hyn o bryd a bydd 16 yn cael eu hadeiladu a byddant yn cynhyrchu ynni adnewyddadwy erbyn diwedd y flwyddyn nesaf.

### Hyrwyddo'r Sector Organig

### The Promotion of the Organic Sector

14:15 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*9. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am strategaeth Llywodraeth Cymru i hyrwyddo'r sector organig yng Nghymru? OAQ(4)1993(FM)*

*9. Will the First Minister make a statement on the Welsh Government's strategy to promote the organic sector in Wales? OAQ(4)1993(FM)*

14:15 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes. We were the first country in the UK to offer organic farmers and producers financial support under the new rural development programme. Support is also available to those who wish to convert to organic farming. There will be further opportunities to improve efficiencies through knowledge transfer and, of course, investment in infrastructure.

Gwnaf. Ni oedd y wlad gyntaf yn y DU i gynnig cymorth ariannol i ffermwyr a chynhyrchwyr organig dan y rhaglen datblygu gwledig newydd. Mae cymorth ar gael i'r rhai sy'n dymuno troi at ffermio organig hefyd. Bydd rhagor o gyfleoedd i wella effeithlonrwydd trwy drosglwyddo gwybodaeth ac, wrth gwrs, buddsoddi mewn seilwaith.

14:15 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Next year, a new application period opens for the EU agricultural promotion fund, which will provide up to 70% match funding to help promote the organic sector. As I understand it, if Wales submits a joint application with another region, such as England, the application will be looked at more favourably. If you have not already done so, will you discuss—or will you instruct you officials to discuss—this with the Organic Trade Board in England, with the intention of submitting a joint application?

Y flwyddyn nesaf, mae cyfnod ymgeisio newydd yn agor ar gyfer cronfa hyrwyddo amaethyddol yr UE, a fydd yn darparu hyd at 70% o arian cyfatebol i helpu i hyrwyddo'r sector organig. Fel rwy'n ei deall hi, os bydd Cymru'n gwneud cais ar y cyd â rhanbarth arall, fel Lloegr, bydd y cais yn cael ei ystyried yn fwy ffafriol. Os nad ydych chi wedi gwneud eisoes, a wnewch chi drafod—neu a wnewch chi gyfarwyddo eich swyddogion i drafod—hyn gyda'r Organic Trade Board yn Lloegr, gyda'r bwriad o gyflwyno cais ar y cyd?

14:15 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

It is an interesting idea. The difficulty, of course, is that, quite often, England is a competitor for us when it comes to food produce. We jealously guard the status of Welsh lamb and Welsh beef. We jealously guard the status of Welsh dairy products. We know that our dairy producers see a benefit, not just in Wales, in terms of that Welsh label. Of course, we will work with other organisations where we can see a benefit to the people of Wales. However, again, we have to bear in mind that we do not dilute our own brand.

Mae'n syniad diddorol. Yr anhawster, wrth gwrs, yw bod Lloegr, yn aml iawn, yn gystadleuydd i ni pan ddaw i gynnyrch bwyd. Rydym ni'n gwarchod statws cig oen Cymru a chig eidion Cymru'n genfigennus. Rydym ni'n gwarchod statws cynnyrch llaeth Cymru'n genfigennus. Rydym ni'n gwybod bod ein cynhyrchwyr llaeth yn gweld budd, nid yn unig yng Nghymru, o ran y label Cymreig hwnnw. Wrth gwrs, byddwn yn gweithio gyda sefydliadau eraill pan fyddwn yn gallu gweld budd i bobl Cymru. Fodd bynnag, unwaith eto, mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr nad ydym yn gwanhau ein brand eu hunain.

14:16 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A fyddai'r Prif Weinidog yn ymuno â mi i longyfarch y ffair aeaf? Mae'n dda gennyf gael y fraint o wisgo tei'r ffair y prynhawn yma, ar ei dathliad 25 mlynedd. Ffair Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru yw hon, sydd yn llwyfan nid yn unig i'r 1,000 o gynhyrchwyr organig ond i weddill cynnyrch amaethyddol Cymru ac i Lywodraeth Cymru ei hun. Rwyf yn diolch iddo am y nawdd a roddir i'r gymdeithas, ond a oes gan y Prif Weinidog neges gref i amaethwyr Cymru ynglŷn â chefnogaeth ei Lywodraeth, gyda'r rhaglen datblygu gwledig, a'r berthynas arbennig—yn dilyn yr adroddiad a gyhoeddwyd ddoe—rhwng y Llywodraeth a'r diwydiant sydd yn bosibl at y dyfodol?

Would the First Minister join with me in congratulating the winter fair? I am pleased to have the privilege of wearing its tie here this afternoon, as it celebrates 25 years. This is the Royal Welsh Agricultural Society's fair and is a platform not only for the 1,000 organic producers but for other Welsh agricultural produce and for the Welsh Government itself. I thank him for the sponsorship given to the society, but does the First Minister have a strong message for Welsh farmers in terms of his Government's support, with the rural development plan, and the special relationship—following the report published yesterday—between the Government and the industry that could be built for the future?

14:17 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Credaf fod gennyf sawl neges: y gefnogaeth gyllidol rydym yn ei rhoi yn barod i ffermwyr; y gefnogaeth sydd ar gael i arallgyfeirio, sydd yn helpu cymaint o ffermwyr i aros yn y byd ffermio ac i wneud ambell beth arall i ddod ag arian i mewn; a'r ffaith, heddiw, os cofiaf yn iawn, ein bod wedi talu 90 o ffermwyr unwaith i'r ffenestr taliadau agor. Mae hynny'n rhywbeth rydym wedi'i wneud am flynyddoedd yn awr, ac yn rhywbeth rydym yn falch iawn o'i wneud y tro hwn hefyd.

I believe that I have a number of messages: the financial support that we already give farmers; the support that is available for diversification, which assists so many farmers to remain in the world of farming and to do something else in order to bring in income; and the fact that, today, if I remember rightly, we paid 90 farmers once the payment window opened. That is something that we have been doing for years now and something that we are most proud of being able to do again.

## Effaith y Dirwasgiad ar Berthnasau Personol

## The Impact of the Recession on Personal Relationships

14:17 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*10. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am effaith y dirwasgiad economaidd ar berthnasau personol? OAQ(4)2000(FM)*

*10. Will the First Minister make a statement on the impact of the economic recession on personal relationships? OAQ(4)2000(FM)*

14:17 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes. I am aware of the recent research by Relate, which suggests that difficult economic times, of course, can place significant pressure on relationships. We have a range of initiatives in place to support people during these testing times.

Gwnaf. Rwy'n ymwybodol o'r gwaith ymchwil diweddar gan Relate, sy'n awgrymu y gall cyfnod economaidd anodd, wrth gwrs, roi pwysau sylweddol ar berthnasoedd. Mae gennym amrywiaeth o fentrau ar waith i gefnogi pobl yn ystod y cyfnod anodd hwn.

14:18 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As you said, Relate Cymru published this report, called 'Relationships, Recession and Recovery: The role of relationships in generating social recovery'. It found that people who suffered the negative impacts of recession were considerably more likely to have experienced deterioration in the quality and stability of their relationships. This has been called the 'social recession'. It is not only a concern for the individuals involved but has wider social costs. Unaddressed, the impact of this is likely to continue for some time. Would you agree, First Minister, that good quality relationships are important for public health and wellbeing, and that strong relationships support a stronger economy? Will you also consider the findings of this report in future policy-making across all policy areas?

Fel y dywedasoch, cyhoeddodd Relate Cymru'r adroddiad hwn, o'r enw Relationships, Recession and Recovery: The role of relationships in generating social recovery'. Canfu fod pobl sy'n dioddef effeithiau negyddol dirwasgiad yn llawer mwy tebygol o ddioddef dirywiad i ansawdd a sefydlogrwydd eu perthynas. Galwyd hyn yn 'ddirwasgiad cymdeithasol'. Mae'n bryder i'r unigolion dan sylw ac mae'n arwain at gostau cymdeithasol ehangach hefyd. Heb fynd i'r afael ag ef, mae effaith hyn yn debygol o barhau am gryn amser. A fyddech chi'n cytuno, Brif Weinidog, bod perthnasoedd o ansawdd da yn bwysig ar gyfer iechyd a lles y cyhoedd, a bod perthnasoedd cryf yn cefnogi economi gryfach? A wnewch chi hefyd ystyried canfyddiadau'r adroddiad hwn wrth lunio polisïau yn y dyfodol ar draws pob maes polisi?

14:19 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I would agree, of course, that robust relationships are important for public health and in terms of supporting a stronger economy. I am aware, of course, as I mentioned already, of the research published by Relate. I can assure the Member that we will consider this further.

Byddwn yn cytuno, wrth gwrs, bod perthnasoedd cadarn yn bwysig i iechyd y cyhoedd ac o ran cefnogi economi gryfach. Rwy'n ymwybodol, wrth gwrs, fel y soniais eisoes, o'r gwaith ymchwil a gyhoeddwyd gan Relate. Gallaf sicrhau'r Aelod y byddwn yn ystyried hyn ymhellach.

14:19 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, all evidence suggests that, as we approach Christmas and what should be a family, happy, peaceful and spiritual time, it can often cause a lot of personal relationships to feel strained for various reasons—family tensions, unemployment, economic or financial hardship, or even illness. Sadly, although we have superb agencies operating all year round, during the Christmas period—and we do have a nine-to-five culture—many of our public services and support agencies see themselves closed down for long periods of time. Relationships, over the Christmas period, can break down at any time of the day or night, and I just really want some reassurance that, as First Minister, you will ensure that those people who do become desperate in their need for support over this time will have the support agencies there and accessible, so that they are supported.

Brif Weinidog, mae'r holl dystiolaeth yn awgrymu, wrth i ni nesáu at y Nadolig a'r hyn a ddylai fod yn adeg deuluol, hapus, heddychlon ac ysbrydol, y gall achosi'n aml i lawer o berthnasoedd personol deimlo dan straen am wahanol resymau—tensiynau teuluol, diweithdra, caledi economaidd neu ariannol, neu salwch hyd yn oed. Yn anffodus, er bod gennym asiantaethau gwych sy'n gweithredu drwy gydol y flwyddyn, yn ystod cyfnod y Nadolig—ac mae gennym ni ddiwylliant naw tan bump—mae llawer o'n gwasanaethau cyhoeddus a'n hasiantaethau cymorth ar gau am gyfnodau hir. Gall perthnasoedd chwalu ar unrhyw adeg o'r dydd neu'r nos dros gyfnod y Nadolig, a hoffwn gael rhywfaint o sicrwydd y byddwch chi, fel y Prif Weinidog, yn sicrhau y bydd yr asiantaethau cymorth ar gael ac yn hygyrch i'r bobl hynny sydd angen cymorth yn daer yn ystod y cyfnod hwn, fel eu bod yn cael eu cefnogi.

14:20 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Many public agencies, of course, do maintain teams that deal with acute situations, where they need to, and many third sector organisations do work very strongly over Christmas. We will know that, for many, Christmas is a time of joy. For others, it is not, particularly those who live on their own. It has been a well-documented fact for some time now that there is an increased risk of suicide among people who are on their own at Christmas time, very sadly. So, I would expect those public agencies that need to offer acute services to have teams available, where they are required, working with those third sector organisations that do provide so much support over the Christmas period.

Mae llawer o asiantaethau cyhoeddus, wrth gwrs, yn cynnal timau sy'n ymdrin â sefyllfaoedd acíwt, pan fo angen iddynt wneud hynny, ac mae llawer o fudiadau trydydd sector yn gweithio'n gryf iawn dros y Nadolig. Rydym yn gwybod bod y Nadolig, i lawer, yn adeg o lawenydd. I eraill, nid yw hynny'n wir, yn enwedig y rhai sy'n byw ar eu pennau eu hunain. Mae wedi bod yn ffaith hysbys ers cryn amser bellach bod perygl uwch o hunanladdiad ymhlith pobl sydd ar eu pennau eu hunain ar adeg y Nadolig, yn anffodus iawn. Felly, byddwn yn disgwyl i'r asiantaethau cyhoeddus hynny y mae angen iddynt gynnig gwasanaethau acíwt fod â thimau ar gael, pan fo eu hangen, gan weithio gyda'r sefydliadau trydydd sector hynny sy'n darparu cymaint o gymorth dros gyfnod y Nadolig.

14:21 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister.

Diolch yn fawr, Brif Weinidog.

14:21 **Datganiad a Chyhoeddiad Busnes** / **Business Statement and Announcement** Y Senedd.tv Fideo Video

## Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

I call the Minister for Finance and Government Business, Jane Hutt.

Galwaf ar Weinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, Jane Hutt.

14:21

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

No questions have been tabled for answer by the Counsel General or the Assembly Commission this week, so timings for tomorrow have been adjusted accordingly, and business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, to be found among the agenda papers available to Members electronically.

Nid oes cwestiynau wedi'u cyflwyno i'w hateb gan y Cwnsler Cyffredinol na Chomisiwn y Cynulliad yr wythnos hon, felly mae’r amserlen ar gyfer yfory wedi ei haddasu’n unol â hynny, ac mae busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel a welir ar y datganiad a chyhoeddiad busnes, sydd i'w weld ymhlith y papurau agenda sydd ar gael i'r Aelodau’n electronig.

14:21

## Paul Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would be grateful, Minister, if you could ask the Minister for Health and Social Services to bring forward an urgent statement on the future of accident and emergency services and, indeed, other services at Withybush General Hospital. Even though the local health board issued a statement last night denying that A&E services would be downgraded to a 12-hour model, the Hywel Dda Local Health Board press release confirms that it has only identified support to maintain this service in the weeks to come. In fact, the leaked report confirms that urgent plans need to be put in place to get Withybush hospital through to the end of May 2015. Now, this revelation, frankly, is quite shocking, because it seems to me that attempts are being made to politicise this issue, given that it wants to ensure that the full-time A&E service continues only until after the general election. The report goes on to say that the current 24-hour A&E model is no longer safely sustainable and will not be sustainable in the future. The report also states:

Byddwn yn ddiolchgar, Weinidog, pe gallech ofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyflwyno datganiad brys ar ddyfodol gwasanaethau damweiniau ac achosion brys ac, yn wir, gwasanaethau eraill yn Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg. Er bod y bwrdd iechyd lleol wedi cyhoeddi datganiad neithiwr yn gwadu y câi gwasanaethau damweiniau ac achosion brys eu hisraddio i fodel 12 awr, mae’r datganiad i'r wasg gan Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda yn cadarnhau mai dim ond am rai wythnosau y maent wedi nodi cefnogaeth i gynnal y gwasanaeth hwn. Mewn gwirionedd, mae'r adroddiad a ddatgelwyd yn cadarnhau bod angen rhoi cynlluniau brys ar waith er mwyn cynnal ysbyty Llwynhelyg tan ddiwedd mis Mai 2015. Nawr, mae’r datguddiad hwn, a dweud y gwir, yn dra brawychus, oherwydd mae'n ymddangos i mi bod ymgais yma i droi’r mater hwn yn un gwleidyddol, o gofio mai dim ond tan ar ôl yr etholiad cyffredinol y maent am sicrhau bod y gwasanaeth Damweiniau ac Achosion Brys llawn amser yn parhau. Mae'r adroddiad yn mynd ymlaen i ddweud nad yw’r model Damweiniau ac Achosion Brys 24 awr presennol yn gynaliadwy a diogel erbyn hyn ac na fydd yn gynaliadwy yn y dyfodol. Mae’r adroddiad hefyd yn datgan:

‘WGH would therefore stop providing access to ENT, Ophthalmology, Urology, Palliative Care, Oncology, Paediatrics, Gynaecology and other specialist services, limiting provision at WGH to those services at WGH which are fully staffed and skilled.’

'Byddai Ysbyty Llwynhelyg felly yn rhoi'r gorau i ddarparu gwasanaethau ENT, Offthalmoleg, Wroleg, Gofal Lliniarol, Oncoleg, Pediatreg, Gynecoleg a gwasanaethau arbenigol eraill, gan gyfyngu ar y ddarpariaeth yn Ysbyty Llwynhelyg i'r gwasanaethau hynny yn Ysbyty Llwynhelyg y mae cyflenwad llawn o staff a sgiliau ar eu cyfer.'

Now this, of course, is extremely worrying and I would ask you to ensure that the Welsh Government intervenes and that full-time A&E services and other essential services continue at Withybush hospital. I would therefore ask that the Minister for Health and Social Services bring forward an urgent statement as soon as possible to reassure my constituents that Withybush hospital will not be downgraded.

Nawr mae hyn, wrth gwrs, yn peri pryder mawr ac rwyf yn gofyn ichi sicrhau bod Llywodraeth Cymru’n ymyrryd a bod gwasanaethau Damweiniau ac Achosion Brys llawn amser a gwasanaethau hanfodol eraill yn parhau yn Ysbyty Llwynhelyg. Byddwn, felly, yn gofyn i’r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyflwyno datganiad brys cyn gynted â phosibl i sicrhau fy etholwyr na chaiff ysbyty Llwynhelyg ei israddio.

14:23 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I am happy to respond to Paul Davies's question. The Hywel Dda Local Health Board has confirmed that the emergency and urgent care centre at Withybush hospital remains open 24 hours a day and remains committed to the long-term provision of the service. Of course, the Minister for Health and Social Services is to answer health questions tomorrow and can deal with any further queries about this story then.

Rwyf yn hapus i ymateb i gwestiwn Paul Davies. Mae Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda wedi cadarnhau bod y ganolfan argyfyngau a gofal brys yn Ysbyty Llwynhelyg yn parhau i fod ar agor 24 awr y dydd ac yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddarparu'r gwasanaeth yn yr hirdymor. Wrth gwrs, bydd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ateb cwestiynau ynglŷn ag iechyd yfory a bydd yn gallu ateb unrhyw ymholiadau pellach am y stori hon bryd hynny.

14:24 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Last week, I went to Velindre hospital, in my constituency, to a celebration of 20 years of clinical trials at the hospital. I was able to speak at first hand to patients who told me how much these trials meant to them, both personally and for the excellent research that has been done there. Of course, we know that a letter was sent out in England last week—it was quickly withdrawn, but we saw the train of thought—threatening that NHS funding in England would be withdrawn from clinical trials. Do you not think that it is about time that we had a debate on all the good things that are happening in the NHS in Wales, so that we can highlight things like the research that is going on in clinical trials at Velindre?

Yr wythnos diwethaf, es i i ysbyty Felindre, yn fy etholaeth, i ddathlu 20 mlynedd o dreialon clinigol yn yr ysbyty. Ces siarad yn uniongyrchol â chleifion a ddywedodd wrthyf faint y mae'r treialon hyn yn ei olygu iddynt, yn bersonol ac o ran yr ymchwil rhagorol sydd wedi ei wneud yno. Wrth gwrs, gwyddom fod llythyr wedi'i ddosbarthu yn Lloegr yr wythnos diwethaf—cafodd ei dynnu'n ôl yn gyflym, ond gwelsom y meddwl y tu ôl iddo—yn bygwth y câi cyllid y GIG yn Lloegr ei dynnu'n ôl oddi ar dreialon clinigol. Onid ydych yn credu ei bod yn hen bryd inni gael dadl am yr holl bethau da sy'n digwydd yn y GIG yng Nghymru, fel y gallwn dynnu sylw at bethau fel yr ymchwil sy'n digwydd mewn treialon clinigol yn Felindre?

14:24 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank Julie Morgan, Member for Cardiff North, for that important question, because, of course, we—I am sure, across this Chamber—would recognise the importance of clinical trials and that record particularly at Velindre hospital. However, I think that her wider point is well made, namely that we need to ensure that the good news in terms of the success of the Welsh NHS is shared in this Chamber and across the whole of Wales.

Diolch i Julie Morgan, Aelod Gogledd Caerdydd, am y cwestiwn pwysig yna, oherwydd, wrth gwrs, byddem—rwyf yn siŵr, ar draws y Siambr hon—yn cydnabod pwysigrwydd treialon clinigol, a'r hanes hwnnw'n arbennig yn Ysbyty Felindre. Fodd bynnag, rwyf yn meddwl bod ei phwynt ehangach wedi'i wneud yn dda, sef bod angen inni sicrhau bod y newyddion da am lwyddiant y GIG yng Nghymru'n cael ei rannu yn y Siambr hon a ledled Cymru gyfan.

14:25 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I also want to add my calls for a statement on Withybush hospital. We do have an opportunity to question the Minister tomorrow, and I hope that an opportunity does arise for me to do so. However, a couple of important things have been said by the health board today that deserve national Government attention. First and foremost, the use of GPs in the 24/7 operation of an A&E department strikes me as somewhat unusual, and something that does not give confidence to local people as to the—[Interruption.] I do not know whether the Member for Brecon and Radnorshire also has a contribution to make to the business statement, but she is welcome to take my place now if she wants to.

Hoffwn hefyd ychwanegu fy ngalwadau am ddatganiad ynghylch ysbyty Llwynhelyg. Mae gennym ni gyfle i holi'r Gweinidog yfory, a gobeithiaf y daw cyfle i mi wneud hynny. Fodd bynnag, mae'r bwrdd iechyd wedi dweud un neu ddau o bethau pwysig heddiw sy'n haeddu sylw Llywodraeth genedlaethol. Yn gyntaf oll, mae defnyddio meddygon teulu wrth gynnal adran damweiniau ac achosion brys 24/7 yn fy nharo fel bod braidd yn anarferol, ac yn rhywbeth nad yw'n rhoi hyder i bobl leol ynglŷn â—[Torri ar draws.] Nid wyf yn gwybod a hoffai Aelod Brycheiniog a Sir Faesyfed gyfrannu at y datganiad busnes hefyd, ond mae croeso iddi gymryd fy lle nawr pe hoffai wneud hynny.

Looking at what is happening with the use of GPs in the A&E department in the hospital, it is something that will be of concern to local people. I hope therefore that we can have a national look at this, as it is something that has also happened in Prince Philip Hospital, which led to a different kind of approach, which was not a full acute A&E service. Whether that is good or bad, it needs to be explained to the people of Pembrokeshire if that is what is going to happen.

O edrych ar yr hyn sy'n digwydd o ran defnyddio meddygon teulu yn yr adran damweiniau ac achosion brys yn yr ysbyty, mae'n rhywbeth a fydd yn peri pryder i bobl leol. Rwyf yn gobeithio, felly, y gallwn edrych ar hyn yn genedlaethol, gan ei fod yn rhywbeth sydd hefyd wedi digwydd yn Ysbyty'r Tywysog Philip, a arweiniodd at ddefnyddio dulliau gwahanol, heb fod yn wasanaeth acíwt llawn Damweiniau ac Achosion Brys. Pa un a yw hynny'n dda neu'n ddrwg, mae angen ei esbonio i bobl Sir Benfro, os mai dyna beth fydd yn digwydd.

What is happening at the moment has been described in an internal departmental report as being 'unsafe', and I am concerned that something has been cobbled together and is not there as a sustainable, safe service. That needs a national look, and I would appreciate a statement from the Minister as to whether he has looked at this situation and found it to be a sustainable, safe way of operating A&E. If that is not the case, let us have an honest debate about where an A&E department will be available in the Hywel Dda region going forward, and what the new way of looking at acute or unscheduled care will be in the other hospitals.

Mae'r hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd wedi ei ddisgrifio mewn adroddiad adrannol mewnol fel bod yn 'anniogel', ac rwyf yn poeni bod rhywbeth wedi cael ei glytio at ei gilydd ac nad yw'n wasanaeth cynaliadwy, diogel. Mae angen edrych yn genedlaethol ar hynny, a byddwn yn gwerthfawrogi datganiad gan y Gweinidog i nodi pa un a yw wedi edrych ar y sefyllfa hon a'i gweld yn ffordd gynaliadwy, ddiogel o weithredu Damweiniau ac Achosion Brys. Os nad yw, dewch inni gael dadl onest ynglŷn â ble y bydd adran damweiniau ac achosion brys ar gael yn rhanbarth Hywel Dda wrth symud ymlaen, a beth fydd y ffordd newydd o edrych ar ofal acíwt neu heb ei drefnu yn yr ysbytai eraill.

14:27 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am also happy to respond to Simon Thomas's question. As he said, there will be opportunities tomorrow to question the Minister for Health and Social Services on this matter. It is important to recognise that these challenges are faced by many NHS organisations across the UK. As to the document that is being referred to, it is a story, as I said in response to the first question; it is the viewpoint of a single consultant at one point in time and does not represent a decision by the local health board. It is important to put that on the record. Changes to paediatric services at the hospital have not resulted in this position. This is a reflection of issues that, as I said, are shared and being addressed in the health service across the UK.

Rwyf hefyd yn hapus i ateb cwestiwn Simon Thomas. Fel y dywedodd, bydd cyfleoedd yfory i holi'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y mater hwn. Mae'n bwysig cydnabod bod llawer o sefydliadau GIG ledled y Deyrnas Unedig yn wynebu'r heriau hyn. O ran y ddogfen y cyfeiriwyd ati, stori ydyw, fel y dywedais wrth ateb y cwestiwn cyntaf; safbwynt un ymgynghorydd ar un adeg ydyw, ac nid yw'n cynrychioli penderfyniad gan y bwrdd iechyd lleol. Mae'n bwysig rhoi hynny ar y cofnod. Nid newidiadau i wasanaethau pediatrig yn yr ysbyty sydd wedi arwain at y sefyllfa hon. Mae hyn yn adlewyrchu materion sydd, fel y dywedais, yn cael eu rhannu ac yn cael sylw yn y gwasanaeth iechyd ledled y DU.

14:28 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am more than happy to join the calls from the Member for Preseli Pembrokeshire and the regional Member for Mid and West Wales in asking the Government to bring forward a statement as soon as possible on services at Withybush. Over the last 24 hours, people living in that area who depend on those services will have seen inconsistent and mixed messages coming from a variety of sources about the future nature of services in that hospital. I note the Minister for Government business's description of Withybush as having an 'urgent care centre', which, of course, is not the same as an A&E department. Some clarity from the Welsh Government as to its understanding of the situation would be beneficial to all concerned, as would be an opportunity to discuss what particular plans the Welsh Government has to overcome what is a national problem with regards to the recruitment of consultants. Obviously, we would need to hear what the Welsh Government is doing with regard to that in the Welsh context.

Rwyf yn fwy na pharod i ymuno â'r galwadau gan Aelod Preseli Sir Benfro ac Aelod rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru i ofyn i'r Llywodraeth gyflwyno datganiad cyn gynted â phosibl am wasanaethau yn Llwynhelyg. Dros y 24 awr diwethaf, bydd pobl sy'n byw yn yr ardal honno ac sy'n dibynnu ar y gwasanaethau hynny wedi gweld negeseuon anghyson a chymysg yn dod o amrywiaeth o ffynonellau am natur gwasanaethau yn y dyfodol yn yr ysbyty hwnnw. Nodaf ddisgrifiad Gweinidog busnes y Llywodraeth o Lwynhelyg fel bod â 'chanolfan gofal brys', sydd, wrth gwrs, yn wahanol i adran damweiniau ac achosion brys. Byddai rhywfaint o eglurder gan Lywodraeth Cymru o ran ei dealltwriaeth o'r sefyllfa o fudd i bawb dan sylw, fel y byddai cyfle i drafod pa gynlluniau penodol sydd gan Lywodraeth Cymru i oresgyn y broblem genedlaethol hon o ran recriwtio ymgynghorwyr. Yn amlwg, byddai angen inni glywed beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud ynglŷn â hynny yng nghyd-destun Cymru.

Secondly, will the Minister arrange for a statement from the Minister for Natural Resources regarding the use of commuted sums in the planning process? Commuted sums can play a valuable role in helping to secure affordable units, which are much needed in national park areas and in other parts of rural Wales, to allow young people—indeed, some people who wish to work in our rural hospitals—to remain in their local areas. However, there is some concern about how commuted sum policies are being operated by some planning departments and national parks. Some clarity from the Minister with regard to policies related to commuted sums would be most welcome.

Yn ail, a wnaiff y Gweinidog drefnu datganiad gan y Gweinidog Adnoddau Naturiol ynghylch defnyddio symiau gohiriedig yn y broses gynllunio? Gall symiau gohiriedig chwarae rhan werthfawr wrth helpu i sicrhau unedau fforddiadwy, y mae angen mawr amdanynt mewn ardaloedd parciau cenedlaethol ac mewn rhannau eraill o Gymru wledig, i ganiatáu i bobl ifanc—yn wir, rhai pobl sy'n dymuno gweithio yn ein hysbytai gwledig—aros yn eu hardaloedd lleol. Fodd bynnag, mae cryn bryder ynghylch sut y mae rhai adrannau cynllunio a pharciau cenedlaethol yn gweithredu polisïau symiau gohiriedig. Byddai rhywfaint o eglurder gan y Gweinidog ynglŷn â pholisïau sy'n ymwneud â symiau gohiriedig i'w groesawu'n fawr.

14:29 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Kirsty Williams for those questions. In terms of your first question, it is important to recognise recruitment challenges, which you do, across the whole of the NHS. I do want again—and it is on the record—to say, in response to Paul Davies, that Hywel Dda Local Health Board has confirmed that the emergency and urgent care centre at Withybush hospital remains open 24 hours a day, and it remains committed to the long-term provision of this service.

Diolch i Kirsty Williams am y cwestiynau yna. O ran eich cwestiwn cyntaf, mae'n bwysig cydnabod heriau recriwtio, fel yr ydych yn ei wneud, ar draws y GIG cyfan. Hoffwn ddweud unwaith eto—ac mae hyn ar y cofnod—mewn ymateb i Paul Davies, bod Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda wedi cadarnhau bod y ganolfan argyfyngau a gofal brys yn Ysbyty Llwynhelyg yn parhau i fod ar agor 24 awr y dydd, a'i fod yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn yr hirdymor.

I will, of course, draw your question to the attention of the Minister for Natural Resources, and ask him to write to you in terms of the use of the communities fund in relation to national parks.

Byddaf, wrth gwrs, yn tynnu sylw'r Gweinidog Adnoddau Naturiol at eich cwestiwn, ac yn gofyn iddo ysgrifennu atoch ynglŷn â defnyddio'r gronfa cymunedau mewn cysylltiad â pharciau cenedlaethol.

14:30 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Could I seek two statements, please, leader of the house? The first is on eye services here in Wales. Obviously, the RNIB brought forward a comprehensive report—and I can see that the Minister for health is in his place, and is acknowledging the report—that highlighted some of the serious deficiencies in the service across Wales, and, in particular, in relation to the wet macular degeneration condition of eyes. This is a really important area in which the Welsh Government has changed the funding mechanism to directly fund local health boards as of 1 November. There is a real issue about the Welsh Government and local health boards, moving to this financial model now, being able to meet the increasing demand that the service faces. I have been told that the figure is about 1,000 new cases a year, and, obviously, going to a block-funded mechanism, rather than a tariff-funded system, will create huge pressures on the local health boards to meet that ever-increasing demand. I would be very grateful to understand exactly how the Welsh Government has devised its block funding, which has gone out to the health boards, to meet that demand. In fairness to the previous Minister for health, in the last Assembly, she put in place a comprehensive programme to deal with this condition, and I think that it was, in fairness, an exemplary model of the way to deal with the condition. However, all that good work is threatened now by what I see as a backward step in funding this condition, and I would be grateful for a statement from the Minister for health as to his logic in doing this.

A gaf fi ofyn am ddau ddatganiad, os gwelwch yn dda, arweinydd y tŷ? Mae'r cyntaf yn ymwneud â gwasanaethau llygaid yma yng Nghymru. Yn amlwg, cyflwynodd yr RNIB adroddiad cynhwysfawr—a gallaf weld bod y Gweinidog iechyd yn ei le, ac yn cydnabod yr adroddiad—a amlygodd rai o'r diffygion difrifol yn y gwasanaeth ledled Cymru, ac, yn arbennig, o ran cyflwr dirywiad macwlaidd gwlyb llygaid. Mae hwn yn faes pwysig iawn lle mae Llywodraeth Cymru wedi newid y mecanwaith ariannu i ariannu byrddau iechyd lleol yn uniongyrchol o 1 Tachwedd ymlaen. Mae problem wirioneddol o ran gallu Llywodraeth Cymru a byrddau iechyd lleol, wrth droi at y model ariannol hwn yn awr, i ateb y galw cynyddol sy'n wynebu'r gwasanaeth. Rwyf wedi cael gwybod bod y ffigur oddeutu 1,000 o achosion newydd bob blwyddyn, ac, yn amlwg, bydd troi i fecanwaith ariannu bloc, yn hytrach na system dariff, yn creu pwysau enfawr ar y byrddau iechyd lleol i fodloni galw sy'n cynyddu drwy'r amser. Byddwn yn ddiolchgar iawn o ddeall sut yn union y mae Llywodraeth Cymru wedi dyfeisio ei chyllid bloc, sydd wedi mynd allan i'r byrddau iechyd, er mwyn ateb y galw hwnnw. Er tegwch i'r Gweinidog iechyd blaenorol, yn y Cynulliad diwethaf, sefydlodd hi raglen gynhwysfawr i ymdrin â'r cyflwr hwn, ac rwyf yn meddwl ei fod, i fod yn deg, yn fodel rhagorol o'r ffordd i ymdrin â'r cyflwr. Fodd bynnag, mae'r holl waith da hwnnw dan fygythiad erbyn hyn gan yr hyn sy'n ymddangos i mi fel cam yn ôl o ran ariannu'r cyflwr hwn, a byddwn yn ddiolchgar am ddatganiad gan y Gweinidog iechyd ynghylch ei resymeg wrth wneud hyn.

The second statement that I would like, if possible, please, is a statement from the Minister for Economy, Science and Transport in relation to the route development money that has been made available to Cardiff Airport. How exactly will this money—should the budget pass, obviously, because the budget is still awaiting a final vote here in the Assembly—be used by Cardiff Airport to attract new airlines? What conditions, if any, have been attached to that money, and what are the repayment terms, because I understand that it is a loan, rather than just a grant given to the airport? So, I would be interested—and I am sure that other Members would be interested—to know how this money is going to operate, and hopefully be a successful tool to deliver new airlines to Cardiff Airport.

Yr ail ddatganiad a hoffwn, os yn bosibl, os gwelwch yn dda, yw datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ynglŷn â'r arian datblygu llwybrau a ddarparwyd i Faes Awyr Caerdydd. Sut yn union y caiff yr arian hwn—os caiff y gyllideb ei chymeradwyo, yn amlwg, oherwydd mae'r gyllideb yn dal i aros am bleidlais derfynol yma yn y Cynulliad—ei ddefnyddio gan Faes Awyr Caerdydd i ddenu cwmnïau hedfan newydd? Pa amodau, os oes rhai, sydd wedi'u rhoi ynghlwm wrth yr arian hwnnw, a beth yw'r telerau ad-dalu, oherwydd rwyf ar ddeall mai benthyciad ydyw, yn hytrach na grant a roddir i'r maes awyr? Felly, byddai gennyf ddiddordeb—ac rwyf yn siŵr y byddai gan Aelodau eraill ddiddordeb—mewn cael gwybod sut y bydd yr arian hwn yn gweithredu, a sut y bydd, gobeithio, yn offeryn llwyddiannus i gyflwyno cwmnïau hedfan newydd i Faes Awyr Caerdydd.

14:32 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Andrew R.T. Davies, for those questions. I want to make it very clear about our commitment to eye care as a Welsh Government. In fact, we were the first Government in the world to have an eye care plan, 'Together for Health: Eye Health Care Delivery Plan for Wales 2013-2018', and that was launched by our Minister for Health and Social Services last year. It set out plans for further improvements to services over the next five years. Of course, it is clear also that we announced £600,000 very recently to boost more eye care closer to people's homes. So, there is significant progress in detecting and tackling conditions, having an impact on people's sight. Also, figures from Moorfields Eye Hospital, in terms of visual impairment, show that, across Wales and England, the numbers certified as having visual impairment have fallen over the past five years, and that is because we have responded to opportunities in terms of detection and treatment.

Diolch, Andrew R.T. Davies, am y cwestiynau yna. Hoffwn ei gwneud yn glir iawn ynghylch ein hymrwymiad i ofal llygaid fel Llywodraeth Cymru. Yn wir, ni oedd y Llywodraeth gyntaf yn y byd i fod â chynllun gofal llygaid, 'Law yn Llaw at Iechyd: Cynllun Cyflenwi Gofal Iechyd Llygaid Cymru 2013-2018'; cafodd ei lansio gan ein Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y llynedd. Roedd yn nodi cynlluniau i wella gwasanaethau ymhellach dros y pum mlynedd nesaf. Wrth gwrs, mae'n amlwg hefyd ein bod wedi cyhoeddi £600,000 yn ddiweddar iawn i hybu mwy o ofal llygaid yn nes at gartrefi pobl. Felly, ceir cynnydd sylweddol o ran canfod cyflyrau sy'n effeithio ar olwg pobl a rhoi sylw iddynt. Hefyd, mae ffigurau o Ysbyty Llygaid Moorfields, o ran nam ar y golwg, yn dangos, ledled Cymru a Lloegr, bod niferoedd ardystiedig y bobl â nam ar y golwg wedi gostwng dros y pum mlynedd diwethaf, ac mae hynny oherwydd ein bod wedi ymateb i gyfleoedd o ran canfod a thriniaeth.

On your second point, of course, this is a loan in terms of route development, and it is for Cardiff Airport to use this as it thinks fit.

O ran eich ail bwynt, wrth gwrs, benthyciad yw hwn ar gyfer datblygu llwybrau, a chyfrifoldeb Maes Awyr Caerdydd yw penderfynu sut i'w ddefnyddio fel y mae'n gweldd orau.

14:34 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, the First Minister earlier said that there should not be a difference between Wales and Scotland with regard to the Smith commission. Section 39 of that report looks at the changes that will be made to the Maritime and Coastguard Agency. For example, there will be a formal consultative role for the Scottish Government and Parliament in setting the strategic position for the MCA in Scotland, they will be able to nominate somebody to go on the MCA board from Scotland, and they will report back to Scottish committees with specific regard to coastguard issues. You will know that Swansea coastguard station has been proposed for closure in March. I wonder whether we could have a statement updating Members on what you have been doing to put pressure on the UK Government so that we have these similar consultative roles that the Scottish Government has been fighting for.

Weinidog, dywedodd y Prif Weinidog yn gynharach na ddylai fod gwahaniaeth rhwng Cymru a'r Alban o ran comisiwn Smith. Mae adran 39 yr adroddiad hwnnw'n edrych ar y newidiadau a fydd yn cael eu gwneud i Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau. Er enghraifft, bydd Llywodraeth a Senedd yr Alban yn chwarae rhan ymgynghorol ffurfiol yn y broses o bennu safbwynt strategol yr Asiantaeth yn yr Alban, byddant yn gallu enwebu rhywun i fynd ar fwrdd yr Asiantaeth o'r Alban, a bydd yn adrodd yn ôl i bwyllgorau'r Alban gyda golwg benodol ar faterion sy'n ymwneud â gwylwyr y glannau. Byddwch yn gwybod bod cynnig wedi'i wneud i gau gorsaf gwylwyr y glannau Abertawe ym mis Mawrth. Tybed a allem ni gael datganiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau am yr hyn yr ydych wedi bod yn ei wneud i roi pwysau ar Lywodraeth y DU fel bod gennym ni swyddogaethau ymgynghorol tebyg i'r rhai y mae Llywodraeth yr Alban wedi bod yn brwydro amdanynt.

At the end of the day, people have been asking me to raise this issue for some time, not knowing fully what the Welsh Government is currently doing. With respect, we know that you do not have the powers here in Wales. However, they want to know that the Welsh Government is fighting just as strongly on this issue because they are facing job losses and because they are facing a situation where new staff will not have the same expertise and local expertise as current staff in Swansea do. It is vital that we have a statement from you, updating us on this most important issue.

Yn y pen draw, mae pobl wedi bod yn gofyn imi godi'r mater hwn ers peth amser, heb wybod yn union beth mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud ar hyn o bryd. Gyda phob parch, gwyddom nad oes gennych y pwerau yma yng Nghymru. Fodd bynnag, maent eisiau gwybod bod Llywodraeth Cymru'n ymladd yr un mor gryf ar y mater hwn oherwydd maent yn wynebu colli swyddi ac yn wynebu sefyllfa lle na fydd gan staff newydd yr un arbenigedd ac arbenigedd lleol ag sydd gan y staff presennol yn Abertawe. Mae'n hanfodol ein bod yn cael datganiad gennych, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am y mater pwysig iawn hwn.

14:35 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As Bethan Jenkins has said, clearly, this is the responsibility of the UK Government and we worked hard, as you know, to oppose the downgrading of the Maritime and Coastguard Agency, which, of course, is crucial to our coastal regions in Wales. Of course, this is something where clear representations by our Ministers were made to the UK Government. Of course, we welcome the fact that this is, again, yet another proposal in the Smith commission that we would want to look at very carefully in terms of ensuring that we could have the same powers transferred to Wales.

Fel y dywedodd Bethan Jenkins, yn amlwg, cyfrifoldeb Llywodraeth y DU yw hyn, ac rydym yn gweithio'n galed, fel y gwyddoch, i wrthwynebu israddio Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau, sydd, wrth gwrs, yn hanfodol i'n rhanbarthau arfordirol yng Nghymru. Wrth gwrs, mae hwn yn faes y mae ein Gweinidogion wedi gwneud sylwadau clir amdano i Lywodraeth y DU. Wrth gwrs, rydym yn croesawu'r ffaith bod hwn yn gynnig arall eto yng nghomisiwn Smith yr hoffem edrych arno'n ofalus iawn o ran sicrhau bod yr un pwerau'n cael eu trosglwyddo i ni yng Nghymru.

14:36 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, mae cryn sylw wedi bod ers dydd Iau ynghylch nifer yr ambiwlansys sydd wedi bod yn aros y tu allan i Ysbyty Maelor Wrecsam. Mae'r bwrdd iechyd wedi cyfaddef y bore yma fod cynnydd o ryw 30% yn y niferoedd sy'n mynd mewn i'r ysbyty ar hyn o bryd. Gyda hynny'n gefndir, mae'r bwrdd iechyd wedi gostwng nifer y gwelyau yn Wrecsam o ryw 120 yn ystod y tair blynedd diwethaf. Felly, rwyf yn gofyn i chi, wrth ystyried bod y Llywodraeth yn ymyrryd ar hyn o bryd yn y bwrdd iechyd, am ddatganiad ynglŷn â'r monitro sy'n cael ei wneud o'r bwrdd iechyd ynghylch pa mor ddigonol yw ei gynlluniau ar gyfer y gaeaf, o ystyried y problemau mae pobl gogledd-ddwyrain Cymru yn eu hwynebu ar hyn o bryd.

Minister, there has been a great deal of attention since Thursday regarding the number of ambulances waiting outside Wrexham Maelor Hospital. The health board has admitted this morning that there has been an increase of approximately 30% in the numbers admitted to the hospital at present. Given that background, the health board has reduced the number of beds in Wrexham by about 120 over the past three years. So, in considering the fact that the Government is intervening at present within the health board, may I ask for a statement on the monitoring that is being undertaken of the health board as regards whether its winter preparedness plans are adequate, considering the problems that the people of north-east Wales are facing at present?

14:37 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I know that Aled Roberts will be very clearly aware of the winter preparedness plans in terms of the statements that have already been made by Ministers and also the response from the Deputy Minister for Health last week in relation to the ambulance service. Clearly, in terms of the pressures on the ambulance service as winter approaches, it is key that the ambulance service must provide that swift response and health boards must ensure that patients are taken off ambulances quickly when they are arrive at hospital so that they can be released. Also, there is an opportunity for people to respond well in terms of using NHS services appropriately, such as using NHS Direct Wales and pharmacies for advice and healthcare relating to minor injuries and illnesses, leaving 999 for the serious illnesses and injuries or when someone's life is at risk.

Gwn y bydd Aled Roberts yn amlwg iawn yn ymwybodol o'r cynlluniau parodrwydd gaeaf o ran y datganiadau sydd eisoes wedi eu gwneud gan Weinidogion a hefyd yr ymateb gan y Dirprwy Weinidog Iechyd yr wythnos diwethaf ynglŷn â'r gwasanaeth ambiwlans. Yn amlwg, o ran y pwysau ar y gwasanaeth ambiwlans wrth i'r gaeaf agosáu, mae'n allweddol bod yn rhaid i'r gwasanaeth ambiwlans ddarparu'r ymateb cyflym hwnnw a bod yn rhaid i fyrddau iechyd sicrhau bod cleifion yn cael eu symud oddi ar ambiwlansys yn gyflym ar ôl cyrraedd yr ysbyty fel y gellir eu rhyddhau. Hefyd, ceir cyfle i bobl ymateb yn dda o ran defnyddio gwasanaethau'r GIG yn briodol, megis defnyddio Galw Iechyd Cymru a fferyllfeydd i gael cyngor a gofal iechyd sy'n ymwneud â mân anafiadau ac afiechydon, gan adael 999 i salwch ac anafiadau difrifol neu pan fydd bywyd rhywun mewn perygl.

14:38

## Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I echo the concerns from Aled Roberts. As we know, there were over 15 ambulances, or 15 ambulances and one ambulance car, stacked up outside the Maelor hospital yesterday. It is of concern, Minister. I think, with the loss of 120 beds, it is perhaps not the winter preparedness, but the issue of bedblocking. It seems to me that the ambulance service is highly unlikely to be able to meet its targets if it is being delayed and not able to unload its patients at hospital quickly. Quite frankly, 15 ambulances ties up many of the ambulances available to go to assist others in north Wales and that was just at the Maelor. Perhaps we could have a statement from the Minister for health on bedblocking or even an assessment of the suitability of the number of beds to deal with the demands in the system that we know are there. That is the first matter that I would like a statement on, leader of the house.

Ategaf bryderon Aled Roberts. Fel y gwyddom, roedd dros 15 o ambiwlansys, neu 15 ambiwlans ac un car ambiwlans, wedi’u pentyrru y tu allan i Ysbyty Maelor ddoe. Mae'n destun pryder, Weinidog. Rwyf yn meddwl, gan fod 120 o welyau wedi’u colli, ei bod yn bosibl nad mater o barodrwydd am y gaeaf yw hwn, ond mater o flocio gwelyau. Mae'n ymddangos i mi ei bod yn annhebygol iawn y gall y gwasanaeth ambiwlans gyrraedd ei dargedau os yw’n wynebu oediadau a ddim yn gallu dadlwytho cleifion yn yr ysbyty’n gyflym. A dweud y gwir, mae 15 o ambiwlansys yn golygu llawer o ambiwlansys nad ydynt ar gael i fynd i gynorthwyo eraill yn y gogledd, a dim ond yn y Maelor oedd hynny. Efallai y gallem gael datganiad gan y Gweinidog iechyd ar flocio gwelyau neu hyd yn oed asesiad o addasrwydd nifer y gwelyau i ymdrin â’r galw y gwyddom sydd yn y system. Dyna’r mater cyntaf yr hoffwn ddatganiad amdano, arweinydd y tŷ.

The second matter is to ask you, in your capacity as Minister for finance, to look at the checks and balances that are in place to safeguard money lent by Finance Wales. In particular, I want to draw your attention to companies going into administration or indeed being offered for sale, and to see whether or not the money lent by Finance Wales is being safeguarded. In my own region, a company called Xwavia that was given a £600,000 loan from the Welsh Government only this May went into administration and it would appear that that loan has been written off. Now, that company has gone into administration, as I understand it; its commitments have been bought by a second firm from the administrators, but there will be no repayment of the loan made by Finance Wales. I wonder whether you would look into it and check that the directors have not received undue benefit from that company going into administration.

Yr ail fater yw gofyn i chi, yn rhinwedd eich swydd fel y Gweinidog cyllid, edrych ar y gweithdrefnau cadw cydbwysedd sydd ar waith i ddiogelu arian a fenthycwyd gan Gyllid Cymru. Yn arbennig, hoffwn dynnu eich sylw at gwmnïau sy’n mynd i ddwylo'r gweinyddwyr neu yn wir yn cael eu cynnig ar werth, a gweld a yw'r arian a fenthycwyd gan Gyllid Cymru wedi’i ddiogelu ai peidio. Yn fy rhanbarth i, aeth cwmni o'r enw Xwavia i ddwylo'r gweinyddwyr ym mis Mai, ar ôl cael benthyciad o £600,000 gan Lywodraeth Cymru, ac mae'n ymddangos bod dyled y benthyciad hwnnw wedi ei dileu. Nawr, mae’r cwmni hwnnw wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr, yn ôl yr hyn a ddeallaf; mae ail gwmni wedi prynu ei ymrwymiadau gan y gweinyddwyr, ond ni chaiff y benthyciad gan Cyllid Cymru ei ad-dalu. Tybed a wnewch chi edrych ar hyn a sicrhau nad yw'r cyfarwyddwyr wedi cael budd gormodol drwy i’r cwmni hwnnw fynd i ddwylo'r gweinyddwyr.

14:40

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank Antoinette Sandbach for her questions. Again, I will just add to the points about the ambulance service and health boards working together to reduce patient handover times at A&E departments. That is key and that message is very clear from the Government. Also, we have our new four-year plan for Wales’s primary care services, and that is about helping people to be treated and cared for closer to their homes, looking after themselves and, ultimately, avoiding inappropriate and unnecessary hospital admissions.

Diolch i Antoinette Sandbach am ei chwestiynau. Unwaith eto, rwyf am ychwanegu at y pwyntiau am y gwasanaeth ambiwlans a'r byrddau iechyd yn cydweithio i leihau amseroedd trosglwyddo cleifion mewn adrannau damweiniau ac achosion brys. Mae hynny'n allweddol ac mae’r neges honno’n glir iawn gan y Llywodraeth. Hefyd, mae gennym ein cynllun pedair blynedd newydd ar gyfer gwasanaethau gofal sylfaenol Cymru, sy’n ymwneud â helpu pobl i gael eu triniaeth a’u gofal yn nes at eu cartrefi ac edrych ar ôl eu hunain ac, yn y pen draw, osgoi derbyniadau amhriodol a diangen i'r ysbyty.

The second question, I think, is a matter for the Minister for Economy, Science and Transport, and I think that it would be appropriate if you wrote to her on this matter.

Mae’r ail gwestiwn, rwyf yn credu, yn fater i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, a chredaf y byddai'n briodol ichi ysgrifennu ati am y mater hwn.

14:41 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, yesterday was World AIDS Day. While treatment means that someone living with HIV today can expect a normal or near normal life expectancy, early diagnosis is critical to ensuring the best outcomes for that individual and also for controlling the spread of the disease. The NHS in England provides free home-testing kits that are delivered and returned free of charge for patients, which means that it is very easy for people to get a test, but it is also very discreet for them to do so too. A similar scheme, I understand, operates in Scotland, but there is no such scheme in Wales. Could I request a statement from the Minister for Health and Social Services as to why Wales has not signed up for such a scheme, how Wales is facing the challenges of ensuring early diagnosis and appropriate access to treatment for those with a diagnosis, and outlining what action the Welsh Government is taking to tackle the stigma that people living with HIV often face in our communities?

Weinidog, ddoe oedd Diwrnod AIDS y Byd. Er bod triniaeth yn golygu y gall rhywun sy'n byw gyda HIV heddiw ddisgwyl disgwyliad oes normal neu agos i normal, mae diagnosis cynnar yn hanfodol er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i'r unigolyn hwnnw a hefyd er mwyn rheoli lledaeniad y clefyd. Mae'r GIG yn Lloegr yn darparu pecynnau profi yn y cartref rhad ac am ddim sy'n cael eu cyflenwi a'u dychwelyd yn ddi-dâl i gleifion, sy'n golygu ei bod yn hawdd iawn i bobl gael prawf, a gwneud hynny mewn preifatrwydd hefyd. Mae cynllun tebyg, rwyf ar ddeall, ar waith yn yr Alban, ond nid oes cynllun o'r fath yng Nghymru. A gaf fi ofyn am ddatganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch pam nad yw Cymru wedi cyflwyno cynllun o'r fath, sut y mae Cymru'n wynebu heriau sicrhau diagnosis cynnar a mynediad priodol i driniaeth i'r rheini sydd wedi cael diagnosis, ac a ellir amlinellu pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i ymdrin â'r stigma y mae pobl sy'n byw gyda HIV yn aml yn ei wynebu yn ein cymunedau?

14:42 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Eluned Parrott for again reminding us that it was World AIDS Day yesterday. As she says, early diagnosis is so important, as are monitoring and support and tackling stigma. In fact, this is something that the Welsh Government has always treated as a priority and we have given clear guidelines to health boards. Of course, I will be raising these issues in terms of an update perhaps on the services and treatment for HIV.

Diolch i Eluned Parrott am ein hatgoffa unwaith eto ei bod yn Ddiwrnod AIDS y Byd ddoe. Fel y mae hi'n dweud, mae diagnosis cynnar mor bwysig, ynghyd â monitro a chefnogaeth ac ymdrin â stigma. Mewn gwirionedd, mae hyn yn rhywbeth y mae Llywodraeth Cymru wedi ei drin fel blaenoriaeth erioed ac rydym wedi rhoi canllawiau clir i fyrddau iechyd. Wrth gwrs, byddaf yn codi'r materion hyn o ran diweddariad efallai ynglŷn â'r gwasanaethau a'r driniaeth ar gyfer HIV.

14:42 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call for two statements. The initial one is on payment practices and pre-qualification in public sector construction in Wales, reflecting concerns raised by small and medium-sized construction businesses. Each of the 22 local authorities in Wales has been invited to sign up to the Welsh Government's positive construction procurement strategy and construction commitment charter. However, it is understood that less than 50% have to date done so. That being so, we need to know what action you propose to ensure take-up. They also raise concern about the risk to small firms in the supply chain of losing their cash retentions held by tier 1 contractors, many of whom I understand are currently financially unstable. They say that this could be solved by amending SQuID—the supplier qualification and information database—to require tier 1 suppliers to protect cash retentions by issuing bank guarantees or placing them in trust, as in New Zealand, some Australian states and some European states, and/or introducing legislation as in many other jurisdictions to protect retention moneys. I know that you are leading a Government debate on procurement later. If you could address these matters there, that would be very, very welcome. Otherwise, I would invite a statement to address these concerns subsequently.

Galwaf am ddau ddatganiad. Mae'r cyntaf yn ymwneud ag arferion talu a chyn-gymhwyso ym maes adeiladu yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, gan adlewyrchu pryderon a godwyd gan fusnesau adeiladu bach a chanolig. Mae pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru wedi'i wahodd i ymuno â'r strategaeth caffael gwaith adeiladu cadarnhaol a siarter ymrwymiad adeiladu Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, deellir bod llai na 50% wedi gwneud hynny hyd yn hyn. Felly, mae angen inni wybod pa gamau yr ydych yn bwriadu eu cymryd i sicrhau bod mwy ohonynt yn ymuno. Maent hefyd yn codi pryder am y risg i gwmnïau bach yn y gadwyn gyflenwi o golli eu symiau arian parod a gedwir sy'n cael ei ddal gan gontractwyr haen 1; rwyf ar ddeall bod llawer ohonynt yn ansefydlog yn ariannol ar hyn o bryd. Maent yn dweud y gellid datrys hyn drwy ddiwygio SQuID—y cymhwyster a'r gronfa ddata gwybodaeth i gyflenwyr—i'w gwneud yn ofynnol bod cyflenwyr haen 1 yn amddiffyn symiau o arian parod a gedwir drwy gyhoeddi gwarantau banc neu eu rhoi mewn ymddiriedolaethau, fel sy'n digwydd yn Seland Newydd, rhai o daleithiau Awstralia a rhai o wladwriaethau Ewrop, a/neu gyflwyno deddfwriaeth fel sy'n digwydd mewn llawer o awdurdodaethau eraill i ddiogelu arian a gedwir. Gwn y byddwch yn arwain dadl y Llywodraeth ar gaffael yn nes ymlaen. Pe gallech roi sylw i'r materion hyn yno, byddai croeso mawr iawn i hynny. Fel arall, rwyf am wahodd datganiad i roi sylw i'r pryderon hyn ar ôl hynny.

My second and final point is to ask for a statement on the cost of local government mergers. The big news last week got lost in the deadline for local authorities to submit their plans for voluntary mergers to the Welsh Government. The big news was that, at last, we have an independent cost evaluation. The Chartered Institute of Public Finance and Accountancy, commissioned by the Welsh Local Government Association, showed costs of between £160 million and £268 million and a potential saving, three years after the mergers, of £65 million, and that would be through back-office services and front-line services, which, of course, authorities could merge without full merger if they chose to do so. This is very significant at a time when local authorities are considering the way they are going to implement the cuts that are already imposed upon them. I understand that the Labour leader of Flintshire council stated that the merger debate was now a red herring. Conwy and Denbighshire cautioned, in terms of their own proposals:

‘we must make it clear that this is an expression of interest and not a full business case for merger.’

This is a very important report and it does demand a Welsh Government response.

Fy ail bwynt, a'r olaf, yw gofyn am ddatganiad am gost uno llywodraeth leol. Aeth y newyddion mawr yr wythnos diwethaf ar goll yn y dyddiad cau i awdurdodau lleol gyflwyno eu cynlluniau uno gwirfoddol i Lywodraeth Cymru. Y newyddion mawr oedd bod gennym, o'r diwedd, werthusiad cost annibynnol. Dangosodd y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth, a gomisiynwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, gostau rhwng £160 miliwn a £268 miliwn ac arbediad posibl, dair blynedd ar ôl uno, o £65 miliwn, a byddai hynny drwy wasanaethau cefn swyddfa a gwasanaethau rheng flaen; wrth gwrs, gallai awdurdodau uno’r rheini heb uno’n llawn pe byddent yn dewis gwneud hynny. Mae hyn yn arwyddocaol iawn ar adeg pan fo awdurdodau lleol yn ystyried sut y maent yn mynd i weithredu'r toriadau sydd eisoes yn cael eu gorfodi arnynt. Deallaf fod arweinydd Llafur Cyngor Sir y Fflint wedi dweud mai sgwarnog yw’r ddadl uno erbyn hyn. Rhybuddiodd Conwy a Sir Ddinbych, o ran eu cynigion eu hunain:

'rhaid inni ei gwneud yn glir mai mynegiant o ddiddordeb yw hwn, ac nid achos busnes llawn ar gyfer uno.'

Mae hwn yn adroddiad pwysig iawn ac mae angen i Lywodraeth Cymru ymateb iddo.

14:45

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I hope that Mark Isherwood will be able to engage fully in the debate shortly forthcoming this afternoon with the very important points he is making in terms of payment practices and supporting our small to medium-sized enterprises in terms of positive procurement policies in Wales. His second point is a matter for the Minister for Public Services. Of course, he will note the written statement that was made yesterday taking account of the early expressions of interest in terms of voluntary merger.

Gobeithiaf y bydd Mark Isherwood yn gallu cymryd rhan lawn yn y ddadl cyn bo hir y prynhawn yma gyda'r pwyntiau pwysig iawn y mae'n ei wneud ynglŷn ag arferion talu a chefnogi ein busnesau bach a chanolig o ran polisïau caffael cadarnhaol yng Nghymru. Mae ei ail bwynt yn fater i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus. Wrth gwrs, bydd yn nodi'r datganiad ysgrifenedig a wnaethpwyd ddoe gan ystyried y mynegiadau cynnar o ddiddordeb o ran uno gwirfoddol.

14:46 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I would like to ask the Minister for Government Business, if I may, for three items that I would like to bring to your attention. The first, Minister, is that I must press, along with my colleagues here earlier, for a statement on Withybush Hospital. I heard your very detailed answer to my colleague Paul Davies. I also heard your reiteration of that answer to both Simon Thomas and Kirsty Williams. However, Minister, I fear that you are mistaken in one or two elements of your answer. The first is that the accident and emergency unit at Withybush hospital is only safe for a few months. This is not a long-term solution. Therefore, I think that it is really important that we have a statement talking about that. The second is that the doctor who put forward these ideas is actually the associate medical director for quality and safety. He is no slouch; he is no middle manager. He is a senior key player in that organisation and he has been responsible for other significant policy changes that have happened. Therefore, when he says that these are his ideas, I for one certainly pay attention to them because an awful lot of what he has said has come to pass. The third point I would pick up is that I understand that the Minister for Health and Social Services will be speaking tomorrow, but to leave something this important that affects so many people in west Wales to the random chance of being selected during questions I simply do not think is sufficient. I would urge a clear short statement on this very thorny issue of Withybush.

Hoffwn ofyn i Weinidog Busnes y Llywodraeth, os caf, am dair eitem yr hoffwn dynnu eich sylw atynt. Y gyntaf, Weinidog, yw bod rhaid imi bwyso, ynghyd â'm cydweithwyr yma'n gynharach, am ddatganiad ar Ysbyty Llwynhelyg. Clywais eich ateb manwl iawn i fy nghydweithiwr, Paul Davies. Clywais hefyd chi'n ailadrodd yr ateb hwnnw i Simon Thomas a Kirsty Williams. Fodd bynnag, Weinidog, mae arnaf ofn eich bod yn anghywir mewn un neu ddwy elfen yn eich ateb. Y gyntaf yw mai dim ond am rai misoedd y mae'r uned damweiniau ac achosion brys yn Ysbyty Llwynhelyg yn ddiogel. Nid yw hwn yn ateb hirdymor. Felly, rwyf yn meddwl ei bod yn bwysig iawn ein bod yn cael datganiad yn sôn am hynny. Yr ail yw mai'r meddyg a gynigiodd y syniadau hyn mewn gwirionedd yw'r cyfarwyddwr meddygol cyswllt ar gyfer ansawdd a diogelwch. Ni ddylech ei ddiystyru; nid rhyw reolwr canol ydyw. Mae'n uwch chwaraewr allweddol yn y sefydliad hwnnw ac mae wedi bod yn gyfrifol am newidiadau polisi eraill mawr sydd wedi digwydd. Felly, pan ddywed mai ei syniadau ef yw'r rhain, rwyf fi'n sicr yn talu sylw iddynt gan fod llawer iawn o'r hyn y mae wedi'i ddweud wedi dod yn wir. Y trydydd pwynt yr hoffwn ei godi yw fy mod yn deall y bydd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn siarad yfory, ond a dweud y gwir, nid wyf yn meddwl ei bod yn ddigonol gadael rhywbeth mor bwysig â hyn sy'n effeithio ar gynifer o bobl yn y gorllewin i'r siawns ar hap o gael ei ddewis yn ystod cwestiynau. Byddwn yn annog yn daer ein bod yn cael datganiad byr clir am y mater dyrys iawn hwn yn Llwynhelyg.

The second item I would like to ask for is for the Minister for Health to issue a written or oral statement on what systems are in place to futureproof capital spending. Again, I am going to quickly use the Withybush scenario, because £11 million was spent on bringing forward a state-of-the-art, world-class A&E centre at Withybush. Millions of pounds were spent on bringing forward a state-of-the-art renal centre at Withybush. The renal centre was empty for months and months before it kicked into operation. The A&E has dedicated areas for gynaecology, which is a service that we are rapidly losing, and paediatrics, which is a service that we are rapidly losing. I know that, throughout Wales, there will be big spends being put behind healthcare developments, and I wondered whether we could be made more aware of what process there is to ensure that that is futureproofed against changes that are occurring within health boards, because, as we all know, money is extremely tight.

Yr ail eitem yr hoffwn ofyn amdani yw datganiad ysgrifenedig neu ar lafar gan y Gweinidog Iechyd ynglŷn â'r systemau sydd ar waith i ddiogelu gwariant cyfalaf ar gyfer y dyfodol. Unwaith eto, rwyf yn mynd i ddefnyddio sefyllfa Llwynhelyg yn gyflym, oherwydd cafodd £11 miliwn ei wario ar gyflwyno canolfan Damweiniau ac Achosion Brys arloesol o safon fyd-eang yn Llwynhelyg. Cafodd miliynau o bunnoedd eu gwario ar gyflwyno canolfan arennol arloesol yn Llwynhelyg. Roedd y ganolfan arennol yn wag am fisoedd ar fisoedd cyn iddi ddechrau gweithredu. Mae gan yr adran damweiniau ac achosion brys fannau wedi'u neilltuo ar gyfer gynaecoleg, sy'n wasanaeth yr ydym yn ei golli'n gyflym, a phediatreg, sy'n wasanaeth yr ydym yn ei golli'n gyflym. Gwn, ledled Cymru, y bydd gwariant mawr ei roi i gefnogi datblygiadau gofal iechyd, ac rwyf yn meddwl tybed a allem ni gael gwybod mwy am ba broses sy'n bodoli i sicrhau bod hynny'n cael ei ddiogelu ar gyfer y dyfodol yn erbyn newidiadau sy'n digwydd o fewn byrddau iechyd, oherwydd, fel y gŵyr pob un ohonom, mae arian yn eithriadol o dynn.

My last and final request is not so much for a statement but I wonder again whether through your kind office I might ask you to ask again the Minister for Health to re-impress upon all health boards, not just Hywel Dda, the critical importance of being able to communicate with people clearly and transparently. The Minister and I have had quite a concord here in this place on this subject in the past, saying how important it is, no matter what change you are going to have, to take people with you. My colleague Paul Davies and I, along with the Secretary of State in his capacity as the local MP, were with this very same health board only three weeks ago, but nothing was mentioned about any possible changes of this magnitude. The people of Pembrokeshire went through an exhausting, fraught and high-profile consultation document, so they are expecting one set of circumstances and again there is all this uncertainty. I do believe that the health boards, which I have tried to speak to today—and I have to say have not yet returned my calls—must be very clear that they have to talk to the people they serve. The people do not serve them. I would like the Minister to remind health boards that they are part of their local communities and they must engage with those local communities.

Nid yw fy nghais olaf a therfynol yn gymaint am ddatganiad, ond tybed eto a gaf fi, fel cymwynas, ofyn ichi ofyn eto i'r Gweinidog Iechyd bwysleisio eto i'r holl fyrddau iechyd, nid yn unig Hywel Dda, pwysigrwydd hanfodol gallu cyfathrebu â phobl yn glir ac yn dryloyw. Mae'r Gweinidog a minnau wedi cael tipyn o gytgord yma yn y lle hwn ar y pwnc hwn yn y gorffennol, gan ddweud pa mor bwysig ydyw, ni waeth pa newid yr ydych yn mynd i'w gael, i fynd â phobl gyda chi. Roedd fy nghydweithiwr Paul Davies a minnau, ynghyd â'r Ysgrifennydd Gwladol yn rhinwedd ei swydd fel yr Aelod Seneddol lleol, gyda'r union fwrdd iechyd hwn dim ond tair wythnos yn ôl, ond ni soniwyd o gwbl am unrhyw newidiadau posibl ar y raddfa hon. Aeth pobl Sir Benfro drwy ddogfen ymgynghorol hirfaith, ofidus ac uchel ei phroffil, felly maent yn disgwyl un gyres o amgylchiadau, ac eto mae'r ansicrwydd hwn yn dal i fodoli. Rwyf yn credu bod yn rhaid i'r byrddau iechyd, ac rwyf wedi ceisio siarad â hwy heddiw—a rhaid imi ddweud nad ydynt wedi dychwelyd fy ngalwadau—fod yn glir iawn bod yn rhaid iddynt siarad â'r bobl y maent yn eu gwasanaethu. Nid y bobl sy'n eu gwasanaethu hwy. Hoffwn i'r Gweinidog atgoffa byrddau iechyd eu bod yn rhan o'u cymunedau lleol a bod yn rhaid iddynt ymgysylltu â'r cymunedau lleol hynny.

14:50 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for those three points. I have certainly answered the first question three or four times this afternoon. However, I will again just say for the record that the Hywel Dda Local Health Board, which is responsible, has confirmed that the emergency and urgent care centre at Withybush hospital remains open 24 hours a day and remains committed to the long-term provision of this service. This is a fact. The statement is very clear, and, in terms of my role as the Minister for Government business, I am communicating this to you in terms of your questions.

Diolch i'r Aelod am y tri phwynt yna. Rwyf yn sicr wedi ateb y cwestiwn cyntaf dair neu bedair gwaith y prynhawn yma. Fodd bynnag, dywedaf unwaith eto ar gyfer y cofnod fod Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda, sy'n gyfrifol, wedi cadarnhau bod y ganolfan argyfyngau a gofal brys yn Ysbyty Llwynhelyg yn parhau i fod ar agor 24 awr y dydd ac yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn yr hirdymor. Mae hyn yn ffaith. Mae'r datganiad yn glir iawn, ac, o ran fy swyddogaeth fel Gweinidog busnes y Llywodraeth, rwyf yn dweud hyn wrthych fel ateb i'ch cwestiynau.

On your second point, yes, we have invested in the A&E department and that investment, in terms of the commitment from the health board, is to ensure that this is open 24 hours a day and that it has long-term plans in terms of a commitment to its provision of those services, and, indeed, the renal centre, as well. We have been put in a very difficult position as a Welsh Government in terms of the cuts by the UK Government, but we have responded by putting funding into the health service—£200 million extra this year and £225 million next year. Of course, we all have a responsibility in terms of communications, including all of us here in this Chamber, I believe, and I believe that my response this afternoon should provide reassurance to the people of your area.

O ran eich ail bwynt, ydym, rydym wedi buddsoddi yn yr adran damweiniau ac achosion brys a'r buddsoddiad hwnnw, o ran yr ymrwymiad gan y bwrdd iechyd, yw sicrhau bod hon ar agor 24 awr y dydd a bod ganddi gynlluniau hirdymor o ran ymrwymiad i ddarparu'r gwasanaethau hynny, ac, yn wir, y ganolfan arennol, yn ogystal. Rydym wedi cael ein rhoi mewn sefyllfa anodd iawn fel Llywodraeth Cymru o ran y toriadau gan Lywodraeth y DU, ond rydym wedi ymateb drwy roi cyllid i mewn i'r gwasanaeth iechyd—£200 miliwn yn ychwanegol eleni a £225 miliwn y flwyddyn nesaf. Wrth gwrs, mae gennym i gyd gyfrifoldeb i gyfathrebu, gan gynnwys pob un ohonom yma yn y Siambr hon, yn fy marn i, ac rwyf yn credu y dylai fy ymateb y prynhawn yma roi tawelwch meddwl i bobl eich ardal.

14:52 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

And the other points, or just—

A'r pwyntiau eraill, neu ddim ond—

14:52 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that I have covered them all.

Credaf fy mod wedi rhoi sylw iddynt i gyd.

14:52 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Right. Fine. Thank you. I call Suzy Davies.

O'r gorau. Iawn. Diolch. Galwaf ar Suzy Davies.

14:52 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr, Lywydd. Leader of the house, I wonder whether you could ask the Government to consider bringing forward a refreshed version of its statement on the blue badge scheme in view of the number of applications that are being turned down at the moment. In particular, I would like such a statement to give me enough information to explain to constituents why they are being asked to provide independent medical advice in support of their applications rather than just relying on a GP letter, as previously. That requirement suggests to me that the Welsh Government might have some concerns about the independence of GPs' letters, or, indeed, that maybe they are not reflecting a professional medical opinion. Of course, if you have evidence to that effect, I am sure that this Chamber would like to hear about it. If that is not the view of Government, perhaps you could let me know, or perhaps that statement could explain why people with disabilities in my region are being asked to take this very bureaucratic step, which is both expensive and, of course, causes delay.

Diolch yn fawr, Lywydd. Arweinydd y tŷ, tybed a allech chi ofyn i'r Llywodraeth ystyried cyflwyno fersiwn wedi'i diweddaru o'i datganiad am y cynllun bathodyn glas o ystyried nifer y ceisiadau sy'n cael eu gwrthod ar hyn o bryd. Yn arbennig, hoffwn i ddatganiad o'r fath roi digon o wybodaeth imi i egluro i etholwyr pam y gofynnir iddynt ddarparu cyngor meddygol annibynnol i ategu eu ceisiadau, yn hytrach na dim ond llythyr gan feddyg teulu, fel o'r blaen. Mae'r gofyniad hwnnw'n awgrymu i mi y gallai fod gan Lywodraeth Cymru bryderon ynghylch annibyniaeth llythyrau meddygon teulu, neu, yn wir, nad ydynt efallai'n adlewyrchu barn feddygol broffesiynol. Wrth gwrs, os oes gennych dystiolaeth i'r perwyl hwnnw, rwyf yn sicr yr hoffai'r Siambr hon glywed amdani. Os nad dyna yw barn y Llywodraeth, efallai y gallech roi gwybod imi, neu efallai y gallai'r datganiad hwnnw egluro pam mae pobl ag anableddau yn fy rhanbarth i yn gorfod cymryd y cam biwrocrataidd iawn hwn, sy'n ddrud ac, wrth gwrs, yn achosi oedi.

14:53 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Suzy Davies, for your question. I know that the Minister for Economy, Science and Transport is looking at the issue of the implementation of the guidance on blue badges.

Diolch, Suzy Davies, am eich cwestiwn. Gwn fod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn edrych ar y mater o weithredu'r canllawiau ar fathodynnau glas.

14:53

## Datganiad: Cyflwyno Bil Cymwysterau Cymru

## Statement: Introduction of the Qualifications Wales Bill

Y

Senedd.tv Fideo Video

**Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I call on the Minister, Huw Lewis.

Galwaf ar y Gweinidog, Huw Lewis.

14:53 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

Senedd.tv Fideo Video

Presiding Officer, yesterday, I introduced the Qualifications Wales Bill into the National Assembly for Wales. Today, I am pleased to make a statement on that Bill for Members' consideration. I have said that my vision is for qualifications that meet the needs of learners and the economy. The creation of Qualifications Wales, as an independent expert body, to regulate non-degree qualifications, underpins the reforms that began with the review of qualifications in 2012 and that are now a cornerstone of our 'Qualified for Life' strategy.

Lywydd, ddoe cyflwynais Fil Cymwysterau Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Heddiw, rwyf yn falch o wneud datganiad am y Bil i'r Aelodau ei ystyried. Rwyf wedi dweud mai fy ngweledigaeth yw sicrhau cymwysterau sy'n bodloni anghenion dysgwyr a'r economi. Creu Cymwysterau Cymru, fel corff arbenigol annibynnol i reoleiddio cymwysterau nad ydynt yn radd, sydd wrth wraidd y diwygiadau a ddechreuodd â'r adolygiad o gymwysterau yn 2012 ac sydd bellach yn un o gonglfeini ein strategaeth 'Cymwys am Oes'.

In creating Qualifications Wales, I am delivering against my commitments, first, to independent regulation, secondly, to the strengthening of regulation, and, thirdly, to the simplification of the qualifications system in Wales.

Wrth greu Cymwysterau Cymru, rwyf yn cyflawni fy ymrwymiadau, yn gyntaf, i reoleiddio annibynnol, yn ail, i gryfhau rheoleiddio, ac yn drydydd, i symleiddio'r system cymwysterau yng Nghymru.

First, looking at independence, the Bill will remove the Welsh Ministers' functions in relation to qualifications and establish Qualifications Wales as an independent regulator. The new body will report annually to the Assembly on how it has carried out its functions, on its engagement with stakeholders, and on its intentions for the following year.

Yn gyntaf, o ran annibyniaeth, bydd y Bil yn cael gwared ar swyddogaethau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â chymwysterau ac yn sefydlu Cymwysterau Cymru fel rheoleiddiwr annibynnol. Bydd y corff newydd yn adrodd yn flynyddol i'r Cynulliad ynglŷn â'r modd y mae wedi cyflawni ei swyddogaethau, ynglŷn â'i ymgysylltu â rhanddeiliaid, ac ynglŷn â'i fwriadau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

The Welsh Ministers will have only limited powers in respect of Qualifications Wales, for example to direct it to have regard to their policies. In certain circumstances, Ministers will be able to specify the minimum requirements of qualifications in relation to the curriculum, but only when supported by an affirmative resolution of the Assembly. The Bill clearly sets out the extent of the regulatory remit of Qualifications Wales and ensures that decisions about qualifications in Wales are taken in Wales and in the interests of Welsh learners.

Pwerau cyfyngedig yn unig a fydd gan Weinidogion Cymru o ran Cymwysterau Cymru, er enghraifft i'w gyfeirio i ystyried eu polisïau. Mewn rhai amgylchiadau, bydd Gweinidogion yn gallu pennu'r gofynion lleiaf ar gyfer cymwysterau mewn perthynas â'r cwricwlwm, ond dim ond wedi sicrhau penderfyniad cadarnhaol gan y Cynulliad. Mae'r Bil yn nodi'n glir gwmpas cylch gwaith rheoleiddio Cymwysterau Cymru ac yn sicrhau bod penderfyniadau am gymwysterau yng Nghymru'n cael eu gwneud yng Nghymru ac er lles dysgwyr yng Nghymru.

Secondly, in terms of strengthening regulation, the new body will have a range of appropriate enforcement powers, enabling it to protect learners in Wales and to take action in the event of breaches, or threatened breaches, of regulatory controls. I have also ensured that the budget plans provide the resources required to underpin strong regulation.

Yn ail, o ran cryfhau rheoleiddio, bydd gan y corff newydd ystod o bwerau gorfodi priodol, er mwyn iddo allu diogelu dysgwyr yng Nghymru a chymryd camau pan gaiff rheolaethau rheoliadol eu torri, neu pan fo perygl y gallai hynny ddigwydd. Rwyf hefyd wedi sicrhau bod cynlluniau'r gyllideb yn darparu'r adnoddau sydd eu hangen i ategu rheoleiddio cryf.

Thirdly, on simplification, this Bill contains provisions that will allow Qualifications Wales not only to regulate, but also to shape the qualifications system in Wales, to reduce proliferation, and make our qualifications among the best in the world.

Yn drydydd, o ran symleiddio, mae'r Bil hwn yn cynnwys darpariaethau a fydd yn caniatáu i Gymwysterau Cymru nid yn unig reoleiddio ond hefyd lunio'r system cymwysterau yng Nghymru, er mwyn lleihau lluosogi, a sicrhau bod ein cymwysterau gyda'r gorau yn y byd.

Qualifications are, essentially, all about confidence: confidence for learners that they have achieved what they set out to achieve, confidence for universities and other learning providers that they are taking on learners ready and able to progress to higher learning, and confidence for employers that future employees possess, and are able to demonstrate, the skills that they need to succeed in the workplace.

Mae cymwysterau, yn y bôn, yn fater o hyder: hyder i ddysgwyr eu bod wedi cyflawni'r hyn y maent yn bwriadu ei gyflawni, hyder i brifysgolion a darparwyr dysgu eraill eu bod yn derbyn dysgwyr sy'n barod ac yn abl i symud ymlaen i addysg uwch, a hyder i gyflogwyr y bydd gan weithwyr y dyfodol y sgiliau y mae eu hangen arnynt i lwyddo yn y gweithle, a'u bod yn gallu dangos y sgiliau hynny.

The new body will have two principal aims in relation to qualifications and the qualifications system in Wales. The first is to ensure that they are effective for meeting the reasonable needs of learners. The second is to promote public confidence. In delivering these principal aims, the new body must also have regard, among other things, to eight vitally important matters. These relate to the Welsh economy, the Welsh language, the needs of employers, higher education providers and the professions, and the comparability of qualifications in Wales and beyond. The matters also include the efficiency of provision, the interrelationship of bodies within the qualifications system, the range and nature of available qualifications, their assessment arrangements, and the knowledge, skills and understanding required. Critically, this final matter means that Qualifications Wales is expected to consider the content of qualifications and not just how well they are put together or assessed.

Bydd gan y corff newydd ddau brif nod o ran cymwysterau a'r system cymwysterau yng Nghymru. Y cyntaf yw sicrhau eu bod yn effeithiol ar gyfer bodloni anghenion rhesymol y dysgwr. Yr ail yw hybu hyder y cyhoedd. Wrth gyflawni'r prif nodau hyn, rhaid i'r corff newydd hefyd ystyried, ymhlith pethau eraill, wyth mater hanfodol bwysig. Mae'r rhain yn ymwneud ag economi Cymru, y Gymraeg, anghenion cyflogwyr, darparwyr addysg uwch a'r proffesiynau, a chymaroldeb cymwysterau yng Nghymru a thu hwnt. Mae'r materion hefyd yn cynnwys effeithlonrwydd y ddarpariaeth, y berthynas rhwng cyrff o fewn y system cymwysterau, ystod a natur y cymwysterau sydd ar gael, eu trefniadau asesu, a'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen. Yn allweddol, mae'r mater olaf hwn yn golygu bod disgwyl i Gymwysterau Cymru ystyried cynnwys cymwysterau ac nid dim ond pa mor dda y maent wedi eu rhoi at ei gilydd neu eu hasesu.

These provisions place the learner at the heart of the regulator's activities and give a broad scope to Qualifications Wales. It must proactively develop an understanding of what is needed in Wales, and then act appropriately. The Bill does not differentiate between general qualifications and vocational qualifications. Both are very firmly within the remit of Qualifications Wales. I expect Qualifications Wales to become an expert in regulation, carrying out research, working closely with educators, businesses and experts, and using that evidence to determine needs.

Mae'r darpariaethau hyn yn rhoi'r dysgwr wrth galon gweithgareddau'r rheoleiddiwr ac yn rhoi cwmpas eang i Gymwysterau Cymru. Rhaid iddo fynd ati'n rhagweithiol i ddatblygu dealltwriaeth o'r hyn sydd ei angen yng Nghymru, ac yna weithredu'n briodol. Nid yw'r Bil yn gwahaniaethu rhwng cymwysterau cyffredinol a chymwysterau galwedigaethol. Mae'r ddau'n gadarn iawn o fewn cylch gwaith Cymwysterau Cymru. Rwyf yn disgwyl i Gymwysterau Cymru fod yn arbenigwr ar reoleiddio, gwneud gwaith ymchwil, gweithio'n agos gydag addysgwyr, busnesau ac arbenigwyr, a defnyddio'r dystiolaeth honno i bennu anghenion.

A new feature within this Bill is a priority qualifications list, which Qualifications Wales and the Welsh Government must jointly prepare and publish. Prioritising types of qualifications that are significant to meeting learner and employer needs, and where public confidence is vital, will enable Qualifications Wales to focus its resources, adding value where it is most needed.

Un nodwedd newydd o'r Bil hwn yw'r rhestr o gymwysterau blaenoriaethol, y mae'n rhaid i Gymwysterau Cymru a Llywodraeth Cymru ei pharatoi a'i chyhoeddi ar y cyd. Bydd blaenoriaethu mathau o gymwysterau sy'n bwysig er mwyn bodloni anghenion dysgwyr a chyflogwyr, a lle y mae hyder y cyhoedd yn allweddol, yn galluogi Cymwysterau Cymru i ganolbwyntio ei adnoddau, ac ychwanegu gwerth lle y mae ei angen fwyaf.

Qualifications Wales has the power in the Bill to determine or restrict the number of forms of a qualification on the priority qualification list that may be approved. Using this power, it may restrict a given qualification to a single approved version for Wales. This is one way that Qualifications Wales will be able to simplify the system.

Mae gan Gymwysterau Cymru rym yn y Bil i bennu neu gyfyngu ar nifer y ffurfiau ar gymhwyster ar y rhestr cymwysterau blaenoriaethol y gellir eu cymeradwyo. Drwy ddefnyddio'r grym hwn, gall gyfyngu cymhwyster penodol i un fersiwn a gymeradwywyd ar gyfer Cymru. Dyma un ffordd y gall Cymwysterau Cymru symleiddio'r system.

Where such a restriction is made, the Bill gives Qualifications Wales the powers to commission the development of a new form of qualification from one or more providers, or to select the best qualification from those submitted to it. In each case, the procedure for selecting a qualification and provider must be open, fair and transparent, and awarding bodies must compete to earn the right to deliver the approved qualification in Wales for a given period of time. In this way, Qualifications Wales will have greater control over design and delivery.

Pan wneir cyfyngiad o'r fath, mae'r Bil yn rhoi grym i Gymwysterau Cymru i gomisiynu gwaith i ddatblygu ffurf newydd ar gymhwyster gan un neu ragor o ddarparwyr, neu i ddewis y cymhwyster gorau o blith y rhai a gyflwynir iddo. Rhaid i'r drefn ar gyfer dewis cymhwyster a darparwr bob amser fod yn agored, yn deg ac yn dryloyw, a rhaid i gyrff dyfarnu gystadlu i ennill yr hawl i gyflwyno'r cymhwyster a gymeradwywyd yng Nghymru am gyfnod penodol. Drwy hynny, bydd gan Gymwysterau Cymru fwy o reolaeth dros gynllunio a darparu.

My long-term ambition remains for Qualifications Wales to become an awarding body, but that needs to be at the right time. The Bill requires Qualifications Wales to keep its role and that of awarding bodies under review, and I will welcome its advice on how the qualifications system is working for Wales.

Fy uchelgais yn y tymor hir o hyd yw i Gymwysterau Cymru fod yn gorff dyfarnu, ond mae angen i hynny ddigwydd ar yr adeg iawn. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Gymwysterau Cymru adolygu ei swyddogaeth a swyddogaeth cyrff dyfarnu, a byddaf yn croesawu ei gyngor ynglŷn â sut y mae'r system cymwysterau'n gweithio dros Gymru.

Colleagues in the Children, Young People and Education Committee provided useful contributions to the development of this Bill. I also welcomed engagement with learners who are on the receiving end of these changes. My officials will continue that engagement through, for example, schools and parent packs.

Mae cydweithwyr yn y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi gwneud cyfraniadau defnyddiol i ddatblygiad y Bil hwn. Rwyf hefyd yn croesawu'r ymgysylltu â dysgwyr y bydd y newidiadau hyn yn effeithio arnynt. Bydd fy swyddogion yn parhau â'r ymgysylltiad hwnnw, er enghraifft drwy becynnau rhieni ac ysgolion.

To conclude, in addition to giving Qualifications Wales regulatory functions that reflect those currently exercised by the Welsh Ministers, this Bill contains a number of innovative provisions that will provide Qualifications Wales with a powerful toolkit to carve out a path as a responsive regulator working in the interests of learners in Wales. I look forward to working with Assembly Members and others during the scrutiny of this Bill, and I commend it to the Chamber.

I gloi, yn ogystal â rhoi swyddogaethau rheoleiddio i Gymwysterau Cymru sy'n adlewyrchu'r rhai sy'n cael eu harfer ar hyn o bryd gan Weinidogion Cymru, mae'r Bil hwn yn cynnwys nifer o ddarpariaethau blaengar a fydd yn darparu pecyn cymorth pwerus i Gymwysterau Cymru i ddod yn rheoleiddiwr ymatebol sy'n gweithio er lles dysgwyr yng Nghymru. Edrychaf ymlaen at weithio gydag Aelodau'r Cynulliad ac eraill wrth inni graffu ar y Bil hwn, ac fe'i cymeradwyaf i'r Siambr.

15:01

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you. I have quite a few speakers this afternoon, so I remind Members that this is an opportunity to question the Minister on the report that he has just given, and not to make long speeches.

Diolch. Mae gen i nifer o siaradwyr y prynhawn yma, felly atgoffaf yr Aelodau mai cyfle yw hwn i holi'r Gweinidog am yr adroddiad y mae newydd ei roi, ac nid i wneud areithiau hir.

15:01 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, thank you very much indeed for bringing this before us. Like you, I share an ambition to ensure that our Welsh students get the best possible curriculum choices and qualifications that we can take forward in an international marketplace, and I am delighted to see that there is much in this Bill that I would be able to commend to my colleagues in the Welsh Conservatives and much that I know you and I have a shared vision on. There is one area where I would have to disagree with you, and there are six questions that I would like to briefly ask.

Weinidog, diolch yn fawr iawn am ddod â hwn ger ein bron. Mae gen innau, fel chithau, uchelgais i sicrhau bod y dewisiadau cwricwlwm a'r cymwysterau gorau posibl ar gael i'n myfyrwyr y gallwn fwrw ymlaen â hwy mewn marchnad ryngwladol, ac rwyf wrth fy modd o weld bod llawer yn y Bil hwn y byddwn yn gallu ei gymeradwyo i'm cydweithwyr yn y Ceidwadwyr Cymreig a llawer y gwn fod gennych chi a minnau weledigaeth gyffredin yn ei gylch. Mae un mater y byddai'n rhaid imi anghytuno â chi yn ei gylch, ac mae chwe chwestiwn yr hoffwn eu gofyn yn fyr.

The area that I do not share your view on is your long-term ambition that Qualifications Wales should be the regulation authority as well as the awarder. I have always stated that I think that they should be separate functions, and I hope that, as we flesh out this Bill, either you will be able to provide me with overwhelming evidence that would make me change my mind, or I will be able to show you and others why we believe that it is so important that you should have those two functions separate, because then we can truly monitor, benchmark and drive in a very clear and transparent way forward.

Y mater nad wyf yn cyd-weld â chi yn ei gylch yw eich uchelgais tymor hir y dylai Cymwysterau Cymru fod yn awdurdod rheoleiddio yn ogystal ag yn gorff dyfarnu. Rwyf bob amser wedi dweud fy mod o'r farn y dylent fod yn swyddogaethau ar wahân, ac rwyf yn gobeithio, wrth inni roi cnawd ar esgyrn y Bil hwn, naill ai y byddwch yn gallu rhoi tystiolaeth gref iawn imi a fyddai'n gwneud imi newid fy meddwl, neu y byddaf yn gallu dangos i chi ac i eraill pam y credwn ei bod mor bwysig fod y ddwy swyddogaeth hyn ar wahân, oherwydd wedyn gallwn mewn gwirionedd fonitro, meincnodi a gyrru ymlaen mewn ffordd glir a thryloyw iawn.

My questions are brief questions, because there is much there to analyse and to flesh out. However, you make a comment in section 8(3) that

Mae fy nghwestiynau'n rhai byr, oherwydd mae llawer i'w ddadansoddi ac i roi cnawd arno. Fodd bynnag, dywedwch yn adran 8 (3)

'If the body does not meet all of those criteria Qualifications Wales may…if itthinks it appropriate to do so, recognise the body in respect of the award of qualificationsin Wales.'

'Os nad yw'r corff yn bodloni'r holl feini prawf hynny caiff Cymwysterau Cymru... os yw o'r farn ei bod yn briodol gwneud hynny, gydnabod y corff mewn cysylltiad â dyfarnu cymwysterau yng Nghymru.'

You mentioned this in your speech. I wonder whether you might be able to give us an example of where that kind of scenario might come to the fore, because, to me, if an organisation does not meet the criteria that we are laying out here in this Bill, and that Qualifications Wales wants to set, it seems kind of perverse to still let it offer forward qualifications. At the end of the day, we want robust qualifications that are recognised. So, I would be very grateful to understand where you think that scenario might possibly arise.

Soniasoch am hyn yn eich araith. Tybed a allwch roi enghraifft inni o ble y gallai sefyllfa o'r fath godi, oherwydd i mi, os nad yw sefydliad yn bodloni'r meini prawf yr ydym yn eu pennu yma yn y Bil hwn, ac y mae Cymwysterau Cymru am eu pennu, mae'n ymddangos braidd yn groes i'r graen gadael iddo gynnig cymwysterau? Yn y pen draw, rydym am gael cymwysterau cadarn sy'n cael eu cydnabod. Felly, byddwn yn ddiolchgar o gael deall ymhle yr ydych yn meddwl y gallai'r sefyllfa honno o bosibl godi.

I wondered what discussions, Minister, you will have had with Qualifications Wales and, perhaps more importantly, with other portfolio holders as to what you consider to be priority qualifications. I am interested to understand how you and the Welsh Government are looking into the future, over the next 10 or 15 years, and saying, 'These are the industries that we want to be in. These are the kinds of educational scenarios we want to give our young people, so that they are going to be fit to work in Wales and in other countries around the world. These are the skills that people are looking for.' I am kind of assuming that that is what you mean when you talk about priority qualifications. I would be grateful for just a very quick overview on that.

Tybed pa drafodaethau, Weinidog, ydych chi wedi'u cael â Chymwysterau Cymru ac, yn bwysicach efallai, â deiliaid portffolios eraill ynghylch yr hyn yr ydych yn ei ystyried yn gymwysterau blaenoriaethol? Byddai'n dda gennyf gael deall sut yr ydych chi a Llywodraeth Cymru yn edrych tua'r dyfodol, dros y 10 neu 15 mlynedd nesaf, ac yn dweud, 'Dyma'r diwydiannau yr ydym am fod ynddynt. Dyma'r math o sefyllfaoedd addysgol yr ydym am eu cynnig i'n pobl ifanc, fel eu bod yn gymwys i weithio yng Nghymru ac mewn gwledydd eraill ledled y byd. Dyma'r sgiliau y mae pobl yn chwilio amdanynt.' Rwyf yn rhyw dybio mai dyna yr ydych yn ei olygu pan soniwch am gymwysterau blaenoriaethol. Byddwn yn ddiolchgar am drosolwg cyflym iawn ar hynny.

My fourth point, Minister, is that I wondered what training the staff from the qualification and regulation division of the Welsh Government who are going to be transferred to Qualifications Wales will be given to ensure that they will be able to move into a more proactive role. There were issues a couple of years ago when we had to regrade exams and when regulation was perhaps not as strong as it could be and, given that these people are now going to be sitting there, I wonder what you are going to be able to do to support them.

Fy mhedwerydd pwynt, Weinidog, yw tybed pa hyfforddiant y bydd staff is-adran cymwysterau a rheoliadau Llywodraeth Cymru a fydd yn cael eu trosglwyddo i Cymwysterau Cymru yn ei gael i sicrhau y byddant yn gallu symud i rôl fwy rhagweithiol. Cododd sefyllfa rai blynyddoedd yn ôl pan oedd yn rhaid inni ailraddio arholiadau a phan nad oedd rheoleiddio mor gryf efallai ag y gallai fod ac, o gofio bod y bobl hyn yn awr yn mynd i fod yn eistedd yno, tybed beth y gallwch ei wneud i'w cefnogi?

My fifth question actually sort of bounces off that, and it is this: what will you be able to do to help Qualifications Wales make this step change, particularly when it has to start incorporating the changes that Professor Donaldson in his curriculum review may be suggesting? Without the qualifications and the curriculum working side by side, we are going to have a real lack of cohesion in offering a seamless education programme.

Mae fy mhumed cwestiwn mewn gwirionedd yn adlamu oddi ar hynny, sef hyn: beth y byddwch chi'n gallu ei wneud i helpu Cymwysterau Cymru i wneud y newid mawr hwn, yn enwedig pan fo'n rhaid iddo ddechrau ymgorffori newidiadau y gallai'r Athro Donaldson fod yn eu hawgrymu yn ei adolygiad o'r cwricwlwm? Os na fydd y cymwysterau a'r cwricwlwm yn gweithio ochr yn ochr, bydd diffyg cydlyniant gwirioneddol o ran cynnig rhaglen addysg ddi-dor.

I have just two more points, Presiding Officer. The sixth point is that I wonder how Qualifications Wales will ensure that the qualifications for which it grants recognition are of an internationally recognised standard. How will you be able to be confident? How will they be benchmarked? Against whom will they be benchmarked? I appreciate that you may not be able to answer that here and now, but I would be very grateful to just be aware that there is that process going on, so that we do not just devise our own little set of qualifications in an extremely parochial way and then suddenly look up in five years' time and find that, actually, we have dropped behind, but that we have kept pace with other growing economies.

Mae gennyf ddau bwynt arall, Lywydd. Dyma'r chweched pwynt: tybed sut y bydd Cymwysterau Cymru'n sicrhau bod safon y cymwysterau y mae'n eu cydnabod yn un a gydnabyddir yn rhyngwladol? Sut y byddwch yn gallu bod yn hyderus? Sut y byddant yn cael eu meincnodi? Yn erbyn pwy y byddant yn cael eu meincnodi? Rwyf yn sylweddoli efallai na fyddwch yn gallu ateb hynny yma yn awr, ond byddwn yn ddiolchgar iawn o gael gwybod bod y broses honno'n mynd rhagddi, fel nad ydym yn dyfeisio ein set fach ein hunain o gymwysterau mewn ffordd hynod blwyfol ac yna'n edrych i fyny'n sydyn ymhen pum mlynedd a gweld, mewn gwirionedd, ein bod ar ei hôl hi, ond ein bod wedi mynd gam yn gam ag economïau eraill sy'n tyfu.

Finally, I did actually try to follow the web trail that the Welsh Government has put down—the crumbs before the birds, if you like—to help lead organisations and businesses into understanding what Qualifications Wales will deliver and how it will be internationally recognised, but in fact, it was very difficult to follow. I just wonder whether you could touch upon what you are able to do to develop a communications strategy, so that Toyota, whether it is in Japan or in north Wales, and so that London university or the Sorbonne will understand what a qualification, whether it is skills-based or academic, really means in terms of parity and esteem.

Yn olaf, ceisiais ddilyn y llwybr ar y we y mae Llywodraeth Cymru wedi ei osod—y briwsion o flaen yr adar, os mynnwch—i helpu sefydliadau a busnesau i ddeall yr hyn y bydd Cymwysterau Cymru'n ei gyflwyno a sut y bydd yn cael ei gydnabod yn rhyngwladol, ond a dweud y gwir, roedd yn anodd iawn ei ddilyn. Tybed a wnewch chi sôn am yr hyn y gallwch ei wneud i ddatblygu strategaeth gyfathrebu, fel bod Toyota, boed yn Siapan neu yng ngogledd Cymru, a phrifysgol Llundain neu'r Sorbonne yn deall beth y mae cymhwyster, boed yn seiliedig ar sgiliau neu'n academaidd, yn ei olygu mewn gwirionedd o safbwynt cydraddoldeb a pharch.

15:07

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Angela Burns for that broad welcome for the introduction of the Bill. I will attempt to deal with as many of the points that she made as possible, as quickly as I can. First of all, yes, it does remain my intention that Qualifications Wales should evolve into an awarding body. For that, however, further primary legislation would be needed. It is very much my intention—well, my contention—that, in order for Wales to stand on its own two feet and to have a truly stable system, particularly as our education system becomes ever more distinctive, we need a self-contained model, which would be more in line with that in Scotland than the one that we presently have. However, first of all, we are establishing this regulatory body, allowing it to develop its expertise and a clear understanding of the effective features of awarding bodies, and the body itself will offer advice in terms of the next steps over time.

Diolch i Angela Burns am y croeso cyffredinol i gyflwyno'r Bil. Ceisiaf ymdrin â chynifer ag y bo modd o'r pwyntiau a wnaeth, mor gyflym ag y gallaf. Yn gyntaf oll, ydy, mae'n parhau i fod yn fwriad gennyf y bydd Cymwysterau Cymru'n esblygu'n gorff dyfarnu. Ar gyfer hynny, fodd bynnag, byddai angen rhagor o ddeddfwriaeth sylfaenol. Fy mwriad—wel, fy haeriad—er mwyn i Gymru sefyll ar ei thraed ei hun a bod â system wirioneddol sefydlog, yn enwedig wrth i'n system addysg ddod yn fwyfwy gwahanol, yw bod arnom angen model hunangynhwysol, a fyddai'n debycach i fodel yr Alban na'r un sydd gennym ar hyn o bryd. Fodd bynnag, yn gyntaf oll, rydym yn sefydlu'r corff rheoleiddio hwn, ac yn ei alluogi i ddatblygu ei arbenigedd a dealltwriaeth glir o nodweddion effeithiol cyrff dyfarnu, a bydd y corff ei hun yn cynnig cyngor o ran y camau nesaf dros amser.

In terms of the question on priority qualifications, Angela Burns, I think, answered her own question in part. We are in an ever-changing landscape in terms of what employers need in terms of the skills of a potential workforce. Technology changes at a rate of knots. However, also within that agenda, we would have to consider the need for the simplification of what is potentially a plethora of the possible qualifications that are out there currently. I think that all are agreed that there are simply too many qualifications competing for attention at the moment. Qualifications Wales would steer young people in Wales and potential candidates into a simpler, clearer system.

O ran y cwestiwn am gymwysterau blaenoriaethol, credaf i Angela Burns ateb ei chwestiwn ei hun yn rhannol. Rydym mewn tirwedd sy'n newid o hyd o ran yr hyn sydd ei angen ar gyflogwyr o safbwynt sgiliau darpar weithlu. Mae technoleg yn newid yn gyflym iawn. Fodd bynnag, hefyd o fewn yr agenda honno, byddai'n rhaid inni ystyried yr angen i symleiddio'r hyn a allai fod yn llawer iawn o gymwysterau posibl sydd ar gael ar hyn o bryd. Credaf fod pawb yn gytûn bod gormod o gymwysterau'n cystadlu am sylw ar hyn o bryd. Byddai Cymwysterau Cymru'n llywio pobl ifanc yng Nghymru a darpar ymgeiswyr tuag at system symlach a chliriach.

In terms of resources and staff, yes, the resources are set aside to establish Qualifications Wales while, of course, we have to be necessarily prudent. Running alongside the development of the Bill is a programme of work to design the new organisation. A staffing structure is almost complete, and a full budget for the organisation has been provided for in the 2015-16 budget. It is proposed that there would be in the region of about 75 staff. This would include corporate functions. That still represents significantly more staff directly involved in qualifications-related issues than is currently the case, so there would be more capacity there within the system. As I say, the expectation upon all involved is that they should become the experts in terms of qualification regulation within Wales.

O ran adnoddau a staff, oes, mae adnoddau wedi'u neilltuo i sefydlu Cymwysterau Cymru ond, wrth gwrs, mae'n rhaid inni fod yn ddarbodus. Ochr yn ochr â datblygu'r Bil mae rhaglen o waith i gynllunio'r sefydliad newydd. Mae strwythur staffio bron wedi'i gwblhau, ac mae darpariaeth yng nghyllideb 2015-16 i ddarparu cyllideb lawn i'r sefydliad. Cynigir y byddai oddeutu 75 o staff. Byddai hyn yn cynnwys swyddogaethau corfforaethol. Mae hynny'n dal i fod yn fwy o lawer o staff sy'n ymwneud yn uniongyrchol â materion sy'n gysylltiedig â chymwysterau nag sydd ar hyn o bryd, felly byddai mwy o gapasiti yno o fewn y system. Fel y dywedais, disgwylir i bawb dan sylw ddod yn arbenigwyr o ran rheoleiddio cymwysterau yng Nghymru.

In terms of the curriculum, I see no conflict, and neither does Professor Donaldson, in terms of our setting up an infrastructure, if you like, for a system that will be deliberately intended to accommodate the current curriculum and any future curriculum, whether it is Donaldson's review or any future one. I am content that there is no incompatibility in terms of the way this infrastructure would work as regards the content of the curriculum.

O ran y cwricwlwm, ni welaf ddim gwrthdaro, ac mae'r Athro Donaldson o'r un farn, o ran sefydlu seilwaith, os mynnwch, ar gyfer system y bwriedir iddi ddarparu ar gyfer y cwricwlwm presennol ac unrhyw gwricwlwm yn y dyfodol, boed hynny drwy adolygiad Donaldson neu unrhyw adolygiad yn y dyfodol. Rwyf yn fodlon nad oes dim yn anghydnaws ynghylch y ffordd y byddai'r seilwaith hwn yn gweithio o ran cynnwys y cwricwlwm.

I do not think either that there is any fear that we should become in any way parochial. In fact, the opposite is my intention. We need our qualifications to be effective, and one of the principal aims of Qualifications Wales will be to ensure that learners taking approved qualifications are able to progress confidently and competently to the next stage of learning. They will not be able to do that without being cognisant of what is happening across the UK as a whole and, indeed, further afield. Do not forget, also, and I will end on this, Presiding Officer, that Qualifications Wales will deliver an annual report to the Assembly on this and other matters, and Members within the Chamber will take an interest, I know, in Qualifications Wales's work with regard to the rigour and portability of qualifications.

Nid wyf yn credu chwaith fod ofn y gallem fod yn blwyfol. Yn wir, fel arall yn llwyr yr wyf yn bwriadu i bethau fod. Mae angen i'n cymwysterau fod yn effeithiol, ac un o brif nodau Cymwysterau Cymru fydd sicrhau bod dysgwyr sy'n cymryd cymwysterau cymeradwy yn gallu symud ymlaen yn hyderus ac yn gymwys i'r cyfnod dysgu nesaf. Ni fyddant yn gallu gwneud hynny heb fod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ledled y DU ac, yn wir, y tu hwnt. Cofiwch, hefyd, ac rwyf am ddirwyn i ben yma, Lywydd, y bydd Cymwysterau Cymru'n cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cynulliad ar y mater hwn a materion eraill, a gwn y bydd gan Aelodau yn y Siambr ddiddordeb yng ngwaith Cymwysterau Cymru o ran trylwyredd a hygludedd cymwysterau.

15:11 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch i'r Gweinidog am y datganiad heddiw a hefyd, wrth gwrs, am gyhoeddi'r Bil ddoe. A gaf i ddweud yn y lle cyntaf fy mod i'n croesawu'r Bil yn fawr iawn? Rwy'n meddwl bod y Bil fel y mae yn ateb i'r problemau sydd wedi cael eu cydnabod yn y system gymwysterau yng Nghymru ers rhai blynyddoedd bellach, ers i'r ffrwgwd cyntaf enwog hwnnw gyda'r Gweinidog yn ymyrryd mewn canlyniadau TGAU. Rwy'n credu hefyd fod y Bil presennol wedi elwa o'r ffaith bod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, wedi edrych cyn deddfu ar y mater hwn, ac wedi ymweld ag Iwerddon a'r Alban i weld y systemau cymwysterau sydd i'w cael mewn gwledydd cyfagos, ac wedi gweld beth oedd cynigion adroddiad Huw Evans i'r Gweinidog, ac wedyn wedi gwneud argymhellion yn hynny o beth. Mae rhai o'r argymhellion hynny i'w gweld yn y Bil sydd gerbron y Cynulliad, ac rwy'n meddwl bod y Bil wedi elwa o'r broses hon. Mae hyn yn rhywbeth, Lywydd, y gallai pob pwyllgor a'r Cynulliad ei ystyried ar gyfer y dyfodol, o ran sut y gallwn gynorthwyo yn y broses o lunio'r Biliau gorau posibl drwy edrych ymlaen llaw ar gynigion y Llywodraeth a'r posibilrwydd o ddeddfu.

I thank the Minister for this afternoon's statement and also, of course, for the publication of the Bill yesterday. May I say first of all that I welcome this Bill warmly? I believe that the Bill as currently drafted is a response to the problems that have been recognised in the qualifications system in Wales for some years now, since that well-known conflict over the Minister's intervention on the issue of GCSE results. I think that the current Bill has benefited from the fact that the Children, Young People and Education Committee had an opportunity to look at the issue prior to legislating, visited Ireland and Scotland to see the qualifications systems in nearby nations, and saw which proposals Huw Evans's report made to the Minister, and then made recommendations as a result. Some of those recommendations are reflected in the Bill before the Assembly, and I think that the Bill has benefited from this process. Presiding Officer, perhaps that is something that all committees and the Assembly could consider for the future, in terms of how we can assist in the drawing up the best possible Bills by undertaking pre-legislative scrutiny of the Government's proposals.

Mae'n dilyn o hynny fy mod i yn fras iawn yn cefnogi'r Bil, a phob rhan ohono. Dau neu dri chwestiwn, felly, sy'n codi'n benodol o'r Bil fel y mae. Roeddwn yn falch o glywed bod y Gweinidog wedi cadarnhau y bydd angen deddfwriaeth gynradd bellach cyn y gall y corff hwn, Cymwysterau Cymru, droi'n gorff dyfarnu. Er nad wyf yn erbyn un corff dyfarnu o reidrwydd yng Nghymru yn y modd hwnnw—ac yn wir, fel y dywedodd y Gweinidog, mae'n gweithio yn yr Alban—rwy'n credu ei fod yn hynod bwysig ein bod yn gweld yn gyntaf sut y mae Cymwysterau Cymru yn perfformio ac yn meincnodi ar gyfer cymwysterau yng Nghymru, ac yn arbennig nad yw'r corff newydd yn cropian cyn cerdded, fel petai.

It follows from that that I am generally speaking in support of the Bill, and all parts of it. Two or three questions, therefore, arise in particular from the Bill as drafted. I was pleased to hear the Minister confirm that we will need further primary legislation before this body, Qualifications Wales, can become an awarding body. Although I am not opposed to having a single awarding body of this nature in Wales—and, indeed, as the Minister said, it does work in Scotland—I think it is extremely important that we first see how Qualifications Wales performs and benchmarks for qualifications in Wales in the future, and in particular that the new body should learn to walk before it runs, as it were.

Mae hefyd yn wir bod rhan arall o'r Bil yr wyf hefyd yn ei chroesawu'n fawr iawn, sef y gallu i gael cymwysterau blaenoriaethol, a chymwysterau blaenoriaethol cyfyngedig. Bydd hynny'n creu rhywfaint o'r fframwaith y byddai un corff dyfarnu hefyd yn ei greu. Fy nehongliad i o'r hyn sy'n cael ei gynnig gan y Llywodraeth, wrth gwrs, yw bod modd pennu un corff dyfarnu ar gyfer un math o gymhwyster ar gyfer Cymru. Nawr, mae hynny yn amlwg, rwy'n credu, o fudd ym maes cymwysterau academaidd, lle mae posibilrwydd—ac nid wyf am ei roi yn gryfach na hynny ar hyn o bryd—y bydd ysgolion yn gallu dewis bwrdd arholi sy'n fwy addas, yn eu tyb nhw, i'r ffordd y maent yn dysgu neu'n paratoi disgyblion, ac o bosibl, felly, yn colli'r hygrededd yn y cymwysterau yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae hefyd yn hynod o addas ym maes cymwysterau galwedigaethol, lle mae cynifer o wahanol gymwysterau galwedigaethol i'w cael a lle mae'r dewis yn mynd yn ddryslyd iawn i'r dysgwr, i'r darpar ddysgwr, i rieni ac i gyflogwyr hefyd, ac yn wir, mae'n ddryslyd iawn i mi. Felly, rwy'n gobeithio y bydd y corff newydd yn gallu unioni pethau yn y maes galwedigaethol yn arbennig, gan ddechrau, wrth gwrs, fel y mae'r Bil yn ei awgrymu, ac fel y mae datganiad y Gweinidog yn ei awgrymu, gyda'r cymwysterau mwyaf pwysig a hanfodol ar gyfer yr economi ac ar gyfer ein dysgwyr ni.

It is also true that there is another part of the Bill that I welcome very much, namely the ability to have priority qualifications, and limited priority qualifications. That will create some of the framework that a single awarding body would create. My interpretation of what is being proposed by the Government, of course, is that we could specify one awarding body for a certain type of qualification for Wales. Now, that would clearly, I think, be beneficial in terms of academic qualifications, where there is a possibility—and I will not state it any stronger than that at the moment—that schools could choose an examination board that is more appropriate, in their view, to the way in which they teach or prepare students, and that will, therefore, cause problems in terms of the credibility of qualifications generally. However, it is also extremely appropriate for vocational qualifications, where there are so many different vocational qualifications available, and where the choice can get very confusing for the learner, the prospective learner, parents and employers too, and indeed, it is very confusing for me. Therefore, I do hope that the new body will be able to put things right in the vocational sphere, particularly, as the Bill suggests and as the Minister's statement suggests, starting with the most important and crucial qualifications for the economy and for our learners.

Hoffwn i'r Gweinidog gadarnhau fy nehongliad i o'r Bil yn y cyd-destun hwnnw.

I would like the Minister to confirm my analysis of the Bill in that context.

Dywedodd y Gweinidog fod y gyllideb ar gyfer Cymwysterau Cymru wedi'i chynnwys yn y gyllideb bresennol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Mae hynny'n awgrymu bod y Gweinidog yn ffyddiog y gall sefydlu'r corff hwn yn 2015, fel yr amlinellwyd yn y lle cyntaf. Credaf mai mis Hydref cyn y Nadolig, mewn llai na blwyddyn, oedd wedi cael ei ystyried ar gyfer hynny. A all y Gweinidog gadarnhau hynny? Er fy mod yn cefnogi'r Bil, ni allwn fod yn siŵr y bydd pawb yn ei gefnogi, nac am y ffaith na fydd yna welliannau na phethau felly yn digwydd. Felly, mae honno'n ymddangos i mi fel amserlen eithaf tyn o hyd.

The Minister said that the budget for Qualifications Wales is in the current budget for the next financial year. That suggests that the Minister is confident in establishing this body in 2015, as initially outlined. I think that it was October, before Christmas, in less than a year, that had been proposed. Can the Minister confirm that that is the case? While I support the Bill, we cannot be sure that everyone will support it, and that there will not be amendments and so on. So, that still appears to me to be quite a tight timetable.

Trof yn awr at y cwestiwn olaf sydd gen i, Weinidog. Rwy'n cytuno gyda'r rhan honno o'r datganiad sy'n sôn am y ffaith mai hyder, yn y bôn, yw cymwysterau—hyder yn y gallu i sefyll arholiad; hyder yng nghynnwys yr arholiad; hyder yng nghynnwys y cwricwlwm; a hyder yn y ffordd y mae'r broses arholi yn cael ei gwneud. Yr un peth mawr sydd ar goll—ac mae hyn wedi'i adlewyrchu yn yr adroddiad a wnaed gan dîm allgymorth y Cynlluniad dros yr haf gyda phobl ifanc—yw hyder a chred pobl ifanc yng nghymwysterau Cymru ac, o hyd, yn y tebygolrwydd y bydd ambell un o'r cymwysterau hynny'n cael eu derbyn y tu hwnt i Gymru. Mewn cyd-destun lle mae cymwysterau yn newid dros Brydain gyfan, ym mha ffordd y bydd y Llywodraeth yn hysbysu a chyhoeddi'r cymwysterau newydd hyn ac yn gwneud yn siŵr bod yr hyder yn aros gyda rhieni, disgyblion, y proffesiwn a chyflogwyr yn y system?

I turn now to my final question, Minister. I agree with that part of the statement that says that qualifications are essentially about confidence—confidence in the ability to take an exam; confidence in the content of the exam; confidence in the content of the curriculum; and confidence in the way that the examination process is undertaken. The major thing missing—and this was reflected in the report drawn up by the Assembly's outreach team over the summer with young people—is the confidence and belief of young people in qualifications in Wales, and in the likelihood of some of those qualifications being accepted beyond Wales. In a context where qualifications are changing throughout Britain, how is the Government going to publicise these new qualifications and ensure that confidence remains among parents, pupils, the profession and employers?

15:16

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank Simon Thomas for those points. I agree with him, incidentally, in terms of the usefulness for—and the benefits towards—the preparation of the Bill, as regards the role of the committee, in terms of undertaking pre-legislative scrutiny. It is a useful precedent for other committees and committee Chairs to take a look at. It certainly has been an aid, I think, for all concerned, myself included, in terms of some early modifications to the legislation towards moulding it into good law. I also agree with Simon Thomas, in terms of this body moving gradually to awarding status. I think that he used the phrase 'the organisation should walk before it can run' and I agree wholeheartedly. Again, this is part of the conversation around confidence, the conversation around expertise, the conversation around building that body of expertise within the new organisation as it evolves over time and as it wins allies and confidence among potential partners, particularly employers and universities.

Diolch i Simon Thomas am y pwyntiau hynny. Rwyf yn cytuno ag ef, gyda llaw, ynglŷn â defnyddioldeb—a manteision hynny—wrth baratoi'r Bil, o safbwynt rôl y pwyllgor, o ran craffu cyn deddfu. Mae'n gynsail defnyddiol i bwyllgorau a Chadeiryddion pwyllgorau eraill i edrych arno. Yn sicr mae wedi bod o gymorth, rwyf yn meddwl, i bawb dan sylw, a minnau yn eu plith, o ran gwneud rhai addasiadau cynnar i'r ddeddfwriaeth er mwyn ei mowldio'n gyfraith dda. Rwyf hefyd yn cytuno â Simon Thomas, o ran symud yn raddol tuag at roi statws dyfarnu i'r corff hwn. Credaf iddo ddweud bod yn rhaid sicrhau nad yw'r corff newydd yn cerdded cyn cropian ac rwyf yn cytuno'n llwyr. Unwaith eto, mae hyn yn rhan o'r sgwrs ynghylch hyder, y sgwrs ynghylch arbenigedd, y sgwrs ynghylch meithrin y corff hwnnw o arbenigedd yn y sefydliad newydd wrth iddo esblygu dros amser ac wrth iddo ennill cynghreiriaid a meithrin hyder ymysg darpar bartneriaid, yn enwedig cyflogwyr a phrifysgolion.

On the prioritisation that Simon Thomas mentioned, I agree with him and I do not really have much to add, except to say that I think that, particularly within the vocational sphere, implicit in the way that the legislation is constructed is the idea that this should be an iterative process, if you like, between Minister, Assembly and new independent body, through remit letters, annual reports and, of course, an eye to what stakeholders are saying out there, in terms of the ever-changing landscape around what is needed around vocational skills as industry changes and employers' needs change.

O ran y blaenoriaethu y soniodd Simon Thomas amdano, rwyf yn cytuno ag ef, ac nid oes gennyf ryw lawer i'w ychwanegu, ac eithrio dweud fy mod yn meddwl, yn enwedig yn y cylch galwedigaethol, fod syniad ymhlyg yn y ffordd y mae'r ddeddfwriaeth wedi'i saernïo y dylai hon fod yn broses ailadroddol, os mynnwch chi, rhwng y Gweinidog, y Cynulliad a'r corff annibynnol newydd, drwy lythyrau cylch gwaith, adroddiadau blynyddol ac, wrth gwrs, yr hyn y mae rhanddeiliaid yn ei ddweud, o ran y tirlun sy'n newid yn gyson ynghylch yr hyn sydd ei angen o ran sgiliau galwedigaethol wrth i ddiwydiant ac anghenion cyflogwyr newid.

The timescales are tight, but that is one reason why I appointed an interim chief executive to hit the ground running. Philip Blaker is already hard at work, getting preparations in place. He has full confidence in our ability to deliver the legislation on time, and so do I. I think that this is something that can be delivered and is all to the good, in terms of making sure that we approach this with a good sense of—well, a sense of briskness, I suppose.

Mae'r amserlenni'n dynn, ond dyna un rheswm pam yr wyf yn penodi prif weithredwr dros dro i ddechrau ar unwaith. Mae Philip Blaker eisoes wrthi'n gweithio'n galed, yn sicrhau bod y paratoadau wedi'u gwneud. Mae ganddo, fel finnau, bob ffydd yn ein gallu i gyflwyno'r ddeddfwriaeth yn brydlon. Credaf fod hyn yn rhywbeth y gellir ei gyflwyno ac a fydd o fudd i bawb, o ran sicrhau ein bod yn ymdrin â hyn ag ymdeimlad da o—wel, ymdeimlad o sioncrwydd, mae'n debyg.

Confidence in terms of young people, and confidence in terms of higher education and employers, is, as Simon Thomas has said, right at the very heart of the day-to-day business of what Qualifications Wales will be all about. I take it from Simon Thomas's comments that he was alluding to some of the comments that have been made around the Welsh baccalaureate, in terms of acceptance across the border and so on. I would point out that the baccalaureate has enabled—. There are thousands of Welsh learners who have gained access to higher education as a result of their baccalaureate qualification. It has been the means without which they would not have gained entry into higher education, and there are fewer and fewer—an ever dwindling number—organisations that have yet to be won over in terms of what the baccalaureate means. The new grading structure and the new rigour within the Welsh baccalaureate will win over ever more realisation, particularly among universities. For instance, the universities of Oxford and Cambridge have already expressed their enthusiasm for the individual project in the baccalaureate and emphasis on skills within it.

Mae hyder o ran pobl ifanc, a hyder o ran addysg uwch a chyflogwyr, fel y mae Simon Thomas wedi'i ddweud, yn rhan ganolog o fusnes Cymwysterau Cymru o ddydd i ddydd. Cymeraf o sylwadau Simon Thomas ei fod yn cyfeirio at rai o'r sylwadau sydd wedi'u gwneud ynghylch bagloriaeth Cymru, o ran ei chydnabod dros y ffin ac yn y blaen. Hoffwn ddweud bod y fagloriaeth wedi galluogi—. Mae miloedd o ddysgwyr o Gymru sydd wedi gallu mynd ymlaen i addysg uwch oherwydd eu bagloriaeth. Heb hynny, ni fyddent wedi gallu mynd i addysg uwch, ac mae llai a llai o hyd o gyrff y mae'n rhaid eu darbwyllo o'r hyn y mae'r fagloriaeth yn ei olygu. Bydd y strwythur graddio newydd a'r trylwyredd newydd ym magloriaeth Cymru'n ennill mwy fyth o gydnabyddiaeth, yn enwedig ymhlith prifysgolion. Er enghraifft, mae prifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt eisoes wedi mynegi eu brwdfrydedd o ran y prosiect unigol yn y fagloriaeth a'r pwyslais ar sgiliau ynddo.

This is the stuff that employers and universities have been asking for, for many years, in terms of the narrowness of the A-level curriculum and the weaknesses that that narrowness throws up. Well, here it is: Wales's response is the baccalaureate, and it is our contribution to ensure that a rounded education is delivered to each and every one of our university aspirants.

Dyna'r hyn y mae cyflogwyr a phrifysgolion wedi bod yn gofyn amdano, am flynyddoedd lawer, o ran culni'r cwricwlwm Safon Uwch a'r gwendidau y mae'r culni hwnnw'n esgor arnynt. Wel, dyma ni: y fagloriaeth yw ymateb Cymru, a dyna ein cyfraniad i sicrhau bod addysg gyflawn yn cael ei darparu i bob un o'n hymgeiswyr i brifysgolion.

15:21

## Aled Roberts [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

A gaf i hefyd ddiolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad a diolch iddo am y cyfarfod yr wythnos diwethaf lle cafwyd tipyn bach mwy o fanylder ynglŷn â'r hyn sy'n cael ei gyflwyno heddiw? Rwy'n meddwl bod y craffu o flaen llaw hwn wedi bod yn fuddiol. Rwy'n meddwl bod nifer ohonom, fel aelodau o'r pwyllgor, wedi newid ein barn o achos yr hyn welsom ni yn yr Alban a hefyd yn Iwerddon. Rwyf hefyd yn meddwl bod y Gweinidog ei hun hwyrach wedi camu yn ôl ar ôl adroddiad y pwyllgor a'i fod, ar hyn o bryd beth bynnag, wedi cytuno mai'r ffordd orau ymlaen yw delio â'r holl ansefydlogrwydd ynglŷn â'r ffaith bod angen rheoleiddiwr annibynnol, ond hwyrach, fel y mae wedi ei ddweud y prynhawn yma, fod angen camu yn ôl o ran rhoi'r cymwysterau a'r ffaith bod y corff ei hun yn cynnig cymwysterau. Rwyf hefyd yn meddwl ei bod yn fuddiol bod y Gweinidog wedi newid y gyfundrefn fel bod yr adroddiad blynyddol yn dod o flaen y Cynulliad, fel ein bod ni'n cael cyfle i'w drafod.

May I also thank the Minister for his statement and thank him for the meeting last week where we were given slightly more detail about what is being presented today? I think that the pre-legislative scrutiny has been beneficial, and I think that a number of us, as members of the committee, have changed our view as a result of what we saw in Scotland and in Ireland. I also think that the Minister has perhaps taken a step back after the committee's report and he has, at present anyway, agreed that the best way forward is to deal with all the instability regarding the fact that we need an independent regulator, but perhaps, as he has said this afternoon, there is a need to step back in terms of the awarding of qualifications and the fact that the body itself will offer qualifications. I also think that it is positive that the Minister has changed the system so that the annual report comes before the Assembly, so that we have the opportunity to discuss it.

Mae problem, wrth gwrs, wrth ddod yn olaf, am fod y rhan fwyaf o'r cwestiynau wedi cael eu gofyn, ond rwyf yn meddwl bod angen inni ddeall yn iawn fod sôn yn y memorandwm esboniadol bod y Llywodraeth yn bwriadu mesur hyder pobl ifanc a rhieni ar sail cynllun buddion—y 'benefits realisation plan'. Rydych yn sôn eich bod yn mynd i seilio hynny ar yr arolwg cenedlaethol, ac rwyf i jest yn gofyn a yw hynny'n ddigonol, o achos fy mod yn siŵr eich bod chi'n ymwybodol bod yr un arolwg wedi dangos bod rhieni a phlant yn gefnogol iawn o wasanaethau addysg mewn siroedd lle mae'r Llywodraeth wedi gorfod ymyrryd gan fod y siroedd hynny, i ryw raddau, yn methu o ran eu gwasanaethau addysg. Felly, rwy'n gofyn i chi a ydych yn hollol fodlon ynglŷn â'r sail honno o weld a oes gan rieni a phlant hyder yn y system.

There is a problem, of course, in being the last speaker, because most of the questions have been asked, but I think that we need to understand that the explanatory memorandum states that the Government intends to measure the confidence of young people and parents through a benefits realisation plan. You mention that you are going to base that on the national survey, and I was wondering whether that will be adequate, because I am sure that you are aware that one survey has demonstrated that parents and children are very supportive of education services in counties where the Government has had to intervene because those counties, to some extent, were failing from the point of view of their education services. Therefore, I would ask whether you are totally satisfied with the way in which the confidence of parents and children in the system will be measured.

A gaf i hefyd ofyn cwestiwn ynglŷn â'r cymwysterau galwedigaethol hyn? Roedd hi'n amlwg, pan aethom i'r Alban, fod y cymhlethdod y soniodd Simon Thomas amdano yn creu sefyllfa lle nad oedd y corff rheoli cymwysterau yn yr Alban yn gyfrifol am yr holl gymwysterau galwedigaethol. Eto, mae'r Bil hwn yn sôn bod yn rhaid i Gymwysterau Cymru fod yn gyfrifol am gydnabod y cymhwyster, ond, wrth gwrs, y Llywodraeth a fydd yn ei ariannu. Rydych chi wedi gwneud y pwynt yn glir iawn o ran cymwysterau academaidd mai cymwysterau Cymru yn unig a fydd yn cael eu hariannu gan y Llywodraeth. A yw'r un peth yn wir am y sefyllfa honno o ran y cymwysterau galwedigaethol?

May I also ask a question about the vocational qualifications? It was evident, when we went to Scotland, that the complexity that Simon Thomas alluded to had led to a situation where the body regulating qualifications in Scotland was not responsible for all vocational qualifications. Yet, this Bill states that Qualifications Wales will be responsible for recognising the qualification, but, of course, it will be the Government that will fund it. You have made the point very clearly in terms of academic qualifications that it is only Welsh qualifications that will be funded by the Government. Does the same position apply to the vocational qualifications?

Hefyd, mae'r memorandwm esboniadol yn sôn am anawsterau ynglŷn â materion trawsffiniol. A yw'n bosibl i chi ehangu ar eich trafodaethau ar hyn o bryd â Llywodraeth Prydain ynglŷn â materion trawsffiniol, ac a ydych yn rhagweld y bydd y cyfundrefnau presennol ynglŷn â threfniadau rhwng Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, o ran y rheoleiddwyr, yn parhau?

Also, the explanatory memorandum refers to cross-border difficulties. Is it possible for you to expand on your discussions with the British Government regarding cross-border issues, and do you anticipate that the existing regimes appertaining to the arrangements between England, Wales and Northern Ireland, in terms of the regulators, will continue?

Yn olaf, eto, mae Simon Thomas wedi sôn am y costau. Rydych chi wedi dweud bod y costau'n iawn ar gyfer y flwyddyn o'n blaenau, ond ni fydd y corff hwn yn cael ei sefydlu tan mis Medi 2015. Mae'r memorandwm esboniadol yn cadarnhau y bydd nifer y staff yn y sefydliad newydd yn cynyddu o'r 37 aelod o staff o fewn y Llywodraeth yn bresennol i 73 aelod o staff erbyn 2016, ac y bydd y costau'n cynyddu o £1.6 miliwn i £4.3 miliwn. A yw'r cynnydd yn y costau hynny wedi cael ei gytuno o fewn y Cabinet? Hefyd, a wnewch chi esbonio union sefyllfa gweithwyr Cymwysterau Cymru? Mae 'Schedule' 1 y Bil yn dweud:

Finally, again, Simon Thomas talked about the costs. You have said that the costs are fine for the ensuing year, but this body will not be established until September 2015. The explanatory memorandum confirms that the number of staff members within the new institution will increase from the current 37 within the Government at present to 73 staff members by 2016, and that the costs will increase from £1.6 million to £4.3 million. Has the increase in the costs been agreed within Cabinet? Also, will you explain the exact position of Qualification Wales employees? Schedule 1 to the Bill states:

'Service as a member of Qualifications Wales' staff is not service in the civil service of theState.'

'Nid yw gwasanaeth fel aelod o staff Cymwysterau Cymru yn wasanaeth yng ngwasanaeth sifil y Wladwriaeth.'

Eto, mae'r memorandwm esboniadol yn dweud mai cynllun pensiwn y gwasanaeth sifil fydd yn cael ei ddefnyddio o ran y gweithwyr hynny.

Yet, the explanatory memorandum states that it is the civil service pension scheme that will be used from the point of view of those employees.

Roeddwn yn mynd i sôn hefyd am y CRIA, ond rwy'n falch o ddweud eich bod wedi ei roi ar y wefan y bore yma, felly ni allaf eich barnu am anghydweld â'n barn ni fel pwyllgor.

I was also going to mention the CRIA, but I am pleased to say that you have put it on the website this morning, so I cannot criticise you for not agreeing with our view as a committee.

15:26 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank Aled for those comments. I can only re-echo the usefulness of the work of the Children, Young People and Education Committee in terms of the pre-legislative work that did, as he is quite right to say, lead to the modifications that I made, which I was glad to make because I thought that this underscored the process of making good law. It was a very interesting and informative process from which the whole Assembly has something to learn.

Diolch i Aled am y sylwadau hynny. Ni allaf ond adleisio unwaith eto pa mor ddefnyddiol yw gwaith y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg o ran y gwaith cyn deddfu a arweiniodd, fel y dywed yn gwbl briodol, at yr addasiadau a wneuthum, ac yr oeddwn yn falch o'u gwneud oherwydd fy mod o'r farn bod hyn yn ategu'r broses o wneud cyfraith dda. Roedd yn broses a lwyddodd i ennyn diddordeb a darparu gwybodaeth ac mae gan y Cynulliad cyfan rywbeth i'w ddysgu oddi wrthi.

He is right about the word 'confidence' lying at the heart of everything that we do, but I would remind Aled that this is a national independent expert body and is there precisely to take the hand of political game-playing, which might potentially happen in scenarios that are not too difficult to imagine, out of the picture and offer an indisputable kitemark, if you like, to people in Wales and beyond in terms of quality, rigour and the confidence that they can hold in the system in terms of each individual qualification.

Mae yn llygad ei le bod y gair 'hyder' wrth wraidd popeth a wnawn, ond hoffwn atgoffa Aled mai corff arbenigol annibynnol cenedlaethol yw hwn ac y bwriedir iddo sicrhau na fydd dim chwarae gemau gwleidyddol, a allai o bosibl ddigwydd mewn sefyllfaoedd nad yw'n rhy anodd eu dychmygu, a chynnig nod barcud diamheuol, os mynnwch, i bobl yng Nghymru a thu hwnt o ran ansawdd, trylwyredd a'r hyder y gallant ei gael yn y system ynghylch pob cymhwyster unigol.

On Scotland, yes, there are some differences with Scotland. Some of those differences are there because of the work of the committee that saw attractive aspects to what was going on in Scotland and perhaps aspects that were not so useful or helpful. The vocational qualifications landscape is a different beast. It is much more diverse. There would obviously be a need to make sure that there was much more shared content in terms of England-and-Wales-type vocational qualifications than there might have to be within GCSEs and A-levels. So, that approach towards the vocational qualifications landscape needs to be a little different, but the same principles apply, of portability, quality, rigour and confidence.

O ran yr Alban, oes, mae rhai gwahaniaethau rhyngom a'r Alban. Mae rhai o'r gwahaniaethau hynny yno oherwydd gwaith y pwyllgor a welodd agweddau deniadol yn yr hyn a oedd yn digwydd yn yr Alban ac efallai agweddau nad oeddent mor ddefnyddiol neu fuddiol. Mae tirwedd y cymwysterau galwedigaethol yn fater cwbl wahanol. Mae'n fwy amrywiol o lawer. Wrth gwrs, byddai angen gwneud yn siŵr ein bod yn rhannu llawer mwy o gynnwys o ran cymwysterau galwedigaethol ar batrwm Cymru a Lloegr nag y byddai angen ei wneud gyda chymwysterau TGAU a Safon Uwch. Felly, mae angen i'r ymagwedd honno tuag at dirwedd y cymwysterau galwedigaethol fod ychydig yn wahanol, ond mae'r un egwyddorion yn berthnasol—hygludedd, ansawdd, trylwyredd a hyder.

In terms of Aled's questions around the cross-border issues, he is quite right to throw that up as a concern. There will be provision within the Bill for making absolutely clear what the relative roles of Ofqual and Qualifications Wales actually are, to make it clear for us in Wales and to send a very clear signal also to Ofqual about exactly what Ofqual's purpose is in relation to the UK. There should be no doubt in the minds of those who manage Ofqual that devolution is a reality and that they should accommodate themselves to it. That is not to rule out, of course—in fact, it will be necessary—our working alongside Ofqual, particularly in terms of ensuring that there is good portability of qualifications across borders.

O ran cwestiynau Aled ynghylch y materion trawsffiniol, mae'n hollol iawn i godi hynny fel pryder. Bydd darpariaeth yn y Bil ar gyfer ei gwneud yn gwbl glir beth yw swyddogaethau cymharol Ofqual a Chymwysterau Cymru mewn gwirionedd, i'w gwneud yn glir i ni yng Nghymru, ac i anfon neges glir iawn hefyd i Ofqual ynghylch beth yn union yw pwrpas Ofqual mewn perthynas â'r DU. Ni ddylai fod dim amheuaeth ymhlith y rhai sy'n rheoli Ofqual nad yw datganoli'n realiti ac yn rhywbeth y dylent ddygymod ag ef. Nid yw hynny'n golygu, wrth gwrs na allwn weithio ochr yn ochr ag Ofqual—yn wir, bydd yn rhaid gwneud hynny—yn enwedig o ran sicrhau bod modd cludo'r cymwysterau ar draws ffiniau.

Finally, I can confirm to Aled that I have the agreement of my Cabinet colleagues to increase the resource allocated towards this area of work. I think that it is a necessary—and the Cabinet agrees—increase in capacity, again, if we are to underpin that expertise, to make sure that we have the capacity to deal with quite a varied qualifications landscape, and to continually promote that confidence in the way that Wales does business, as regards its qualifications regime.

Yn olaf, gallaf gadarnhau, Aled, fod fy nghydweithwyr yn y Cabinet wedi cytuno i neilltuo rhagor o adnoddau i'r maes hwn. Credaf ei fod yn gynnydd angenrheidiol mewn capasiti, unwaith eto—ac mae'r Cabinet yn cytuno—os ydym am ategu'r arbenigedd hwnnw, er mwyn sicrhau bod gennym y gallu i ymdrin â thirwedd cymwysterau eithaf amrywiol, ac er mwyn hybu'r hyder hwnnw o hyd yn y ffordd y mae Cymru'n cynnal ei busnes, o safbwynt ei chyfundrefn cymwysterau.

15:30 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It is always good to follow the spokespeople from the other parties, because now I know what sort of questioning they are going to be providing on the scrutiny of this Bill at committee. So, thank you for that, guys—that was very useful, and very enlightening.

Mae bob amser yn dda o beth dilyn llefarwyr y pleidiau eraill, oherwydd rwyf yn gwybod yn awr pa fath o gwestiynau y maent am eu gofyn wrth graffu ar y Bil hwn yn y pwyllgor. Felly, diolch ichi am hynny, bobl—roedd yn ddefnyddiol ac yn ddiddorol iawn.

Minister, a lot of what I was going to say has been said, as Aled and Simon have mentioned. I too was going to mention the, I think, very bold step that we took to look at pre-legislative scrutiny. I am very grateful for your comments on the fact that it has helped you to shape what we hope will be a better way of doing legislation.

Weinidog, mae llawer o'r hyn yr oeddwn am ei ddweud wedi cael ei ddweud, fel y mae Aled a Simon wedi sôn. Roeddwn innau hefyd yn mynd i sôn am y cam dewr iawn a gymerwyd gennym o ran y craffu cyn deddfu. Rwyf yn ddiolchgar iawn am eich sylwadau ynghylch y ffaith bod hynny wedi bod o gymorth ichi i lunio'r hyn yr ydym yn gobeithio fydd yn ffordd well o wneud deddfwriaeth.

I want to just talk about the learner. We have talked a lot this afternoon about how the qualifications were set up. My one question—because I can see the Presiding Officer looking at me, as if to say, 'Hurry up'—

Rwyf am sôn am y dysgwr. Rydym wedi sôn cryn dipyn y prynhawn yma ynglŷn â sut y cafodd y cymwysterau eu sefydlu. Fy unig gwestiwn—oherwydd gallaf weld y Llywydd yn edrych arnaf, fel pe bai'n dweud, 'Brysiwch'—

15:31 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have not looked at you to hurry yet. You have plenty of time, Ann Jones.

Nid wyf wedi edrych arnoch er mwyn i chi frysio eto. Mae gennych ddigon o amser, Ann Jones.

15:31 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Oh, thank you very much. [Laughter.]

O, diolch yn fawr iawn. [Chwerthin.]

15:31 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Not too long, but plenty.

Ddim yn rhy hir, ond digon.

15:31 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

All right, then. [Laughter.]

Popeth yn iawn, felly. [Chwerthin.]

I was just going to talk about the learner, and about how we embed the learner in the centre of all of this. I notice that you have a paragraph in your statement that says:

Roeddwn am sôn am y dysgwr, ac am y ffordd yr ydym yn rhoi'r dysgwr wrth wraidd hyn oll. Sylwaf fod gennych baragraff yn eich datganiad sy'n dweud bod y darpariaethau'n:

'place the learner at the heart of the regulator's activities and give a broad scope to Qualifications Wales.'

'rhoi'r dysgwr wrth galon gweithgareddau'r rheoleiddiwr ac yn rhoi cwmpas eang i Gymwysterau Cymru.'

Does that include listening to what learners want, and how learners will want to shape their own learning journey—through either academic or vocational, and then swap to academic or vice versa, or even do them at the same time? I would just be interested to know whether you have any views at this point about how that will happen.

A yw hynny'n cynnwys gwrando ar yr hyn y mae ar ddysgwyr ei eisiau, a'r ffordd y bydd dysgwyr am lunio eu taith ddysgu eu hunain—naill ai'n academaidd neu'n alwedigaethol, ac yna gyfnewid i academaidd neu fel arall, neu hyd yn oed eu gwneud ar yr un pryd? Byddai gennyf ddiddordeb cael gwybod a oes gennych farn ar hyn o bryd ynghylch sut y bydd hynny'n digwydd.

15:32 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

'Yes, of course' is the answer to that. From the very beginning, schools and colleges have been involved in the consultation. We have kept them informed of developments. Information packs outlining the changes to qualifications were issued to schools back in October, and schools were also represented on our Qualifications Wales advisory board. There is also great care—and I will ensure that this is done to the utmost of our ability—that, with learners being at the heart of the matter, as Ann Jones has mentioned, we should not disrupt their learning, as we institute this new regime. At any given time, there are young people choosing qualifications, there are young people preparing for them, and there are young people who are sitting them, and are waiting for their results, or, indeed, using the qualifications as a passport to a job or to further learning. There has to be that central principle in terms of how we go through the legislative process, and then implement the change after that, that none of these learners, at any stage within those processes, is disadvantaged in any way at all.

'Ydi, wrth gwrs' yw'r ateb i hynny. O'r cychwyn cyntaf, mae ysgolion a cholegau wedi bod yn rhan o'r ymgynghoriad. Rydym wedi rhoi gwybodaeth iddynt am y datblygiadau. Cafodd pecynnau gwybodaeth yn amlinellu'r newidiadau i gymwysterau eu dosbarthu i ysgolion yn ôl ym mis Hydref, ac roedd cynrychiolaeth o blith ysgolion hefyd ar fwrdd cynghori Cymwysterau Cymru. Cymerir gofal mawr hefyd —a byddaf yn sicrhau y gwneir hyn hyd eithaf ein gallu—gan fod dysgwyr yn ganolog i hyn oll, fel y mae Ann Jones wedi'i grybwyll, i sicrhau na fydd rhoi'r drefn newydd hon ar waith yn amharu ar eu dysgu. Ar unrhyw adeg benodol, mae pobl ifanc yn dewis cymwysterau, mae pobl ifanc yn paratoi ar eu cyfer, ac mae pobl ifanc yn eu sefyll, ac yn aros am eu canlyniadau, neu, yn wir, yn defnyddio'r cymwysterau fel pasbort i swydd neu i ddysgu pellach. Mae'n rhaid sicrhau'r egwyddor ganolog honno o ran y ffordd yr ydym yn mynd drwy'r broses ddeddfwriaethol, ac yna'n gweithredu'r newid, sef nad oes yr un o'r dysgwyr hyn, ar unrhyw adeg yn y prosesau hynny, dan unrhyw anfantais.

So, yes, learners are at the heart of the matter, and that, of course, is written in to the constraints around how Qualifications Wales would operate day to day.

Felly, ydi, mae dysgwyr wrth wraidd hyn oll, ac, wrth gwrs, mae hynny wedi ei ymgorffori yn y cyfyngiadau ynghylch sut y byddai Cymwysterau Cymru'n gweithredu o ddydd i ddydd.

15:33 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would like to join colleagues in welcoming the Bill. I was particularly pleased that the new body must have regard for the economy, because that was the kind of horizon thinking that I was hoping to engage with my own Bill.

Hoffwn innau hefyd groesawu'r Bil. Roeddwn yn arbennig o falch bod yn rhaid i'r corff newydd roi sylw i'r economi, oherwydd dyna'r math o edrych tua'r gorwel yr oeddwn yn gobeithio ei ennyn drwy fy Mil innau.

You say in the statement that the Welsh Government, although it will be independent, will be able to direct the new body, to have regard to your policies. I think that priority qualifications address some of that. However, for me, we have discussed content at some length, and I think that what is important for us as Members to understand is where that content fits in to the new system, because many of us taking evidence in the pre-legislative scrutiny found it, perhaps, more difficult to do so, with Donaldson in train at the moment. So, we need to understand how the qualifications will be shaped, based on the work that Donaldson is currently carrying out. For example, my pet project is financial inclusion and others may have equally as important ideas that may shape how we want to develop Wales for the future. So, when we are making those priority lists, do they change from year to year? Are they amended in relation to Government Ministers' priorities? You have mentioned that they would have to go through the resolution of the Assembly, but if you just gave us more of an idea of that, it would help alleviate some of our concerns on that level.

Dywedwch yn y datganiad y bydd Llywodraeth Cymru, er y bydd yn annibynnol, yn gallu cyfarwyddo'r corff newydd i ystyried eich polisïau. Credaf fod cymwysterau blaenoriaethol yn ymdrin â rhywfaint o hynny. Fodd bynnag, o'm safbwynt i, rydym wedi trafod y cynnwys yn eithaf manwl, ac rwyf yn meddwl mai'r hyn sy'n bwysig i ni fel Aelodau ei ddeall yw beth yw lle'r cynnwys hwnnw yn y system newydd, gan fod llawer ohonom a oedd yn cymryd tystiolaeth yn y sesiynau craffu cyn deddfu wedi ei chael yn fwy anodd, efallai, gwneud hynny, gan fod Donaldson ar waith ar hyn o bryd. Felly, mae angen inni ddeall beth fydd ffurf y cymwysterau, yn seiliedig ar y gwaith y mae Donaldson yn ei wneud ar hyn o bryd. Er enghraifft, fy hoff bwnc yw cynhwysiant ariannol ac efallai y bydd gan eraill syniadau yr un mor bwysig a all lywio'r ffordd yr ydym am ddatblygu Cymru at y dyfodol. Felly, pan fyddwn yn llunio'r rhestrau blaenoriaethol hynny, a fyddant yn newid o flwyddyn i flwyddyn? A fyddant yn cael eu diwygio mewn perthynas â blaenoriaethau Gweinidogion y Llywodraeth? Rydych wedi sôn y byddai'n rhaid iddynt fod yn destun penderfyniad gan y Cynulliad, ond pe gallech roi mwy o syniad inni ynglŷn â hynny, byddai'n helpu i leddfu rhai o'n pryderon ar y lefel honno.

Clearly, I agree with putting the learners at the heart of what is happening here, but I would just like to understand the other eight areas that you mentioned, such as higher education providers, professionals, the Welsh language and the economy. It is noble to have them as indicators of importance, but how do you seek to make sure that all their voices are heard equally and fairly in moving forward, because when I went to Scotland to look at my own Bill, for example, they had panels of experts on particular areas of the qualification? Would you be minded to do something like that, for example, and have different panels on different subjects?

Wrth gwrs, rwyf yn cytuno â rhoi'r dysgwyr wrth wraidd yr hyn sy'n digwydd yma, ond hoffwn ddeall yr wyth maes arall a grybwyllwyd gennych, megis darparwyr addysg uwch, gweithwyr proffesiynol, y Gymraeg a'r economi. Mae'n dda o beth eu bod yn ddangosyddion o bwys, ond sut ydych chi'n ceisio gwneud yn siŵr bod llais pob un yn cael ei glywed yn gyfartal ac yn deg wrth symud ymlaen, oherwydd pan euthum i'r Alban i edrych ar fy Mil fy hun, er enghraifft, roedd ganddynt baneli o arbenigwyr ar feysydd penodol o'r cymhwyster? A fyddech yn ystyried gwneud rhywbeth tebyg, er enghraifft, a chael paneli gwahanol ar wahanol bynciau?

The other issue that I wanted to raise emanates from what Ann Jones said. The outreach team did research recently with young people and it showed where their priorities are, what subjects they like and what subjects they do not like. Worryingly, it said that many of those learners wanted to study outside Wales in the future. That is something that we all need to take on board. So, for me, it is really about whether you are you looking at those types of pieces of research and information to guide you as to potentially where learners want to see more development—where they are not seeing that at the moment—or where subjects may be amended or changed in the future, if they do not see that as a priority. I think that it is essential that we hear from the people who are going to be taking these qualifications about how they feel they could be improved, because if we are starting from new we may as well talk to everybody openly and frankly so that we can start from a basis of respect. If we all have buy in from the start we will not have to fear that the qualifications here do not have the same stature as those in other parts of the UK, and they are going to be effective. So, that is what I would like to finish on.

Mae’r mater arall yr oeddwn am ei godi’n deillio o’r hyn a ddywedodd Ann Jones. Gwnaeth y tîm allgymorth ymchwil yn ddiweddar gyda phobl ifanc ac roedd yn dangos ble y mae eu blaenoriaethau, pa bynciau y maent yn eu hoffi a pha bynciau nad ydynt yn eu hoffi. Mae'n destun gofid bod llawer o'r dysgwyr hynny am astudio y tu allan i Gymru yn y dyfodol. Mae hynny'n rhywbeth y mae angen inni i gyd ei ystyried. Felly, i mi, mae'n ymwneud ag a ydych yn edrych ar y mathau hynny o ddarnau o ymchwil a gwybodaeth i’ch arwain o ran ble efallai y mae dysgwyr am weld mwy o ddatblygu—lle nad ydynt yn gweld hynny ar hyn o bryd—neu ble y gellid diwygio pynciau neu eu newid yn y dyfodol, os nad ydynt yn gweld hynny fel blaenoriaeth. Credaf ei bod yn hanfodol ein bod yn clywed gan y bobl a fydd yn cymryd y cymwysterau hyn ynglŷn â sut yn eu barn hwy y gellid eu gwella, oherwydd os ydym yn dechrau o'r newydd, mae’n werth inni siarad â phawb yn agored ac yn onest er mwyn inni allu dechrau o sylfaen o barch. Os ydym i gyd yn ymrwymo o'r cychwyn ni fydd yn rhaid inni ofni nad oes yr un statws i’r cymwysterau yma â'r rhai mewn rhannau eraill o'r DU, a byddant yn effeithiol. Felly, dyna'r hyn yr hoffwn orffen arno.

15:37

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

My thanks to Bethan Jenkins for those important points. Many of her questions, I think, relate to the relationship that will be in the future between Qualifications Wales and the Welsh Government, or the Minister, and the Assembly more widely. Perhaps, it would help if I made the implications of the legislation clear. Qualifications Wales, as I have said, would be an independent regulator and it would provide an annual report to the National Assembly. Of course, the Welsh Government will have financial controls in place. This organisation would be in receipt of public funding, and that is only proper. In terms of the curriculum, while Welsh Ministers’ regulatory functions would be removed in favour of Qualifications Wales’s new powers and duties, the Government will continue to develop and set the curriculum and develop policies on skills.

Diolch i Bethan Jenkins am y pwyntiau pwysig hynny. Mae llawer o'i chwestiynau, rwyf yn meddwl, yn ymwneud â'r berthynas a fydd yn y dyfodol rhwng Cymwysterau Cymru a Llywodraeth Cymru, neu'r Gweinidog, a'r Cynulliad yn ehangach. Efallai y byddai o gymorth pe bawn yn egluro goblygiadau'r ddeddfwriaeth. Byddai Cymwysterau Cymru, fel y dywedais, yn rheoleiddiwr annibynnol a byddai'n darparu adroddiad blynyddol i'r Cynulliad Cenedlaethol. Wrth gwrs, bydd gan Lywodraeth Cymru reolaethau ariannol ar waith. Byddai’r sefydliad hwn yn derbyn arian cyhoeddus, ac nid yw hynny ond yn briodol. O ran y cwricwlwm, er y byddai swyddogaethau rheoleiddio Gweinidogion Cymru yn cael eu diddymu yn sgil pwerau a dyletswyddau newydd Cymwysterau Cymru, bydd y Llywodraeth yn parhau i ddatblygu ac i osod y cwricwlwm ac i ddatblygu polisïau o ran sgiliau.

The Bill provides that the only area of qualifications policy on which Welsh Ministers would be able to specify requirements to Qualifications Wales would be in relation to the content of qualifications—in other words, the curriculum content of qualifications, namely the minimum requirements, if you like, of knowledge, skills and understanding as they relate to the curriculum. Of course, you need safeguards around a thing like that. Any requirements that are set out in regulations in that regard are going to require the Assembly's approval for them to come into force. This particular review of the curriculum and any future review of the curriculum may well need to be formed into a requirement in relation to qualifications, although it does not make any difference as regards the actual structure of Qualifications Wales. That content, as I said, set by Government would be safeguarded through the Assembly as a whole.

Mae'r Bil yn darparu mai'r unig ran o bolisi cymwysterau y byddai Gweinidogion Cymru yn gallu gosod gofynion ar Gymwysterau Cymru yn ei gylch fyddai cynnwys y cymwysterau—mewn geiriau eraill, cynnwys y cwricwlwm o ran cymwysterau, sef y gofynion sylfaenol, os mynnwch, gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth fel y maent yn ymwneud â'r cwricwlwm. Wrth gwrs, mae angen dulliau diogelu ar gyfer rhywbeth felly. Bydd angen cymeradwyaeth y Cynulliad ar gyfer unrhyw ofynion a nodir mewn rheoliadau ynghylch hynny er mwyn iddynt ddod i rym. Efallai y bydd angen i'r adolygiad penodol hwn o'r cwricwlwm ac unrhyw adolygiad o'r cwricwlwm yn y dyfodol gael ei wneud yn ofyniad mewn perthynas â chymwysterau, er nad yw'n gwneud dim gwahaniaeth o ran strwythur Cymwysterau Cymru. Byddai'r cynnwys hwnnw, fel y dywedais, a bennir gan y Llywodraeth, wedi'i ddiogelu drwy'r Cynulliad yn ei gyfanrwydd.

In addition to that, officials would work with Qualifications Wales to issue an annual remit letter, which would articulate the terms of funding and may include commissions for agreed additional pieces of work. That is all laid out in the proposed legislation. However, the Minister would not provide direction in relation to business planning and would not be able to fetter Qualifications Wales's operational independence in terms of the decisions that it makes.

Yn ogystal â hynny, byddai swyddogion yn gweithio gyda Chymwysterau Cymru i gyhoeddi llythyr cylch gwaith blynyddol, a fyddai'n egluro telerau'r cyllid a gallai gynnwys comisiynau ar gyfer darnau ychwanegol o waith y cytunwyd arnynt. Mae hyn i gyd wedi ei nodi yn y ddeddfwriaeth arfaethedig. Fodd bynnag, ni fyddai'r Gweinidog yn darparu cyfarwyddyd ynghylch cynllunio busnes ac ni fyddai'n gallu llesteirio annibyniaeth weithredol Cymwysterau Cymru o ran y penderfyniadau y mae'n eu gwneud.

So, the model is reasonably clearly described in terms of what is before us, and it remains for us, as Government and Assembly working together, to ensure that this legislation delivers what it says on the tin. Bethan Jenkins is quite right to always come back to the need for us to listen very carefully to the voice of young people, during this process and in terms of how Qualifications Wales will do its business, day to day, when it is established. There would also be a direct duty, through the annual report, for Assembly Members to do their duty as representatives of the learner as they hold the new organisation to account.

Felly, mae'r model wedi'i ddisgrifio'n weddol glir o ran yr hyn sydd ger ein bron, ac mae'n fater i ni, yn Llywodraeth ac yn Gynulliad yn gweithio gyda'n gilydd, i sicrhau bod y ddeddfwriaeth hon yn cyflawni'r hyn y mae'n ei ddweud ar y tun. Mae Bethan Jenkins yn llygad ei lle wrth ddod yn ôl bob amser at yr angen inni i wrando'n ofalus iawn ar lais pobl ifanc, yn ystod y broses hon ac o ran sut y bydd Cymwysterau Cymru yn cynnal ei fusnes, o ddydd i ddydd, pan gaiff ei sefydlu. Byddai dyletswydd uniongyrchol hefyd, drwy'r adroddiad blynyddol, i Aelodau'r Cynulliad i wneud eu dyletswydd fel cynrychiolwyr y dysgwr wrth iddynt ddal y sefydliad newydd i gyfrif.

15:40

## Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Minister for his statement today. I am pleased that this Bill sets out how the Welsh Government is going to act on the review of the 14-19 qualifications, which I helped to take forward with your predecessor during my time as Deputy Minister for Skills and Technology. The establishment of Qualifications Wales was one of those recommendations, as indeed was the recommendation to grade the core of the Welsh baccalaureate, making it a stronger qualification, not only for entry into higher level, but also for use in other fields such as higher-level engineering apprenticeships, for example.

Diolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad heddiw. Rwyf yn falch bod y Bil hwn yn nodi sut y mae Llywodraeth Cymru'n mynd i weithredu o ran yr adolygiad o gymwysterau 14-19, y cynorthwyais i'w datblygu gyda'ch rhagflaenydd yn ystod fy nghyfnod fel Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg. Sefydlu Cymwysterau Cymru oedd un o'r argymhellion hynny, ac felly hefyd yr argymhelliad i raddio elfen graidd bagloriaeth Cymru, gan ei gwneud yn gymhwyster cryfach, nid yn unig ar gyfer mynd ymlaen i lefel uwch, ond hefyd ar gyfer ei defnyddio mewn meysydd eraill fel prentisiaethau peirianneg lefel uwch, er enghraifft.

Qualifications Wales, as you have said, will rightly act as an independent regulatory body. Will you, therefore, agree with me on the importance of a rigorous approach to exam and qualification regulation, ensuring not only a genuine balance between academic and vocational qualification, but that the qualifications offered are relevant? At the time of the review of the 14-19 qualifications, there was something like 11,000 qualifications available for Welsh learners, which clearly was a very confusing picture for them, their parents and, of course, employers. There is also the need to ensure high-quality, internationally recognised standards in our qualifications structure in Wales.

Bydd Cymwysterau Cymru, fel yr ydych wedi dweud, yn gweithredu fel corff rheoleiddio annibynnol. A wnewch chi, felly, gytuno â mi ynghylch pwysigrwydd ymagwedd drylwyr at reoleiddio arholiadau a chymwysterau, gan sicrhau nid yn unig gydbwysedd gwirioneddol rhwng cymwysterau academaidd a galwedigaethol, ond bod y cymwysterau a gynigir yn berthnasol? Adeg yr adolygiad o gymwysterau 14-19, roedd oddeutu 11,000 o gymwysterau ar gael i ddysgwyr Cymru, ac roedd hynny'n amlwg yn ddarlun dryslyd iawn iddynt hwy, i'w rhieni ac, wrth gwrs, i gyflogwyr. Mae hefyd angen sicrhau safonau o ansawdd da, a gydnabyddir yn rhyngwladol yn ein strwythur cymwysterau yng Nghymru.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 15:42.*

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 15:42.*

## Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography

Will you also agree with me about the importance of ensuring that the needs of industry are met and that Qualifications Wales maintains good links between key stakeholders, such as employers, work-based learning providers, further and higher education, as well as schools and other bodies, so that if, in time, it also becomes an awarding body, it will base those new qualifications on a firm understanding of skill needs?

A wnewch chi hefyd gytuno â mi ynghylch pwysigrwydd sicrhau bod anghenion diwydiant yn cael eu bodloni a bod Cymwysterau Cymru'n cynnal cysylltiadau da rhwng rhanddeiliaid allweddol, megis cyflogwyr, darparwyr dysgu seiliedig ar waith, addysg bellach ac addysg uwch, yn ogystal ag ysgolion a chyrff eraill, er mwyn iddo, ymhen amser, os daw hefyd yn gorff dyfarnu, seilio'r cymwysterau newydd hynny ar ddealltwriaeth gadarn o anghenion sgiliau?

15:43

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for Caerphilly. He is quite right, of course, and he comes to the heart of several matters here. Those issues of rigour, relevance and the needs of industry, as well as the outlook of suppliers of further learning—universities and others—would be the bread and butter business of Qualifications Wales. This would become a body of experts, constantly safeguarding the reputation, rigour and relevance of the Welsh landscape of qualifications. As I have also said, it will have an eye to the simplification of that over-complex—. There has been a wall of confusion in terms of vocational qualifications for some time, but I am sure that Qualifications Wales will bring further progressive pressure in order to make sure that the landscape for learners is clearer, that we have a simpler path to navigate, and that we have that reassurance around the quality of individual qualifications.

Diolch i'r Aelod dros Gaerffili. Mae'n hollol iawn, wrth gwrs, ac mae'n dod at wraidd nifer o faterion yma. Y materion hynny—manwl gywirdeb, perthnasedd ac anghenion diwydiant, yn ogystal â rhagolygon cyflenwyr dysgu pellach, sef prifysgolion ac eraill, fyddai bara menyn Cymwysterau Cymru. Byddai'n dod yn gorff o arbenigwyr, yn diogelu enw da, trylwyredd a pherthnasedd tirwedd cymwysterau Cymru yn gyson. Fel yr wyf hefyd wedi dweud, bydd yn ceisio symleiddio'r drefn or-gymhleth—. Bu wal o ddryswch o ran cymwysterau galwedigaethol ers peth amser, ond rwyf yn sicr y bydd Cymwysterau Cymru'n rhoi rhagor o bwysau cynyddol er mwyn gwneud yn siŵr bod y dirwedd i ddysgwyr yn gliriach, bod gennym lwybr symlach i'w lywio, a'n bod gennym y sicrwydd hwnnw ynghylch ansawdd y cymwysterau unigol.

Qualifications Wales will be charged with ensuring that qualifications are effective to meet the needs of learners in Wales, and in delivering upon that, which is one of its principal aims, Qualifications Wales will need to be sure that learners taking approved qualifications—and this is the wording—

Bydd Cymwysterau Cymru'n gyfrifol am sicrhau bod cymwysterau'n effeithiol er mwyn bodloni anghenion dysgwyr yng Nghymru, ac wrth roi hynny ar waith, sef un o'i brif amcanion, bydd angen i Gymwysterau Cymru fod yn siŵr bod dysgwyr sy'n cymryd cymwysterau a gymeradwywyd—a dyma'r geiriad—

'will be able to progress confidently and competently to the next stage of learning'.

'yn gallu symud ymlaen yn hyderus ac yn gymwys i'r cyfnod dysgu nesaf.'

So, it would have to have regard to the comparability of qualifications within Wales and the comparability of our qualifications as regards the wider world outside Wales. This is written in to the DNA of the legislation too, as well as meeting the reasonable needs of employers, higher education institutions and the professions. Of course, there is that further safeguard, as I have already mentioned, of that constant public scrutiny that will come through the annual report to the Assembly. So, it will be a quite transformed landscape in terms of the way that regulation would have been carried out through me or through my predecessors. Really, the window will have been thrown open—not that I am suggesting, of course, that any previous or present Minister for education of the Assembly would be anything other than a model of probity, rigour and regard to the very highest standards of public life. However, I believe that this system will deliver us full-time supervision on behalf of very many people. Of course, at the centre of this, there are the experts within Qualifications Wales themselves on the very agenda that Jeff Cuthbert has described.

Felly, byddai'n rhaid iddo roi sylw i gymaroldeb cymwysterau yng Nghymru a chymaroldeb ein cymwysterau o ran y byd ehangach y tu allan i Gymru. Mae hyn yn rhan o DNA y ddeddfwriaeth hefyd, yn ogystal â bodloni anghenion rhesymol cyflogwyr, sefydliadau addysg uwch a'r proffesiynau. Wrth gwrs, mae mesurau diogelu pellach, fel yr wyf eisoes wedi sôn, sef y craffu cyhoeddus cyson a fydd yn dod drwy'r adroddiad blynyddol i'r Cynulliad. Felly, bydd yn dirwedd wedi'i thrawsnewid o ran y ffordd y byddai rheoleiddio wedi digwydd drwof i neu drwy fy rhagflaenwyr. Yn wir, bydd y ffenestr wedi ei thaflu ar agor—nid fy mod yn awgrymu, wrth gwrs, fod unrhyw Weinidog addysg blaenorol neu bresennol y Cynulliad wedi bod yn ddim ond esiampl o uniondeb, trylwyredd ac ystyriaeth i'r safonau uchaf posibl mewn bywyd cyhoeddus. Fodd bynnag, credaf y bydd y system hon yn darparu goruchwyliaeth lawn amser inni ar ran llawer iawn o bobl. Wrth gwrs, yn rhan ganolog o hyn, mae'r arbenigwyr o fewn Cymwysterau Cymru ar yr union agenda honno y mae Jeff Cuthbert wedi'i disgrifio.

15:46 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch ichi, Weinidog.

15:46 Senedd.tv Fideo Video

## Datganiad: Gwyddoniaeth yng Nghymru—Ysbrydoli'r Genhedlaeth Nesaf

## Statement: Science in Wales—Inspiring the Next Generation

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I call the Minister, Edwina Hart.

Galwaf y Gweinidog, Edwina Hart,.

15:46 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport*

Thank you very much indeed, Deputy Presiding Officer.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd.

As you are aware, the Chief Scientific Adviser for Wales, Professor Williams, addressed Members on 1 July. A number of issues were raised about science education and engagement, particularly about too few female pupils and students taking up science courses, especially those in physics. This denies Wales a huge part of its potential scientific and technical talent pool.

Fel y gwyddoch, bu Prif Gynghorydd Gwyddonol Cymru, yr Athro Williams, yn annerch yr Aelodau ar 1 Gorffennaf. Codwyd nifer o faterion ynghylch addysgu gwyddoniaeth ac ymgysylltu, yn enwedig ynghylch y ffaith bod rhy ychydig o ddisgyblion a myfyrwyr benywaidd yn dilyn cyrsiau gwyddoniaeth, yn enwedig rhai ffiseg. Mae hyn yn nadu i Gymru ran enfawr o'i chronfa bosibl o dalent wyddonol a thechnegol.

We have been reviewing the operation and direction of the National Science Academy, or NSA, and are now establishing defined priorities, seeking to build on our strengths. We intend to look at long-term stable support for programmes, and a key element will be a focus on achieving our defined aims, which will include work that can influence children about the benefit and enjoyment of studying science during key stages 2 and 3 and when they are deciding what path to follow in their studies. There is a clear need also for parents to share in this agenda, since they are strongly influential in career choice. There will be work that will break down barriers and actively encourage more girls to continue the study of STEM subjects and go on to pursue careers in science and technology. These aims are the basis for the future strategy for the NSA.

Rydym wedi bod yn adolygu gweithrediad a chyfeiriad yr Academi Wyddoniaeth Genedlaethol, a bellach rydym yn pennu blaenoriaethau wedi'u diffinio, ac yn ceisio adeiladu ar ein cryfderau. Rydym yn bwriadu edrych ar gymorth sefydlog hirdymor i raglenni, ac un elfen allweddol o hynny fydd pwyslais ar gyflawni ein nodau diffiniedig, a fydd yn cynnwys gwaith a all ddylanwadu ar blant ynghylch budd a mwynhad astudio gwyddoniaeth yn ystod cyfnodau allweddol 2 a 3 a phan fyddant yn penderfynu pa lwybr i'w ddilyn yn eu hastudiaethau. Mae angen clir hefyd i rieni rannu'r agenda hon, gan eu bod yn ddylanwadol iawn wrth ddewis gyrfa. Gwneir gwaith a fydd yn chwalu rhwystrau ac yn mynd ati i annog mwy o ferched i barhau i astudio pynciau STEM ac i fynd ymlaen i ddilyn gyrfaoedd mewn gwyddoniaeth a thechnoleg. Dyma'r nodau a fydd yn sail i'r strategaeth ar gyfer yr Academi Wyddoniaeth Genedlaethol yn y dyfodol.

We are piloting a scheme to allow a few groups of pupils in years 7 to 9 from schools across Wales to experience the exciting and challenging laboratory sessions in the Royal Institution of Great Britain's Young Scientist Centre in London. We are also piloting the provision of STEMNET ambassadors in junior schools, as well as helping non-specialist primary school teachers to better present science in schools. A principle underlying much of our activity and programmes will be to engage deprived children in STEM subjects. We know that they do not take part in as many non-curriculum science-related activities as other children.

Rydym yn treialu cynllun i ganiatáu i ychydig o grwpiau o ddisgyblion ym mlynyddoedd 7 i 9 mewn ysgolion ledled Cymru brofi'r sesiynau labordy cyffrous a heriol yng Nghanolfan Gwyddonwyr Ifanc Sefydliad Brenhinol Prydain Fawr yn Llundain. Rydym hefyd yn treialu darparu llysgenhadon STEMNET mewn ysgolion cynradd, ac yn helpu athrawon cynradd nad ydynt yn arbenigwyr i gyflwyno gwyddoniaeth yn well mewn ysgolion. Un o'r egwyddorion a fydd yn sail i lawer o'n gweithgarwch a'n rhaglenni fydd cynnwys plant difreintiedig mewn pynciau STEM. Rydym yn gwybod nad ydynt yn cymryd rhan mewn cynifer o weithgareddau sy'n gysylltiedig â gwyddoniaeth ac nad ydynt yn rhan o'r cwricwlwm â phlant eraill.

The NSA has engaged STEM enrichment stakeholders, including developing closer ties with the recently established UK national public engagement forum for STEM. They want to create closer collaboration between STEM enrichment organisations, as they develop a national agenda together, based on better evidence to support advocacy and the development of a more systematic evaluation of STEM enrichment.

Mae'r Academi Wyddoniaeth Genedlaethol wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid cyfoethogi STEM, gan gynnwys datblygu cysylltiadau agosach â fforwm cenedlaethol ymgysylltu â'r cyhoedd y DU ar gyfer STEM a sefydlwyd yn ddiweddar. Maent yn awyddus i feithrin cydweithredu agosach rhwng sefydliadau cyfoethogi STEM, wrth iddynt ddatblygu agenda genedlaethol gyda'i gilydd, yn seiliedig ar dystiolaeth well i gefnogi eiriolaeth a datblygu gwerthusiad mwy systematig o gyfoethogi STEM.

Since October 2012, the NSA has invested £2.2 million to deliver 50 STEM enrichment projects. Investment has supported diverse activities including workshops, science festivals, equipment and learning resources, careers awareness, taster experiences and STEM-related continuous professional development opportunities for teachers. The NSA has funded several initiatives, including the world's first robotic telescope for use by primary school students. The telescope, which will be located in Chile and is due to be launched shortly, is expected to reach 6,000 pupils each year.

Ers mis Hydref 2012, mae'r Academi Wyddoniaeth Genedlaethol wedi buddsoddi £2.2 miliwn i roi 50 o brosiectau cyfoethogi STEM ar waith. Mae'r buddsoddiad wedi cynorthwyo gweithgareddau amrywiol gan gynnwys gweithdai, gwyliau gwyddoniaeth, offer ac adnoddau dysgu, ymwybyddiaeth gyrfaoedd, profiadau blasu a chyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus sy'n gysylltiedig â STEM i athrawon. Mae'r Academi Wyddoniaeth Genedlaethol wedi ariannu nifer o fentrau, gan gynnwys telesgop robotig cyntaf y byd i'w ddefnyddio gan fyfyrwyr ysgol gynradd. Disgwylir i'r telesgop, a fydd wedi ei leoli yn Chile ac y disgwylir iddo gael ei lansio cyn hir, gyrraedd 6,000 o ddisgyblion bob blwyddyn.

The NSA has enabled Bangor University to run a bilingual GCSE biology and physics revision school, with bilingual revision books, as well as creating and launching a bilingual smartphone and tablet GCSE science revision app. This is expected to benefit 11,000 students across Wales through the online access to Bangor University's website.

Mae'r Academi Wyddoniaeth Genedlaethol wedi galluogi Prifysgol Bangor i gynnal ysgol ddwyieithog adolygu TGAU bioleg a ffiseg, gyda llyfrau adolygu dwyieithog, yn ogystal â chreu a lansio ap dwyieithog ar gyfer ffôn clyfar a llechen i adolygu TGAU gwyddoniaeth. Mae disgwyl i hyn fod o fudd i 11,000 o fyfyrwyr ledled Cymru drwy'r mynediad ar-lein i wefan Prifysgol Bangor.

The NSA's support of the engineering education scheme Wales delivers an activity programme to develop STEM skills and encourages learners to consider engineering and manufacturing-related careers. It includes the bespoke Girls into Engineering scheme, to encourage girls to consider engineering pathways. The task and finish group on women in science has been established and started to meet. The co-chairs are Professor Karen Holford, an engineer and pro vice-chancellor at Cardiff University, and Professor Hilary Lappin-Scott, a microbiologist and pro vice-chancellor at Swansea University. I expect to hear the result of their inquiries in the new year.

Mae cefnogaeth yr Academi Wyddoniaeth Genedlaethol i gynllun addysg peirianneg Cymru'n darparu rhaglen weithgareddau i ddatblygu sgiliau STEM ac mae'n annog dysgwyr i ystyried peirianneg a gyrfaoedd sy'n gysylltiedig â gweithgynhyrchu. Mae'n cynnwys y cynllun pwrpasol Denu Merched i Faes Peirianneg, er mwyn annog merched i ystyried llwybrau peirianneg. Mae'r grŵp gorchwyl a gorffen ar fenywod mewn gwyddoniaeth wedi ei sefydlu ac wedi dechrau cwrdd. Y cyd-gadeiryddion yw'r Athro Karen Holford, peiriannydd a dirprwy is-ganghellor ym Mhrifysgol Caerdydd, a'r Athro Hilary Lappin-Scott, microbiolegydd a dirprwy is-ganghellor ym Mhrifysgol Abertawe. Rwyf yn disgwyl clywed canlyniad eu hymholiadau yn y flwyddyn newydd.

In formal education, Professor Donaldson continues his work on an independent review of assessment and the national curriculum. I understand that the Minister for education will receive his conclusions in the new year. Professor Williams has met Professor Donaldson and strongly advocated the inclusion of science subjects as core elements of the Welsh baccalaureate.

O ran addysg ffurfiol, mae'r Athro Donaldson yn parhau â'i waith ar adolygiad annibynnol o asesu a'r cwricwlwm cenedlaethol. Deallaf y bydd ei gasgliadau'n dod i law'r Gweinidog addysg yn y flwyddyn newydd. Mae'r Athro Williams wedi cwrdd â'r Athro Donaldson ac wedi argymell yn gryf y dylid gwneud pynciau gwyddonol yn elfennau craidd o fagloriaeth Cymru.

We recently launched the Qualified for Life–Focus on Science campaign. This aims to reinforce just how valuable science is to all of our children and their parents, and to encourage a real increase in performance. We need a Wales where all of our children are scientifically literate, as well as one where far more of them choose to follow the huge range of interesting and well-rewarded work that the study of the sciences and maths can bring.

Yn ddiweddar, lansiwyd yr ymgyrch Cymwys am Oes–Ffocws ar Wyddoniaeth gennym. Ei nod yw tanlinellu pa mor werthfawr yw gwyddoniaeth i bob un o'n plant a'u rhieni, ac i annog cynnydd go iawn o ran perfformiad. Mae arnom angen Gymru lle y mae pob un o'n plant yn wyddonol llythrennog, a Chymru lle y mae mwy o lawer ohonynt yn dewis dilyn llwybr yr amrywiaeth helaeth o waith diddorol sy'n talu'n dda a all ddod yn sgil astudio'r gwyddorau a mathemateg.

The campaign is producing new stimulating bilingual material on science subjects for use in schools across Wales. It also delivers information on resources, events and competitions, which parents and school staff can use to support science learning. The chief scientific adviser has pointed out the UK's need for 1 million new scientists, engineers, technicians and mathematicians by 2020. These jobs are mostly of high quality with above-average pay, so I am keen to see many more of them in Wales as we go forward.

Mae'r ymgyrch yn esgor ar ddeunydd dwyieithog newydd, cyffrous ar bynciau gwyddonol i'w ddefnyddio mewn ysgolion ledled Cymru. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth am adnoddau, digwyddiadau a chystadlaethau, y gall rhieni a staff yr ysgolion eu defnyddio i ategu dysgu gwyddoniaeth. Mae'r prif gynghorydd gwyddonol wedi nodi bod angen 1 filiwn o wyddonwyr, peirianwyr, technegwyr a mathemategwyr newydd yn y DU erbyn 2020. Mae'r swyddi hyn ar y cyfan o ansawdd uchel ac yn talu cyflog uwch na'r cyfartaledd, felly rwyf yn awyddus i weld llawer mwy ohonynt yng Nghymru wrth inni symud ymlaen.

In terms of how universities are improving and extending their support and collaboration with industry, the latest higher education business and community interaction survey for 2012-13 shows that our Welsh university researchers are among the most successful in the UK when working with business. Wales, with about 5% of the UK's higher education sector, won 7.4% of the income from collaboration with or contract research for business.

O ran sut y mae prifysgolion yn gwella ac yn ehangu eu cymorth a'u cydweithrediad â byd diwydiant, mae'r arolwg addysg uwch diweddaraf o'r rhyngweithio rhwng busnes a'r gymuned ar gyfer 2012-13 yn dangos bod ymchwilwyr yn ein prifysgolion yng Nghymru ymysg y rhai mwyaf llwyddiannus yn y DU o ran gweithio gyda busnesau. Enillodd Cymru, gyda thua 5% o sector addysg uwch y DU, 7.4% o'r incwm o gydweithio â busnesau neu o ymchwil ar gontract i fusnesau.

This survey supports the Elsevier report findings, which show that our universities do best in the UK for active start-up and spin-out companies, as well as having their research heavily referenced by other academics and business researchers from outside the UK. We know that there are too few researchers in Wales, especially in those fields attracting larger amounts of funding, such as life science and engineering research. This is paralleled by the small amount of contract research undertaken—2.4% of the total, although this figure is growing rapidly, by some 20% in the last three years, when the UK increase is only around 10%. Sêr Cymru will play a strong part in increasing the funding won in these areas.

Mae'r arolwg hwn yn cefnogi canfyddiadau adroddiad Elsevier, sy'n dangos mai ein prifysgolion ni sy'n gwneud orau yn y DU o ran dechrau cwmnïau newydd a chwmnïau deillio, yn ogystal â chyfeirio'n helaeth at eu gwaith ymchwil gan academyddion eraill ac ymchwilwyr busnes o'r tu allan i'r DU. Rydym yn gwybod nad oes digon o ymchwilwyr yng Nghymru, yn enwedig yn y meysydd hynny sy'n denu mwy o gyllid, megis y gwyddorau bywyd ac ymchwil peirianneg. Ochr yn ochr â hyn, mae'r ychydig iawn o ymchwil contract a wneir—2.4% o'r cyfanswm, er bod y ffigur hwn yn cynyddu'n gyflym, tua 20% yn y tair blynedd diwethaf, a hynny pan fo'r cynnydd yn y DU yn ddim ond tua 10% . Bydd Sêr Cymru yn chwarae rhan gref o ran ennill mwy o gyllid yn y meysydd hyn.

In terms of Sêr Cymru, Professors Barde, Durrant and Barron continue with their particular research programmes and the three national research networks continue to build and establish mechanisms to co-ordinate research activity in the three grand challenge areas.

O ran Sêr Cymru, mae'r Athrawon Barde, Durrant a Barron yn parhau â'u rhaglenni ymchwil penodol ac mae'r tri rhwydwaith ymchwil cenedlaethol yn parhau i adeiladu a sefydlu mecanweithiau i gydgysylltu gweithgarwch ymchwil yn y tri maes sy'n peri'r her fwyaf.

15:52 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I fondly imagine that perhaps, like the hymn, I am slow to chide and swift to bless. However, on this occasion, though I speak as the spokesperson for the Welsh Conservatives, I also speak as Chairman of the committee and I much regret that the Minister did not refer to the excellent report recently prepared by the Enterprise and Business Committee on STEM subjects. Most particularly, in this statement, the Minister does build on many of those recommendations, which, to be fair, she did accept.

Tybiaf yn ddiniwed efallai, fel yn yr emyn, fy mod yn araf i ddwrdio ac yn gyflym i fendithio. Fodd bynnag, y tro hwn, er fy mod yn siarad fel llefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, rwyf hefyd yn siarad fel Cadeirydd y pwyllgor ac rwyf yn gresynu’n fawr na chyfeiriodd y Gweinidog at yr adroddiad ardderchog a baratowyd yn ddiweddar gan y Pwyllgor Menter a Busnes ar bynciau STEM. Yn fwyaf penodol, yn y datganiad hwn, mae'r Gweinidog yn adeiladu ar lawer o'r argymhellion hynny, y mae’n deg dweud iddi eu derbyn.

The Minister will well know that the key to success here is going to be an adequate and meaningful relationship with her colleagues the Minister for Education and Skills and the Deputy Minister for Skills, and that they publish their intent to provide labour market intelligence, which clearly will be very important for the implementation of what the Minister suggests. We all know that quality people at all levels are the key to such success and good work-based learning and apprentice schemes need to be built upon.

Bydd y Gweinidog yn gwybod yn iawn mai’r allwedd i lwyddiant yma fydd perthynas ddigonol ac ystyrlon â'i chydweithwyr y Gweinidog Addysg a Sgiliau a'r Dirprwy Weinidog Sgiliau, a chyhoeddi eu bwriad i ddarparu gwybodaeth am y farchnad lafur, a fydd yn amlwg yn bwysig iawn o ran gweithredu'r hyn y mae'r Gweinidog yn ei awgrymu. Rydym i gyd yn gwybod bod pobl o safon ar bob lefel yn allweddol i lwyddiant o'r fath a bod angen adeiladu ar gynlluniau da ar gyfer dysgu seiliedig ar waith a phrentisiaethau.

Foundation degrees offer new opportunities and Wales needs well-trained and lateral thinking graduates who can work in teams, especially those graduates with a sound grasp of core science disciplines to engage with constantly changing technologies and processes. Higher education institutions and their excellent advisory committees must ensure that courses are relevant and timely. I ask the Minister whether she would kindly, in time, give us a report on the activities of Sêr Cymru—that seems a most interesting development—and whether she will be able to involve the relevant sector panel in much of what she proposes and whether, in time, we will hear from the chief scientific adviser, perhaps via a report either to the committee or to the Assembly.

Mae graddau sylfaen yn cynnig cyfleoedd newydd ac mae ar Gymru angen graddedigion sydd wedi’u hyfforddi'n dda ac sy’n meddwl wysg eu hochr a all weithio mewn timau, yn enwedig y graddedigion hynny sydd â gafael gadarn ar ddisgyblaethau gwyddonol craidd i ymgysylltu â thechnolegau a phrosesau sy’n newid yn gyson. Mae'n rhaid i sefydliadau addysg uwch a’u pwyllgorau cynghori rhagorol sicrhau bod cyrsiau'n berthnasol ac yn amserol. Gofynnaf i'r Gweinidog a fyddai mor garedig, ymhen amser, â rhoi adroddiad ar weithgareddau Sêr Cymru—sy'n ymddangos yn ddatblygiad diddorol iawn—-ac a fydd hi'n gallu cynnwys panel y sector perthnasol yn llawer o'r hyn y mae'n ei gynnig ac, ymhen amser, a fyddwn yn clywed gan y prif gynghorydd gwyddonol, efallai drwy gyfrwng adroddiad naill ai i'r pwyllgor neu i'r Cynulliad.

15:54 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

May I thank the Chair of the committee for his contribution today? I consider myself ticked off for not referring to the report, which of course has many very positive recommendations for us as a Government, which we will be taking forward. May I say that you make an excellent suggestion about a briefing on Sêr Cymru? I think that it would be very interesting for Members to see the work that has been done in that area and how that work has expanded and what benefit that can give, overall, to the economy in Wales and Welsh academic life.

A gaf fi ddiolch i Gadeirydd y pwyllgor am ei gyfraniad heddiw? Ystyriaf fy mod wedi fy nghystwyo am beidio â chyfeirio at yr adroddiad, sydd wrth gwrs yn cynnwys llawer o argymhellion cadarnhaol iawn i ni fel Llywodraeth y byddwn yn bwrw ymlaen â hwy. A gaf fi ddweud bod eich awgrym am sesiwn wybodaeth ar Sêr Cymru yn un rhagorol? Credaf y byddai'n ddiddorol iawn i’r Aelodau weld y gwaith sydd wedi'i wneud yn y maes hwnnw, a sut y mae’r gwaith hwnnw wedi ehangu a pha fudd y gall hynny ei gynnig, yn gyffredinol, i'r economi yng Nghymru a bywyd academaidd Cymru.

I think that the sector panels are quite important, like the Chair of the committee indicated, in terms of discussions with them on what they see as the skills for the future and where they see development, particularly in terms of the links between academia and industry, which need to be very strong. We must all be very pleased when we see the developments in the university sector, with a new campus in Swansea so clearly tied in to Rolls-Royce and Tata. That is very important, as well as the interest that has been shown across the piece. I was very pleased to see the innovation that is occurring with links into industry and the work that is being done across all the university sector, and it is important that we encourage it.

Credaf fod y paneli sector yn eithaf pwysig, fel y nododd Cadeirydd y pwyllgor, o ran trafodaethau â hwy ynglŷn â’r hyn y maent yn ei ystyried yn sgiliau ar gyfer y dyfodol a ble y maent yn gweld datblygiad, yn enwedig o ran y cysylltiadau rhwng y byd academaidd a byd diwydiant, y mae angen iddynt fod yn gryf iawn. Rhaid inni i gyd fod yn falch iawn pan welwn y datblygiadau yn sector y prifysgolion, gyda champws newydd yn Abertawe, mor amlwg ynghlwm â Rolls-Royce a Tata. Mae hynny'n bwysig iawn, yn ogystal â'r diddordeb sydd wedi ei ddangos drwyddi draw. Roeddwn yn falch iawn o weld yr arloesedd o ran cysylltiadau â diwydiant a'r gwaith sy'n cael ei wneud ledled sector y prifysgolion, ac mae'n bwysig ein bod yn annog hynny.

I will of course be delighted, if Members wish, for the chief scientific adviser to take the opportunity of briefing Members again in the new year, because I think that it is important that you take the issues from her, as it were, and question her on some of the details of the development of the Government's science policy.

Byddai'n dda gennyf, wrth gwrs, os yw'r Aelodau'n dymuno, i'r prif gynghorydd gwyddonol fanteisio ar y cyfle i roi gwybodaeth i'r Aelodau eto yn y flwyddyn newydd, oherwydd credaf ei bod yn bwysig eich bod yn cymryd y materion oddi wrthi hi, fel petai, ac yn ei holi hi am rai o fanylion datblygiad polisi gwyddoniaeth y Llywodraeth.

15:55

## Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister, for the statement, much of which of course I warmly welcome, although I am sure that the Minister would agree that this is a declaration of intent, rather than a statement on solid achievements so far. I certainly welcome the fact that you have highlighted again the main issues that we are concerned about and issues that we talked about in the Chamber just a few days ago, when we were discussing the committee report that too few girls and women end up studying STEM subjects and that student take-up of STEM subjects, certainly towards A-level, has been lagging behind in Wales, and these are issues that we agreed that we need to address.

Diolch ichi, Weinidog, am y datganiad, ac rwyf yn croesawu llawer ohono'n fawr, er fy mod yn siŵr y byddai'r Gweinidog yn cytuno bod hwn yn ddatganiad o fwriad, yn hytrach nag yn ddatganiad am gyflawniadau solet hyd yma. Rwyf yn sicr yn croesawu'r ffaith eich bod wedi tynnu sylw unwaith eto at y prif faterion yr ydym yn pryderu yn eu cylch a materion y soniasom amdanynt yn y Siambr ychydig ddyddiau'n ôl, pan oeddem yn trafod adroddiad y pwyllgor nad oes digon o ferched a menywod yn astudio pynciau STEM a bod nifer y myfyriwr sy'n astudio pynciau STEM, yn sicr at Safon Uwch, wedi bod yn is yng Nghymru, ac mae'r rhain yn faterion yr ydym yn cytuno bod angen inni roi sylw iddynt.

I am grateful that you have been reviewing the operation of the NSA. We certainly in the committee were very concerned about some of what we heard from partners in the NSA about how work had progressed since it was set up under the One Wales Government in 2010. It was certainly set up with good intentions, but I think that it has become clear to all of us that it has lost its way somewhat. I welcome the fact that the NSA is going to be clearer now in the setting of its priorities, targeting young people—the younger the better—involving parents, too, which is crucial, and targeting girls, of course. However, I am concerned, if I may use this opportunity, about proposals to limit one-to-one contact between Careers Wales and young students when that one-to-one contact is what young people are looking for, and is where perhaps the influence can have the greatest effect when trying to persuade young women to follow STEM subjects.

Rwyf yn ddiolchgar eich bod wedi bod yn adolygu gweithrediad yr Academi Wyddoniaeth Genedlaethol. Roeddem ni yn y pwyllgor yn sicr yn bryderus iawn am rywfaint o'r hyn a glywsom gan bartneriaid yn yr Academi ynghylch sut y mae'r gwaith wedi bod yn mynd rhagddo ers iddi gael ei sefydlu o dan Lywodraeth Cymru'n Un yn 2010. Fe'i sefydlwyd â bwriadau da, ond credaf ei bod wedi dod yn amlwg i bob un ohonom ei bod wedi colli ei ffordd braidd. Croesawaf y ffaith y bydd yr Academi yn awr yn fwy clir wrth osod ei blaenoriaethau, gan dargedu pobl ifanc—gorau po ieuengaf—a chynnwys y rhieni, hefyd, sy'n hollbwysig, a thargedu merched, wrth gwrs. Fodd bynnag, rwyf yn pryderu, os caf fi fanteisio ar y cyfle hwn, ynghylch cynigion i gyfyngu cysylltiad un-i-un rhwng Gyrfa Cymru a myfyrwyr ifanc pan fo pobl ifanc yn chwilio am y cyswllt un-i-un hwnnw, a lle y gallai'r dylanwad hwnnw efallai gael yr effaith fwyaf wrth geisio perswadio menywod ifanc i ddilyn pynciau STEM.

I will not go through the very long list of projects the NSA has or will now be involved in. Considering the concerns of some of the partners of the NSA about how unclear they were about its remit, their responsibilities as partners and the responsibilities of the NSA as a whole, may I ask what the Minister is going to be doing now differently to monitor and evaluate the NSA and also to support the NSA to make sure that it can deliver on those priorities?

Nid wyf am fynd drwy'r rhestr hir iawn o brosiectau y mae neu y bydd yr Academi Wyddoniaeth Genedlaethol yn awr yn rhan ohonynt. O ystyried pryderon rhai o bartneriaid yr Academi am ba mor niwlog yr oeddent am ei chylch gwaith, eu cyfrifoldebau hwythau fel partneriaid a chyfrifoldebau'r Academi'n gyffredinol, a gaf fi ofyn beth y mae'r Gweinidog am ei wneud yn wahanol yn awr i fonitro a gwerthuso'r Academi Wyddoniaeth Genedlaethol a hefyd i gefnogi'r Academi i wneud yn siŵr gall gyflawni'r blaenoriaethau hynny?

On the Donaldson review, Professor Williams, you say, has made a strong case for the inclusion of science as a core element of the Welsh baccalaureate. Is there any more that the Minister can tell us about what she has asked the review to consider in terms of STEM teaching?

O ran adolygiad Donaldson, mae'r Athro Williams, meddech, wedi cyflwyno achos cryf dros gynnwys gwyddoniaeth yn elfen graidd o fagloriaeth Cymru. A all y Gweinidog ddweud mwy wrthym am yr hyn y mae wedi gofyn i'r adolygiad ei ystyried o ran dysgu pynciau STEM?

As part of the Qualified for Life–Focus on Science campaign, it was highlighted in the statement that the chief scientific adviser had talked about the 1 million extra scientists, mathematicians, technicians that we will need in the coming years. I think that we, in the Chamber last week, heard the figure of 122% for the increase that will be needed in the next eight years in people qualified in those fields. Those are figures from Careers Wales. It is important, of course, that we tie the education and business ends together firmly. That is the delivery of skills with the end point of putting those skills to good use for the benefit of the Welsh economy.

Fel rhan o'r ymgyrch Cymwys am Oes–Ffocws ar Wyddoniaeth, pwysleisiwyd yn y datganiad fod y prif gynghorydd gwyddonol wedi sôn am yr 1 filiwn yn rhagor o wyddonwyr, mathemategwyr, technegwyr y bydd eu hangen arnom yn y blynyddoedd i ddod. Credaf ein bod ni, yr wythnos diwethaf yn y Siambr, wedi clywed ffigur o 122%, sef y cynnydd y bydd ei angen yn yr wyth mlynedd nesaf mewn pobl sy'n gymwys yn y meysydd hynny. Dyna ffigurau Gyrfa Cymru. Mae'n bwysig, wrth gwrs, ein bod yn clymu'r nodau addysg a busnes wrth ei gilydd yn gadarn. Y nod yw cyflwyno sgiliau â golwg yn y pen draw ar wneud defnydd da o'r sgiliau hynny er budd economi Cymru.

You highlight the good practice in Welsh universities and their record in linking up with start-up businesses. We in Plaid Cymru have pledged to set up an expert group on future skills needs to help in this exact regard. Could you tell us a little bit more about how you intend to match the demands of business and industry with our education system?

Rydych yn tynnu sylw at arfer da ym mhrifysgolion Cymru a'u hanes o feithrin cyswllt â busnesau newydd. Rydym ni ym Mhlaid Cymru wedi addo sefydlu grŵp arbenigol ar anghenion sgiliau'r dyfodol er mwyn helpu yn hyn o beth. A wnewch chi ddweud mwy wrthym am sut yr ydych yn bwriadu sicrhau bod gofynion busnes a diwydiant yn cydweddu â'n system addysg?

Finally, on your research, and quite rightly that there is too little research going on in Wales, you mentioned contract research in particular. What is your more general assessment of the level of research, development and innovation going on in Wales now and what are your priorities for increasing the RD&I taking place in Wales?

Yn olaf, o ran eich gwaith ymchwil, ac mae'n wir nad oes digon o waith ymchwil yn digwydd yng Nghymru, soniasoch am ymchwil contract yn arbennig. Beth yw eich asesiad mwy cyffredinol o lefel y gwaith ymchwil, y datblygu a'r arloesi sy'n digwydd yng Nghymru yn awr a beth yw eich blaenoriaethau ar gyfer cynyddu'r gwaith ymchwil, datblygu ac arloesi sy'n digwydd yng Nghymru?

16:00

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much indeed, because I think that there is a broad consensus around the Chamber about the importance of the subject and getting it right in terms of the development between higher education and business. May I say that it is important that we recognise that we have to match the demands of business and what businesses require? I think that the very useful point made by William Graham was that perhaps there could be further use of the sector panels to develop that strand of work, looking at whether links could be made more effectively and efficiently. I am not saying that they have not been made, but I always think that there is more work to do in that area.

Diolch yn fawr iawn ichi, oherwydd credaf fod consensws eang o gylch y Siambr am bwysigrwydd y pwnc hwn a sicrhau ein bod yn gwneud pethau'n iawn o ran datblygiadau rhwng addysg uwch a busnes. A gaf fi ddweud ei bod yn bwysig inni gydnabod bod yn rhaid inni gydweddu gofynion busnes â'r hyn sydd ei angen ar fusnesau? Credaf fod William Graham wedi gwneud pwynt defnyddiol iawn, sef efallai y gellid defnyddio'r paneli sector ymhellach i ddatblygu'r elfen honno, ac ystyried p'un a ellid gwneud y cysylltiadau'n fwy effeithiol ac effeithlon. Nid wyf yn dweud nad ydynt wedi cael eu gwneud, ond rwyf bob amser yn meddwl bod mwy o waith i'w wneud yn y maes hwnnw.

May I say, in terms of research, that I think that research is improving? I think that that is indicated in the views of the chief scientific adviser about which areas we are looking into in terms of research. There is always more to do, and some universities will take more of a lead than others, but, sometimes, when you look at some things that are going on in some universities that you do not expect, you see that there are quite a lot of jewels among what is going on. On the life sciences side in particular, we have seen very interesting developments arising from Aberystwyth in some of the areas that they have been looking at in terms of the research that they have been undertaking.

A gaf fi ddweud, o ran ymchwil, fy mod yn credu bod ymchwil yn gwella? Credaf fod y prif gynghorydd gwyddonol yn nodi hynny yn ei sylwadau ynghylch pa feysydd yr ydym yn edrych arnynt o ran ymchwil. Mae mwy i'w wneud o hyd, a bydd rhai prifysgolion yn cymryd yr awenau'n fwy nag eraill, ond, weithiau, pan edrychwch ar rai pethau sy'n digwydd mewn rhai prifysgolion nad ydych yn eu disgwyl, fe welwch fod sawl trysor ymhlith yr hyn sy'n digwydd. O safbwynt y gwyddorau bywyd yn benodol, rydym wedi gweld datblygiadau diddorol iawn yn dod o Aberystwyth yn rhai o'r meysydd y maent wedi bod yn edrych arnynt o ran y gwaith ymchwil y maent wedi bod yn ei wneud.

I think that the NSA review was particularly important, because that was something that the chief scientific adviser wanted to undertake herself. A lot of people are talking about what is not right, what may be right and how we can improve, and I think that she will continue to undertake that work in that particular area, because I think it is an ongoing process to get any organisation to deliver any strategy fit for purpose.

Credaf fod yr adolygiad o'r Academi Wyddoniaeth Genedlaethol yn arbennig o bwysig, oherwydd roedd yn rhywbeth yr oedd y prif gynghorydd gwyddonol yn awyddus i ymgymryd ag ef ei hun. Mae llawer o bobl yn siarad am yr hyn nad yw'n iawn, yr hyn a allai fod yn iawn a sut y gallwn wella, ac rwyf yn meddwl y bydd hi'n parhau i wneud y gwaith hwnnw yn y maes penodol hwnnw, oherwydd credaf mai proses barhaus yw sicrhau bod unrhyw sefydliad yn darparu unrhyw strategaeth sy'n addas at y diben.

Also the point that I think that you made that was quite strong was how you engage young people in all this and how you make them excited, but the other point is their parents, because I think that there is a role for parents in ensuring that youngsters are encouraged into science, mathematics and those subjects, and that they understand what career opportunities can emanate from them. I think that they think that the career opportunities are not necessarily ones that they understand if they have no background in these areas, and these youngsters need to be encouraged to go into these areas of work. There is a whole world out there for them and there is also a benefit to the Welsh economy if they train in these particular areas.

Hefyd, credaf eich bod hefyd wedi gwneud pwynt eithaf cryf ynghylch sut i ymgysylltu â phobl ifanc yn hyn oll a sut i wneud iddynt deimlo cyffro, ond y pwynt arall yw eu rhieni, oherwydd rwyf o'r farn bod rôl i rieni o ran sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu hannog i astudio gwyddoniaeth, mathemateg a'r pynciau hynny, a'u bod yn deall pa gyfleoedd gyrfaol a all ddeillio o hynny. Credaf eu bod yn meddwl nad yw'r cyfleoedd gyrfa o reidrwydd yn rhai y maent yn eu deall os nad oes ganddynt gefndir yn y meysydd hyn, ac mae angen annog y bobl ifanc hyn i fynd i mewn i'r meysydd gwaith hyn. Mae byd mawr yn eu haros ac mae hefyd o fudd i economi Cymru iddynt hyfforddi yn y meysydd penodol hyn.

With regard to Careers Wales, I will pick that point up, if I may, with the Minister for education—it will be Julie James, in fact, because she was in the Chamber, listening to that point, to make sure that we are not doing anything that adversely affects youngsters in some areas.

O ran Gyrfa Cymru, rwyf am godi'r pwynt hwnnw, os caf, gyda'r Gweinidog addysg—Julie James fydd hi, oherwydd roedd yn y Siambr, yn gwrando ar y pwynt hwnnw, er mwyn sicrhau nad ydym yn gwneud dim a gaiff effaith andwyol ar bobl ifanc mewn rhai ardaloedd.

In terms of Professor Donaldson, I have had long discussions with the chief scientific adviser about this and she has made her views known to Professor Donaldson and to education, because the chief scientific adviser is an adviser to the whole of the Government, not just to me because I have science in my portfolio. I think that you will find that the chief scientific adviser regularly meets Ministers on a range of issues to ensure that this very important agenda gets taken forward.

O ran yr Athro Donaldson, rwyf wedi cael trafodaethau hir â'r prif gynghorydd gwyddonol ynglŷn â hyn ac mae hi wedi lleisio ei barn wrth yr Athro Donaldson ac wrth fyd addysg, oherwydd mae'r prif gynghorydd gwyddonol yn gynghorydd i'r Llywodraeth gyfan, nid dim ond i mi oherwydd bod gwyddoniaeth yn rhan o'm portffolio. Credaf y byddwch yn gweld bod y prif gynghorydd gwyddonol yn cwrdd â'r Gweinidogion yn rheolaidd i drafod amryw o faterion er mwyn sicrhau bod yr agenda bwysig iawn hon yn symud ymlaen.

You also asked about the Qualified for Life—Focus on Science campaign, which I also think it is a very important area, and Department for Education and Skills officials are currently working with STEM stakeholders to further build the resource base for teachers, which I think is important in that regard, and also on specific actions geared towards better informing parents about it. So, there is a whole range of activity going on in that area, which I think can give us some confidence for the future.

Gofynasoch hefyd am yr ymgyrch Cymwys am Oes—Ffocws ar Wyddoniaeth, ac rwyf yn meddwl bod hwn hefyd yn faes pwysig iawn, ac ar hyn o bryd mae swyddogion yr Adran Addysg a Sgiliau yn gweithio gyda rhanddeiliaid STEM i adeiladu'r sylfaen adnoddau ar gyfer athrawon, a chredaf fod hynny'n bwysig yn hyn o beth, a hefyd o ran camau gweithredu penodol er mwyn hysbysu rhieni'n well am hyn. Felly, mae amrywiaeth eang o weithgareddau'n digwydd yn y maes hwnnw, a chredaf y gall roi rhywfaint o hyder at y dyfodol.

16:03 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

May I thank the Minister for her statement today? Minister, more and more jobs in the modern day, globalised economy will require our workforce to have the skills that are initially developed by studying science, technology—especially IT skills—engineering and maths, which are the STEM subjects, of course. Minister, will you therefore agree with me about the importance of promoting STEM subjects among our learners in schools, including primary schools, and especially among girls, where take-up of these subjects has traditionally been low? I am thinking, in particular, of the 'get on with science' initiative mentioned in your statement and launched by the Welsh Government in collaboration with Chwarae Teg, which aims to do just this. It demonstrates, of course, the huge benefits of a partnership approach and also the value of promoting female role models, such as Devon Sumner of Airbus, who won recently the higher level apprentice of the year award.

A gaf fi ddiolch i'r Gweinidog am ei datganiad heddiw? Weinidog, mae mwy a mwy o swyddi yn yr economi fodern, fyd-eang a fydd yn golygu bod ar ein gweithlu angen y sgiliau sy'n cael eu datblygu yn y lle cyntaf drwy astudio gwyddoniaeth, technoleg—yn enwedig sgiliau TG—peirianneg a mathemateg, sef y pynciau STEM, wrth gwrs. Weinidog, a wnewch chi, felly, gytuno â mi ynglŷn â phwysigrwydd hyrwyddo pynciau STEM ymhlith ein dysgwyr mewn ysgolion, gan gynnwys ysgolion cynradd, ac yn enwedig ymysg merched, lle mae'r niferoedd sy'n astudio'r pynciau hyn wedi bod yn isel yn draddodiadol? Rwyf yn meddwl, yn arbennig, am y fenter 'dod ymlaen mewn gwyddoniaeth' a grybwyllwyd yn eich datganiad ac a lansiwyd gan Lywodraeth Cymru ar y cyd â Chwarae Teg, sy'n ceisio gwneud hyn. Mae'n dangos, wrth gwrs, fanteision aruthrol ymagwedd bartneriaeth a hefyd werth hybu esiamplau benywaidd, fel Devon Sumner o Airbus, a enillodd wobr prentis lefel uwch y flwyddyn yn ddiweddar.

Minister, will you also commit to working with your colleague the Minister for Education and Skills to ensure that pupils of all ages appreciate the value of studying science, and work with employers, including our major high-tech anchor companies, to ensure that the practical benefits of this in terms of skills and jobs are realised?

Weinidog, a wnewch chi hefyd ymrwymo i weithio gyda'ch cydweithiwr y Gweinidog Addysg a Sgiliau i sicrhau bod disgyblion o bob oed yn deall gwerth astudio gwyddoniaeth, ac i weithio gyda chyflogwyr, gan gynnwys ein prif gwmnïau angor uwch-dechnoleg, er mwyn sicrhau bod manteision ymarferol hyn o ran sgiliau a swyddi'n cael eu gwireddu?

16:05 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

May I say that you make a very important point about anchor companies? When they open their doors and people see the opportunities that there are for employment and what subjects that you actually require to do to get in there for your apprenticeships and everything, I think that that gives a very positive message out. I also, obviously, work closely with my colleagues in the education department—both the Minister and the Deputy Minister. The Deputy Minister and I are particularly keen on the programme on the agenda about getting more women into these areas of work, and also to get more women to actually undertake STEM subjects to a higher level. However, the first point that you made is also very important. It is about primary schools, and it is about making this agenda exciting and understandable, and teaching it well in terms of how you relate to it. I think that that is a very important point for us, which I know the Minister for education is very keen on in terms of how we look at the curriculum and how we are able to develop not just people's abilities but also their love to learn something about science. Of course, you will appreciate that the Minister has a scientific background himself.

A gaf fi ddweud eich bod yn gwneud pwynt pwysig iawn ynghylch cwmnïau angor? Pan fyddant yn agor eu drysau a phobl yn gweld y cyfleoedd sydd o ran cyflogaeth a pha bynciau sydd eu hangen arnoch mewn gwirionedd i fynd i mewn yno ar gyfer eich prentisiaethau a phopeth, credaf fod hynny'n rhoi neges gadarnhaol iawn. Rwyf hefyd, wrth gwrs, yn gweithio'n agos gyda fy nghydweithwyr yn yr adran addysg—y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog. Mae'r Dirprwy Weinidog a minnau yn frwd iawn am y rhaglen ar yr agenda ynglŷn â denu mwy o fenywod i mewn i'r meysydd gwaith hyn, a denu mwy o fenywod i astudio pynciau STEM i lefel uwch. Fodd bynnag, mae'r pwynt cyntaf a wnaethoch yn bwysig iawn hefyd. Mae'n ymwneud ag ysgolion cynradd, ac mae'n ymwneud â gwneud yr agenda hon yn gyffrous ac yn ddealladwy, a'i haddysgu'n dda o ran y ffordd yr ydych yn ymwneud â hi. Credaf fod hynny'n bwynt pwysig iawn inni, a gwn fod y Gweinidog addysg yn frwd iawn yn ei gylch o ran sut yr ydym yn edrych ar y cwricwlwm a sut y gallwn ddatblygu nid yn unig alluoedd pobl ond hefyd eu hawydd i ddysgu rhywbeth am wyddoniaeth. Wrth gwrs, gwyddoch fod gan y Gweinidog yntau gefndir gwyddonol.

In terms of women and girls in science, I think that some of the things that we have done have been particularly good. I think that the Girls into Physics study looked at some of the issues there, because there was a pilot project between Techniquest and the Institute of Physics. We have looked at Girls into Engineering, which has been particularly positive. I think that the stuff that we are now doing with various things that have encouraged individuals to become involved and get interested are very important. However, I also think that there is a real role for after-school clubs in this area, in terms of not having after-school clubs in the schools that are the usual suspects, but are outside that area, to encourage others. So, I think that there is progress in this area, but there is still a lot more to do.

O ran menywod a merched mewn gwyddoniaeth, credaf fod rhai o'r pethau yr ydym wedi'u gwneud wedi bod yn arbennig o dda. Credaf fod yr astudiaeth Denu Merched i Faes Ffiseg wedi edrych ar rai o'r materion hynny, oherwydd roedd prosiect peilot rhwng Techniquest a'r Sefydliad Ffiseg. Rydym wedi edrych ar Ddenu Merched i Faes Peirianneg, sydd wedi bod yn arbennig o gadarnhaol. Credaf fod y pethau yr ydym yn awr yn eu gwneud o ran gwahanol bethau sydd wedi annog unigolion i gymryd rhan a bod â diddordeb yn bwysig iawn. Fodd bynnag, credaf hefyd fod rôl wirioneddol i glybiau ar ôl ysgol yn hyn o beth, o ran peidio â chael yr un hen glybiau ar ôl ysgol yn yr ysgolion, ond y tu allan i hynny, er mwyn annog eraill. Felly, credaf fod cynnydd yn y maes, ond mae mwy o lawer i'w wneud.

16:06

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would like to welcome the statement so soon after the debate last week. However, I must confess that I am a little disappointed that it is not the launch of the National Science Academy’s strategy, which is very eagerly anticipated by the sector. I wonder whether the Minister can give us an indication of when that might be launched.

Hoffwn groesawu'r datganiad mor fuan ar ôl y ddadl yr wythnos diwethaf. Fodd bynnag, rhaid imi gyfaddef fy mod braidd yn siomedig nad ydym yn gweld lansio strategaeth yr Academi Wyddoniaeth Genedlaethol y mae’r sector yn aros yn eiddgar iawn amdani. Tybed a wnaiff y Gweinidog roi rhyw syniad inni ynghylch pryd y gallai gael ei lansio?

You have given us two of the aims that you are working towards, or you have said that the aims will include these two areas. I am wondering how many other aims you anticipate the strategy will include. I am surprised that the aims that you have given here are so concentrated around key stages 2 and 3. In the debate last week, I raised the importance of getting the right attitudes embedded very early on, because, in terms of breaking down stereotypes, the horse has long bolted by the time that we have got to key stage 2. We need to make sure that we are not building negative stereotypes and then having to knock them down later on in life. The Deputy Minister at that time agreed, so I am wondering whether you will have a look again at those issues of unconscious bias and how early on in the process we need to be intervening to make sure that children are getting a positive experience of science and education, which does not give them the impression that it is too hard, and that science education is delivered by all of the teachers in the school so that children are not given the unconscious message that science is done by the male teachers and therefore is a man’s subject.

Rydych wedi rhoi dau o'r nodau inni yr ydych yn gweithio tuag atynt, neu rydych wedi dweud y bydd y nodau’n cynnwys y ddau faes hyn. Tybed faint o nodau eraill yr ydych yn rhagweld y bydd y strategaeth yn eu cynnwys? Rwyf yn synnu bod y nodau yr ydych wedi'u rhoi yma wedi eu crynhoi i’r fath raddau ynghylch cyfnodau allweddol 2 a 3. Yn y ddadl yr wythnos diwethaf, soniais am bwysigrwydd ymgorffori’r agweddau cywir yn gynnar iawn, oherwydd, o ran chwalu ystrydebau, mae’r ceffyl wedi ei hen heglu hi erbyn inni gyrraedd cyfnod allweddol 2. Mae angen inni wneud yn siŵr nad ydym yn meithrin ystrydebau negyddol ac yna'n gorfod eu taro i lawr yn nes ymlaen mewn bywyd. Cytunodd y Dirprwy Weinidog ar y pryd, felly tybed a wnewch chi edrych eto ar y materion hynny ynglŷn â rhagfarn ddiarwybod a pha mor gynnar yn y broses y mae angen inni fod yn ymyrryd i sicrhau bod plant yn cael profiad cadarnhaol o wyddoniaeth ac addysg nad yw'n rhoi'r argraff iddynt ei bod yn rhy anodd, a bod addysg gwyddoniaeth yn cael ei chyflwyno gan bob un o’r athrawon yn yr ysgol fel nad yw plant yn cael neges ddiarwybod fod gwyddoniaeth yn cael ei dysgu gan yr athrawon gwrywaidd ac felly mai pwnc i ddynion ydyw.

You do talk about continuing professional development, and it is in the statement, but I am wondering when we might have some more detail on what that might involve.

Rydych yn sôn am ddatblygu proffesiynol parhaus, ac y mae yn y datganiad, ond tybed pryd y cawn ni rywfaint yn rhagor o fanylion am yr hyn y gallai hynny ei olygu?

In the statement, you also say that the National Science Academy has invested £2.2 million in the last two years in terms of projects. Again, I am surprised that you have been able to invest £2.2 million without there being a strategy in place to inform it, and without knowing what it was that you were trying to achieve and how the projects that have been funded were going to help reach goals that have not actually been set. It seems amazing to me—and it is hardly surprising that there was a considerable amount of discontent in the sector about how funding was allocated in the last funding round. You mentioned one project: you say that you are piloting the use of STEMNET ambassadors in junior schools. In fact, they are one of the projects that lost some funding for Welsh-language materials in the last round. They could not understand why, because there were no objectives, no aims and no strategy for them to see how their work compared.

Yn y datganiad, rydych hefyd yn dweud bod yr Academi Wyddoniaeth Genedlaethol wedi buddsoddi £2.2 miliwn yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf o ran prosiectau. Unwaith eto, rwyf yn synnu eich bod wedi gallu buddsoddi £2.2 miliwn heb fod strategaeth ar waith i lywio hynny, a heb wybod beth yr oeddech yn ceisio’i gyflawni a sut y mae'r prosiectau a ariannwyd yn mynd i helpu i gyflawni nodau nad ydynt wedi cael eu gosod eto. Mae'n anhygoel i mi—ac nid yw'n syndod bod cryn dipyn o anniddigrwydd yn y sector ynghylch sut y cafodd y cyllid ei ddyrannu yn y cylch cyllido diwethaf. Soniasoch am un prosiect: dywedwch eich bod yn treialu defnyddio llysgenhadon STEMNET mewn ysgolion cynradd. Yn wir, mae’n un o'r prosiectau a gollodd rywfaint o gyllid ar gyfer deunyddiau Cymraeg yn y cylch diwethaf. Ni allent ddeall pam, oherwydd nid oedd amcanion, nodau na strategaeth iddynt gael gweld sut yr oedd eu gwaith yn cymharu.

I am also wondering whether you could give us some more detail on what it is that you are actually piloting. I was a STEMNET ambassador, more than five years ago, in key stages 1 and 2, and I am kind of surprised that we need a pilot now for something that had Wales-wide coverage five years ago.

Tybed hefyd a wnewch chi roi rhywfaint yn rhagor o fanylion inni am yr hyn yr ydych yn ei dreialu mewn gwirionedd. Roeddwn yn llysgennad STEMNET, fwy na phum mlynedd yn ôl, yng nghyfnodau allweddol 1 a 2, ac rwyf yn synnu braidd fod arnom angen cynllun peilot yn awr ar gyfer rhywbeth a gafodd ymdriniaeth Cymru gyfan bum mlynedd yn ôl.

In terms of the Qualified for Life—Focus on Science campaign, this is an information-raising campaign, as I understand it. I welcome it very much. However, I have to tell you, Minister, that, when some of those key stakeholders from the science communication area came into the Assembly last week, including one of the National Science Academy’s own hubs, we found that they had never heard of it before the Enterprise and Business Committee paperwork told them about it because of your response to the committee’s report. I mean, there is low-key and there is low-key, but the fact that the sector itself does not know that the campaign has been launched is risible, to be honest, and it raises questions about the level of engagement that there has been with those organisations that can play a critical role in developing and improving science communication and encouraging young people into science if they do not know about it. How have you, for example, avoided duplication with what is already available in the sector? If they do not know, this campaign may be developing materials that already exist.

O ran yr ymgyrch Cymwys am Oes—Ffocws ar Wyddoniaeth, ymgyrch i hybu gwybodaeth yw hon yn ôl a ddeallaf. Rwyf yn ei chroesawu'n fawr. Fodd bynnag, rhaid imi ddweud wrthych, Weinidog, pan ddaeth rhai o'r rhanddeiliaid allweddol hynny o faes cyfathrebu gwyddoniaeth i mewn i'r Cynulliad yr wythnos diwethaf, gan gynnwys un o gynheiliaid yr Academi Wyddoniaeth Genedlaethol ei hun, cawsom wybod nad oeddent erioed wedi clywed amdani o'r blaen cyn i waith papur y Pwyllgor Menter a Busnes ddweud wrthynt amdani oherwydd eich ymateb i adroddiad y pwyllgor. Hynny yw, mae cywair isel ac mae cywair isel, ond mae'r ffaith nad yw'r sector ei hun yn gwybod bod yr ymgyrch wedi cael ei lansio yn chwerthinllyd, a dweud y gwir, ac mae'n codi cwestiynau am lefel yr ymgysylltu sydd wedi bod â’r sefydliadau hynny sy'n gallu chwarae rhan allweddol o ran datblygu a gwella cyfathrebu gwyddoniaeth ac annog pobl ifanc i mewn i wyddoniaeth os nad ydynt yn gwybod am y peth. Sut ydych chi, er enghraifft, wedi osgoi dyblygu’r hyn sydd eisoes ar gael yn y sector? Os nad ydynt yn gwybod, gallai’r ymgyrch hon fod yn datblygu deunyddiau sydd eisoes yn bodoli.

Finally, in terms of Sêr Cymru, I recognise that it has a hugely important role in building research expertise in Wales’s higher education institutions, but I am concerned about the potential for a gap in the pipeline between undergraduate studies and researcher training and looking at ways in which we can develop early-career researchers. You did, at one point, agree to have a look at a successor programme for the Prince of Wales Innovation Scheme. There is also the opportunity to boost the numbers of knowledge transfer partnerships. These are very, very good and effective ways of encouraging spin-out activity from our universities, and I am wondering whether you have any progress to report on that.

Yn olaf, o ran Sêr Cymru, rwyf yn cydnabod bod rôl bwysig iawn i hyn o ran meithrin arbenigedd ymchwil yn sefydliadau addysg uwch Cymru, ond rwyf yn bryderus y gallai fod bwlch rhwng astudiaethau israddedig a hyfforddiant ymchwil ac edrych ar ffyrdd o ddatblygu ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa. Cytunasoch, ar un adeg, i edrych ar raglen olynu i Gynllun Arloesi Tywysog Cymru. Mae cyfle hefyd i gynyddu nifer y partneriaethau trosglwyddo gwybodaeth. Mae'r rhain yn ffyrdd da ac effeithiol iawn, iawn o annog gweithgarwch deillio o'n prifysgolion, a tybed a oes cynnydd i’w adrodd yn hynny o beth?

16:11 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much indeed. I take your comments in the spirit that they were made, which is to open up the dialogue about science policy. I am aware of the criticism from the sector. I know there were complaints, of course, in the debate the other week, on 26 November, that hubs had not met together recently and there were issues. I think it is fair to say that we have had a new chief scientific adviser in place, who assumed direct organisational responsibility for the NSA in early 2014 and is working through the various elements within this. I am sure that by the time I report on science policy, probably in six months' time, some of the issues that you have raised, I do believe, will have been identified with.

I think it is important that we have a proper strategy in place, and I think that the chief scientific adviser is now taking the opportunity to go through everything that is required and is, I think, building excellent relationships with the sector outside, which will enable us to take on some of the issues.

What I absolutely fully agree with you on is the earlier we break negative stereotypes the better. I think that they can be formed at an extremely early age, in terms of who you think does what and who does what, and what you might want to do yourself. I think this is one of the issues that we will be continuing to raise and discuss, and I think that that point has probably been noted by education colleagues today.

The other issue that I do obviously want to look at is the further work that we might do in terms of knowledge transfer partnerships, which have been very successful. I will be taking further advice in discussion with the chief scientific adviser about that.

So, it is my hope, Deputy Presiding Officer, that we will be able to have full engagement and discussion when, I offer, the chief scientific adviser does a briefing and has a discussion with Members. I can do an update in these particular areas. I think it is easy to be harsh on this, but, on the other hand, we also have to see that progress has been made as well.

Diolch yn fawr iawn. Derbyniaf eich sylwadau yn yr ysbryd y cawsant eu gwneud, sef agor y ddeialog am y polisi gwyddoniaeth. Gwn am y feirniadaeth o du'r sector. Gwn fod cwynion, wrth gwrs, yn y ddadl rai wythnosau'n ôl, ar 26 Tachwedd, nad oedd canolfannau wedi cwrdd yn ddiweddar a bod problemau. Credaf ei bod yn deg dweud bod prif gynghorydd gwyddonol newydd yn y swydd, a gymerodd gyfrifoldeb sefydliadol uniongyrchol am yr Academi Wyddoniaeth Genedlaethol yn gynnar yn 2014 ac sy'n gweithio drwy'r gwahanol elfennau sy'n rhan o hyn. Rwyf yn siŵr, erbyn imi adrodd ar y polisi gwyddoniaeth, yn ôl pob tebyg ymhen chwe mis, y bydd rhai o'r materion yr ydych wedi'u codi, rwyf yn credu, wedi'u nodi.

Credaf ei bod yn bwysig bod gennym strategaeth briodol yn ei lle, a chredaf fod y prif gynghorydd gwyddonol yn awr yn manteisio ar y cyfle i fynd drwy bopeth sydd ei angen a chredaf ei bod yn meithrin perthynas ragorol â'r sector y tu allan, a fydd yn ein galluogi i fynd i'r afael â rhai o'r materion.

Rwyf yn cytuno'n llwyr â chi mai gorau po gyntaf y chwalwn yr ystrydebau negyddol. Credaf y gellir eu ffurfio yn ifanc eithriadol, o ran pwy yn eich barn chi sy'n gwneud beth a phwy sy'n gwneud beth, a beth efallai y byddwch am ei wneud eich hun. Credaf fod hyn yn un o'r materion y byddwn yn parhau i'w godi a'i drafod, a chredaf fod y pwynt yn ôl pob tebyg wedi ei nodi gan gydweithwyr addysg heddiw.

Y mater arall yr wyf yn awyddus i edrych arno wrth gwrs yw'r gwaith pellach y gallem ei wneud o ran partneriaethau trosglwyddo gwybodaeth, sydd wedi bod yn llwyddiannus iawn. Byddaf yn cymryd cyngor pellach wrth drafod â'r prif gynghorydd gwyddonol yn hynny o beth.

Felly, fy ngobaith, Ddirprwy Lywydd, yw y byddwn yn gallu sicrhau ymgysylltu a thrafod llawn pan fydd y prif gynghorydd gwyddonol, yr wyf yn cynnig, yn rhoi sesiwn wybodaeth ac yn trafod â'r Aelodau. Gallaf roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn y meysydd penodol hyn. Credaf ei bod yn hawdd bod yn llym yn hyn o beth, ond, ar y llaw arall, rhaid inni hefyd weld bod cynnydd wedi'i wneud.

16:13 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have got time for two more quick contributions. I call David Rees.

Mae gennyf amser i glywed dau gyfraniad arall cyflym. Galwaf David Rees.

16:13 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. I will try to keep this brief, Minister. I appreciate the statement. On the points on key stage 2 and 3, we agreed last week, I think, with Eluned Parrott that the primary stage is important, and you have answered that. However, may I highlight the point you made on the usage of the Royal Institution's young scientist centre? As one who used to enjoy the Royal Institution's Christmas lectures, I think that that is an excellent way of moving forward, because it does make science interesting, and we have to make it interesting so that we can enthuse young people.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Ceisiaf gadw hyn yn fyr, Weinidog. Rwyf yn gwerthfawrogi'r datganiad. O ran y pwyntiau am gyfnod allweddol 2 a 3, cytunasom yr wythnos diwethaf, rwyf yn meddwl, ag Eluned Parrott fod y cyfnod cynradd yn bwysig, ac rydych wedi ateb hynny. Fodd bynnag, a gaf fi dynnu sylw at y pwynt a wnaethoch ar ddefnyddio canolfan gwyddonwyr ifanc y Sefydliad Brenhinol? Roeddwn yn arfer mwynhau darlithoedd Nadolig y Sefydliad Brenhinol, a chredaf fod hynny'n ffordd wych o fwrw ymlaen, oherwydd mae'n gwneud gwyddoniaeth yn ddiddorol, ac mae'n rhaid inni ei gwneud yn ddiddorol er mwyn inni allu ennyn brwdfrydedd pobl ifanc.

On the continuing professional development aspects, what discussions are you having with businesses to encourage teachers to go into work placements for that, so that we can actually get teachers out into the workforce to see how science works in the workforce and take that back into the classroom?

O ran yr agweddau ynglŷn â datblygu proffesiynol parhaus, pa drafodaethau ydych chi’n eu cael â busnesau i annog athrawon i fynd i wneud lleoliadau gwaith, er mwyn inni allu anfon athrawon allan i'r gweithlu i weld sut y mae gwyddoniaeth yn gweithio yn y gweithlu a mynd a hynny yn ôl i'r ystafell ddosbarth?

In relation to higher education, you mentioned some NIACE figures there, but we also had the Engineering and Physical Sciences Research Council say that were underperforming in the past; we have had about 3% of the figures and were not hitting our target levels of at least 5%. How is the Welsh Government looking at the EPSRC and ensuring that we boost our take-up of the funding from that research council? I appreciate that Swansea and Cardiff are two of the leading engineering institutions, and I am very pleased to see the campus in Aberavon developing quite clearly for Swansea University, but, of course, as you mentioned, this is across all HE. So, how are you working with other institutions in HE to ensure that they have a fair share of funding to allow their development of the STEM subjects?

O ran addysg uwch, soniasoch am rai ffigurau gan NIACE, ond mae’r Cyngor Ymchwil Peirianneg a’r Gwyddorau Ffisegol hefyd yn dweud ein bod wedi tanberfformio yn y gorffennol; rydym wedi cael tua 3% o'r ffigurau ac nid oeddem yn taro ein lefelau targed o 5% o leiaf. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn edrych ar y Cyngor Ymchwil Peirianneg a’r Gwyddorau Ffisegol ac yn sicrhau ein bod yn cynyddu’r niferoedd sy’n manteisio ar y cyllid gan y cyngor ymchwil hwnnw? Gwn fod Abertawe a Chaerdydd yn ddau o'r sefydliadau peirianneg mwyaf blaenllaw, ac rwyf yn falch iawn o weld y campws yn Aberafan yn datblygu’n eithaf clir ar gyfer Prifysgol Abertawe, ond, wrth gwrs, fel y soniasoch, mae hyn ar draws addysg uwch gyfan. Felly, sut ydych chi’n gweithio gyda sefydliadau eraill mewn addysg uwch i sicrhau eu bod yn cael cyfran deg o’r cyllid er mwyn iddynt allu datblygu’r pynciau STEM?

On one final point, it is not in your paper, but I would just highlight the point of IT skills, computing skills, computer science skills and software development skills. They are as much an important element of STEM as anything else. We often forget that element and I hope that, in future references, you can ensure that computing is there as well.

Ar un pwynt olaf, nid yw yn eich papur, ond hoffwn dynnu sylw at sgiliau TG, sgiliau cyfrifiadurol, sgiliau cyfrifiadureg a sgiliau datblygu meddalwedd. Maent yn elfen yr un mor bwysig o STEM ag unrhyw beth arall. Rydym yn aml yn anghofio'r elfen honno a gobeithio y gallwch, mewn cyfeiriadau yn y dyfodol, sicrhau bod cyfrifiadureg yno hefyd.

16:14 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

May I say that the Member makes a very important point about computing? As you will be aware from the report that was undertaken by Simon Gibson on Newport and the requirements of business, one of the issues that arose from that was the shortage of software engineers all across Wales and the globe. As a result of that, we have a software academy now. Students go into it over a two-year period to try to start to plug that gap. We are in the first year of a pilot project on this that I hope will help. All the students who do computing and come out of our universities in Wales do find jobs, but it is also an issue further down the chain, in what children learn to do in school. That is quite an important element of looking at the future, in terms of IT and software engineers.

A gaf fi ddweud bod yr Aelod yn gwneud pwynt pwysig iawn ynghylch cyfrifiadureg? Fel y gwyddoch o'r adroddiad a baratowyd gan Simon Gibson ar Gasnewydd a gofynion busnes, un o'r materion a gododd o hynny oedd prinder peirianwyr meddalwedd ledled Cymru a'r byd. O ganlyniad i hynny, mae gennym academi meddalwedd yn awr. Mae myfyrwyr yn mynd yno am ddwy flynedd er mwyn ceisio dechrau cau'r bwlch hwnnw. Rydym ym mlwyddyn gyntaf prosiect peilot ar hyn, ac rwyf yn gobeithio y bydd o gymorth. Mae'r holl fyfyrwyr sy'n gwneud cyfrifiadureg ac yn dod allan o'n prifysgolion yng Nghymru yn dod o hyd i swyddi, ond mae hefyd yn ymwneud â’r hyn sy’n digwydd ymhellach i lawr y gadwyn, yn yr hyn y mae plant yn dysgu ei wneud yn yr ysgol. Mae hynny'n elfen eithaf pwysig o edrych at y dyfodol, o ran TG a pheirianwyr meddalwedd.

In terms of the research council, the chief scientific adviser is always looking to maximise potential within those particular areas and is doing work in that area. Also, one of her key roles has been to ensure that every institution in Wales that does research within science is actually loved and hugged and is encouraged to do more in terms of the overall policies of the Government. In the open and transparent way that she has dealt with these matters across academia, I think we will see improvements emerging over the next few years.

O ran y cyngor ymchwil, mae’r prif gynghorydd gwyddonol bob amser yn ceisio hybu potensial i’r eithaf yn y meysydd penodol hynny ac yn gwneud gwaith yn y maes hwnnw. Hefyd, un o'i swyddogaethau allweddol yw sicrhau bod pob sefydliad yng Nghymru sy'n gwneud ymchwil wyddonol yn cael ei garu a’i gofleidio ac yn cael ei annog i wneud mwy o ran polisïau cyffredinol y Llywodraeth. Yn y ffordd agored a thryloyw y mae wedi ymdrin â'r materion hyn drwy’r byd academaidd i gyd, credaf y byddwn yn gweld gwelliannau yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf.

16:16 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Minister, for your statement. I am particularly pleased to see your engineering education scheme Wales mentioned in that statement. That is a key scheme that covers the primary and secondary school sectors. One of the huge problems we have, which I think Eluned Parrott raised but it was not addressed, is the number of science teachers, particularly physics teachers. When you are looking at the gender imbalance that you spoke about earlier, regarding the take-up of science at A-level by female students in Wales, particularly in the area of physics, you will see that boys are outnumbering girls by five to one. I think that, in one council area in the north—and I raised these figures with you earlier in the year—not a single girl had taken physics at A-level for over three years. That is really worrying when you have really high-paying jobs at places like Airbus.

Diolch ichi, Weinidog, am eich datganiad. Rwyf yn arbennig o falch o weld cynllun addysg peirianneg Cymru'n cael ei grybwyll yn y datganiad hwnnw. Mae'n gynllun allweddol sy'n cwmpasu'r sectorau cynradd ac uwchradd. Un o'r problemau enfawr sydd gennym, a godwyd gan Eluned Parrott rwyf yn meddwl, ond nad ymdriniwyd ag ef, yw nifer yr athrawon gwyddoniaeth, yn enwedig athrawon ffiseg. Pan edrychwch ar yr anghydbwysedd rhwng y rhywiau yr oeddech yn sôn amdano'n gynharach, ynghylch nifer y merched sy'n astudio gwyddoniaeth Safon Uwch yng Nghymru, yn enwedig ym maes ffiseg, fe welwch fod bechgyn yn fwy niferus na merched o bump i un. Yn ardal un cyngor yn y gogledd—a chodais y ffigurau hyn â chi'n gynharach eleni—nid oedd yr un ferch wedi cymryd ffiseg Safon Uwch ers dros dair blynedd. Mae hynny'n peri pryder gwirioneddol pan fo gennych swyddi sy'n talu'n dda iawn mewn llefydd fel Airbus.

So, while I very much welcome what you were saying in your statement, it seems to me that, for example, on school trips, you need to be ensuring that there is a mix of pupils going on those trips. I know that we extensively advertise the possibility of visits to CERN, particularly visits by teaching staff, over the summer. I do not think that any teachers from Wales took this up. So, I wonder whether you could look into that and see whether pressure can be put on schools to make sure that their staff take up the opportunities that are there for them in the summer months to get that extra support.

Felly, er fy mod yn croesawu'n fawr iawn yr hyn yr ydych yn ei ddweud yn eich datganiad, mae'n ymddangos i mi, er enghraifft, o ran teithiau ysgol, fod angen sicrhau bod cymysgedd o ddisgyblion yn mynd ar y teithiau hynny. Gwn ein bod yn hysbysebu'n helaeth y posibiliadau i ymweld â CERN, yn enwedig ymweliadau gan staff addysgu, dros yr haf. Nid wyf yn credu i'r un o athrawon Cymru fanteisio ar hyn. Felly, tybed a allech edrych ar hynny a gweld a ellir rhoi pwysau ar ysgolion i sicrhau bod eu staff yn manteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael iddynt yn ystod misoedd yr haf i gael y cymorth ychwanegol hwnnw?

Finally, in relation to the Sêr Cymru funding, I am very glad to see the women whom you have appointed to your women in science task and finish group. However, I wonder, when you are looking at making professorial appointments, whether you can ensure that there is at least, for example, female representation on any research teams that get grant funding from Welsh Government, and that universities are doing all that they can to promote their women students who are coming up into good professions. It is so important for us, STEM. You will know that I have been an advocate of it for a number of years, and I really want to see pupils across Wales being able to take up the advantages that studying these subjects would bring for their future careers.

Yn olaf, o ran cyllid Sêr Cymru, rwyf yn falch iawn o weld y menywod yr ydych wedi'u penodi i'ch grŵp gorchwyl a gorffen ar fenywod mewn gwyddoniaeth. Fodd bynnag, pan fyddwch yn meddwl am wneud penodiadau athrawol, tybed a wnewch chi sicrhau, er enghraifft, fod cynrychiolaeth fenywaidd o leiaf ar unrhyw dimau ymchwil sy'n cael cyllid grant gan Lywodraeth Cymru, a bod prifysgolion yn gwneud eu gorau glas i hyrwyddo eu myfyrwyr benywaidd sy'n dod i mewn i broffesiynau da. Mae STEM mor bwysig inni. Byddwch yn gwybod fy mod yn hyrwyddo hyn ers blynyddoedd lawer, ac rwyf am weld disgyblion ledled Cymru'n gallu elwa ar y manteision a ddaw i'w gyrfaoedd yn y dyfodol yn sgil astudio'r pynciau hyn.

16:18 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, I not only want to support their future careers, but I also want to support the Welsh economy, in terms of the development of these skills, which is the important thing. I feel that, sometimes, girls are missing out on career opportunities that could take them into companies and really make a difference in terms of economic activity and what that could bring to Wales in terms of jobs.

Wel, rwyf nid yn unig am gefnogi eu gyrfaoedd yn y dyfodol, ond rwyf hefyd am gefnogi economi Cymru, o ran datblygu'r sgiliau hyn, oherwydd dyna sy'n bwysig. Credaf, weithiau, fod merched ar eu colled o ran cyfleoedd gyrfa a allai fynd â hwy i mewn i gwmnïau a gwneud gwahaniaeth gwirioneddol o ran gweithgarwch economaidd a'r hyn a allai ddod i Gymru o ran swyddi.

Can I say, in terms of physics, that you are absolutely correct? We have done some work about girls and physics, and it is very important that we undertake this work. We have to look at the learner experience and the teaching experience, and what role models you have with teachers, in terms of what you want to do. I know that the Minister for Education and Skills has sat through this debate in the Chamber, and I know that he will be taking on board some of the points, particularly in relation to what you said about CERN and about the opportunities to visit. Which teachers are applying to go? Is anybody going? I will certainly take those points up. It is very important that we get on with this, in terms of encouraging a part of the workforce. When you look at the statistics, they are really harsh in terms of physics. However, when you look at the attainment levels of girls when they go through, they have higher attainment levels. So, we certainly have to do more to get the best and the brightest through into those subjects.

A gaf fi ddweud, o ran ffiseg, eich bod yn llygad eich lle? Rydym wedi gwneud rhywfaint o waith ynghylch merched a ffiseg, ac mae'n bwysig iawn ein bod yn gwneud y gwaith hwn. Mae'n rhaid inni edrych ar brofiad y dysgwr a'r profiad addysgu, a pha esiamplau sydd ymhlith athrawon, o ran yr hyn yr ydych am ei wneud. Gwn fod y Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi eistedd drwy'r ddadl hon yn y Siambr, a gwn y bydd yn ystyried rhai o'r pwyntiau, yn enwedig o ran yr hyn a ddywedasoch am CERN ac am y cyfleoedd i ymweld. Pa athrawon sy'n gwneud cais i fynd? A oes rhywun yn mynd? Byddaf yn sicr yn ystyried y pwyntiau hynny. Mae'n bwysig iawn ein bod yn bwrw ymlaen â hyn, o ran annog rhan o'r gweithlu. Pan edrychwch ar yr ystadegau, maent yn arw o ran ffiseg. Fodd bynnag, pan edrychwch ar lefelau cyrhaeddiad merched pan fyddant yn mynd drwodd, mae lefelau eu cyrhaeddiad yn uwch. Felly, mae'n rhaid inni yn sicr wneud mwy i gael y goreuon a'r mwyaf disglair i mewn i'r pynciau hynny.

16:19 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch, Weinidog.

## Effaith y Polisi Caffael yng Nghymru

## The Impact of Procurement Policy in Wales

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 2 a 3 yn enw Elin Jones, gwelliant 4 yn enw Paul Davies, a gwelliannau 5 a 6 yn enw Aled Roberts.*

*The following amendments have been selected: amendments 1, 2 and 3 in the name of Elin Jones, amendment 4 in the name of Paul Davies, and amendments 5 and 6 in the name of Aled Roberts.*

16:19 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister for Finance and Government Business to move the motion.

Galwaf ar y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5640 Jane Hutt

Motion NDM5640 Jane Hutt

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

To propose that the National Assembly:

1. Yn nodi:

1. Notes:

a) yr effaith a gafwyd ar gaffael cyhoeddus ers lansio Datganiad Polisi Caffael Cymru ym mis Rhagfyr 2012;

a) the impact that has been made on public procurement since the launch of the Wales Procurement Policy Statement in December 2012;

b) y bydd Datganiad Polisi Caffael Cymru yn cael ei adolygu i fanteisio ar y newidiadau sydd ar fin digwydd i ddeddfwriaeth caffael yn yr UE a'r DU.

b) that the Wales Procurement Policy Statement will be reviewed to take advantage of the imminent changes in EU and UK procurement legislation.

16:20 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

I am pleased to open this debate today on the positive impact that public procurement is having on the economy, people and communities of Wales. It is two years since I launched the Wales procurement policy statement, and one year since I launched the national procurement service for Wales. These major milestones have provided the policy and operational framework within which public procurement is carried out.

Mae'n bleser gennyf agor y ddadl hon heddiw ar yr effaith gadarnhaol y mae caffael cyhoeddus yn ei chael ar economi, pobl a chymunedau Cymru. Mae'n ddwy flynedd ers i mi lansio datganiad polisi caffael Cymru, a blwyddyn ers i mi lansio'r gwasanaeth caffael cenedlaethol i Gymru. Mae'r cerrig milltir pwysig hyn wedi darparu'r fframwaith gweithredol a'r fframwaith polisi ar gyfer cyflawni gwaith caffael cyhoeddus.

I last updated the Chamber on public procurement in March this year. Since then, encouraging progress continues to be made, and I have been pleased by the proactive way in which all parts of the public sector have embraced the principles of the policy statement and have engaged with the national procurement service. The key to driving engagement is governance and senior leadership. I have made sure that strong governance is in place, both in relation to our procurement board, overseeing our public procurement policy, and the national procurement service. Our innovative and highly developed community benefits approach has been widely adopted, and I was pleased to launch a new, strengthened policy in July. Returns for the community benefit measurement tool have increased by 70% since the launch of the policy statement.

Rhoddais y wybodaeth ddiweddaraf i'r Siambr am gaffael cyhoeddus ym mis Mawrth eleni. Ers hynny, mae cynnydd calonogol yn parhau i gael ei wneud, ac rwyf wedi bod yn falch ynglŷn â'r ffordd ragweithiol y mae pob rhan o'r sector cyhoeddus wedi mabwysiadu egwyddorion y datganiad polisi ac wedi ymgysylltu â'r gwasanaeth caffael cenedlaethol. Yr allwedd i sbarduno ymgysylltiad yw llywodraethu ac arweinyddiaeth uwch. Rwyf wedi gwneud yn siŵr bod trefniadau llywodraethu cryf ar waith, o ran ein bwrdd caffael, yn goruchwylio ein polisi caffael cyhoeddus, a'r gwasanaeth caffael cenedlaethol. Mae ein dull arloesol a datblygedig iawn o roi pwyslais ar fuddion cymunedol wedi cael ei fabwysiadu yn eang, ac roeddwn yn falch i lansio polisi newydd, wedi'i gryfhau ym mis Gorffennaf. Mae ffurflenni ar gyfer yr adnodd mesur budd cymunedol wedi cynyddu 70% ers lansio'r datganiad polisi.

Measurement of the first completed 56 projects, incorporating community benefits with an overall value of over £600 million, shows that 85% of this expenditure has been reinvested in Wales, with nearly 700 disadvantaged people receiving almost 20,000 weeks of training. These are significant results, which I am confident will increase in the future. I have seen for myself the results of a robust application of community benefits in action, such as the Penarth Learning Community. This is a £49 million project and is a key part of the Vale of Glamorgan's twenty-first century schools investment programme. The new campus, comprising St Cyres Comprehensive School and Ysgol y Deri, opened in October. Its construction provides an exemplar, delivering impressive results. Over 180 people had the opportunity to work on the construction site, and 83 apprentices and trainees worked on the site, drawn from the locality, including the Communities First areas in Cardiff South and Penarth. The project also pioneered the introduction of a construction ambassador scheme, funded by the Construction Industry Training Board and trained by Leadbitter. The ambassadors—pupils from the school—played a key role in pupil engagement, visiting the site, reporting back to fellow students and presenting on a number of occasions, including at the Constructing Excellence exemplar presentation.

Trwy fesur y 56 o brosiectau cyntaf a gwblhawyd, a oedd yn cynnwys buddion cymunedol â gwerth cyffredinol o dros £600 miliwn, gwelwyd bod 85% o'r gwariant hwn wedi cael ei ailfuddsoddi yng Nghymru, gyda bron i 700 o bobl dan anfantais yn derbyn bron i 20,000 wythnos o hyfforddiant. Mae'r rhain yn ganlyniadau pwysig, ac rwy'n hyderus y byddant yn cynyddu yn y dyfodol. Rwyf wedi gweld drosof fy hun ganlyniadau dull gwaith sy'n rhoi pwyslais cadarn ar fuddion cymunedol, megis Cymuned Ddysgu Penarth. Mae hwn yn brosiect £49 miliwn ac yn rhan allweddol o raglen fuddsoddi Bro Morgannwg ysgolion yr unfed ganrif ar hugain. Agorodd y campws newydd, sy'n cynnwys Ysgol Gyfun Sant Cyres ac Ysgol y Deri, ym mis Hydref. Mae'r gwaith adeiladu yn batrwm rhagorol, gan gyflawni canlyniadau trawiadol. Cafodd dros 180 o bobl y cyfle i weithio ar y safle adeiladu, ac roedd 83 o brentisiaid a hyfforddeion o'r ardal leol yn gweithio ar y safle, gan gynnwys yr ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yn Ne Caerdydd a Phenarth. Mae'r prosiect hefyd wedi arloesi trwy gyflwyno cynllun cenhadon adeiladu, a ariannwyd gan Fwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu. Leadbitter oedd yn hyfforddi'r cenhadon—disgyblion o'r ysgol—ac roeddynt yn chwarae rhan allweddol mewn ymgysylltu â disgyblion, gan ymweld â'r safle, cyflwyno adroddiadau i'w cyd-fyfyrwyr a rhoi cyflwyniadau ar nifer o achlysuron, gan gynnwys yn y cyflwyniad enghreifftiol Adeiladu Arbenigrwydd.

Overall measurement of the impact of our approach to community benefits across Wales reaches further than just the socioeconomic results. Evidence gathered to date has identified over 305,000 tonnes of waste saved from landfill, and over 71,000 tonnes of carbon dioxide saved. The tool also captured the amount of water consumption saved, recycled materials used, travel impacts and how much renewable energy has been used. It is vital that we capture the full spectrum of benefits, and this will be a priority for our procurement board going forward, taking a wider strategic responsibility for the cross-sectoral public services engagement. Of course, the board is chaired by a local authority chief executive. Our efforts have been commended by the Joseph Rowntree Foundation, in its independent report, 'Tackling Poverty Through Public Procurement', and in the United Nations report on procurement for innovative practices.

Mae'r mesuriadau cyffredinol o effaith ein hagwedd at fuddion cymunedol ledled Cymru yn cyrraedd ymhellach na dim ond canlyniadau economaidd-gymdeithasol. Mae tystiolaeth a gasglwyd hyd yn hyn wedi nodi bod dros 305,000 tunnell o wastraff wedi'i arbed rhag cael ei anfon i safleoedd tirlenwi, a thros 71,000 o dunelli o garbon deuocsid wedi'u harbed. Cofnododd yr adnodd hefyd faint o ddŵr a arbedwyd, faint o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu a ddefnyddiwyd, effeithiau teithio a faint o ynni adnewyddadwy sydd wedi cael ei ddefnyddio. Mae'n hanfodol ein bod yn cofnodi'r sbectrwm llawn o fuddion, a bydd hyn yn flaenoriaeth ar gyfer ein bwrdd caffael wrth symud ymlaen, gan gymryd cyfrifoldeb strategol ehangach dros ymgysylltu â gwasanaethau cyhoeddus traws-sector. Wrth gwrs, mae'r bwrdd yn cael ei gadeirio gan brif weithredwr awdurdod lleol. Mae ein hymdrechion wedi cael eu canmol gan Sefydliad Joseph Rowntree, yn ei adroddiad annibynnol, 'Tackling Poverty Through Public Procurement', ac yn adroddiad y Cenhedloedd Unedig ar gaffael ar gyfer arferion arloesol.

Supporting business in Wales, for it to be better placed to win public sector contracts, is a priority, and I am pleased to announce that the most recent available analysis shows that Wales-based suppliers now win 55% of our procurement expenditure. This is an increase from 52% in 2010-11, and from our baseline figure of 35% in 2004. It is important that we have this analysis, but it is vital that we understand what the full potential is for the economy of Wales and how this information could be used to identify future opportunities for Welsh business. Making sure that public contract opportunities are visible and accessible to Welsh business is critical. Some 81% of all contracts advertised through Sell2Wales are below the European value threshold. These are the contract opportunities that are vital to smaller and local suppliers and third sector organisations. It is also encouraging to know that 68% of all contract awards published on Sell2Wales are won by businesses in Wales.

Rhoddir blaenoriaeth i gefnogi busnes yng Nghymru, er mwyn iddo fod mewn sefyllfa well i ennill contractau yn y sector cyhoeddus, ac rwy’n falch o gyhoeddi bod y dadansoddiad diweddaraf sydd ar gael yn dangos bod cyflenwyr wedi'u lleoli yng Nghymru bellach yn ennill 55% o'n gwariant caffael. Mae hyn yn uwch na’r ganran o 52% yn 2010-11, a’r ffigur llinell sylfaen o 35% yn 2004. Mae'n bwysig ein bod yn cael y dadansoddiad hwn, ond mae'n hanfodol ein bod yn deall beth yw’r potensial llawn ar gyfer economi Cymru a sut y gellid defnyddio’r wybodaeth hon i nodi cyfleoedd yn y dyfodol i fusnesau Cymru. Mae’n hanfodol sicrhau bod busnesau Cymru’n ymwybodol o gyfleoedd i gael contractau cyhoeddus, a’u bod yn gallu manteisio ar y cyfleoedd hynny. Mae rhyw 81% o'r holl gontractau a hysbysebir drwy GwerthwchiGymru yn rhai â gwerth is na'r trothwy Ewropeaidd. Y rhain yw’r cyfleoedd contract sy'n hanfodol i gyflenwyr llai a lleol a sefydliadau trydydd sector. Mae hefyd yn galonogol gwybod bod 68% o'r holl ddyfarniadau contract a gyhoeddir ar GwerthwchiGymru yn cael eu hennill gan fusnesau yng Nghymru.

I have listened to the concerns of business and have responded by simplifying and standardising procurement. Policy developments such as the growing use of the SQuID approach—supplier qualification information database—to supplier selection is driving simplification, and I am pleased that the Welsh Government will be the first to deliver this full solution for suppliers and buyers when the online functionality becomes available next year.

Rwyf wedi gwrando ar bryderon busnesau ac wedi ymateb drwy symleiddio a safoni’r broses gaffael. Mae datblygiadau polisi megis y defnydd cynyddol o'r dull SQuID—cronfa ddata o wybodaeth am gymwysterau cyflenwyr—wrth ddethol cyflenwyr yn sbarduno’r broses symleiddio, ac rwy’n falch mai Llywodraeth Cymru fydd y cyntaf i ddarparu’r dull gweithio cyflawn hwn ar gyfer cyflenwyr a phrynwyr pan fydd y swyddogaeth ar-lein ar gael y flwyddyn nesaf.

It is important also that public procurement in Wales is at the forefront of driving ethical practices through procurement. Our groundbreaking blacklisting policy was the first in the UK, and we are seeing its impact in the delivery of construction projects.

Mae'n bwysig hefyd bod caffael cyhoeddus yng Nghymru ar flaen y gad o ran sbarduno arferion moesol drwy gaffael. Ein polisi cosbrestru arloesol oedd y cyntaf yn y DU, ac rydym yn gweld ei effaith wrth gyflawni prosiectau adeiladu.

I will shortly be announcing new policy guidance to help tackle the issue of forced self-employment. Public procurement is a key lever to help ensure that the people of Wales are treated fairly and with respect. Once again, I believe that the Welsh Government will be the first in the UK to take a strong stance against this practice, and I am grateful for the support of the unions in developing and promoting both these important policies.

Byddaf yn cyhoeddi canllawiau polisi newydd cyn bo hir er mwyn helpu i fynd i'r afael â mater hunangyflogaeth orfodol. Mae caffael cyhoeddus yn ysgogiad allweddol er mwyn helpu i sicrhau bod pobl Cymru’n cael eu trin yn deg a chyda pharch. Unwaith eto, rwy’n credu mai Llywodraeth Cymru fydd y cyntaf yn y DU i gymryd safiad cryf yn erbyn yr arfer hwn, ac rwy’n ddiolchgar am gefnogaeth yr undebau o ran datblygu a hyrwyddo’r polisïau pwysig hyn.

A significant issue for smaller suppliers, particularly in the construction sector, is fair and prompt payments. To address this, I introduced the policy on the use of project bank accounts to help protect the interests of vulnerable supply contractors. The support of the specialist engineering contractors’ group for Wales was invaluable in developing this policy.

Un mater o bwys ar gyfer cyflenwyr llai, yn enwedig yn y sector adeiladu, yw taliadau teg a phrydlon. I ymdrin â hyn, cyflwynais y polisi ar y defnydd o gyfrifon banc prosiect i helpu i warchod buddiannau contractwyr cyflenwi sydd mewn sefyllfa fregus. Roedd cefnogaeth y grŵp contractwyr peirianneg arbenigol ar gyfer Cymru yn amhrisiadwy wrth ddatblygu'r polisi hwn.

The national procurement service fully embraces and is committed to the Wales procurement policy statement. This sends a strong message of intent to business and provides a significant mechanism to simplify and standardise our approach to public procurement through practical application. I know that the NPS is looking to promote the use of the joint bidding guidance produced by the Wales Co-operative Centre and the Wales Council for Voluntary Action, published last year, to encourage smaller suppliers to work together to bid for, and hopefully win, NPS contracts.

Mae'r gwasanaeth caffael cenedlaethol yn llwyr groesawu datganiad polisi caffael Cymru ac mae wedi ymrwymo iddo. Mae hynny'n anfon neges gref o fwriad i fusnesau ac yn darparu mecanwaith pwysig ar gyfer symleiddio a safoni ein dull gwaith ym maes caffael cyhoeddus trwy ddefnydd ymarferol. Gwn fod y gwasanaeth caffael cenedlaethol yn bwriadu hyrwyddo'r canllawiau ymgeisio a baratowyd ar y cyd gan Ganolfan Cydweithredol Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ac a gyhoeddwyd y llynedd, er mwyn annog cyflenwyr llai i weithio gyda'i gilydd i wneud cais am gontractau'r gwasanaeth caffael cenedlaethol, a'u hennill gobeithio.

Having the right skills and capability is, of course, crucial. The results of the procurement fitness checks that have been carried out across local government and the NHS have identified that, while there are pockets of skills and capacity, there is still much to do. Initiatives such as the European social fund-funded Home-Grown Talent project have driven skills development and increased the number of procurement professionals in the public sector in Wales. The project comes to an end in June next year, and it is important that we do not lose the momentum that has been created over the past few years.

Mae'n hanfodol meddu ar y sgiliau a'r gallu cywir, wrth gwrs. Mae canlyniadau'r archwiliadau ffitrwydd ar gyfer caffael a gynhaliwyd ar draws llywodraeth leol a'r GIG wedi nodi bod pocedi o sgiliau a gallu, ond bod llawer i'w wneud o hyd. Mae mentrau fel y prosiect Defnyddio Doniau Cymru a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop wedi sbarduno datblygiad sgiliau ac wedi cynyddu nifer y gweithwyr caffael proffesiynol yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Daw'r prosiect i ben ym mis Mehefin y flwyddyn nesaf, ac mae'n bwysig nad ydym yn colli'r momentwm sydd wedi cael ei greu yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

I have told you today about just some of the impressive benefits that are being delivered across Wales. There is more to do, and I look forward to the transposition of the revised EU procurement directive early next year. The introduction of the new EU directive provides the ideal chance to review the policy statement, and I look forward to launching a refreshed policy statement next spring.

Rwyf wedi dweud wrthych heddiw am rai o'r buddion trawiadol sy'n cael eu cyflwyno ar draws Cymru. Mae mwy i'w wneud, ac edrychaf ymlaen at drosi cyfarwyddeb gaffael ddiwygiedig yr UE yn gynnar y flwyddyn nesaf. Mae cyflwyno cyfarwyddeb newydd yr UE yn rhoi cyfle delfrydol i adolygu'r datganiad polisi, ac edrychaf ymlaen at lansio datganiad polisi wedi'i adnewyddu y gwanwyn nesaf.

Finally, in relation to the amendments, I support amendment 1, and I am pleased that the impact of policy is recognised. I cannot support amendments 2 and 5, but I am committed to ensuring that we maximise the capacity of Wales-based suppliers to deliver our contracts. I will use available information to establish where the opportunities are for Welsh suppliers to win more contracts. I support amendment 3, and options to strengthen procurement policy are being actively pursued. In supporting amendment 4, we will use the procurement fitness check outcomes and Sell2Wales's reporting capability to make this information available. Finally, in supporting amendment 6, we expect this to be achieved through our adoption of the Wales procurement policy.

Yn olaf, o ran y gwelliannau, rwy'n cefnogi gwelliant 1, ac rwy'n falch bod effaith y polisi yn cael ei gydnabod. Ni allaf gefnogi gwelliannau 2 a 5, ond rwyf wedi ymrwymo i ofalu ein bod yn sicrhau bod gan gyflenwyr yng Nghymru y gallu mwyaf posibl i gyflawni ein contractau. Byddaf yn defnyddio'r wybodaeth sydd ar gael i weld ble mae'r cyfleoedd i gyflenwyr o Gymru ennill mwy o gontractau. Rwy'n cefnogi gwelliant 3, ac mae opsiynau i gryfhau polisi caffael yn cael sylw gweithredol. Wrth gefnogi gwelliant 4, byddwn yn defnyddio canlyniadau'r archwiliadau ffitrwydd caffael a gallu GwerthwchiGymru i gyflwyno adroddiadau, er mwyn sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael. Yn olaf, wrth gefnogi gwelliant 6, rydym yn disgwyl i hyn gael ei gyflawni drwy i ni fabwysiadu polisi caffael Cymru.

My new policy statement will maximise the opportunity to deliver more through public procurement, and I will set out the context for delivery articulating the scale of ambition to deliver maximum benefit for the economy, citizens and communities of Wales.

Bydd fy natganiad polisi newydd yn gwneud y mwyaf o'r cyfle i gyflawni mwy drwy gaffael cyhoeddus, a byddaf yn gosod y cyd-destun ar gyfer cyflawni, gan fynegi graddfa'r uchelgais i ddarparu'r budd mwyaf i economi, dinasyddion a chymunedau Cymru.

16:28

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I have selected the six amendments to the motion. I call on Rhun ap Iorwerth to move amendments 1, 2 and 3, tabled in the name of Elin Jones.

Rwyf wedi dethol y chwe gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar Rhun ap Iorwerth i gynnig gwelliannau 1, 2 a 3, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

*Gwelliant 1—Elin Jones*

*Amendment 1—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn cydnabod:*

*a) yr effaith gadarnhaol y gall cynyddu cyfran y tendrau yn y sector cyhoeddus a gaiff eu dyfarnu i gwmnïau o Gymru ei chael ar yr economi a'r farchnad lafur;*

*b) cyfrifiad Gwerth Cymru y bydd pob cynnydd o 1% yng nghyfran y tendrau yn y sector cyhoeddus a gaiff eu dyfarnu i gwmnïau o Gymru yn creu 2,000 o swyddi newydd.*

*Gwelliant 2—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i fanteisio ar y newidiadau yn rheolau caffael yr UE ac anelu at ddyfarnu o leiaf 75% o dendrau sector cyhoeddus i gwmnïau o Gymru.*

*Gwelliant 3—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddeddfu i'w gwneud yn orfodol bod sefydliadau yn y sector cyhoeddus yn dilyn polisi caffael Llywodraeth Cymru.*

*Recognises:*

*a) the positive impact that increasing the proportion of public sector tenders being awarded to Welsh companies can have on the economy and the labour market;*

*b) Value Wales's calculation that every 1% increase in the proportion of public sector tenders being awarded to Welsh companies will create 2,000 new jobs.*

*Amendment 2—Elin Jones*

*Add as new point at end of motion:*

*Calls on the Welsh Government to take advantage of the changes in EU procurement rules and aim to award at least 75% of public sector tenders to Welsh companies.*

*Amendment 3—Elin Jones*

*Add as new point at end of motion:*

*Calls on the Welsh Government to legislate to make it mandatory for public sector organisations to follow Welsh Government procurement policy.*

16:28

## Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cynigiaf welliannau 1, 2 a 3.

Mae’r sector gyhoeddus yn pwmpio rhyw £4.3 biliwn yn flynyddol i mewn i’r economi Gymreig drwy bŵer i brynu nwyddau a gwasanaethau. I roi hyn mewn cyd-destun, mae hynny bedair gwaith yn fwy na’r hyn sy’n cael ei gymryd i mewn mewn trethi busnes ac mae bron i dair gwaith y lefel o dreth gorfforaethol sy’n cael ei chymryd yng Nghymru, felly mae hwn yn amlwg yn fater pwysig iawn i’w ddatrys o ran economi Cymru. Beth sy’n ddeniadol o syml hefyd yw bod pŵer y gwariant hwn i raddau helaeth yn nwylo pobl Cymru. Mewn system dda, mae’r sector gyhoeddus a’r sector breifat yn gyd-ddibynnol. Beth sydd arnom ei eisiau mewn difrif yw datblygu system lle mae’r sector breifat yn gwybod ei fod yn gallu dibynnu ar y sector gyhoeddus Gymreig i warchod ei fuddiannau drwy brynu ei nwyddau a’i gwasanaethau hyd eithaf ei allu. Ar yr ochr arall, mae eisiau datblygu y sector breifat a’i gallu i gyflenwi i’r sector gyhoeddus yr hyn y mae ei angen arni o ran nwyddau a gwasanaethau i’w caffael. Mae’n bwysig nodi bod amcanion y Llywodraeth wedi cael eu canmol yn adroddiad McClelland, er enghraifft, ond gweithredu amcanion ac egwyddorion ydy’r broblem yn fwy na dim efallai. Felly, beth am imi ddechrau gyda’n trydydd gwelliant? Mewn difrif, gofyn yr ydym am weithredu ar draws y sector gyhoeddus yr amcanion hynny y mae’r Llywodraeth yn dweud wrthym yn gyson ei bod wedi ymrwymo iddyn nhw. Mae’r sector gyhoeddus yn treiddio i bob rhan o fywyd yng Nghymru ac mae’n rhaid i bolisi caffael weithredu’n dda ar bob lefel hefyd. Fe wnaeth yr adroddiad ym mis Awst ar gyflwr y sector gaffael yng Nghymru ddangos nad oedd dros hanner—12 o’r 22—yr awdurdodau lleol mewn sefyllfa i allu gweithredu ar y math o agenda gaffael yr ydym yn chwilio amdani.

I move amendments 1, 2 and 3.

The public sector pumps some £4.3 billion per annum into the Welsh economy by virtue of its power to buy goods and services. To put that into context, that is four times more than is taken in business taxes and almost three times the level of corporate tax take in Wales, so this is clearly a very important issue to be resolved in terms of the Welsh economy. What is attractively simple, too, is that the power of this expenditure is largely in the hands of the people of Wales. In a good system, the public sector and the private sector are co-dependent. What we want is really to develop a system whereby the private sector knows that it can depend on the Welsh public sector to protect its interests by procuring its goods and services as much as possible. On the other side of the coin, of course, we do need to develop the private sector and its capacity to supply the public sector in terms of goods and services to be procured. It is important to note that the Government’s objectives have been praised in the McClelland report, for example. However, it is implementing those objectives and principles that is the problem perhaps. So, let us start with our amendment 3. We are indeed asking for action across the public sector on those objectives that the Government constantly tells us it is committed to. The public sector permeates all parts of life in Wales and procurement policy must work well on all levels too. The report published in August on the state of the procurement sector in Wales demonstrated that over 50%—12 of the 22— of authorities in Wales were not in a position to actually implement the kind of procurement agenda we are seeking in Wales.

Fe wnaeth Llywodraeth Cymru'n Un ymrwymo Plaid Cymru i weithio o fewn y fframwaith cyfreithiol Ewropeaidd er mwyn ei gwneud hi'n haws i fusnesau bach ymhob rhan o Gymru gystadlu am, ac ennill, contractau efo'r Llywodraeth. Yn y cyfnod hwnnw, cafodd siarter 'Agor Drysau' ar gyfer creu systemau caffael sy'n gyfeillgar i fusnesau bach a chanolig eu maint ei diweddaru. Y cwestiwn rŵan yw sut mae gwthio pethau ymhellach a newid polisïau a phrosesau caffael i adlewyrchu'r ffaith bod y fframwaith cyfreithiol yn newid. Dyna bwrpas ein hail welliant. Bydd hi'n llawer haws rŵan, er enghraifft, nodi ffactorau amgylcheddol—effaith amgylcheddol cludo nwyddau o bell, er enghraifft—fel ffactorau y gallwn ni eu hystyried wrth roi cytundebau.

The One Wales Government committed Plaid Cymru to working within the European legal framework to make it easier for small businesses in all parts of Wales to compete for and gain contracts with the Government. During that period, the 'Opening Doors' charter for creating SME-friendly procurement systems was updated. The question now is how we can push that further and change procurement policy to reflect the fact that the legal framework is now changing. That is the purpose of our amendment 2. It will now be far easier, for example, to cite environmental factors— the environmental impact of transporting goods over long distances, for example—as factors to be taken into account in placing tenders.

Rydym yn gwybod bod gwledydd eraill yn caffael ar lefel lawer iawn yn uwch na ni yn barod, a hynny drwy chwarae oddi mewn i'r rheolau, a chwarae oddi mewn i'r hen reolau. Rhyw 52% o nwyddau a gwasanaethau sy'n cael eu prynu gan y sector gyhoeddus yng Nghymru, yn ôl y ffigurau diweddaraf, sy'n cael eu caffael yng Nghymru. Rydym ni'n sicr yn meddwl, hyd yn oed os yw'r ffigur hwnnw wedi cynyddu rhywfaint erbyn hyn, y gallwn ni ychwanegu 25% at hynny. Mae Gwerth Cymru yn amcangyfrif y bydd pob 1% o gynnydd yn nghyfran y tendrau cyhoeddus sy'n cael ei rhoi i gwmnïau Cymreig yn creu rhyw 2,000 o swyddi. Rydym ni'n sôn am gynnydd o 25%, felly 50,000 o swyddi. Mae arferion da yn barod. Mae Gwynedd, er enghraifft, yn mynnu bod 100% o gynnyrch cinio ysgolion yn gynnyrch lleol. Mae'r rhain yn bethau syml nad ydynt yn cael eu gwneud mewn awdurdodau eraill. Mae Ynys Môn yn enghraifft yr wyf wedi'i chrybwyll sawl tro yn y Siambr, gan ei bod yn methu â dod yn agos at ddarparu'r hyn y mae Cyngor Gwynedd yn ei wneud.

We know that other nations procure locally at a far higher level than we do at present, while working within the rules and within the old set of rules. Some 52% of goods and services procured by the public sector in Wales, according to the most recent figures, are procured in Wales. We certainly believe that, even if that figure has increased somewhat by now, we could add 25% to that. Value Wales estimates that, for every 1% increase in the proportion of public sector tenders being awarded to Welsh companies, we will create some 2,000 jobs. So, if we are talking about an increase of 25%, that is 50,000 jobs. There is good practice already. Gwynedd insists, for example, that 100% of produce served at school lunches is procured locally. These are very simple things that are not done elsewhere. Anglesey is an example that I have quoted many times in the Chamber as one that fails to get anywhere near what is achieved by Gwynedd Council.

O ran gwelliannau'r Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol, byddwn yn cefnogi'r rheini. Rydym yn cytuno, wrth gwrs, ar yr angen i fonitro cynnydd, fel mae gwelliant 4 yn sôn. Mae gwelliant 5—

In terms of the Conservative and Liberal Democrat amendments, we will support those. Of course, we agree on the need to monitor progress, as amendment 4 refers to. Amendment 5—

16:33

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will the Member give way?

A wnaiff yr Aelod ildio?

16:33

## Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am running out of time. Sorry.

Mae fy amser yn dod i ben. Mae'n ddrwg gennyf.

Mae gwelliant 5 yn greiddiol i'r holl fater hwn, Mae angen inni gadw cymaint o arian cyhoeddus yn yr economi Gymreig â phosibl ac, wrth gwrs, nid yw rhoi contractau i is-gwmnïau Cymreig, gyda'r arian yn llifo allan i bencadlysoedd y tu allan i Gymru yn helpu yn hynny o beth. Yn fyr iawn, mae cwmni preifat yn fy etholaeth i yn fodlon talu 10% yn fwy na'r pris lleiaf y mae'n gallu ei ganfod os ydyw'n gallu canfod cwmni lleol i wneud y busnes hynny. Os yw'r sector breifat, gyda'i 'margins' tyn yn gallu gwneud pethau felly—

Amendment 5 gets to the core of this whole issue. We need to keep as much public funding within the Welsh economy as possible and, of course, providing contracts to companies that have their headquarters outwith Wales does not help in that regard. Very briefly, a private company in my own constituency is willing to pay 10% more than the lowest price it can find if it can find a local company that can undertake that responsibility. If the private sector can do that with tight margins—

16:33

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Gorffennwch.

Please finish.

16:33

## Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

[Yn parhau.]—mae'n rhaid i ni edrych ar werth am arian, ac nid y pris rhataf yw hynny.

[Continues.]—we will have to look at best value for money, and that is not always the lowest price.

16:33

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
Fideo Video

I call on Nick Ramsay to move amendment 4 tabled in the name of Paul Davies.

Galwaf ar Nick Ramsay i gynnig gwelliant 4 a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

*Gwelliant 4—Paul Davies*

*Amendment 4—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn credu bod angen i Lywodraeth Cymru ddarparu diweddariadau rheolaidd ynghylch y broses o fabwysiadu Datganiad Polisi Caffael Cymru gan awdurdodau lleol a'r contractau y maent yn eu dyfarnu.*

*Believes that the Welsh Government needs to provide regular updates on the adoption of the Wales Procurement Policy Statement by local authorities; and the contracts awarded by them.*

16:34

## Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
Fideo Video

I move amendment 4.

Cynigiaf welliant 4.

Deputy Presiding Officer, public procurement is a crucial piece of the Welsh economic jigsaw, and I welcome this debate today. Indeed, this is an area worthy of far greater discussion in this Chamber. We need to focus far more on the evolution of procurement policy and the overall impact of public procurement across Wales, and the Government must fully grasp the role of procurement as a tool for stimulating home-grown economic growth. As the Minister said in her statement in 2012, public procurement is a key tool to lever opportunities for Welsh businesses. The Welsh Government is clearly the biggest customer in Wales, spending around a third of total GVA every year, as Rhun ap Iorwerth has said—around £4.3 billion, to be more precise—so it is important that the Welsh Government gets this right.

Ddirprwy Lywydd, mae caffael cyhoeddus yn ddarn hanfodol o'r jig-so economaidd yng Nghymru, a chroesawaf y ddadl hon heddiw. Yn wir, mae hwn yn faes sy'n haeddu llawer mwy o drafodaeth yn y Siambr hon. Mae angen inni ganolbwyntio llawer mwy ar esblygiad polisi caffael ac effaith gyffredinol caffael cyhoeddus ledled Cymru, a rhaid i'r Llywodraeth ddeall yn llawn rôl caffael fel arf ar gyfer ysgogi twf economaidd Cymru. Fel y dywedodd y Gweinidog yn ei datganiad yn 2012, mae caffael cyhoeddus yn offeryn allweddol i ysgogi cyfleoedd i fusnesau Cymru. Llywodraeth Cymru yn amlwg yw'r cwsmer mwyaf yng Nghymru, gan wario tua thraean o gyfanswm y Gwerth Ychwanegol Gros bob blwyddyn, fel y mae Rhun ap Iorwerth wedi'i ddweud—tua £4.3 biliwn, i fod yn fanwl gywir—felly mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn cael hyn yn iawn.

We were told that the launch of the Wales procurement policy statement in December 2012 was an important step towards improving the procurement system in Wales. The McClelland review helped to develop a set of principles that would support the Welsh economy and deliver value for money. So, where are we today? Well, it is good and bad, is it not? While some positive effects have been witnessed since 2012, there is still room for improvement, as, I think, the Minister herself recognises. We certainly do need regular updates, as our amendment suggests, especially on how local authorities are adopting and putting these principles into practice. We need the all-important figures and data on contracts being awarded and the real outcome of these contracts on local economies.

Dywedwyd wrthym fod lansiad datganiad polisi caffael Cymru ym mis Rhagfyr 2012 yn gam pwysig tuag at wella'r system gaffael yng Nghymru. Gwnaeth adolygiad McClelland helpu i ddatblygu cyfres o egwyddorion a fyddai'n cefnogi economi Cymru ac yn rhoi gwerth am arian. Felly, ble rydym ni heddiw? Wel, mae pwyntiau da a drwg, onid oes? Er y gwelwyd rhai effeithiau cadarnhaol ers 2012, mae lle i wella, fel y mae'r Gweinidog ei hun yn cydnabod, rwy'n meddwl. Yn sicr mae angen inni gael y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd, fel yr awgryma ein gwelliant, yn enwedig o ran sut y mae awdurdodau lleol yn mabwysiadu'r egwyddorion hyn ac yn eu rhoi ar waith. Mae arnom angen y ffigurau a data hollbwysig ar y contractau sy'n cael eu dyfarnu a chanlyniad go iawn y contractau hyn i'r economïau lleol.

The aim behind the community benefits policy was a step in the right direction, but, at the same time, we have to hope that this will not make the bidding process more difficult and even discourage possible bids in a worst-case scenario. As my colleague, Paul Davies, has said, we need a system that records the bid and will deliver the best results, not the bid that ticks the most unnecessary boxes. At risk of sounding like a broken record, it is essential that all procurement processes are completely transparent, because transparency will increase public awareness and understanding and will ensure stability and confidence in the procurement system. For that, we need to monitor the procedures.

Roedd nod y polisi o sicrhau budd i'r gymuned yn gam i'r cyfeiriad cywir, ond, ar yr un pryd, mae'n rhaid i ni obeithio na fydd hyn yn gwneud y broses ymgeisio'n fwy anodd a hyd yn oed yn atal ceisiadau posibl mewn sefyllfa waethaf. Fel y mae fy nghyd-Aelod, Paul Davies, wedi'i ddweud, mae angen system sy'n cofnodi'r cais a fydd yn darparu'r canlyniadau gorau, nid y cais sy'n ticio'r nifer mwyaf o flychau diangen. Er bod perygl imi swnio fel record wedi torri, mae'n hanfodol bod yr holl brosesau caffael yn gwbl dryloyw, oherwydd y bydd tryloywder yn cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd a bydd yn sicrhau sefydlogrwydd a hyder yn y system gaffael. Ar gyfer hynny, mae angen i ni fonitro'r gweithdrefnau.

On the face of it, 2013 was a busy year for reforming and upgrading the procurement system in Wales. The national procurement service started in late November last year and promised to be a strategic collaborative vehicle for common and repetitive spend—spend such as stationery and the like. The Minister for finance has said that this service will be able to self-finance after three years. The Federation of Small Businesses considers it an opportunity for Welsh businesses and the chance to improve the quality of the procurement process for SMEs in Wales.

Ar yr olwg gyntaf, roedd 2013 yn flwyddyn brysur ar gyfer diwygio ac uwchraddio'r system gaffael yng Nghymru. Dechreuodd y gwasanaeth caffael cenedlaethol ddiwedd mis Tachwedd y llynedd ac roedd yn addo bod yn gyfrwng cydweithredol, strategol ar gyfer gwariant cyffredin ac ailadroddus—gwariant megis offer swyddfa ac yn y blaen. Mae’r Gweinidog cyllid wedi dweud y bydd y gwasanaeth hwn yn gallu ei ariannu ei hun ar ôl tair blynedd. Mae'r Ffederasiwn Busnesau Bach yn ystyried ei fod yn gyfle i fusnesau Cymru ac yn gyfle i wella ansawdd y broses gaffael ar gyfer busnesau bach a chanolig yng Nghymru.

There is no denying that the scheme’s principles are good, but we will certainly need to monitor how it is delivering for our all-important SMEs and if this service really is providing the value for money for which we would hope. It is also important that local authorities still have appropriate flexibility to contract local SMEs. I would like to hear more from the Minister on how she intends to ensure that necessary flexibility.

Ni ellir gwadu bod egwyddorion y cynllun yn rhai da, ond yn sicr bydd angen inni fonitro sut y mae'n cyflawni ar gyfer ein busnesau bach a chanolig hollbwysig, ac a yw’r gwasanaeth hwn mewn gwirionedd yn rhoi’r gwerth am arian y byddem yn gobeithio’i gael. Mae hefyd yn bwysig bod gan awdurdodau lleol yr hyblygrwydd priodol o hyd i gontractio busnesau bach a chanolig lleol. Hoffwn glywed mwy gan y Gweinidog ynglŷn â sut y mae'n bwriadu sicrhau’r hyblygrwydd angenrheidiol hwnnw.

We also have the joint bidding guide—the collaboration between Value Wales, the Wales Co-operative Centre and the Wales Council for Voluntary Action, which aims to promote consortium bidding as a way of providing greater access to public sector contracts for SMEs and the third sector.

Mae gennym hefyd y canllaw ar gyflwyno ceisiadau tendro ar y cyd—cydweithio rhwng Gwerth Cymru, Canolfan Cydweithredol Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru—sydd â’r nod o hyrwyddo ceisiadau consortiwm fel ffordd o’i gwneud yn haws i fusnesau bach a chanolig a'r trydydd sector ymgeisio am gontractau yn y sector cyhoeddus.

According to the Minister’s March statement, Welsh contractors win around three quarters of all major construction awards. I hope that the Minister will not stop here and that the number of contracts awarded to Welsh businesses’ headquarters here in Wales will grow.

Yn ôl datganiad y Gweinidog ym mis Mawrth, mae contractwyr Cymru yn ennill tua thri chwarter o'r holl ddyfarniadau adeiladu mawr. Rwy’n gobeithio na fydd y Gweinidog yn ystyried bod hynny’n ddigon, ac y bydd nifer y contractau a ddyfernir i fusnesau Cymreig â’u pencadlys yma yng Nghymru yn tyfu.

The FSB stated in 2012 that six out of 10 businesses reported that there were barriers to accessing public sector procurement opportunities. A report published last year underlined that 78% of small firms had not bid or worked on any public sector contracts and, from those that had bid, only just over half were successful in winning at least one contract. That report recommended that there should be a breaking down of contracts into lots and that the all-important simplification of the process that other speakers have mentioned should continue. I would like to hear from the Minister what progress has been made in doing this.

Yn ôl y Ffederasiwn Busnesau Bach yn 2012, dywedodd chwech o bob 10 o fusnesau fod ffactorau’n eu rhwystro rhag manteisio ar gyfleoedd caffael yn y sector cyhoeddus. Roedd adroddiad a gyhoeddwyd y llynedd yn tanlinellu nad yw 78% o gwmnïau bach wedi gwneud cais am unrhyw gontractau yn y sector cyhoeddus nac wedi gweithio ar gontractau o’r fath ac, o'r rhai a oedd wedi gwneud cais, dim ond ychydig dros hanner a lwyddodd i ennill o leiaf un contract. Argymhellodd yr adroddiad hwnnw y dylid rhannu contractau yn lotiau ac y dylid parhau â’r broses symleiddio hollbwysig y mae siaradwyr eraill wedi’i grybwyll. Hoffwn glywed gan y Gweinidog pa gamau sydd wedi'u cymryd yn hyn o beth.

Every pound spent last year by a participating local authority on local small and medium-sized enterprises generated an additional 63p of benefit to their local economies, while local large firms generated only 40p, so there is clear benefit in backing our SMEs in the procurement process. We need much earlier positive and proactive engagement with SME suppliers. This would allow supply chains to prepare in time to tender for contracts and could be used to promote supply chain awareness.

Roedd pob punt a wariwyd y llynedd ar fentrau lleol bach a chanolig gan awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan wedi cynhyrchu 63c ychwanegol o fudd i'w heconomïau lleol, tra bod cwmnïau mawr lleol wedi cynhyrchu 40c yn unig, felly mae budd amlwg mewn cefnogi ein busnesau bach a chanolig yn y broses gaffael. Mae angen ymgysylltu’n gadarnhaol ac yn rhagweithiol â chyflenwyr sy’n fusnesau bach a chanolig, a hynny’n llawer cynharach. Byddai hyn yn caniatáu i gadwyni cyflenwi baratoi mewn pryd i dendro am gontractau a gellid defnyddio hyn i hyrwyddo ymwybyddiaeth o’r gadwyn gyflenwi.

In conclusion, Deputy Presiding Officer, let us have far more debate about procurement. We need to simplify procurement processes, ensure that best practice is shared and ensure that all businesses can compete, including our SMEs.

I gloi, Ddirprwy Lywydd, gadewch i ni gael llawer mwy o drafodaeth am gaffael. Mae angen inni symleiddio prosesau caffael, sicrhau bod arfer gorau'n cael ei rannu a sicrhau y gall pob busnes gystadlu, gan gynnwys ein busnesau bach a chanolig.

16:39

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Eluned Parrott to move amendments 5 and 6 tabled in the name of Aled Roberts.

Rwy'n galw ar Eluned Parrott i gynnig gwelliannau 5 a 6 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

*Gwelliant 5—Aled Roberts*

*Amendment 5—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn gresynu at y gyfran isel o gontractau sy'n mynd i gwmnïau sydd â phencadlys yng Nghymru.*

*Regrets the low proportion of contracts going to firms who have headquarters in Wales.*

*Gwelliant 6—Aled Roberts*

*Amendment 6—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i'w gwneud yn ofynnol bod cyrff cyhoeddus yn asesu'r economi leol cyn penderfynu sut y dylai contractau caffael cyhoeddus gael eu bwndelu.*

*Calls for the Welsh Government to require public bodies to assess the make-up of the local economy before deciding how public procurement contracts should be bundled.*

16:39

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. I would like to move amendments 5 and 6, tabled in Aled's name.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Hoffwn gynnig gwelliannau 5 a 6, a gyflwynwyd yn enw Aled.

I would like to thank the Government for bringing this debate today. I think that we all recognise the huge importance that public procurement has for the Welsh economy. However, I also think that there is an inherent tension between two common policy aims in terms of procurement, and how we, as policy makers, can ensure that local people and businesses benefit to the best effect from public spending. I would like to spend a little time discussing that today.

Hoffwn ddiolch i'r Llywodraeth am ddod â'r ddadl hon heddiw. Credaf ein bod i gyd yn cydnabod pa mor eithriadol o bwysig yw caffael cyhoeddus i economi Cymru. Fodd bynnag, rwyf hefyd yn credu bod tensiwn cynhenid rhwng dau nod polisi cyffredin o ran caffael, a sut y gallwn ni, fel llunwyr polisi, sicrhau bod pobl a busnesau lleol yn elwa cymaint ag y bo modd o wariant cyhoeddus. Hoffwn dreulio ychydig o amser yn trafod hynny heddiw.

The two aims that I am talking about are the desire to ensure that local businesses win contracts more often, as mentioned in our amendment 5, and the drive to embed stronger community benefit clauses in contracts. I do not believe that these two aims are mutually exclusive, but they are certainly not directly complementary either. Much depends in terms of pursuing both of them on the structure of the local economy and what kind of businesses it can support. The Welsh economy has a greater proportion of SMEs than most other regions or nations in the UK and, in particular, a greater proportion of small and microbusinesses than many other places. This has really important implications for procurement policy in that, if we want local firms to be successful—and by 'local' I mean those that are wholly owned and run from Wales rather than those that have offices in Wales—then we have to design contracts that could be delivered by some of those smaller companies. If we follow this policy aim, then we will have to unbundle more contacts, and a greater number of smaller contracts may mean that more smaller local companies can apply, but it does not guarantee that they will, of course, be successful. It also means that delivering meaningful community benefit clauses may well be more difficult. For example, if we wanted to encourage the creation of new apprenticeship places through those kinds of clauses, we would have to recognise that that would be difficult if the contract is a particularly short one or if the contract value is in and of itself too small to support the kind of training investment that we are talking about in terms of delivering for a young person—an opportunity that is not only going to train them but lead them into sustained employment because of the quality of the experience that they have had.

Y ddau nod yr wyf yn sôn amdanynt yw'r awydd i sicrhau bod busnesau lleol yn ennill contractau yn fwy aml, fel y crybwyllir yn ein gwelliant 5, a'r ymgyrch i ymwreiddio cymalau cryfach mewn contractau o safbwynt budd i'r gymuned. Nid wyf yn credu bod y ddau nod yn tynnu'n groes i'w gilydd, ond nid ydynt yn sicr yn ategu'i gilydd ychwaith. Mae llawer yn dibynnu, wrth fynd ar drywydd y ddau ohonynt, ar strwythur yr economi leol a pha fath o fusnesau y gall eu cefnogi. Mae gan economi Cymru gyfran fwy o fusnesau bach a chanolig na'r rhan fwyaf o ranbarthau neu wledydd eraill yn y DU ac, yn benodol, cyfran fwy o fusnesau bach a microfusnesau na llawer o leoedd eraill. Mae gan hyn oblygiadau pwysig iawn ar gyfer polisi caffael yn y ffaith bod yn rhaid inni gynllunio contractau a allai gael eu cyflawni gan rai o'r cwmnïau llai hynny, os ydym am i gwmnïau lleol fod yn llwyddiannus—ac wrth 'lleol' rwy'n golygu'r rhai sy'n eiddo ac sy'n cael eu rhedeg yn gyfan gwbl o Gymru yn hytrach na'r rhai sydd â swyddfeydd yng Nghymru. Os byddwn yn dilyn y nod polisi hwn, yna bydd yn rhaid inni ddadfwndelu mwy o gontractau, ac efallai y bydd nifer mwy o gontractau llai yn golygu y gall mwy o gwmnïau lleol wneud cais, ond nid yw'n gwarantu y byddant yn llwyddiannus, wrth gwrs. Mae hefyd yn golygu y gall fod yn fwy anodd cyflwyno cymalau ystyrlon ar gyfer sicrhau budd cymunedol. Er enghraifft, os ydym yn awyddus i annog lleoedd prentisiaeth newydd drwy gyfrwng y mathau hynny o gymalau, byddai'n rhaid inni gydnabod y byddai hynny'n anodd os yw'r contract yn un arbennig o fyr neu os yw gwerth y contract ynddo'i hun yn rhy fach i gefnogi'r math o fuddsoddiad mewn hyfforddiant yr ydym yn sôn amdano o ran cyflawni ar gyfer person ifanc—cyfle sydd, yn ogystal â darparu hyfforddiant, hefyd yn mynd i arwain at gyflogaeth gynaliadwy oherwydd ansawdd y profiad y mae wedi'i gael.

We might be tempted to ask ourselves which of those two aims would deliver the greatest benefit to the people of Wales if they are intertwined in that way. Clearly, we actually need to be pursuing both. I do not believe that we have to choose either/or, but we have to recognise that there is a delicate interdependence between the two issues, and to get that balance right and get the best for the Welsh economy as a whole, I think that we need a few key building blocks that are really important. The first of those is that we do need to have skilled, confident and appropriately senior procurement managers in public authorities who understand that balance and who use their logic and their discretion in developing contracts that are going to deliver the benefits that are most important to their local community.

Efallai y byddwn yn cael ein temtio i ofyn i ni ein hunain pa un o'r ddau nod fyddai'n sicrhau'r budd mwyaf i bobl Cymru os cânt eu cydblethu yn y ffordd honno. Yn amlwg, mae angen inni mewn gwirionedd fynd ar drywydd y ddau. Nid wyf yn credu bod yn rhaid inni ddewis y naill neu'r llall, ond mae'n rhaid inni gydnabod y ceir cyd-ddibyniaeth sensitif rhwng y ddau fater, a chredaf fod arnom angen rhai blociau adeiladu allweddol sy'n wirioneddol bwysig er mwyn cael y cydbwysedd cywir a sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer economi Cymru yn ei chyfanrwydd. Y cyntaf o'r rheini yw bod angen inni gael rheolwyr caffael medrus, hyderus ar lefel ddigon uchel mewn awdurdodau cyhoeddus sy'n deall y cydbwysedd hwnnw ac sy'n defnyddio eu rhesymeg a'u disgresiwn wrth ddatblygu contractau a fydd yn sicrhau'r manteision sydd bwysicaf i'w cymuned leol.

Secondly, we will need the buy-in of senior management, policy makers and ourselves to make sure that we recognise the wider picture and that we do not always jump on data on one or other side inappropriately and that we recognise that, in pursuing one, we may take a hit in the other.

Yn ail, bydd angen ymrwymiad gan uwch reolwyr, llunwyr polisi a gennym ni ein hunain i wneud yn siŵr ein bod yn cydnabod y darlun ehangach ac nad ydym bob amser yn neidio ar ddata ar y naill ochr neu'r llall yn amhriodol a'n bod yn cydnabod y byddwn o bosibl, wrth fynd ar drywydd un, ar en colled yn y llall.

Thirdly, I think that we need a very detailed understanding of the local business environment in each local authority and in the area of each purchasing authority to make sure that those public authorities, when designing contracts, know who it is in their local area that might be able to bid for such a contract and what kind of bundling or additional requirements in terms of community benefit clauses may actually put it out of the reach of those local businesses.

Yn drydydd, credaf fod angen inni ddeall yr amgylchedd busnes lleol ym mhob awdurdod lleol ac yn ardal pob awdurdod prynu yn fanwl iawn er mwyn gwneud yn siŵr bod yr awdurdodau cyhoeddus hynny, wrth gynllunio contractau, yn gwybod pwy yn eu hardal leol a allai gwneud cais am gontract o'r fath a pha fath o ofynion bwndelu neu ofynion ychwanegol o ran cymalau budd i'r gymuned a allai mewn gwirionedd ei roi tu hwnt i gyrraedd y busnesau lleol hynny.

That is why I have tabled amendment 6 today. I would like to thank the Welsh Government for indicating its intention to support it. I believe that, in using local knowledge effectively, you have to use that local discretion, intelligence and logic and the professional class of people that we are investing in their training and development in Wales. For that reason, I am not convinced by the need, or indeed the desirability, of legislating in this area to bind local authorities and to tie them down to specific things, because, heaven knows, there is no dearth of red tape in the area of public procurement already. I think, to be honest, it is something that they are not short of. However, I would hope that the Welsh Government's procurement policy could act to enable purchasing authorities, not constrict them further, and to give them the opportunity to use their creativity to get the benefits that we want. As I say, if we legislate too much, we constrict, and we may actually chase people into the kind of risk-averse culture that will actually make it much more difficult for us to get the benefits that we truly want from the Welsh economy.

Dyna pam yr wyf wedi cyflwyno gwelliant 6 heddiw. Hoffwn ddiolch i Lywodraeth Cymru am nodi ei bwriad i'w gefnogi. Credaf fod yn rhaid inni, wrth ddefnyddio gwybodaeth leol yn effeithiol, ddefnyddio disgresiwn, gwybodaeth a rhesymeg leol a'r dosbarth proffesiynol o bobl yr ydym yn buddsoddi yn eu hyfforddiant a'u datblygiad yng Nghymru. Am y rheswm hwnnw, nid wyf wedi fy argyhoeddi bod angen, nac yn wir ei bod yn ddymunol, deddfu yn y maes hwn i rwymo awdurdodau lleol ac i'w clymu at bethau penodol, oherwydd, y nef a ŵyr, nid oes prinder biwrocratiaeth ym maes caffael cyhoeddus yn barod. Rwy'n sicr nad ydynt yn brin ohono, a dweud y gwir. Fodd bynnag, byddwn yn gobeithio y gallai polisi caffael Llywodraeth Cymru weithredu er mwyn galluogi awdurdodau prynu, nid eu cyfyngu ymhellach, ac er mwyn rhoi cyfle iddynt ddefnyddio eu creadigrwydd i sicrhau'r buddion yr ydym am eu cael. Fel y dywedais, os ydym yn deddfu gormod, rydym yn cyfyngu, ac fe allem mewn gwirionedd yrru pobl i gyfeiriad y math o ddiwylliant sy'n amharod i wynebu risg a fydd mewn gwirionedd yn ei gwneud yn llawer anoddach inni gael y buddion yr ydym wirioneddol eu heisiau o economi Cymru.

16:44

## Joyce Watson Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am very pleased to support this motion. Effective Government does not always need to be hands-on. Sometimes, Government is the driver; sometimes, it is the facilitator. Often, others deliver, but it is the Government that initiates and monitors. Two years ago, the Welsh Government welcomed John McClelland's report on maximising the benefit of procurement. Two years on, we are in a position to judge the Government's response to the report—the Wales procurement policy. It is good news: over 50% of the £4.3 billion of annual public spend now goes to SMEs, up from 35% in 2003.

Rwy'n falch iawn o gefnogi'r cynnig hwn. Nid oes angen bob amser i Lywodraeth effeithiol fod yn gwneud y gwwaith ei hun. Weithiau, sbarduno y mae'r Llywodraeth; weithiau, hwyluso. Yn aml, mae eraill yn cyflawni, ond y Llywodraeth sy'n cychwyn ac yn monitro. Ddwy flynedd yn ôl, croesawodd Llywodraeth Cymru adroddiad John McClelland ar sicrhau'r budd mwyaf o'r broses gaffael. Ddwy flynedd yn ddiweddarach, rydym mewn sefyllfa i farnu ymateb y Llywodraeth i'r adroddiad—polisi caffael Cymru. Mae'n newyddion da: mwy na 50% o'r £4.3 biliwn o wariant cyhoeddus blynyddol yn awr yn mynd i fusnesau bach a chanolig, o'i gymharu â 35% yn 2003.

The value of contracts advertised through Sell2Wales has exceeded £15 billion. Over 30,000 Welsh suppliers are registered and get opportunities, and there has been a 24% growth in advertisements of smaller value contracts on the site. Wales was the first UK country to award a public sector contract using European legislation to reserve workforce-supported businesses—that is, companies where 50% or more of the workforce has a disability. Ninety per cent of public sector organisations are benefiting from Value Wales procurement frameworks, and new Westminster legislation, which would have been a backward step for Wales, will now not apply here. The waste infrastructure procurement programme is the first of its kind in the UK, and the £750 million programme, which is delivered through partnerships between the public and private sectors, will reduce the amount of rubbish going to landfill and produce enough renewable energy to power up to 11% of Welsh homes.

Mae gwerth y contractau a hysbysebir trwy GwerthwchiGymru wedi bod yn fwy na £15 biliwn. Mae dros 30,000 o gyflenwyr o Gymru wedi eu cofrestru ac yn cael cyfleoedd, a gwelwyd twf o 24% mewn hysbysebion ar gyfer contractau llai o werth ar y safle. Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i ddyfarnu contract sector cyhoeddus gan ddefnyddio deddfwriaeth Ewropeaidd i gadw busnesau â gweithlu a gefnogir—hynny yw, cwmnïau y mae anabledd gan 50% neu fwy o'r gweithlu. Mae 90% o sefydliadau yn y sector cyhoeddus yn elwa o fframweithiau caffael Gwerth Cymru, ac nid yw deddfwriaeth newydd San Steffan, a fyddai wedi bod yn gam yn ôl i Gymru, bellach yn berthnasol yma. Y rhaglen gaffael ar gyfer seilwaith gwastraff yw'r cyntaf o'i math yn y DU, a bydd y rhaglen £750 miliwn a ddarperir drwy bartneriaethau rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat, yn arwain at anfon llai o sbwriel i safleoedd tirlenwi ac yn cynhyrchu digon o ynni adnewyddadwy i bweru hyd at 11% o gartrefi Cymru.

Much has been done, then, but there is more to do. As chair of the all-party group on construction, I have listened to calls for simplifying still further processes like the supplier qualification information database, or SQuID, to make them more accessible to smaller firms. I have also been made aware that initiatives aimed at reducing bureaucracy, like SQuID, do not apply across the board at all local authorities. More uniformity in this area would, I am sure, help smaller firms.

Mae llawer wedi'i wneud, felly, ond mae mwy i'w wneud. Fel cadeirydd y grŵp hollbleidiol ar adeiladu, rwyf wedi gwrando ar alwadau am symleiddio mwy fyth ar brosesau fel y gronfa ddata gwybodaeth am gymwysterau cyflenwyr, neu SQuID, i'w gwneud yn rhwyddach i gwmnïau llai ei defnyddio. Rwyf hefyd wedi cael gwybod nad yw mentrau sy'n ceisio lleihau biwrocratiaeth, fel SQuID, ar waith yn gyffredinol ym mhob awdurdod lleol. Byddai dull gweithio mwy unffurf yn y maes hwn, rwy'n sicr, yn helpu cwmnïau llai.

We have heard mention already of unbundling large contracts and of more collaborative bidding; I believe that that would also encourage smaller firms to bid for work. I look forward to discussing these and other issues at tomorrow's cross-party construction group meeting, which the Minister has kindly agreed to attend, and to which you are all invited as well.

Rydym wedi clywed sôn eisoes am ddadfwndelu contractau mawr ac am wneud mwy o geisiadau cydweithredol; credaf y byddai hynny hefyd yn annog cwmnïau llai i gynnig am waith. Edrychaf ymlaen at drafod y rhain a materion eraill yng nghyfarfod y grŵp adeiladu trawsbleidiol yfory. Mae'r Gweinidog yn garedig wedi cytuno i ddod, ac mae gwahoddiad i chi i gyd hefyd.

Finally, the ongoing dispute between construction company Carillion and subcontracted workers on the Heads on the Valleys £800 million road project sheds light on so-called 'umbrella companies'. I am sure that Members, certainly the Labour Members, will be familiar with that case, so I will not go into all the details, but UCATT, the Union of Construction, Allied Trades and Technicians, says that staff are being ripped off by accountancy firms that take administrative fees and costs and, in addition to that, their holiday pay can be rolled up into their wage packet, meaning that they do not get paid when they take holidays or when the industry shuts down during the Christmas holidays. UCATT is calling for a change in procurement rules so that umbrella companies are banned. I hope that the Government will continue to look at that issue.

Yn olaf, mae'r anghydfod parhaus rhwng cwmni adeiladu Carillion a gweithwyr wedi'u his-gontractio ar brosiect £800 miliwn ffordd Blaenau'r Cymoedd yn taflu goleuni ar yr hyn a elwir yn 'gwmnïau ymbarél'. Rwyf yn siŵr y bydd Aelodau, yn sicr yr Aelodau Llafur, yn gyfarwydd â'r achos hwnnw, felly nid wyf am drafod yr holl fanylion, ond mae UCATT, yr Undeb Adeiladu, Crefftau Perthynol a Thechnegwyr, yn dweud bod staff yn cael eu twyllo gan gwmnïau cyfrifwyr sy'n cymryd ffioedd gweinyddol a chostau ac, yn ychwanegol at hynny, gall eu tâl gwyliau gael ei gyfuno yn eu pecyn cyflog, sy'n golygu nad ydynt yn cael eu talu pan fyddant yn cymryd gwyliau neu pan fydd y diwydiant yn cau yn ystod gwyliau'r Nadolig. Mae UCATT yn galw am newid y rheolau caffael er mwyn gwahardd cwmnïau ymbarél. Gobeithiaf y bydd y Llywodraeth yn parhau i edrych ar y mater hwnnw.

16:48

## Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Others have already spoken extensively, Minister, but may I echo the concerns about the complication in relation to SQuID? That is something that, certainly, construction companies in north Wales have raised not only with me but with other Members—I know that they have done so with Mark Isherwood and Darren Millar. Again, may I echo the concerns about bundling?

Mae eraill eisoes wedi siarad yn helaeth, Weinidog, ond a gaf i ategu'r pryderon am y cymhlethdod o ran SQuID? Mae hynny'n rhywbeth, yn sicr, y mae cwmnïau adeiladu yng ngogledd Cymru wedi ei godi, nid yn unig gyda mi ond gydag Aelodau eraill—gwn eu bod wedi gwneud hynny gyda Mark Isherwood a Darren Millar. Unwaith eto, a gaf i adleisio'r pryderon ynghylch bwndelu?

Finally, I know that in the next Assembly term we will be debating the options that the Welsh Government has in terms of encouraging procurement in respect of companies that have female members of their boards. I know that you set a target of working towards encouraging at least 40% of appointments to public bodies to be women, and I would suggest that you might want to look at that goal when procurement decisions and policy are made by Welsh Government. I know, for example, that information is collected where funding is received on WEFO projects and that that information should be available to you; it is a condition of the grant that it discloses that kind of information. I know that that will be debated next term, but in terms of when you come to look at your review, Minister, I think that that is something that you should look at. I believe that only seven companies in the FTSE 100 no longer have women on their boards, which is welcome, but it has taken a jolly long time. I would like you to encourage, when you are using the spending power of the Welsh Government—. We know that it is £4.3 billion; I congratulate you on your success and for the number of Welsh companies that you are getting to bid for procurement contracts, because that is important. Local SMEs and the value of the pound going around in the local economy are hugely important. However, I now want to see whether you can perhaps achieve more with your pound and start to look at gender as well as local impact. Thank you.

Yn olaf gwn y byddwn, yn nhymor nesaf y Cynulliad, yn trafod yr opsiynau sydd gan Lywodraeth Cymru o ran annog caffael mewn perthynas â chwmnïau sydd â menywod yn aelodau o'u byrddau. Gwn eich bod yn gosod targed o weithio tuag at annog o leiaf 40% o benodiadau i gyrff cyhoeddus i fod yn fenywod, a byddwn yn awgrymu efallai y byddwch am edrych ar y nod hwnnw wrth i Lywodraeth Cymru wneud penderfyniadau a llunio polisi ym maes caffael. Rwy'n gwybod, er enghraifft, bod gwybodaeth yn cael ei chasglu pryd mae cyllid yn cael ei dderbyn ar brosiectau WEFO ac y dylai'r wybodaeth honno fod ar gael i chi; mae'n amod i'r grant bod y math hwnnw o wybodaeth yn cael ei ddatgelu. Gwn y bydd hynny'n cael ei drafod y tymor nesaf, ond pan fyddwch yn edrych ar eich adolygiad, Weinidog, credaf fod hwnnw'n rhywbeth y dylech edrych arno. Credaf mai dim ond saith o gwmnïau ym mynegai 100 cwmni'r FTSE sydd bellach heb fenywod ar eu byrddau. Mae hynny'n rhywbeth i'w groesawu, ond mae wedi cymryd amser hir iawn. Hoffwn i chi annog, pan fyddwch yn defnyddio grym gwario Llywodraeth Cymru—. Rydym yn gwybod ei fod yn £4.3 biliwn; rwy'n eich llongyfarch ar eich llwyddiant ac am nifer y cwmnïau o Gymru yr ydych yn eu cael i gynnig am gontractau caffael, gan fod hynny'n bwysig. Mae busnesau bach a chanolig lleol a gwerth y bunt sy'n cylchdroi o fewn yr economi leol yn hynod o bwysig. Fodd bynnag, rwyf yn awr am weld a allwch o bosibl gyflawni mwy gyda'ch punt a dechrau edrych ar ryw yn ogystal ag effaith leol. Diolch.

16:50

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the Minister to reply to the debate.

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb i'r ddadl.

16:50

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

I thank Members for an interesting and stimulating debate. I give you my assurance that I want to come back again, either through statements or debates next year. Discussion does indicate that the direction of procurement policies that I am driving forward remains on the right path. I look forward to building on progress, maximising those opportunities for the development of procurement policy in Wales in the coming year, continuing to ensure that policies are widely embedded, and that we develop those more innovative approaches and tools to drive forward procurement policies. Nick Ramsay, in his contribution, referred to taking those positive steps, which led me to support your amendment. In terms of providing those regular updates, and through the programme of fitness checks, which is under way, the reporting functionality of the new Sell2Wales data policy is much more readily available without me having to draw attention to it. Importantly, I will be updating you on the developments.

Diolch i'r Aelodau am ddadl ddiddorol ac ysgogol. Rwyf yn rhoi fy sicrwydd i chi fy mod eisiau dod yn ôl at hyn eto, naill ai drwy ddatganiadau neu ddadleuon y flwyddyn nesaf. Mae trafodaeth yn dangos bod cyfeiriad y polisïau caffael yr wyf yn bwrw ymlaen â hwy yn parhau i fod ar y llwybr cywir. Rwy'n edrych ymlaen at ddatblygu'r hyn sydd wedi'i gyflawni, manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd hynny ar gyfer datblygu polisi caffael yng Nghymru yn y flwyddyn sydd i ddod, parhau i sicrhau bod polisïau'n cael eu hymwreiddio'n eang, a sicrhau ein bod yn datblygu'r dulliau a'r offer mwy arloesol hynny i fwrw ymlaen â pholisïau caffael. Roedd Nick Ramsay, yn ei gyfraniad, yn cyfeirio at gymryd y camau cadarnhaol hynny, a wnaeth beri imi gefnogi eich gwelliant. O ran darparu'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd, a thrwy raglen o archwiliadau ffitrwydd, sydd ar y gweill, mae swyddogaeth cyflwyno adroddiadau polisi data newydd GwerthwchiGymru ar gael yn llawer rhwyddach heb i mi orfod tynnu sylw ati. Yn bwysig, byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y datblygiadau.

Rhun ap Iorwerth, I think that it is important that you do draw attention to the opportunities presented by the new EU directives. We look forward to those directives taking effect early next year. Many of the new provisions are in line with current Welsh Government policies, but those new rules will help to support our work to simplify procurement processes, making it easier, particularly for SMEs, to bid for public-sector work. We have to maximise the opportunities coming from the new rules to support Welsh procurement policy and increase its impact. Of course, other important areas do include new rules around simplifying the selection process. Members have mentioned SQuID—a proportionate approach in line with SQuID: the new rules that support open, accessible competition, which is key to helping business in Wales work with the Welsh public sector. Of course, they will support our work to simplify procurement processes, and also look at other important areas; for example, the percentage of workers disabled or disadvantaged to qualify for this provision has decreased from 50% to 30%, thus widening the scope. That is an important area of the EU directives. Also, electronic procurement is mandated and timescales reduced. That does help to promote the work of the e-procurement service, e-tendering tools and use of Sell2Wales.

Rhun ap Iorwerth, rwy'n meddwl ei bod yn bwysig i chi dynnu sylw at y cyfleoedd a gyflwynir gan gyfarwyddebau newydd yr UE. Rydym yn edrych ymlaen at weld y cyfarwyddebau hynny'n dod i rym yn gynnar y flwyddyn nesaf. Mae llawer o'r darpariaethau newydd yn cyd-fynd â pholisïau cyfredol Llywodraeth Cymru, ond bydd y rheolau newydd hynny yn helpu i gefnogi ein gwaith i symleiddio prosesau caffael, gan ei gwneud yn haws, i fusnesau bach a chanolig yn enwedig, gynnig am waith yn y sector cyhoeddus. Mae'n rhaid inni fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a ddaw yn sgil y rheolau newydd i gefnogi polisi caffael yng Nghymru a chynyddu ei effaith. Wrth gwrs, mae meysydd pwysig eraill yn cynnwys rheolau newydd ym maes symleiddio'r broses ddethol. Mae aelodau wedi crybwyll SquID—dull cymesur yn unol â SQuID: y rheolau newydd sy'n cefnogi cystadleuaeth agored, hygyrch, sy'n allweddol i helpu busnesau yng Nghymru i weithio gyda'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Wrth gwrs, byddant yn cefnogi ein gwaith i symleiddio prosesau caffael, a hefyd yn edrych ar feysydd pwysig eraill; er enghraifft, mae canran y gweithwyr anabl neu dan anfantais i gymhwyso ar gyfer y ddarpariaeth hon wedi gostwng o 50% i 30%, gan ehangu'r cwmpas felly. Mae hwnnw'n faes pwysig yng nghyfarwyddebau'r UE. Hefyd, mae caffael electronig yn orfodol ac mae amserlenni wedi'u lleihau. Mae hynny'n helpu i hyrwyddo gwaith y gwasanaeth e-gaffael, offer e-dendro a defnyddio GwerthwchiGymru.

I think that both Nick Ramsay and Eluned Parrott talked about the importance of capability and consistency. That was a strong message from John McClelland. The programme of procurement fitness checks increased that recognition and understanding of capability and maturity in Wales. The programme is progressing well, but several common themes have been identified from across fitness checks of all local authorities and the NHS. Those are messages and recommendations that are themes about increasing collaboration, adopting e-procurement, and needing to develop professional procurement staff. I think that we have helped to progress that with the home-grown talent project.

Credaf fod Nick Ramsay ac Eluned Parrott wedi siarad am bwysigrwydd gallu a chysondeb. Roedd honno'n neges gref gan John McClelland. Mae'r rhaglen o archwiliadau ffitrwydd caffael wedi cynyddu'r gydnabyddiaeth a'r ddealltwriaeth o allu ac aeddfedrwydd yng Nghymru. Mae'r rhaglen yn mynd rhagddi'n dda, ond nodwyd nifer o themâu cyffredin o archwiliadau ffitrwydd yr holl awdurdodau lleol a'r GIG. Mae'r rheini'n negeseuon ac argymhellion sy'n ymwneud â themâu cynyddu cydweithrediad, mabwysiadu trefniadau e-gaffael, a'r angen i ddatblygu staff caffael proffesiynol. Credaf ein bod wedi helpu i symud hynny yn ei flaen gyda'r prosiect defnyddio doniau Cymru.

Also, just looking at what those trainees have delivered, they have saved in excess of £7 million. Twenty-one trainees, of course, from the home-grown talent project have had that as their output in terms of social, economic and environmental benefits. Also, we have 35 people studying towards the Masters in procurement and supply status, and we are supporting a cohort of 24 to attain Masters in procurement. Again, we are driving that competence at management level.

Hefyd, dim ond wrth edrych ar yr hyn y mae'r hyfforddeion hynny wedi'i gyflawni, maent wedi arbed mwy na £7 miliwn. Mae un ar hugain o hyfforddeion, wrth gwrs, o'r prosiect defnyddio doniau Cymru wedi cael hynny fel eu hallbwn yn nhermau manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Hefyd, mae gennym 35 o bobl sy'n astudio tuag at y radd Meistr mewn statws caffael a chyflenwi, ac rydym yn cefnogi carfan o 24 i ennill gradd Meistr mewn caffael. Unwaith eto, rydym yn sbarduno'r cymhwysedd hwnnw ar lefel rheoli.

In terms of other benefits, I think that Eluned Parrott talked about community benefits. It is what happens next; it is the progression. We have a community of practice to support the sharing and learning of best practice. That is within the procurement community and with suppliers. Those events are being held in north and south Wales. It is now a condition of Welsh Government funding—community benefit—integral to the delivery of projects and plans.

O ran buddion eraill, credaf fod Eluned Parrott wedi siarad am fuddion cymunedol. Dyna sy'n digwydd nesaf; dyna yw'r dilyniant. Mae gennym gymuned ymarfer i gynorthwyo'r broses o rannu a dysgu arfer gorau. Bydd hynny'n digwydd o fewn y gymuned gaffael a gyda chyflenwyr. Mae'r digwyddiadau hynny'n cael eu cynnal yng ngogledd a de Cymru. Mae bellach yn amod er mwyn derbyn arian Llywodraeth Cymru—budd i'r gymuned—sy'n rhan annatod o gyflawni prosiectau a chynlluniau.

I would like to thank both Joyce Watson and Antoinette Sandbach for recognising and acknowledging the importance of the SQuID approach. I will say to Joyce Watson that I am looking forward to speaking tomorrow at the cross-party group on construction.

Hoffwn ddiolch i Joyce Watson ac Antoinette Sandbach am adnabod a chydnabod pwysigrwydd y dull SQuID. Byddaf yn dweud wrth Joyce Watson fy mod yn edrych ymlaen at siarad yfory yn y grŵp trawsbleidiol ar adeiladu.

The SQuID approach and its use in construction projects is helping to improve access to contracts from smaller local contractors. In the last two years, indigenous contractors have secured two thirds of all major contract awards, compared with just one third before the introduction of the SQuID. You will have heard, Joyce Watson, about the action that I am already taking forward in conjunction with Unite and UCATT in terms of advice on umbrella companies. I look forward to updating the Assembly on this shortly. Antoinette Sandbach, I am sure that we look forward to your debate, when we will hear more about the ways in which we can support women in terms of boards and contracts.

Mae'r dull SQuID a'i ddefnydd mewn prosiectau adeiladu yn helpu i'w gwneud yn haws i gontractwyr lleol, llai gynnig am gontractau. Yn y ddwy flynedd ddiwethaf, mae contractwyr brodorol wedi sicrhau dau o bob tri o'r holl ddyfarniadau contract mawr, o'i gymharu â dim ond traean cyn cyflwyno'r SQuID. Byddwch wedi clywed, Joyce Watson, am y camau yr wyf eisoes yn bwrw ymlaen â hwy ar y cyd ag Unite ac UCATT o ran cyngor ar gwmnïau ymbarél. Rwy'n edrych ymlaen at roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad am hyn yn fuan. Antoinette Sandbach, rwy'n sicr ein bod yn edrych ymlaen at eich dadl, pryd y byddwn yn clywed mwy am y ffyrdd y gallwn gynorthwyo menywod o ran byrddau a chontractau.

I just want to finally say that, as far as our national procurement service is concerned, it is focusing on lowering barriers, particularly for smaller firms, to help them compete for public sector contract opportunities. One example is that, for a framework for resource efficiency services, 71 suppliers obtained a place on the framework, of which 46.5% are based in Wales, and 27 other Welsh-based suppliers are members of successful consortia. So, I am glad that I have been able to report on progress today, showing what has been delivered, but I continue to be ambitious to break down barriers, drive up consistency across the public sector, and deliver for business communities and for our public services.

Rwyf eisiau dweud yn olaf, o safbwynt ein gwasanaeth caffael cenedlaethol, ei fod yn canolbwyntio ar ostwng rhwystrau, yn enwedig ar gyfer cwmnïau llai, i'w helpu i gystadlu am gontractau'r sector cyhoeddus. Un enghraifft yw'r fframwaith ar gyfer gwasanaethau effeithlonrwydd adnoddau. Mae 71 o gyflenwyr wedi cael lle ar y fframwaith, ac mae 46.5% o'r rhain wedi eu lleoli yng Nghymru, ac mae 27 o gyflenwyr eraill o Gymru yn aelodau o gonsortia llwyddiannus. Felly, rwy'n falch fy mod wedi gallu hysbysu heddiw ynglŷn â'r hyn sydd wedi'i gyflawni, ond rwy'n parhau i fod ag uchelgais i ddileu rhwystrau, gwella cysondeb ar draws y sector cyhoeddus, a chyflawni ar gyfer cymunedau busnes ac ar gyfer ein gwasanaethau cyhoeddus.

16:56

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? No. Amendment 1 is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Na. Mae gwelliant 1 felly yn cael ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 1 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:57

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree amendment 2. Does any Member object? There is objection, therefore I defer further voting under this item until voting time.

Y cynnig yw derbyn gwelliant 2. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad, felly gohiriaf unrhyw bleidleisio pellach o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

# Adroddiad Blynyddol 2014 ar y Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau

# Substance Misuse Strategy Annual Report 2014

*The following amendments have been selected: amendment 1 in the name of Elin Jones, amendments 2 and 3 in the name of Paul Davies, and amendment 4 in the name of Aled Roberts.*

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw Elin Jones, gwelliannau 2 a 3 yn enw Paul Davies, a gwelliant 4 yn enw Aled Roberts.*

16:57 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the Deputy Minister for Health to move the motion, Vaughan Gething.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Iechyd i gynnig y cynnig, Vaughan Gething.

Cynnig NDM5641 Jane Hutt

Motion NDM5641 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran gweithredu'r strategaeth camddefnyddio sylweddau 'Gweithio gyda'n Gilydd i Leihau Niwed' fel y manylir arno yn adroddiad blynyddol 2014.

Notes the progress that has been made in delivering the substance misuse strategy 'Working Together to reduce Harm' as detailed in the 2014 annual report.

16:57 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

*Y Dirprwy Weinidog Iechyd / The Deputy Minister for Health*

Senedd.tv Fideo Video

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

I am pleased to open today's debate and move the motion before the Assembly on the progress that has been made in delivering the Welsh Government's 10-year substance misuse strategy. I will make clear, in opening, that the Government will support amendments 1, 2 and 4; however, we will not support amendment 3.

Rwyf yn falch o agor y ddadl heddiw a chynnig y cynnig gerbron y Cynulliad ar y cynnydd a wnaed o ran cyflawni strategaeth 10 mlynedd Llywodraeth Cymru ar gyfer camddefnyddio sylweddau. Rwyf am ei gwneud, i ddechrau, y bydd y Llywodraeth yn cefnogi gwelliannau 1, 2 a 4; fodd bynnag, ni fyddwn yn cefnogi gwelliant 3.

The 2014 annual report sets out the progress on the substance misuse strategy and the supporting delivery plan for 2013-15. At the start, I want to acknowledge the strong partnership working with our partners in the third sector, health, local government and criminal justice agencies. That is an essential component of the good progress that we have made. The Welsh Government has continued to invest over £32 million to deliver the commitments within the strategy and delivery plan. In the time available this afternoon, I can only focus on some of the key developments in the last 12 months.

Mae adroddiad blynyddol 2014 yn nodi'r cynnydd ar y strategaeth camddefnyddio sylweddau a'r cynllun cyflawni ategol ar gyfer 2013-15. I ddechrau, hoffwn gydnabod y cydweithio cryf â'n partneriaid yn y trydydd sector, iechyd, llywodraeth leol ac asiantaethau cyfiawnder troseddol. Mae hynny'n elfen hanfodol o'r cynnydd da yr ydym wedi'i wneud. Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i fuddsoddi dros £32 miliwn i gyflawni'r ymrwymiadau sydd yn y cynllun strategaeth a chyflawni. Yn yr amser sydd ar gael y prynhawn yma, ni allaf ond canolbwyntio ar rai o'r datblygiadau allweddol yn ystod y 12 mis diwethaf.

The annual report shows that we are continuing to strengthen our practical and policy response in what is a challenging and fast-moving agenda. Continued Welsh Government investment in this area is having a demonstrable impact. In 2013-14, our support enabled 87% of all clients to access substance misuse treatment within 20 days of their referral. That continues an improving trend over the last five years and it is an increase on the 75% achievement in 2008-09.

Dengys yr adroddiad blynyddol ein bod yn parhau i gryfhau ein hymateb ymarferol a'n hymateb polisi i agenda sy'n heriol ac sy'n symud yn gyflym. Mae buddsoddiad parhaus Llywodraeth Cymru yn y maes hwn yn cael effaith amlwg. Yn 2013-14, galluogodd ein cefnogaeth i 87% o'r holl gleientiaid gael triniaeth camddefnyddio sylweddau o fewn 20 diwrnod ar ôl eu hatgyfeirio. Mae hynny'n parhau â thuedd o wella dros y bum mlynedd diwethaf ac mae'n gynnydd ar y cyflawniad 75% yn 2008-09.

The Welsh Government's approach to substance misuse is built around harm reduction. Our aim is to ensure that people in Wales are aware of the dangers and the impact of substance misuse to help make informed choices and to know where they can seek help and support. We are clear that we must consider all policy levers for improving and protecting health, and we will do so by maintaining the prudent healthcare approach that we have already set out. It must be justifiable, appropriate and proportionate. We must continue to intervene at the points where there is maximum return and impact, in order to avoid longer-term health, societal and economic costs.

Mae ymagwedd Llywodraeth Cymru at gamddefnyddio sylweddau'n seiliedig ar leihau niwed. Ein nod yw sicrhau bod pobl yng Nghymru'n ymwybodol o beryglon ac effaith camddefnyddio sylweddau er mwyn eu helpu i wneud dewisiadau gwybodus a gwybod i ble y gallant fynd i ofyn am gymorth a chefnogaeth. Rydym yn glir bod yn rhaid inni ystyried yr holl ysgogiadau polisi ar gyfer gwella a diogelu iechyd, a byddwn yn gwneud hynny drwy gynnal y dull gofal iechyd doeth yr ydym eisoes wedi'i nodi. Mae'n rhaid iddo fod yn gyfiawnadwy, yn briodol ac yn gymesur. Mae'n rhaid inni barhau i ymyrryd yn y mannau lle ceir y buddion a'r effaith fwyaf posibl, er mwyn osgoi costau iechyd, cymdeithasol ac economaidd mwy hirdymor.

Our programme for government sets out that tackling substance misuse and responding to its effects is a priority for Wales. A good example of this is the need to change our collective attitude to alcohol. The annual report shows that alcohol misuse remains a major health issue, in terms of individual harm, community harm and the associated impacts on the NHS and our treatment services. The latest Office for National Statistics data show that, in 2012, there were more than 500 alcohol-related deaths in Wales. Generally, consumption of alcohol across the population has decreased. However, we recognise that there is persistent and increased drinking among certain groups. For example, older people, especially older women, are drinking more, and a recent Public Health Wales report showed that the proportion of young people drinking weekly was higher in Wales than in England, Scotland or the Republic of Ireland. We also know that alcohol-related mortality rates are three times higher in our most deprived communities compared to our least deprived areas.

Mae ein rhaglen lywodraethu’n nodi bod ymdrin â chamddefnyddio sylweddau ac ymateb i'w effeithiau’n flaenoriaeth i Gymru. Un enghraifft dda o hyn yw'r angen i newid ein hagwedd ar y cyd tuag at alcohol. Dengys yr adroddiad blynyddol bod camddefnyddio alcohol yn parhau i fod yn fater iechyd pwysig, o ran niwed unigol, niwed cymunedol a'r effeithiau cysylltiedig ar y GIG a’n gwasanaethau triniaeth. Mae data diweddaraf y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos y bu mwy na 500 o farwolaethau cysylltiedig ag alcohol yng Nghymru yn 2012. Yn gyffredinol, mae yfed alcohol ar draws y boblogaeth wedi gostwng. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod rhai grwpiau’n yfed yn barhaus ac yn gynyddol. Er enghraifft, mae pobl hŷn, yn enwedig menywod hŷn, yn yfed mwy, a dangosodd adroddiad diweddar gan Iechyd Cyhoeddus Cymru fod cyfran y bobl ifanc sy’n yfed yn wythnosol yn uwch yng Nghymru nag yn Lloegr, yr Alban na Gweriniaeth Iwerddon. Rydym hefyd yn gwybod bod cyfraddau marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol dair gwaith yn uwch yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig o'u cymharu â'n hardaloedd lleiaf difreintiedig.

There is significant evidence that the price of alcohol matters. If you recall, only last month, we heard the chief executive of Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board highlighting the impact on Morriston Hospital’s A&E department as a result of cut-price alcohol promotions, with drinks costing as little as 10p each over the Halloween celebrations or festivities, depending on your point of view. We know that harmful and heavy drinking not only impacts on the health service, but also on the safety of towns, cities and communities across Wales. Earlier this year, we consulted on a proposal to introduce a minimum unit price for alcohol of 50p per unit, as part of the public health White Paper proposals. Regarding the 140 consultation responses received, they showed broad support for introducing minimum unit pricing in Wales. In July, the independent advisory panel on substance misuse published an important report that recommended the introduction of minimum unit pricing as a measure that will effectively target the heaviest and most harmful drinkers. This report adds to the growing evidence base for this policy and will inform future legislation in this area.

Ceir tystiolaeth sylweddol bod pris alcohol yn bwysig. Os cofiwch, dim ond y mis diwethaf, clywsom brif weithredwr Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn tynnu sylw at yr effaith ar adran damweiniau ac achosion brys Ysbyty Treforys o ganlyniad i hyrwyddiadau alcohol rhad, lle’r oedd diodydd yn costio cyn lleied â 10c yr un dros ddathliadau neu rialtwch Calan Gaeaf, yn dibynnu ar eich safbwynt. Rydym yn gwybod bod yfed niweidiol a thrwm, nid yn unig yn effeithio ar y gwasanaeth iechyd, ond hefyd yn effeithio ar ddiogelwch trefi, dinasoedd a chymunedau ledled Cymru. Yn gynharach eleni, buom yn ymgynghori ar gynnig i gyflwyno isafswm pris uned ar gyfer alcohol o 50c yr uned, yn rhan o gynigion y Papur Gwyn iechyd cyhoeddus. O ran y 140 o ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd, roeddent yn gyffredinol o blaid cyflwyno isafswm pris uned yng Nghymru. Ym mis Gorffennaf, cyhoeddodd y panel cynghori annibynnol ar gamddefnyddio sylweddau adroddiad pwysig a oedd yn argymell cyflwyno isafswm pris uned fel mesur a fydd yn targedu'r yfwyr trymaf a mwyaf niweidiol yn effeithiol. Mae'r adroddiad hwn yn ychwanegu at y sail dystiolaeth gynyddol o blaid y polisi hwn, a bydd yn rhoi sail i ddeddfwriaeth yn y dyfodol yn y maes hwn.

Alongside alcohol, we recognise the need to reduce deaths from drug-related poisoning and drug misuse. We have, in fact, seen a general reduction in drug-related deaths and drug poisoning in recent years. We know that the majority of these deaths are preventable. In June this year, we published new guidance for agencies undertaking systematic reviews of fatal and non-fatal drug poisonings, aimed at further reducing drug-related deaths.

Ochr yn ochr ag alcohol, rydym yn cydnabod bod angen lleihau marwolaethau o wenwyno sy'n gysylltiedig â chyffuriau a chamddefnyddio cyffuriau. Rydym, mewn gwirionedd, wedi gweld gostyngiad cyffredinol yn nifer y marwolaethau cysylltiedig â chyffuriau a gwenwyno cyffuriau yn y blynyddoedd diwethaf. Rydym yn gwybod bod modd atal y rhan fwyaf o'r marwolaethau hyn. Ym mis Mehefin eleni, cyhoeddwyd canllawiau newydd gennym i asiantaethau sy'n cynnal adolygiadau systematig o achosion angheuol ac anangheuol o wenwyno cyffuriau, gyda'r nod o leihau nifer y marwolaethau cysylltiedig â chyffuriau ymhellach.

Sustaining recovery is at the forefront of our objectives. I saw this myself when I visited Wrexham last week to formally open Champions' House. Champions' House has received over £350,000 in Welsh Government funding from the substance misuse action fund. The building houses a multi-agency recovery hub for service users, and will primarily be managed by service users themselves. During my visit, I had the opportunity to meet a number of people who are on the road to recovery and who told me their own stories of how the right support has helped them to be able to transform their lives and those of the people around them.

Cynnal adferiad yw ein prif amcan. Gwelais hyn fy hun pan ymwelais â Wrecsam yr wythnos diwethaf i agor Tŷ'r Hyrwyddwyr yn ffurfiol. Mae Tŷ'r Hyrwyddwyr wedi cael dros £350,000 o gyllid gan Lywodraeth Cymru o'r gronfa gweithredu ar gamddefnyddio sylweddau. Mae'r adeilad yn gartref i ganolfan adferiad amlasiantaeth ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth, a bydd cael ei reoli'n bennaf gan y defnyddwyr gwasanaeth eu hunain. Yn ystod fy ymweliad, cefais gyfle i gwrdd â nifer o bobl sydd ar y ffordd i adferiad ac a ddywedodd wrthyf eu straeon eu hunain am sut y mae'r cymorth cywir wedi eu helpu i allu gweddnewid eu bywydau a bywydau'r bobl o'u cwmpas.

We have also developed a refreshed service user involvement framework to guarantee input from service users. Our main unit of delivery are area planning boards, made up of key partners including the police, local authorities, health boards and the third sector, to plan, commission and performance manage substance misuse services. Our new framework requires that each area planning board ensures the meaningful involvement of service users in planning and delivering its work. This year has seen the conclusion of the successful European social fund peer mentoring project. At the end, it had supported over 11,000 participants to access training or employment. There has been a positive and independent evaluation published in February this year, which outlined how the scheme has helped to turn people's lives around.

Rydym hefyd wedi datblygu fframwaith newydd i gynnwys defnyddwyr gwasanaeth i warantu mewnbwn gan ddefnyddwyr gwasanaeth. Ein prif uned gyflenwi yw byrddau cynllunio ardal, sy'n cynnwys partneriaid allweddol gan gynnwys yr heddlu, awdurdodau lleol, byrddau iechyd a'r trydydd sector, i gynllunio gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, eu comisiynu a rheoli eu perfformiad. Mae ein fframwaith newydd yn ei gwneud yn ofynnol bod pob bwrdd cynllunio ardal yn sicrhau cyfranogiad ystyrlon y defnyddwyr gwasanaeth wrth gynllunio a chyflawni ei waith. Eleni gwelwyd casgliad prosiect mentora cymheiriaid llwyddiannus cronfa gymdeithasol Ewrop. Erbyn y diwedd, roedd wedi cefnogi dros 11,000 o gyfranogwyr i gael hyfforddiant neu gyflogaeth. Cyhoeddwyd gwerthusiad cadarnhaol ac annibynnol ym mis Chwefror eleni, a oedd yn amlinellu sut y mae'r cynllun wedi helpu i weddnewid bywydau pobl.

In closing, I would like to reiterate that there is much excellent work going on across Wales. I hope that Members from all parties will acknowledge the progress that is being made and will applaud those who support and provide services for some of the most vulnerable members of our communities across Wales.

I gloi, hoffwn ailadrodd bod llawer o waith rhagorol yn digwydd ar ledled Cymru. Rwyf yn gobeithio y bydd Aelodau o bob plaid yn cydnabod y cynnydd sy'n cael ei wneud a hoffwn ganmol y bobl hynny sy'n cefnogi ac yn darparu gwasanaethau i rai o aelodau mwyaf agored i niwed ein cymunedau ledled Cymru.

17:04

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have selected the four amendments to the motion. I call on Elin Jones to move amendment 1, tabled in her name.

Rwyf wedi dethol y pedwar gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar Elin Jones i gynnig gwelliant 1, a gyflwynwyd yn ei henw.

*Gwelliant 1—Elin Jones*

*Amendment 1—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod cyflogwyr yn y gwasanaethau cyhoeddus yn cefnogi gweithwyr sydd â phroblemau mewn perthynas â chamddefnyddio sylweddau drwy ymyrraeth gynnar a chefnogaeth i gynnal cyflogaeth.*

*Calls on the Welsh Government to ensure that public service employers support employees with substance misuse problems through early intervention and support to maintain employment.*

17:04

## Elin Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cynigiaf welliant 1.

I move amendment 1.

Bydd Plaid Cymru y prynhawn yma yn cefnogi'r gwelliannau i gyd a'r cynnig sydd o'n blaenau. Mae'r camddefnydd o alcohol a chyffuriau yn creu problemau sylweddol iawn i unigolion ac i deuluoedd, yn sarnu bywydau ac yn rhwygo teuluoedd. Mae'r effaith ar y gymdeithas ehangach hefyd yn sylweddol iawn, yn enwedig ar ein gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, ar gyflogwyr ac ar y gyfundrefn cyfraith a threfn. Mae pwyslais polisi cyhoeddus, fel y mae wedi cael ei amlinellu gan y Dirprwy Weinidog y prynhawn yma, yn mynd i'r cyfeiriad cywir drwy roi pwyslais ar atal niwed yn y lle cyntaf, a hefyd drwy greu gwasanaethau triniaeth yn y gymuned i alluogi'r cymorth priodol i unigolion wrth iddyn nhw fynd i'r afael â'u camddefnydd nhw o sylweddau. Wrth gwrs, i rai unigolion, fe fyddant angen cymorth mwy dwys na'r cymorth sydd ar gael yn y gymuned yn lleol—sef cymorth ar lefel 'tier' 4, gwasanaethau preswyl yn aml iawn. Yn hynny o beth, roedd rôl bwysig i ganolfan Rhoserchan yng Ngheredigion, ac mae'n siom o hyd i mi nad oes dyfodol wedi cael ei atgyfodi i'r ganolfan honno yn dilyn ei chau hi'r llynedd.

Plaid Cymru this afternoon will be supporting all the amendments and the motion that is before us. The misuse of alcohol and drugs does create significant problems for individuals and families, ruining lives and tearing families apart. The effect on wider society is also significant, especially on our health services and social services, on employers and on law and order. The emphasis of public policy, as has been outlined by the Deputy Minister this afternoon, is going in the right direction in putting an emphasis on preventing harm in the first instance, and also by creating treatment services in the community to allow appropriate support for individuals as they get to grips with their misuse of substances. Of course, some individuals will need more intensive support than that which is available locally in the community—support on a tier 4 level, which often comprises residential services. In that regard, there was an important role for the Rhoserchan centre in Ceredigion, and it is disappointing still for me that no future has been resurrected for that centre following its closure last year.

Rwyf eisiau siarad y prynhawn yma yn benodol iawn am alcohol. Mae'r Dirprwy Weinidog eisoes wedi dweud am fwriad y Llywodraeth i gyflwyno deddfwriaeth i greu isafswm pris alcohol, ac mae Plaid Cymru'n cefnogi'r nod hwnnw fel dull o atal niwed sy'n deillio o alcohol rhad yn benodol. Ond, rhaid inni beidio â meddwl bod problem alcohol yn perthyn i un garfan o bobl yn unig, sef carfan o bobl sydd, o bosibl, yn ifanc, ar incwm isel ac yn camddefnyddio seidr rhad neu 'spirits' rhad. Mae arolwg iechyd Cymru 2013 yn ddadlennol iawn o ran y proffil o oryfed yn ein cymdeithas ni. Mae 48% o gefndir gwaith rheolwyr neu broffesiynol yn goryfed—mae hynny lan 1%. Cymharwch hynny â'r 25% yn unig o'r di-waith hirdymor a oedd yn goryfed, ac mae'r ganran honno i lawr 4%. O ran ardaloedd daearyddol, roedd 49% o bobl yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig yn goryfed, a dim ond 36% yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig sy'n goryfed. Yn wahanol, felly, i feysydd iechyd cyhoeddus eraill, o ran goryfed alcohol, mae dwyster y broblem ymysg pobl ar incwm uchel sy'n byw yn ein cymunedau mwyaf breintiedig. Yn ychwanegol at hynny, mae ystadegau o'r arolwg hefyd yn dangos bod y niferoedd sy'n goryfed yn cynyddu gydag oedran, gyda chanran lawer is o bobl yn goryfed yn y proffil oedran 16 i 24 nag sydd yn yr oedrannau 45 i 64. Felly, er ein bod yn aml yn gweld lluniau dramatig o ferched a dynion ifanc yn baglu yn eu meddwdod ar strydoedd ar nos Sadwrn yn Abertawe neu Aberystwyth ar ein teledu ni, mae'r ystadegau'n dangos bod goryfed yn fwy dwys ymysg y bobl hynny—yn enwedig dynion, ond menywod hefyd—sy'n ganol oed ac ar incwm uchel ac, o bosibl iawn, yn yfed eu 'Argentinian malbec', sef gwin coch sy'n 14% erbyn hyn, ac yn gwneud hynny y tu ôl i ddrysau caeedig heb iddynt gael eu gweld ar sgriniau ein teledu ni. Felly, bach iawn o effaith, os o gwbl, a gaiff deddfwriaeth isafswm pris alcohol ar y rhai yn y maes hwn, ac mae eisiau edrych ar raglenni penodol iawn i annog gwell dealltwriaeth yn y gymdeithas o oryfed sydd, wrth gwrs, gydag amser, yn arwain, i rai pobl, at gamddefnydd a phroblemau iechyd yn y garfan hon o bobl.

I want to speak this afternoon specifically about alcohol. The Deputy Minister has already said that the Government intends to bring forward legislation on a minimum unit price for alcohol, and Plaid Cymru is supportive of that aim as a method of preventing the harm stemming from cheap alcohol specifically. But, we must not think that the problem of alcohol is one for one cohort of people only, a cohort of people who are perhaps young, on low incomes and who misuse cheap cider or cheap spirits. The Wales health survey for 2013 is very revealing in terms of the profile of those who over-consume in our community. Forty eight per cent from a managerial or professional background consume too much alcohol—that is up 1%. Compare that with 25% of the long-term unemployed who over-consume, and that is down by 4%. In terms of geographical areas, 49% of people in the least deprived areas, but only 36% in the most deprived areas consumed too much alcohol. It is very different, therefore, to other public health areas, in terms of the overconsumption of alcohol; the intensity of the problem is among those on the highest incomes who live in our most privileged communities. In addition to that, the statistics from the survey also show that overconsumption increases with age, and that there is a much lower percentage of people over-consuming in the 16 to 24 age group than in the 45 to 64 age group. So, even though we often see dramatic pictures of young men and women falling over in a drunken state in the street, on a Saturday night in Swansea or Aberystwyth, on our televisions, the statistics show that the overconsumption of alcohol is most intense among those people—men specifically, but women too—who are middle aged, on high incomes and who are, perhaps, drinking their Argentinian malbec, which is a red wine at 14% now, behind closed doors without being seen on our television screens. So, the legislation on a minimum unit price will have very little effect on those in that group, and we need to look at very specific programmes to encourage a better understanding in society of overconsumption of alcohol that will, of course, in time, lead some people in that cohort to misuse and health problems.

Cwrddais yr wythnos diwethaf â'r bwrdd cynllunio camddefnyddio sylweddau yng Ngheredigion, a'i neges i fi—yn debyg iawn i'r hyn ddywedodd y Dirprwy Weinidog—oedd bod y sector hwnnw o bobl hŷn sydd nawr yn camddefnyddio alcohol yn ddefnyddwyr dwys iawn o'r gwasanaethau sydd ar gael, ac mae'n bwysig iawn ein bod ni'n rhoi blaenoriaeth polisi—

I met last week with the substance misuse planning board in Ceredigion, and its message to me—very similar to what the Deputy Minister said—was that that sector of older people who now misuse alcohol are very intensive users of the services that are available, and it is very important that we give priority in terms of policy—

17:09

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Gorffennwch, os gwelwch yn dda.

Finish now, please.

17:09

## Elin Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

[Yn parhau.]—i'r garfan hon.

[Continues.]—to that cohort.

17:09

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call on Mark Isherwood to move amendments 2 and 3, tabled in the name of Paul Davies.

Galwaf ar Mark Isherwood i gynnig gwelliannau 2 a 3, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

*Gwelliant 2—Paul Davies*

*Amendment 2—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn llongyfarch arloeswyr therapi dibyniaeth a dulliau sy'n seiliedig ar adfer yng Nghymru.*

*Congratulates the pioneers of addiction therapy and recovery-based approaches in Wales.*

*Gwelliant 3—Paul Davies*

*Amendment 3—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn gresynu at oedi Llywodraeth Cymru wrth gyflwyno gwasanaethau haen 4 ar gyfer adsefydlu preswyl a gwasanaethau dadwenwyno cleifion mewn ysbytai ar sail gynaliadwy a thymor hir yng Nghymru.*

*Regrets Welsh Government delays in delivering Tier 4 Residential Rehabilitation and Inpatient Detoxification Services on a long term sustainable basis in Wales.*

17:09

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I move amendments 2 and 3.

Cynigiaf welliannau 2 a 3.

During my decade as Welsh Conservative spokesperson on substance misuse, I have battled to overcome ministerial perceptions that prioritised interventions to address the harms of substance misuse, without necessarily reducing consumption, over abstinence and recovery programmes. At its worst, this involved independent reports commissioned by the Welsh Government having to be leaked to me after being buried by the then Minister.

Yn ystod fy negawd fel llefarydd Ceidwadwyr Cymru ar gamddefnyddio sylweddau, rwyf wedi brwydro i oresgyn canfyddiadau gweinidogol a oedd yn blaenoriaethu ymyraethau i ymdrin â niwed camddefnyddio sylweddau, heb o reidrwydd leihau'r defnydd, dros raglenni ymwrthod ac adfer. Ar ei waethaf, roedd adroddiadau annibynnol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru'n gorfod cael eu datgelu'n gyfrinachol imi ar ôl i'r Gweinidog ar y pryd eu claddu.

We must congratulate the pioneers of addiction therapy and recovery-based approaches in Wales. In questioning the First Minister three years ago, I quoted a north Wales GP running a substance misuse clinic who told that me that if medication is taken as prescribed, the benefits of harm reduction can be huge if it stops someone from dying or committing a crime. However, he added that we need a model with tight rules whereby medical maintenance is provided on the basis that there is abstinence. I then asked the First Minister to respond to the call by the Welsh Council on Alcohol and Other Drugs to move from a medical model to a recovery model, where instead of the state enabling substance misusers in their sickness, the goal is to provide them with ongoing psychosocial support and peer-based recovery with abstinence. The First Minister replied that this was a matter that the Minister for Health and Social Services would keep under active consideration. I therefore welcome recognition in the Welsh Government's 2014 substance misuse annual report of the need to aid and maintain recovery, supporting misusers to reduce the harm they are causing to themselves, their families and communities and ultimately enabling them to return to a life free from dependence or harmful use of drugs and alcohol.

Rhaid inni longyfarch arloeswyr therapi dibyniaeth a dulliau seiliedig ar adferiad yng Nghymru. Wrth holi Prif Weinidog Cymru dair blynedd yn ôl, dyfynnais feddyg teulu o'r gogledd a oedd yn cynnal clinig camddefnyddio sylweddau a ddywedodd wrthyf, os caiff meddyginiaeth ei chymryd fel y'i rhagnodir, y gall manteision lleihau niwed fod yn enfawr os yw'n atal rhywun rhag marw neu gyflawni trosedd. Fodd bynnag, ychwanegodd fod arnom angen model â rheolau tynn lle y darperir gwaith cynnal a chadw meddygol ar y sail bod ymatal yn digwydd. Yna gofynnais i'r Prif Weinidog ymateb i'r alwad gan Gyngor Cymru ar Alcohol a Chyffuriau Eraill i symud o fodel meddygol i fodel adferiad, lle, yn hytrach na bod y wlad yn galluogi camddefnyddwyr sylweddau yn eu salwch, mai'r nod yw rhoi cefnogaeth seicogymdeithasol barhaus iddynt ac adferiad yn seiliedig ar gymheiriaid gydag ymatal. Atebodd y Prif Weinidog fod hwn yn fater y byddai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn parhau i'w ystyried yn weithredol. Felly, rwyf yn croesawu'r gydnabyddiaeth yn adroddiad blynyddol 2014 Llywodraeth Cymru ar gamddefnyddio sylweddau o'r angen i gynorthwyo a chynnal adferiad, gan gefnogi camddefnyddwyr i leihau'r niwed y maent yn ei achosi iddynt eu hunain, eu teuluoedd a'u cymunedau ac, yn y pen draw, eu galluogi i ddychwelyd i fywyd heb ddibyniaeth ar gyffuriau ac alcohol na'u defnyddio'n niweidiol.

By detailing its work to ensure that recovery-based approaches are integrated into core substance misuse treatment services, the Welsh Government has come a long way and can continue to progress provided it listens to drug and alcohol charities in Wales, and, as we have heard, involves service users.

Drwy roi manylion ei gwaith i sicrhau bod dulliau sy'n seiliedig ar adferiad yn cael eu hintegreiddio i mewn i wasanaethau triniaeth camddefnyddio sylweddau craidd, mae Llywodraeth Cymru wedi dod yn bell a gall barhau i symud ymlaen cyn belled â'i bod yn gwrando ar elusennau cyffuriau ac alcohol yng Nghymru, ac, fel y clywsom, yn cynnwys defnyddwyr gwasanaeth.

In May, I co-sponsored the launch of the merger of two great organisations, north Wales-based CAIS, which provides drug and alcohol rehabilitation, and community-based recovery centre, Living Room Cardiff, to create one of Wales's largest addiction therapy providers. Over the years, I have worked with both and recognised that they were coming from the same place. I am pleased to have been able to play a small part in bringing them together. As Clive Wolfendale, CAIS chief executive, said:

Ym mis Mai, cyd-noddais lansiad uno dau sefydliad pwysig, CAIS a leolir yn y gogledd, sy'n darparu adsefydlu cyffuriau ac alcohol, a chanolfan adferiad yn y gymuned, Living Room Cardiff, i greu un o ddarparwyr therapi dibyniaeth mwyaf Cymru. Dros y blynyddoedd, rwyf wedi gweithio gyda'r naill a'r llall ac roeddwn yn cydnabod eu bod yn dod o'r un lle. Rwyf yn falch o fod wedi gallu chwarae rhan fach wrth ddod â hwy at ei gilydd. Fel y dywedodd Clive Wolfendale, prif weithredwr CAIS:

'We share a very similar vision and ethos…I believe together we can bring real energy and creativity to the cause of rehabilitation in Wales.'

Rydym yn rhannu gweledigaeth ac ethos tebyg iawn ... Rwyf yn credu y gallwn, gyda'n gilydd, ddod ag egni a chreadigrwydd gwirioneddol i achos adsefydlu yng Nghymru.

Wynford Ellis Owen, chief executive of Living Room Cardiff, added that the merger:

Ychwanegodd Wynford Ellis Owen, prif weithredwr Living Room Cardiff, fod yr uno:

'provides us with a solid platform to move forward and deliver our groundbreaking approach to recovery treatment…to tackle the growing problem of addiction on an all-Wales basis for the first time.'

'yn rhoi llwyfan cadarn inni i symud ymlaen a chyflawni ein hymagwedd arloesol at driniaeth adfer ... i ymdrin â phroblem gynyddol caethiwed ledled Cymru am y tro cyntaf.'

As I heard when I attended a north Wales conference promoting a joint CAIS and Mind service for people with mental health and substance misuse problems, putting psychological intervention right at the heart of substance misuse treatment is essential, focused on the recovery model involving partnership between the people in recovery, professionals and peers, where 58% of life-caused dependant users of substances will achieve lasting recovery.

Fel y clywais pan oeddwn yn bresennol mewn cynhadledd yn y gogledd i hyrwyddo gwasanaeth CAIS a Mind ar y cyd i bobl â phroblemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau, mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau bod ymyrraeth seicolegol wrth wraidd triniaeth camddefnyddio sylweddau, gan ganolbwyntio ar y model adferiad sy'n cynnwys partneriaeth rhwng y bobl mewn adferiad, gweithwyr proffesiynol a chymheiriaid, lle bydd 58% o ddefnyddwyr sylweddau dibynnol a achosir gan fywyd yn cyflawni adferiad parhaol.

While the number of referrals in Wales for drug and alcohol misuse has fallen during this Assembly from 24,193 to 23,214, 496 deaths were linked to drugs and drink in Wales in 2010, a 31% increase over a decade compared with 15% in England. The most recent statistics report 343 drug misuse and poisoning deaths and 504 alcohol-related deaths. We must regret Welsh Government delays in delivering tier 4 residential rehabilitation and in-patient detoxification services. The Welsh Government's 2014 report refers to the development of a residential rehabilitation framework for Wales, but it is eight years since a report commissioned by the Welsh Government on tier 4 treatment services in Wales identified numerous reports of people reoffending so as to be detoxed in prison, and of hospital admissions because of the unavailability of in-patient detoxification and residential rehabilitation in Wales. The report also found that no tier 4 facilities in Wales provided residential detox and rehabilitation on the same site.

Er bod nifer yr atgyfeiriadau yng Nghymru ar gyfer camddefnyddio cyffuriau ac alcohol wedi gostwng yn ystod y Cynulliad hwn o 24,193 i 23,214, bu 496 o farwolaethau cysylltiedig â chyffuriau a diod yng Nghymru yn 2010, cynnydd o 31% dros ddegawd o'i gymharu â 15% yn Lloegr. Mae'r ystadegau diweddaraf yn nodi 343 o farwolaethau oherwydd gwenwyno a chamddefnyddio cyffuriau a 504 o farwolaethau cysylltiedig ag alcohol. Mae'n rhaid inni resynu wrth oediadau Llywodraeth Cymru cyn cyflwyno gwasanaethau ailsefydlu preswyl haen 4 a dadwenwyno chleifion mewnol. Mae adroddiad 2014 Llywodraeth Cymru'n cyfeirio at ddatblygiad fframwaith adsefydlu preswyl ar gyfer Cymru, ond mae wyth mlynedd wedi mynd heibio ers i adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ar wasanaethau triniaeth haen 4 yng Nghymru nodi nifer o adroddiadau am bobl yn aildroseddu er mwyn cael eu dadwenwyno yn y carchar , ac o dderbyniadau i'r ysbyty oherwydd nad oedd dadwenwyno cleifion mewnol ac adsefydlu preswyl ar gael yng Nghymru. Canfu'r adroddiad hefyd nad oedd unrhyw gyfleusterau haen 4 yng Nghymru'n darparu dadwenwyno ac adsefydlu preswyl ar yr un safle.

It is four years since a subsequent report said that although a first step forward would be to ensure that the tier 4 units that are currently available in Wales maximise services, it said that it had become aware of biases against the registered tier 4 providers from some commissioners and service providers. Action now is required.

Mae'n bedair blynedd ers i adroddiad dilynol ddweud, er y byddai sicrhau bod yr unedau haen 4 sydd ar gael ar hyn o bryd yng Nghymru'n gwneud y mwyaf o'r gwasanaethau sydd ar gael yn gam cyntaf ymlaen, ei fod wedi cael gwybod am ragfarnau yn erbyn y darparwyr haen 4 cofrestredig gan rai comisiynwyr a darparwyr gwasanaethau. Mae angen gweithredu nawr.

17:14 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I call on Kirsty Williams to move amendment 4, tabled in the name of Aled Roberts.

Galwaf ar Kirsty Williams i gynnig gwelliant 4, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

*Gwelliant 4—Aled Roberts*

*Amendment 4—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn croesawu cyhoeddi adroddiad y Swyddfa Gartref 'Drugs: International Comparators' ac yn credu mai'r ffordd orau o helpu defnyddwyr cyffuriau yw drwy drin camddefnyddio sylweddau fel mater iechyd yn bennaf yn hytrach na mater troseddol.*

*Welcomes the publication of the Home Office's report 'Drugs: International Comparators' and believes that drug users would be best helped by treating substance misuse primarily as a health matter rather than criminal matter.*

17:14 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 4 in the name of Aled Roberts.

Cynigiaf welliant 4 yn enw Aled Roberts.

The amendment is self-explanatory and refers to a report commissioned by the Westminster Government that tries to urge policy makers to think again how best to address the harm of illegal drugs and indeed cut crime at the same time. However, the annual report today focuses, as we have already heard, not just on illegal drugs and substances. There is some evidence in the report that is to be welcomed, particularly on heroin usage, yet the report reminds us, as the Deputy Minister did in his opening statement, that Wales's statistics with regard to alcohol especially are not what any of us would want them to be. A drug does not have to be illegal to cause immense personal harm and also wider devastation to families and communities and huge cost to the public purse.

Mae'r gwelliant yn hunanesboniadol ac mae'n cyfeirio at adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth San Steffan sy'n ceisio annog llunwyr polisi i ailfeddwl y ffordd orau i ymdrin â niwed cyffuriau anghyfreithlon ac, yn wir, lleihau troseddu ar yr un pryd. Fodd bynnag, fel yr ydym eisoes wedi clywed, mae'r adroddiad blynyddol heddiw'n rhoi sylw i fwy na dim ond cyffuriau a sylweddau anghyfreithlon. Mae rhywfaint o'r dystiolaeth yn yr adroddiad i'w chroesawu, yn enwedig ynglŷn â defnyddio heroin, ac eto mae'r adroddiad yn ein hatgoffa, fel y gwnaeth y Dirprwy Weinidog yn ei ddatganiad agoriadol, nad yw ystadegau Cymru o ran alcohol yn enwedig fel yr hoffai unrhyw un ohonom iddynt fod. Nid oes rhaid i gyffur fod yn anghyfreithlon i achosi niwed personol enfawr a dinistr ehangach hefyd i deuluoedd a chymunedau a chost enfawr i'r pwrs cyhoeddus.

Today, much has been said about alcohol. I too would like to echo the words of Elin Jones with regard to alcohol misuse and sometimes the stereotypical image we have of what alcohol misuse looks like. The report quite clearly tells us that there are some shocking figures with regard to people over the age of 50 who are coming forward for alcohol misuse referrals. However, I expect that that is the tip of the iceberg. Whether it be the Argentinian malbec or a white zinfandel from California, I expect that many of us here in this Chamber will be familiar with the 'wine o'clock' phenomenon where middle-class middle-aged people drink far more than they would like to admit themselves and are much more unlikely to class themselves as having a problem with alcohol because they are not out there tearing up the town and causing damage to their communities. However, they are still causing immense damage to themselves and potentially having a wider impact on their families.

Heddiw, mae llawer wedi ei ddweud am alcohol. Hoffwn hefyd adleisio geiriau Elin Jones ynglŷn â chamddefnyddio alcohol ac weithiau'r ddelwedd ystrydebol sydd gennym o sut y mae camddefnyddio alcohol yn edrych. Mae'r adroddiad yn dweud wrthym yn eithaf clir bod rhai ffigurau brawychus o ran pobl dros 50 oed sy'n dod ymlaen ar gyfer atgyfeiriadau camddefnyddio alcohol. Fodd bynnag, rwyf yn disgwyl mai crafu'r wyneb fydd hynny. Boed y Malbec o'r Ariannin neu'r zinfandel gwyn o Galiffornia, rwyf yn disgwyl y bydd llawer ohonom yma yn y Siambr hon yn gyfarwydd â'r ffenomen 'gwin o'r gloch' lle mae pobl ganol oed dosbarth canol yn yfed llawer mwy nag y byddent yn hoff o'i gyfaddef eu hunain ac yn llawer mwy annhebygol o'u dosbarthu eu hunain fel bod ganddynt broblem gydag alcohol oherwydd nad ydynt allan ar sbri yn y dref ac yn achosi difrod i'w cymunedau. Fodd bynnag, maent yn dal i achosi difrod aruthrol iddynt eu hunain ac o bosibl yn cael effaith ehangach ar eu teuluoedd.

I am also concerned about work regarding prescription-only medicines, including the number of deaths related to the prescription of tramadol. Tramadol, if used correctly, can be a very effective painkiller. However, very easily, an innocent prescription for pain relief for those in need can turn into a hideous addiction. If any of you would like to see the effects that can have, it can turn sensible people who are holding down responsible jobs into people who are willing to break into their relatives' homes and who tear up their own houses in a desperate attempt to get hold of those painkilling medications. I know that the Government and the All Wales Medicines Strategy Group have issued new prescribing guidelines to GPs with regard to tramadol, but I would like to hear from the Deputy Minister who is monitoring the use of those guidelines and whether we can see any patterns arising from the new guidelines in the reduction in the number of prescriptions for tramadol and the length of time people are on tramadol for. For short usage, it is not problematic; it is when people have been on it for a long time that problems can occur.

Rwyf hefyd yn pryderu am waith ym maes meddyginiaethau sydd ar gael ar bresgripsiwn yn unig, gan gynnwys nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â rhagnodi tramadol. Mae tramadol, os caiff ei ddefnyddio'n gywir, yn gallu bod yn boenladdwr effeithiol iawn. Fodd bynnag, yn hawdd iawn, gall presgripsiwn diniwed i leddfu poen i bobl sydd mewn angen droi'n gaethiwed erchyll. Pe hoffai unrhyw un ohonoch weld yr effeithiau y gall eu cael, gall droi pobl synhwyrol sydd mewn swyddi cyfrifol yn bobl sy'n barod i dorri i mewn i gartrefi eu perthnasau ac sy'n dinistrio eu tai eu hunain mewn ymgais anobeithiol i gael gafael ar y meddyginiaethau lladd poen hyn. Gwn fod Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan y Llywodraeth wedi cyhoeddi canllawiau rhagnodi newydd i feddygon teulu ar gyfer tramadol, ond hoffwn glywed gan y Dirprwy Weinidog sy'n monitro sut y caiff y canllawiau hynny eu defnyddio ac a allwn weld unrhyw batrymau'n codi o ganlyniad i'r canllawiau newydd yn y gostyngiad yn nifer y presgripsiynau ar gyfer tramadol ac am faint o amser y mae pobl yn cael tramadol. Am gyfnod byr, nid yw'n achosi problemau; pan fydd pobl wedi bod arno am amser hir y gall problemau godi.

I also want to turn to the issue of steroids and image-enhancing drugs. Perhaps it is a symptom of the type of society we live in that we are seeing increasing usage of steroids and image-enhancing drugs. I am particularly concerned about those people who inject a substance in order to get a suntan; I think that is particularly concerning. I think that it tells us a lot about the kind of society we live in that people are resorting to those kinds of things. A toolkit has been produced by Public Health Wales and supported by Welsh Government, but I would like to know how many 11 to 16-year-olds have had access to that toolkit and any advice, support and education by their schools on the dangers of steroid use and other image-enhancing drugs. What evaluation has been carried out of the effectiveness of this toolkit and whether it really is making a difference to the choices that young people are making when it comes to these particular types of substances? What can the substance misuse programme do also to bring into its education the issues of body confidence and positive body image? It is by raising children's and young people's self-esteem and raising issues of what a realistic body image is and what ordinary human beings are supposed to look like—not the photoshopped images in magazines that are read by young men and women, but, actually, what we can do to arrange that—

Hoffwn hefyd droi at fater steroidau a chyffuriau gwella delwedd. Efallai ei fod yn symptom o'r math o gymdeithas yr ydym yn byw ynddi ein bod yn gweld mwy o ddefnydd o steroidau a chyffuriau gwella delwedd. Rwyf yn arbennig o bryderus am y bobl hynny sy'n chwistrellu sylwedd er mwyn cael lliw haul; credaf fod hynny'n peri pryder arbennig. Credaf ei fod yn dweud llawer am y math o gymdeithas yr ydym yn byw ynddi bod pobl yn troi at y mathau hynny o bethau. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cynhyrchu pecyn cymorth gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, ond hoffwn wybod faint o bobl ifanc 11 i 16 oed sydd wedi cael mynediad at y pecyn cymorth hwnnw ac unrhyw gyngor, cymorth ac addysg gan eu hysgolion am beryglon defnyddio steroidau a chyffuriau eraill sy'n gwella delwedd. Pa werthusiad sydd wedi ei wneud o effeithiolrwydd y pecyn cymorth hwn ac a yw'n wir yn gwneud gwahaniaeth i'r dewisiadau y mae pobl ifanc yn eu gwneud ynglŷn â'r mathau penodol hyn o sylweddau? Beth all y rhaglen camddefnyddio sylweddau ei wneud hefyd i gynnwys materion hyder y corff a delwedd gadarnhaol o'r corff yn eu haddysg? Drwy godi hunan-barch plant a phobl ifanc a chodi materion megis beth yw delwedd realistig o'r corff a sut y dylai bodau dynol cyffredin edrych—nid y delweddau wedi'u trin â Photoshop mewn cylchgronau sy'n cael eu darllen gan ddynion a menywod ifanc, ond, mewn gwirionedd, yr hyn y gallwn ei wneud i drefnu bod—

17:20

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Finish now, please.

Gorffennwch yn awr, os gwelwch yn dda.

17:20

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

[Continues.]—to stop them from taking these substances.

[Yn parhau.]—i'w hatal rhag cymryd y sylweddau hyn.

17:20

## Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Obviously, representing Cardiff Central, the centre of my constituency is overrun, every weekend, with people, many of whom consume excessive amounts of alcohol. However, Kirsty Williams is absolutely right to point out that this is not just a problem on the streets; this is a problem across our community. I strongly support the Government's proposals for minimum pricing, so that people are much more aware of what the real cost is of excessive consumption of alcohol.

Yn amlwg, wrth gynrychioli Canol Caerdydd, mae canol fy etholaeth yn llawn, bob penwythnos, o bobl, a llawer ohonynt yn yfed gormod o alcohol. Fodd bynnag, mae Kirsty Williams yn gwbl gywir i nodi nad dim ond ar y strydoedd y mae hyn yn broblem; mae hyn yn broblem ar draws ein cymuned. Rwyf yn gryf o blaid cynigion y Llywodraeth i bennu isafswm pris, fel bod pobl yn llawer mwy ymwybodol o beth yw gwir gost yfed gormod o alcohol.

Vaughan Gething has already pointed out some of the bald statistics that are in the report, which make for very sobering reading, including one that I would just like to focus on, which is that at least one third of all families who have children in need or children who are looked after are reported to have serious problems with alcohol. I just want to look at one aspect of the results of excessive alcohol consumption across the community, which is fetal alcohol spectrum disorder. The latest annual profile of substance misuse in Wales records only seven hospital admissions for fetal alcohol syndrome. However, I would suggest that this is just the tip of the iceberg and that the level of the problem is much greater than this. This is not about whether or not a pregnant woman should have the odd Guinness or a glass of wine during pregnancy. We need to focus on the fact that 20% of women drink more than twice the recommended daily guideline amount, and that includes when they are pregnant. So, in a way, I suppose that it is surprising that more attention is not being paid to this huge public health issue and perhaps it is something that the Government needs to add to its list of priorities.

Mae Vaughan Gething eisoes wedi tynnu sylw at rai o'r ystadegau moel sydd yn yr adroddiad, a oedd yn sobreiddiol iawn i'w darllen, gan gynnwys un yr hoffwn ganolbwyntio arno, sef y dywedir bod o leiaf draean o'r holl deuluoedd sydd â phlant mewn angen neu blant sy'n derbyn gofal yn dioddef problemau difrifol gydag alcohol. Hoffwn ganolbwyntio ar un agwedd ar ganlyniadau yfed gormod o alcohol ar draws y gymuned, sef anhwylder sbectrwm alcohol ffetws. Mae’r proffil blynyddol diweddaraf o gamddefnyddio sylweddau yng Nghymru’n cofnodi mai dim ond saith derbyniad i'r ysbyty a fu am syndrom alcohol ffetws. Fodd bynnag, byddwn yn awgrymu mai dim ond crafu’r wyneb yw hyn a bod lefel y broblem yn llawer mwy na hyn. Nid yw hyn yn fater o ba un a ddylai menyw feichiog gael ambell Guinness neu wydraid o win yn ystod beichiogrwydd. Mae angen inni ganolbwyntio ar y ffaith bod 20% o fenywod yn yfed mwy na dwywaith y swm canllaw dyddiol a argymhellir, ac mae hynny'n cynnwys pan fyddant yn feichiog. Felly, mewn ffordd, mae'n debyg ei bod yn syndod nad oes mwy o sylw’n cael ei roi i'r mater iechyd cyhoeddus enfawr hwn ac efallai ei fod yn rhywbeth y mae angen i'r Llywodraeth ei ychwanegu at ei rhestr o flaenoriaethau.

There was a recent court case in the last month where a local authority has lodged a claim, yet again, against the Criminal Injuries Compensation Authority on behalf of a seven-year-old child in its care. There are no less than 80 other claims awaiting a judgment. In fact, some people claim that fetal alcohol spectrum disorder is the leading known cause of intellectual disability in the western world. There are many gaps in the data, but estimates go as high as one to three in every 1,000 births. Sorry, I beg your pardon; it is one to three in every 100 births. Were this the case, even if you take the lower figure, it is greater than the combined incidences of children born in any year with Down’s syndrome, cerebral palsy, cystic fibrosis and spina bifida. In our culture, which has seen such a high level of increasing binge drinking, the number of children with fetal alcohol spectrum disorder is likely to rise.

Bu achos llys diweddar yn y mis diwethaf lle mae awdurdod lleol wedi cyflwyno hawliad, unwaith eto, yn erbyn yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol ar ran plentyn saith mlwydd oed yn ei ofal. Mae dim llai na 80 o geisiadau eraill yn aros am ddyfarniad. Yn wir, mae rhai pobl yn honni mai anhwylder sbectrwm alcohol ffetws yw’r prif achos hysbys o anabledd deallusol yn y byd gorllewinol. Mae llawer o fylchau yn y data, ond mae amcangyfrifon yn mynd mor uchel ag un i dri ym mhob 1,000 o enedigaethau. Mae'n ddrwg gennyf, maddeuwch imi; un i dri ym mhob 100 o enedigaethau ydyw. Pe byddai hyn yn wir, hyd yn oed os cymerwch y ffigur is, mae'n fwy na chyfanswm yr achosion o blant a enir mewn unrhyw flwyddyn â syndrom Down, parlys yr ymennydd, ffibrosis systig a spina bifida. Yn ein diwylliant ni, lle mae cymaint o gynnydd wedi bod mewn goryfed mewn pyliau, mae nifer y plant sydd ag anhwylder sbectrwm alcohol ffetws yn debygol o godi.

My attention has been drawn to this problem by one of my constituents who has struggled to get their child accurately diagnosed and has had to fight to get a referral to the only specialist fetal alcohol spectrum disorder clinic in the UK, which is run by the Surrey NHS trust. They are hoping that this referral will enable them to better understand just how disabled their child is, what the best treatment is for supporting their significant educational disabilities, and to gain a better understanding of the future prognosis for the care of that child, which they may require for the rest of their life.

Cafodd fy sylw ei dynnu at y broblem hon gan un o fy etholwyr sydd wedi cael trafferth i gael diagnosis cywir i’w plentyn ac sydd wedi gorfod ymladd i gael atgyfeiriad i’r unig glinig anhwylder sbectrwm alcohol ffetws arbenigol yn y DU, sy'n cael ei gynnal gan ymddiriedolaeth GIG Surrey. Maent yn gobeithio y bydd yr atgyfeiriad hwn yn eu galluogi i ddeall yn well pa mor anabl yw eu plentyn, beth yw'r driniaeth orau i gefnogi ei anableddau addysgol sylweddol, a chael gwell dealltwriaeth o'r prognosis yn y dyfodol ar gyfer gofalu am y plentyn hwnnw, y gallant fod ei angen am weddill eu bywyd.

So, what are the symptoms? They range from abnormal facial features, being below average height and weight, hyperactivity, poor co-ordination, delayed development and enduring learning disabilities, including with speech development and concentration, and not just poor social skills, but poor judgment, which puts such young people at risk. Early diagnosis can increase the possibility of a positive outcome for the child. Were neonatologists more aware of the issue, a physical examination of the baby may show a heart murmur or other heart problems that may indicate early diagnosis. As the baby matures, there may be other signs that help to confirm the diagnosis.

Felly, beth yw'r symptomau? Maent yn amrywio o nodweddion wyneb annormal, bod o dan daldra a phwysau cyfartalog, gorfywiogrwydd, cydsymud gwael, datblygiad hwyr ac anableddau dysgu parhaus, gan gynnwys gyda datblygiad lleferydd a chanolbwyntio, ac nid dim ond sgiliau cymdeithasol gwael, ond diffyg synnwyr cyffredin, sy'n rhoi pobl mor ifanc mewn perygl. Mae diagnosis cynnar yn gallu cynyddu'r posibilrwydd o ganlyniad cadarnhaol i'r plentyn. Pe byddai neonatolegwyr yn fwy ymwybodol o'r mater, efallai y byddai archwiliad corfforol o'r baban yn dangos murmur y galon neu broblemau eraill ar y galon a allai ddynodi diagnosis cynnar. Wrth i'r baban aeddfedu, efallai y bydd arwyddion eraill a fyddai'n helpu i gadarnhau'r diagnosis.

17:25

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You do need to conclude now.

Mae angen ichi orffen yn awr.

17:25

## Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Special education and social services can help with these very young children. For example, speech therapists can work with toddlers to help them learn to talk. I know that teachers are beginning to recognise a pattern of presenting symptoms in young people with whom they have challenging difficulties in getting them to learn. So, I would ask the Deputy Minister to give this a higher priority in the list of the priorities that he has noted.

Gall addysg arbennig a'r gwasanaethau cymdeithasol helpu'r plant ifanc iawn hyn. Er enghraifft, gall therapyddion lleferydd weithio gyda phlant bach i'w helpu i ddysgu siarad. Rwyf yn gwybod bod athrawon yn dechrau adnabod patrwm o symptomau sy'n ymddangos mewn pobl ifanc sy'n cael anawsterau heriol i ddysgu pethau. Felly, byddwn yn gofyn i'r Dirprwy Weinidog roi blaenoriaeth uwch i hyn yn y rhestr o'r blaenoriaethau y mae wedi'u nodi.

17:26

## Darren Millar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Minister, for bringing this debate forward today. I think that it is pleasing to see that many of the indicators in the substance misuse strategy are improving, but, of course, there are some key ones that are getting worse. Perhaps the most astonishing one for me was indicator 9, which talks about the prevalence of drug use per 1,000 of population. That has increased by 60% according to the figures in the report, which I think is pretty startling and shows very clearly the challenges that we have ahead as a nation to be able to deal with those sorts of problems.

Diolch, Ddirprwy Weinidog, am gyflwyno'r ddadl hon heddiw. Rwyf yn credu ei bod yn braf gweld bod llawer o'r dangosyddion yn y strategaeth camddefnyddio sylweddau yn gwella, ond, wrth gwrs, mae rhai o'r rhai allweddol yn gwaethygu. Efallai mai'r un mwyaf syfrdanol i mi oedd dangosydd 9, sy'n sôn am nifer yr achosion o ddefnyddio cyffuriau i bob 1,000 o'r boblogaeth. Mae hynny wedi cynyddu 60% yn ôl y ffigurau yn yr adroddiad; rwyf yn meddwl bod hynny'n eithaf syfrdanol ac yn dangos yn glir iawn yr heriau sydd o'n blaenau fel cenedl i allu ymdrin â'r mathau hynny o broblemau.

I want to spend a few moments, if I may, drawing out a few parts of the report, first in relation to substance misuse and veterans. We have already heard from Mark Isherwood about the tremendous work that CAIS and others in the third sector are doing in helping the veteran community to overcome substance misuse problems. The Change Step programme that now operates across the whole of the country, which started its life in north Wales, is certainly doing a great deal to support veterans with substance misuse problems.

Hoffwn dreulio rhai munudau, os caf, yn sôn am rai rhannau o'r adroddiad, yn gyntaf ynglŷn â chamddefnyddio sylweddau a chyn-filwyr. Rydym eisoes wedi clywed gan Mark Isherwood am y gwaith aruthrol y mae CAIS ac eraill yn y trydydd sector yn ei wneud i helpu cymuned cyn-filwyr i oresgyn problemau camddefnyddio sylweddau. Mae'r rhaglen Newid Cam sydd bellach yn gweithredu ar hyd a lled y wlad, ar ôl dechrau yn y gogledd, yn sicr yn gwneud llawer iawn i gefnogi cyn-filwyr sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau.

Also, supported housing has a role to play, and Alabaré, with its veterans homes, which are going to be opening. One has already been commissioned in south Wales, but there will be a number elsewhere in the country, and they will go some way to supporting people out of the very bad habits and bad relationships that they have formed with alcohol, drugs and even legal substances as well, and support them onto a road to recovery and away from those habits. I just wonder, Deputy Minister, whether you will be able to tell us in response what additional work you are doing with other partners to be able to support the veteran community. There is some reference to this, but it is only limited in the annual report.

Hefyd, mae gan dai â chymorth ran i'w chwarae, ac Alabaré, â'i gartrefi i gyn-filwyr, sy'n mynd i fod yn agor. Mae un eisoes wedi ei gomisiynu yn y de, ond bydd nifer mewn rhannau eraill o'r wlad, a byddant yn mynd rhywfaint o'r ffordd i gefnogi pobl allan o'r arferion drwg iawn a'r perthnasoedd drwg y maent wedi'u ffurfio gydag alcohol, cyffuriau a hyd yn oed sylweddau cyfreithlon hefyd, a'u cefnogi ar ffordd i adferiad ac oddi wrth yr arferion hynny. Rwyf yn meddwl tybed, Ddirprwy Weinidog, pa un a allwch ddweud wrthym mewn ymateb, pa waith ychwanegol yr ydych yn ei wneud gyda phartneriaid eraill i allu cefnogi cymuned y cyn-filwyr. Mae rhywfaint o gyfeiriad at hyn, ond dim ond yn gryno yn yr adroddiad blynyddol.

One of the concerns that I have raised with the Welsh Government on a number of occasions has been the waiting times that are out there in different parts of the country, and it is variable across the whole of Wales, for veterans to be able to access services provided under the Veterans' NHS Wales service in terms of talking therapies, et cetera. Many of those people will have a comorbidity, which presents itself in a form of a substance misuse. We all know that, when people are alcohol or drug dependent, it is very important to strike while the iron is hot, when someone is in the frame of mind where they want to tease themselves away from their abusive relationships with different substances. One thing that I was very pleased about over the summer was the announcement of an extra £100,000 in order to reduce the waiting times where they have been too long, which I think that everyone acknowledges as being the case, for the Veterans' NHS Wales service. However, that £100,000 was a one-off payment. There is no guarantee that it is going to be there in the future in terms of reducing those waiting times, and I wonder whether you can give us some assurances about future funding to make sure that there is capacity within the service to meet demand in the future.

Un o'r pryderon yr wyf wedi'u codi gyda Llywodraeth Cymru ar nifer o achlysuron yw'r amseroedd aros sydd allan yna mewn gwahanol rannau o'r wlad, ac mae'n amrywio ar draws Cymru gyfan, i gyn-filwyr allu derbyn gwasanaethau a ddarperir o dan gwasanaeth Cyn-filwyr GIG Cymru o ran therapïau siarad, ac ati. Bydd gan lawer o'r bobl hynny gyd-forbidrwydd, sy'n cyflwyno ei hun ar ffurf camddefnyddio sylwedd. Rydym i gyd yn gwybod, pan fydd pobl yn ddibynnol ar alcohol neu gyffuriau, ei bod yn bwysig iawn taro tra bo'r haearn yn boeth, pan fydd gan rywun y meddylfryd i'w dynnu ei hun i ffwrdd oddi wrth berthynas gamdriniol â gwahanol sylweddau. Un peth yr oeddwn yn falch iawn ohono dros yr haf oedd y cyhoeddiad o £100,000 ychwanegol i leihau'r amseroedd aros lle maent wedi bod yn rhy hir; rwyf yn meddwl bod pawb yn cydnabod bod hynny'n wir am wasanaeth Cyn-filwyr GIG Cymru. Fodd bynnag, taliad untro oedd y £100,000 hwnnw. Nid oes sicrwydd y bydd yno yn y dyfodol o ran lleihau'r amseroedd aros hynny, ac rwyf yn meddwl tybed a allwch chi roi rhywfaint o sicrwydd inni ynghylch ariannu yn y dyfodol i wneud yn siŵr bod y capasiti yn y gwasanaeth i ateb y galw yn y dyfodol.

One thing that was very pleasing in the report was, obviously, that there is an improving relationship, I think, with the criminal justice system and the NHS in Wales and local authorities in terms of tackling substance misuse in a perhaps more rounded way, which we have not seen in the past. I was particularly pleased to see the prison service mentioned, because one of the things that we have found on the Health and Social Care Committee in undertaking our work into new psychoactive substances has been the deficiencies, if you like, in the prison service being able to get to grips with some of the problems around substance misuse and, in fact, the access that people seem to have quite freely, unfortunately, in some parts of the prison service to the sorts of substances that we are trying to stamp out in terms of the abuse.

Un peth a oedd yn galonogol iawn yn yr adroddiad, yn amlwg, oedd bod y berthynas yn gwella, rwyf yn credu, gyda'r system cyfiawnder troseddol a'r GIG yng Nghymru ac awdurdodau lleol o ran ymdrin â chamddefnyddio sylweddau mewn ffordd fwy cynhwysfawr, efallai, nad ydym wedi'i gweld yn y gorffennol. Roeddwn yn arbennig o falch o weld y gwasanaeth carchardai yn cael ei grybwyll, oherwydd un o'r pethau yr ydym wedi'u gweld ar y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol wrth ymgymryd â'n gwaith ar sylweddau seicoweithredol newydd yw'r diffygion, os mynnwch, yng ngallu'r gwasanaeth carchardai i ymdrin â rhai o'r problemau ynghylch camddefnyddio sylweddau ac, yn wir, y ffaith bod y mathau o sylweddau yr ydym yn ceisio eu dileu o ran y camddefnyddio, yn anffodus, ar gael yn eithaf rhwydd i bobl mewn rhai rhannau o'r gwasanaeth carchardai.

Finally, I noticed the work that is going on in schools through the school liaison programme. I was very pleased to see that and long may it continue, but I wonder whether you can give us any information on work that you may be intending to take forward in terms of parental education on substance misuse. Obviously, there is the Dan 24/7 helpline, which is available to people, but I wonder whether there is, perhaps, a more targeted approach to parental education. There is a fantastic Welsh-based charity called Care for the Family that has some resources available through its course, which is called How to Drug Proof Your Kids, a tremendous resource that is being used in some parts of Wales at the moment in different ways. However, there does not appear to be any strategy for its use more widely, given the fact that it has a demonstrated track record of reducing harm from substance misuse among young people where parents have been engaged in that particular programme. I wonder whether you could perhaps give some feedback on that, too.

Yn olaf, sylwais ar y gwaith sy'n cael ei wneud mewn ysgolion drwy'r rhaglen cyswllt ysgolion. Roeddwn yn falch iawn o weld hynny a gobeithio y bydd yn parhau ymhell i'r dyfodol, ond tybed a allwch chi roi unrhyw wybodaeth inni am waith y gallech chi fod yn bwriadu bwrw ymlaen ag ef o ran addysgu rhieni am gamddefnyddio sylweddau. Yn amlwg, ceir y llinell gymorth Dan 24/7, sydd ar gael i bobl, ond tybed a oes, efallai, rywbeth wedi'i dargedu'n fwy at addysgu rhieni. Mae elusen ffantastig o Gymru o'r enw Gofal i'r Teulu sydd â rhai adnoddau ar gael drwy ei chwrs, sef How to Drug Proof Your Kids, adnodd gwych sy'n cael ei ddefnyddio mewn rhai rhannau o Gymru ar hyn o bryd mewn gwahanol ffyrdd. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod unrhyw strategaeth yn bodoli i'w ddefnyddio'n ehangach, ac ystyried y ffaith bod ganddo hanes a ddangoswyd o leihau niwed yn sgil camddefnyddio sylweddau ymhlith pobl ifanc pan fo rhieni wedi cymryd rhan yn y rhaglen benodol honno. Tybed a allech chi o bosibl roi rhywfaint o adborth am hynny, hefyd.

17:31

## Christine Chapman Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I believe that Wales's relationship with alcohol is hugely problematic, and I welcome this debate today. The number of people drinking more than the recommended amount of alcohol in Wales is 42%, with 26% of people admitting to binge drinking. Yet, for all that, I believe that there is still a stubborn resistance to acknowledge the harm and devastation that alcohol misuse can have on families and individuals. We know that there has been an increase of 15% in the number of alcohol-related deaths among men in the last 10 years. In younger people, it presents in different ways. Among younger people, there are links to accidents and self-harm; they are the big threats. Among older people, it is a litany of chronic diseases that, quite often, will go unnoticed, such as cirrhosis, cancers and cardiac problems.

Credaf fod perthynas Cymru ag alcohol yn broblem fawr, a chroesawaf y ddadl hon heddiw. Mae canran y bobl sy'n yfed mwy na'r hyn a argymhellir o alcohol yng Nghymru yn 42%, ac mae 26% o bobl yn cyfaddef eu bod yn goryfed mewn pyliau. Eto i gyd, er gwaethaf hynny, credaf fod gwrthwynebiad ystyfnig yn dal i fodoli i gydnabod y niwed a'r dinistr y gall camddefnyddio alcohol ei achosi i deuluoedd ac i unigolion. Rydym yn gwybod y bu cynnydd o 15% yn nifer y marwolaethau cysylltiedig ag alcohol ymysg dynion yn y 10 mlynedd diwethaf. Mewn pobl iau, mae'n ymddangos mewn ffyrdd gwahanol. Ymysg pobl iau, ceir cysylltiadau â damweiniau a hunan-niweidio; dyma'r bygythiadau mawr. Ymysg pobl hŷn, mae'n gyfres o glefydau cronig nad yw pobl, yn aml iawn, yn sylwi arnynt, megis sirosis, canser a phroblemau cardiaidd.

We also know that issues around alcohol raise issues of health inequalities, and I know, for example, that the number of referrals for alcohol misuse across Rhondda Cynon Taf is very high at over 1,000 individuals, in comparison with Bridgend at 195 or the Vale of Glamorgan at 488. The figures are pretty stark. The number of alcohol-related admissions to Welsh hospitals is very high, and the big picture is that the estimated cost to the Welsh NHS is, again, very high. This is a massive drain on public resources, both nationally and locally, and it is largely preventable.

Rydym hefyd yn gwybod bod materion sy'n ymwneud ag alcohol yn codi materion anghydraddoldebau iechyd, ac rwyf yn gwybod, er enghraifft, bod nifer yr atgyfeiriadau ar gyfer camddefnyddio alcohol ledled Rhondda Cynon Taf yn uchel iawn—dros 1,000 o unigolion, o'i gymharu â Phen-y-bont ar Ogwr lle mae'n 195 neu Fro Morgannwg lle mae'n 488. Mae'r ffigurau'n eithaf llwm. Mae nifer y derbyniadau sy'n gysylltiedig ag alcohol i ysbytai Cymru'n uchel iawn, a'r darlun mawr yw bod y gost amcangyfrifedig i'r GIG yng Nghymru, unwaith eto, yn uchel iawn. Mae hyn yn rhoi pwysau enfawr ar adnoddau cyhoeddus, yn genedlaethol ac yn lleol, ac mae'n bosibl ei atal i raddau helaeth.

However, the problem is very deep-seated—if we could have solved it, we would have done it by now—in that our relationship with alcohol is often cultural. There are contradictions. We all know the dangers of alcohol, but we also, as Kirsty Williams says, see alcohol as a supportive friend. A large glass of red to celebrate the end of a stressful day can easily become two or three. There is an awful lot of peer pressure out there. Do you know, it is quite difficult, as it is almost socially unacceptable not to drink? I just wanted to mention that today, 2 December, is my three-and-a-half year anniversary of stopping drinking. The reactions that you get from people are funny. People think that it is rather strange, and I think that this is where it gets a bit problematic. I am not advocating this for everyone, but more and more people are saying, 'Look, I just don't need alcohol in my life. I am quite happy not to drink alcohol at all. It means that I can still carry on enjoying my life and, of course, I am always available to give people lifts home from the pub.' [Laughter.]

Fodd bynnag, mae'r broblem yn un ddofn iawn—pe gallem fod wedi'i datrys, byddem wedi gwneud hynny erbyn hyn—oherwydd mae ein perthynas ag alcohol yn aml yn ddiwylliannol. Ceir gwrthddywediadau. Rydym i gyd yn gwybod am beryglon alcohol, ond rydym hefyd, fel y dywed Kirsty Williams, yn gweld alcohol fel ffrind cefnogol. Gall gwydraid mawr o win coch i ddathlu diwedd diwrnod llawn straen yn hawdd droi'n ddau neu dri. Ceir llawer iawn o bwysau gan gymheiriaid. Wyddoch chi, mae'n eithaf anodd, gan ei bod bron yn gymdeithasol annerbyniol i beidio ag yfed? Hoffwn ddweud mai heddiw, yr 2 Rhagfyr, yw'r diwrnod sy'n nodi tair blynedd a hanner ers i mi roi'r gorau i yfed. Mae'r ymatebion yr ydych yn eu cael gan bobl yn ddoniol. Mae pobl yn meddwl ei fod braidd yn rhyfedd, a chredaf mai dyma lle mae'n mynd yn dipyn o broblem. Nid wyf yn dweud bod hyn i bawb, ond mae mwy a mwy o bobl yn dweud, 'Edrychwch, does arna' i ddim angen alcohol yn fy mywyd. Rydw i'n eithaf bodlon i beidio ag yfed alcohol o gwbl. Mae'n golygu fy mod yn gallu dal i fwynhau fy mywyd ac, wrth gwrs, rwyf ar gael bob amser i roi lifft adref o'r dafarn i bobl. ' [Chwerthin.]

I welcome the debate, because I welcome the progress that the Welsh Government has made and lots of the action that it has taken to tackle this problem, such as the launch of Dry January 2014 by the Minister for health, aimed at encouraging a wider discussion about alcohol and its impact on daily life. I think that we really have to say, 'You don't have to drink,' because, as I said, it is quite often socially unacceptable not to drink, but there is life after alcohol.

Rwyf yn croesawu'r ddadl, gan fy mod yn croesawu'r cynnydd y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud a llawer o'r camau y mae wedi'u cymryd i ymdrin â'r broblem hon, megis y Gweinidog iechyd yn lansio Ionawr Sych 2014, gyda'r nod o annog trafodaeth ehangach am alcohol a'i effaith ar fywyd bob dydd. Credaf fod rhaid yn wir inni ddweud, 'Nid oes rhaid ichi yfed,' oherwydd, fel y dywedais, mae'n eithaf aml yn gymdeithasol annerbyniol i beidio ag yfed, ond mae bywyd ar ôl alcohol.

17:34

## John Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Members have illustrated the great ill effects of alcohol in Wales in so many different ways, obviously with regard to health and, I believe that over 1,000 hospital admissions per week are as a result of alcohol misuse.

Mae'r Aelodau wedi darlunio effeithiau gwael iawn alcohol yng Nghymru mewn cynifer o wahanol ffyrdd, yn amlwg o ran iechyd, a chredaf fod dros 1,000 o dderbyniadau i'r ysbyty bob wythnos yn digwydd o ganlyniad i gamddefnyddio alcohol.

The problems with our young people are greater in Wales than in England, and there is the correlation with deprivation that Christine Chapman has just mentioned. Of course, there is a significant economic impact in terms of time lost from work, and, of course, crime is very often associated with alcohol misuse, particularly violent crime. Domestic abuse and relationship breakdown is yet another aspect.

Mae'r problemau gyda'n pobl ifanc yn fwy yng Nghymru nag yn Lloegr, a cheir y gydberthynas ag amddifadedd y soniodd Christine Chapman amdani gynnau. Wrth gwrs, ceir effaith economaidd sylweddol o ran amser a gollwyd o'r gwaith, ac, wrth gwrs, mae troseddau'n aml iawn yn gysylltiedig â chamddefnyddio alcohol, yn enwedig troseddau treisgar. Mae cam-drin domestig a chwalu perthynas yn agwedd arall eto.

I think that it is absolutely clear, for all the reasons that Members have stated, that alcohol really does take a dreadful toll on life in Wales. That is why it is absolutely right that Members have, to some extent, concentrated on alcohol abuse today in this debate. Indeed, that is what I also intend to do. I think that the debate about age is interesting because, obviously, there is hidden drinking, which has very serious effects and is not out there on our city and town centres on the weekend. Nonetheless, I do believe that we should not lose sight of the very significant problems for our city and town centres and elsewhere of that weekend drinking, because it really does show Wales—and not just Wales, but the UK, obviously, as it is a general problem—in a very poor light indeed. I am sure that other Members would have had experiences as I have had, and visitors to Wales—or first-time visitors to the UK who are in Wales—who have witnessed these scenes on a Friday or Saturday night, and were amazed and shocked because they did not experience that sort of behaviour back home. To see people lying on the streets semi-conscious, fighting or vomiting is obviously not a pretty picture. We really do need to tackle it, and we need to get to some of the root causes.

Rwyf yn credu ei bod yn gwbl glir, am yr holl resymau y mae’r Aelodau wedi’u datgan, bod alcohol wir yn creu difrod ofnadwy i fywyd yng Nghymru. Dyna pam mae'n gwbl briodol bod Aelodau, i ryw raddau, wedi canolbwyntio ar gamddefnyddio alcohol heddiw yn y ddadl hon. Yn sicr, dyna beth yr wyf finnau’n bwriadu ei wneud. Credaf fod y ddadl am oedran yn ddiddorol oherwydd, yn amlwg, mae yfed cudd yn bodoli, sydd ag iddo effeithiau difrifol iawn ac nad yw i’w weld allan yng nghanol ein dinasoedd a’n trefi ar y penwythnos. Serch hynny, rwyf yn credu na ddylem golli golwg ar y problemau sylweddol iawn i ganol ein dinasoedd a’n trefi a mannau eraill oherwydd yr yfed hwnnw ar y penwythnos, oherwydd mae wir yn rhoi darlun gwael iawn o Gymru—ac nid Cymru yn unig, ond y DU, yn amlwg, gan ei bod yn broblem gyffredinol. Rwyf yn sicr bod Aelodau eraill wedi cael yr un profiadau â mi, ac ymwelwyr â Chymru—neu ymwelwyr am y tro cyntaf â'r DU sydd yng Nghymru—sydd wedi gweld y golygfeydd hyn ar nos Wener neu nos Sadwrn, ac sy’n rhyfeddu ac yn synnu oherwydd nad oeddent yn profi’r math yna o ymddygiad gartref. Yn amlwg, nid yw gweld pobl yn gorwedd ar y strydoedd yn lled-ymwybodol, yn ymladd neu’n chwydu yn ddarlun deniadol. Mae gwir angen inni ymdrin â hyn, ac mae angen inni wynebu rhai o'r achosion sylfaenol.

Some of those responsible, I believe, are within the alcohol industry themselves. We do need much greater responsibility. It is not just the most obvious culprits. I believe that universities, for example, could be a lot more responsible in terms of their own promotions and activities. They should, to a greater extent, recognise their duty of care for their student populations. There are things that we can do. I think that minimum pricing for units of alcohol is a very good idea. Lots of people buy cheap alcohol from supermarkets and either drink it in the house and stay there, or drink it in the house and then go out into the town and city centres. That does not help the situation.

Mae rhai o'r rheini sy'n gyfrifol, yn fy marn i, o fewn y diwydiant alcohol eu hunain. Mae angen llawer mwy o gyfrifoldeb arnom. Nid dim ond y tramgwyddwyr mwyaf amlwg sy’n gyfrifol. Credaf y gallai prifysgolion, er enghraifft, fod yn llawer mwy cyfrifol o ran eu hyrwyddiadau a’u gweithgareddau eu hunain. Dylent, i raddau mwy, gydnabod eu dyletswydd o ofal am eu poblogaethau myfyrwyr. Mae pethau y gallwn ni eu gwneud. Credaf fod isafswm pris am uned o alcohol yn syniad da iawn. Mae llawer o bobl yn prynu alcohol rhad o archfarchnadoedd a naill ai’n ei yfed yn y tŷ ac yn aros yno, neu'n ei yfed yn y tŷ ac yna’n mynd allan i ganol trefi a dinasoedd. Nid yw hynny'n helpu'r sefyllfa.

Not everybody is able to demonstrate the good practice of my colleague, Christine Chapman, but I know that many Members do partake in Dry January, and they find that very useful. It does actually lead to a public discussion and debate, which I think is really healthy. It stimulates discussion between people as to reasons not to drink and reasons to moderate drinking. I think that that is a very important contribution, as is Change4life and the advice to be alcohol-free for at least two days per week. I think that all of these things do get people thinking about the issues, and that is very useful indeed.

Nid yw pawb yn gallu arddangos arfer da fy nghyd-Aelod, Christine Chapman, ond gwn fod llawer o Aelodau’n cymryd rhan yn Ionawr Sych, ac maent yn ei weld yn ddefnyddiol iawn. Mae mewn gwirionedd yn arwain at drafodaeth a dadl gyhoeddus, a chredaf fod hynny’n iach iawn. Mae'n ysgogi trafodaeth rhwng pobl ynglŷn â rhesymau dros beidio ag yfed a rhesymau dros yfed yn gymedrol. Credaf fod hynny'n gyfraniad pwysig iawn, fel y mae Change4life a'r cyngor i osgoi alcohol am o leiaf dau ddiwrnod yr wythnos. Credaf fod pob un o'r pethau hyn yn cael pobl i feddwl am y materion, ac mae hynny'n ddefnyddiol iawn wir.

I will just close by mentioning street pastors in Newport. Again, I think that many Members would have knowledge of the work of street pastors. I recently went out with them on a weekend night in Newport. It was an eye-opener, not in terms of the scenes on the city-centre streets, which I have become familiar with over the years, but in terms of the work that the street pastors do and how much they have become an integrated and integral part of the services that the police, the nightclub security staff, the health service and other youth services provide. They have been doing it for so long now that they really are valued and their services are indispensable, so I would certainly like to pay tribute to them.

Rwyf am gloi drwy sôn am fugeiliaid y stryd yng Nghasnewydd. Unwaith eto, rwyf yn meddwl y byddai llawer o Aelodau’n gwybod am waith bugeiliaid y stryd. Yn ddiweddar, es i allan gyda hwy ar noson benwythnos yng Nghasnewydd. Roedd yn agoriad llygad, nid o ran y golygfeydd ar strydoedd canol y ddinas; rwyf wedi dod yn gyfarwydd â’r rheini dros y blynyddoedd, ond o ran y gwaith y mae bugeiliaid y stryd yn ei wneud a faint y maent wedi dod yn rhan integredig ac annatod o'r gwasanaethau y mae'r heddlu, staff diogelwch clybiau nos, y gwasanaeth iechyd a gwasanaethau ieuenctid eraill yn eu darparu. Maent wedi bod yn gwneud hyn ers cyhyd erbyn hyn fel eu bod yn wir yn cael eu gwerthfawrogi ac mae eu gwasanaethau’n anhepgor, felly byddwn yn sicr yn hoffi talu teyrnged iddynt.

I welcome the Welsh Government's priority and strategy in dealing with these issues. I think that these are very important matters, as Members have amply illustrated. We need to continue that focus on prioritisation.

Rwyf yn croesawu blaenoriaeth a strategaeth Llywodraeth Cymru i ymdrin â'r materion hyn. Credaf fod y rhain yn faterion pwysig iawn, fel y mae'r Aelodau wedi'i ddangos yn glir. Mae angen inni barhau i ganolbwyntio ar flaenoriaethu.

17:39

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call the Deputy Minister to reply to the debate.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i ymateb i'r ddadl.

17:39

## Vaughan Gething [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Y Dirprwy Weinidog Iechyd / The Deputy Minister for Health*

I thank all Members who have contributed to a very interesting and constructive debate this afternoon. I recognise at the outset, in responding, that I will not be able to deal with all of the points that Members have made, but I will try to respond to Members, if I am not able to cover all of their points today, in writing afterwards.

Diolch i'r holl Aelodau sydd wedi cyfrannu at ddadl ddiddorol ac adeiladol iawn y prynhawn yma. Rwyf yn cydnabod i ddechrau, wrth ymateb, na allaf ymdrin â'r holl bwyntiau y mae'r Aelodau wedi'u gwneud, ond byddaf yn ceisio ymateb i'r Aelodau, os na allaf ymdrin â phob un o'u pwyntiau heddiw, yn ysgrifenedig wedyn.

It is clear that while we have made progress, there are still significant challenges ahead for us, and the Government does not try to avoid them. We will continue to work with partners to tackle the harms associated with substance misuse, and I am pleased that every Member who has contributed has recognised the wider societal impact that can put a real strain on public services, as well as on individual, family and community relationships, as a result of the effects of substance misuse.

Mae'n amlwg, er ein bod wedi gwneud cynnydd, bod heriau sylweddol o'n blaenau o hyd, ac nid yw'r Llywodraeth yn ceisio eu hosgoi. Byddwn yn parhau i gydweithio â phartneriaid i ymdrin â'r niwed sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau, ac rwyf yn falch bod pob Aelod sydd wedi cyfrannu wedi cydnabod yr effaith gymdeithasol ehangach sy'n gallu rhoi straen gwirioneddol ar wasanaethau cyhoeddus, yn ogystal ag ar berthnasoedd unigolion, teuluoedd a chymunedau, o ganlyniad i effeithiau camddefnyddio sylweddau.

I have already outlined in opening that we will implement the commitments in the misuse delivery plan, in line with the prudent healthcare agenda. However, the annual report does demonstrate that we are already managing to do that well in a number of areas.

Rwyf eisoes wedi amlinellu yn fy agoriad y byddwn yn gweithredu'r ymrwymiadau yn y cynllun cyflenwi camddefnyddio, yn unol â'r agenda gofal iechyd doeth. Fodd bynnag, mae'r adroddiad blynyddol yn dangos ein bod eisoes yn llwyddo i wneud hynny'n dda mewn nifer o feysydd.

I want to try to deal with a couple of points that were mentioned. I think it is fair to deal with the tier 4 point that has been made. As I said, the Government will not support amendment 3 on tier 4 services. We already provide a ring-fenced sum of money to support tier 4 services. Welsh service users have access to those services, and nearly 160 people took those up last year, but it is important that those services are effective and are valued by commissioners and service users themselves. The new framework that we have introduced for tier 4 services will be rolled out and implemented this year. The point is that we want to see the most effective and the most consistent level of service to benefit service users themselves. That will drive the work that we do.

Rwyf am geisio ymdrin ag yn neu ddau o'r pwyntiau a gafodd eu crybwyll. Credaf ei bod yn deg rhoi sylw i'r pwynt a wnaethpwyd am haen 4. Fel y dywedais, ni fydd y Llywodraeth yn cefnogi gwelliant 3 ar wasanaethau haen 4. Rydym eisoes yn darparu swm wedi'i neilltuo o arian i gefnogi gwasanaethau haen 4. Mae'r gwasanaethau hynny wedi bod ar gael i ddefnyddwyr gwasanaeth yng Nghymru, a chawsant eu defnyddio gan bron i 160 o bobl y llynedd, ond mae'n bwysig bod y gwasanaethau hynny'n effeithiol ac yn cael eu gwerthfawrogi gan gomisiynwyr a defnyddwyr gwasanaeth eu hunain. Bydd y fframwaith newydd yr ydym wedi'i gyflwyno ar gyfer gwasanaethau haen 4 yn cael ei ledaenu a'i roi ar waith eleni. Y pwynt yw ein bod am weld y gwasanaeth mwyaf effeithiol a mwyaf cyson er budd y defnyddwyr gwasanaeth eu hunain. Dyna fydd sail y gwaith a wnawn.

I note that a number of Members talked about alcohol misuse in their contributions today. I recognise the points that were made by Elin Jones in her comments, particularly about minimum unit pricing and the impact it would have, and also the groups that we would probably not reach. I think that is a fair point to make and for me to recognise in responding, particularly the points made about younger drinkers. We are not saying that there are no younger drinkers who have a problem, but there is a reality, as I recognised in opening, that the over-45s are more likely to drink more. The point is that we need a role for education so that informed choices are made across the population and minimum unit pricing, rather than just one or the other.

Nodaf fod nifer o Aelodau wedi sôn am gamddefnyddio alcohol yn eu cyfraniadau heddiw. Rwyf yn cydnabod y pwyntiau a wnaeth Elin Jones yn ei sylwadau, yn enwedig ynghylch isafswm pris uned a'r effaith a gâi hynny, a hefyd y grwpiau na fyddem yn ôl pob tebyg yn eu cyrraedd. Credaf fod hwnnw'n bwynt teg i'w wneud ac i mi ei gydnabod wrth ymateb, yn enwedig y pwyntiau a wnaethpwyd am yfwyr iau. Nid ydym yn dweud nad oes yfwyr iau sydd â phroblem, ond mae'n wirionedd, fel y cydnabuwyd gennyf ar y dechrau, bod pobl dros 45 yn fwy tebygol o yfed mwy. Y pwynt yw bod angen swyddogaeth i addysg fel bod dewisiadau gwybodus yn cael eu gwneud ar draws y boblogaeth ac isafswm pris uned, yn hytrach na dim ond un neu'r llall.

I note that virtually every Member made some reference to alcohol misuse. I will not pretend that I will take part in Dry January myself, but I am fortunate in that I do not normally drink in the week. That is because I recognise that I cannot do my job if I do, such is the impact that it has on me. However, that informed and educated conversation that we want to have with everyone has to be taken in a way that people find accessible, rather than in a patronising, do-gooder sort of way, where actually you can lose people and not have the impact on the people we want to reach. I think Dry January is an opportunity to try to have that conversation. You do not have to go for the complete abstinence route: as John Griffiths mentioned, trying to encourage people to have two alcohol-free days a week is a realistic place to start, in terms of people's relationship with alcohol.

Nodaf fod bron bob Aelod wedi gwneud rhyw gyfeiriad at gamddefnyddio alcohol. Nid wyf am esgus y byddaf yn cymryd rhan yn Ionawr Sych fy hun, ond rwyf yn ffodus gan nad wyf fel arfer yn yfed yn ystod yr wythnos. Mae hynny oherwydd fy mod yn cydnabod na allaf wneud fy ngwaith os wyf yn gwneud hynny; dyna'r effaith y mae'n ei chael arnaf. Fodd bynnag, rhaid inni gael y sgwrs ddoeth ac addysgedig honno yr hoffem ei chael gyda phawb mewn ffordd sy'n hygyrch i bobl, yn hytrach nag mewn ffordd nawddoglyd a phregethwrol, lle gallwch mewn gwirionedd golli pobl yn hytrach na chael yr effaith ar y bobl yr hoffem eu cyrraedd. Rwyf yn credu bod Ionawr Sych yn gyfle i geisio cael y sgwrs honno. Nid oes rhaid ichi ddewis y llwybr ymatal yn llwyr: fel y dywedodd John Griffiths, mae ceisio annog pobl i gael dau ddiwrnod di-alcohol yr wythnos yn lle realistig i ddechrau, o ran perthynas pobl ag alcohol.

I am particularly keen to respond to some of the points made by Jenny Rathbone. She recognised that, in the broader sense, substance misuse is a factor in one in four children being in need and on the register, and in one in three children being looked after, in that parental substance misuse is a factor in those people becoming looked after. In particular, there is the impact of health behaviours and drinking during pregnancy. Now, this is an area that midwives themselves have recognised as one on which there is a need to have an ongoing and engaging conversation, not just with pregnant women, but partners as well about the impacts of alcohol during pregnancy. When we talk about foetal alcohol syndrome, we are talking about really high levels of use. You are absolutely right to draw attention to the fact that it is not about an occasional drink but about high levels of sustained alcohol intake during pregnancy. I think it is worth people looking at some of the work, for example, that midwives have done in the Aneurin Bevan Local Health Board area in deliberately working with women in some of the most at-risk areas and trying to give a consistent message about the impact that alcohol will have. I mention midwives because, when you talk about credibility in a number of these messages, there are certain health professionals who have a high level of trust and credibility among the people they work with. Those people will then take on board, at that point in time, the way in which a change in behaviour can make a real difference for them and people around them. So, I am keen to see more of that in the way that we actually recognise that this is not just an area for specialised services; this is an area where mainstream services have a real impact and a role to play.

Rwyf yn arbennig o awyddus i ymateb i rai o'r pwyntiau a wnaeth Jenny Rathbone. Roedd hi'n cydnabod, yn yr ystyr ehangach, bod camddefnyddio sylweddau'n ffactor i un o bob pedwar plentyn sydd mewn angen ac ar y gofrestr, ac i un o bob tri o blant sy'n derbyn gofal, hynny yw, mae'r ffaith bod y rhieni'n camddefnyddio sylweddau'n ffactor sy'n cyfrannu at y ffaith bod y bobl hynny'n dechrau derbyn gofal. Yn arbennig, ceir effaith ymddygiad iechyd ac yfed yn ystod beichiogrwydd. Nawr, mae hwn yn faes y mae bydwragedd eu hunain wedi cydnabod ei fod yn un lle mae angen inni gael sgwrs barhaus ac ystyrlon, nid yn unig gyda menywod beichiog, ond gyda phartneriaid hefyd am effeithiau alcohol yn ystod beichiogrwydd. Pan fyddwn yn sôn am syndrom alcohol ffetws, rydym yn sôn am lefelau uchel iawn o yfed. Rydych yn llygad eich lle i dynnu sylw at y ffaith nad yw'n ymwneud â diod o bryd i'w gilydd ond ag yfed lefelau uchel o alcohol yn barhaus yn ystod beichiogrwydd. Rwyf yn credu ei bod yn werth i bobl edrych ar rywfaint o'r gwaith, er enghraifft, y mae bydwragedd wedi'i wneud yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan wrth weithio'n fwriadol gyda menywod mewn rhai o'r ardaloedd sy'n wynebu'r risg mwyaf a cheisio rhoi neges gyson am yr effaith a gaiff alcohol. Rwyf yn sôn am fydwragedd oherwydd, pan ydych yn sôn am hygrededd mewn nifer o'r negeseuon hyn, mae gan rai gweithwyr iechyd proffesiynol lefel uchel o ymddiriedaeth a hygrededd ymysg y bobl y maent yn gweithio gyda hwy. Bydd y bobl hynny wedyn yn ystyried, ar y pryd, sut y gallai newid mewn ymddygiad wneud gwahaniaeth gwirioneddol iddynt hwy ac i bobl o'u cwmpas. Felly, rwyf yn awyddus i weld mwy o hynny yn y ffordd yr ydym mewn gwirionedd yn cydnabod nad dim ond maes ar gyfer gwasanaethau arbenigol yw hwn; mae hwn yn faes lle mae gwasanaethau prif ffrwd yn cael effaith wirioneddol a lle mae ganddynt ran i'w chwarae.

I want to deal with Darren Millar's particular point about the veterans framework that we published in February this year. I reassure you that this will be a continuing area of work, as we want to see health boards actually implement the framework and make sure that the priority that veterans are supposed to have when accessing NHS services is made real.

Hoffwn ymdrin â phwynt penodol Darren Millar am y fframwaith cyn-filwyr a gyhoeddwyd gennym ym mis Chwefror eleni. Rwyf yn eich sicrhau y bydd hwn yn faes gwaith parhaus, oherwydd hoffem weld byrddau iechyd yn wir yn rhoi'r fframwaith ar waith ac yn gwneud yn siŵr bod y flaenoriaeth y dylai cyn-filwyr ei chael wrth ddefnyddio gwasanaethau GIG yn digwydd mewn gwirionedd.

I also want to deal with some of the points that Kirsty Williams made on alcohol misuse, and I will respond to her in more detail on image-enhancing drugs. It is an interesting point to make, and it is a growing challenge for us that those image-enhancing drugs are taken and used. In particular, I refer to the point that she quite rightly raised about education and about how we have an informed conversation with young people, and with parents, about their own substance use and also in terms of how they talk to their children about potential usage as well.

Hoffwn hefyd ymdrin â rhai o'r pwyntiau a wnaeth Kirsty Williams am gamddefnyddio alcohol, a byddaf yn ymateb iddi'n fanylach am gyffuriau gwella delwedd. Mae'n bwynt diddorol i'w wneud, ac mae'n her gynyddol inni fod y cyffuriau gwella delwedd hynny'n cael eu cymryd a'u defnyddio. Yn benodol, cyfeiriaf at y pwynt a gododd yn gwbl briodol am addysg ac am sut yr ydym yn cael sgwrs wybodus gyda phobl ifanc, a gyda rhieni, am eu defnydd o sylweddau eu hunain a hefyd am sut y maent yn siarad â'u plant am ddefnydd posibl hefyd.

I want to try to close, as there is not much time left. It is important to recognise that part of the role that we have in supporting families, particularly those in our most deprived areas—. A point that many Members made is that the relationship between deprivation and substance misuse is crucial. We want to build upon the integrated family support services programme that we already have, and to recognise, in particular, the role that Gwenda Thomas played when she was a Deputy Minister in delivering and rolling out this service. Also, I want to update Members about the fact that we have a supporting families programme that is working in seven different areas: Caerphilly, Swansea, Carmarthenshire, Merthyr, Wrexham, Flintshire and Rhonda Cynon Taf. It is aimed at families with children aged between 10 and 14. It is about how we strengthen a range of factors regarding parents and children in substance misuse. It is an area that I believe has real potential in terms of how we can have even more success in supporting families to cope with substance misuse. There should be information in the coming months that I will update Members on, on the success of those programmes and how we plan to take them forward.

Rwyf am geisio dod i ben, gan nad oes llawer o amser ar ôl. Mae'n bwysig cydnabod y rhan honno o'r gwaith sydd gennym i gefnogi teuluoedd, yn enwedig y rhai yn ein hardaloedd mwyaf difreintiedig—. Un pwynt a wnaeth llawer o'r Aelodau yw bod y berthynas rhwng amddifadedd a chamddefnyddio sylweddau'n hanfodol. Rydym eisiau adeiladu ar y rhaglen gwasanaethau cymorth integredig i deuluoedd sydd gennym yn barod, a chydnabod, yn benodol, y rhan a chwaraeodd Gwenda Thomas pan oedd yn Ddirprwy Weinidog o ran cyflwyno a lledaenu'r gwasanaeth hwn. Hefyd, hoffwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y ffaith bod gennym raglen cefnogi teuluoedd sy'n gweithio mewn saith gwahanol ardal: Caerffili, Abertawe, Sir Gaerfyrddin, Merthyr, Wrecsam, Sir y Fflint a Rhondda Cynon Taf. Mae wedi'i hanelu at deuluoedd gyda phlant rhwng 10 a 14 oed. Mae'n ymwneud â sut yr ydym yn cryfhau ystod o ffactorau sy'n gysylltiedig â rhieni a phlant yn camddefnyddio sylweddau. Mae'n faes â photensial gwirioneddol, yn fy marn i, o ran sut y gallwn gael mwy fyth o lwyddiant wrth gefnogi teuluoedd i ymdopi â chamddefnyddio sylweddau. Dylwn gael gwybodaeth yn y misoedd nesaf y byddaf yn diweddaru'r Aelodau amdani, ar lwyddiant y rhaglenni hynny a sut yr ydym yn bwriadu eu datblygu.

In closing, I want to make clear that this is an area where the Government recognises the real priority that we need to place on helping people to cope with and get past substance misuse, and the impact that it has on a much wider level. I want to place on record my thanks to all of the providers in the statutory and voluntary sectors, and all of our partners, for their continued support and hard work in reducing the harms associated with substance misuse. I look forward to providing further updates for Members on progress made throughout 2015 and in next year's annual report.

I gloi, hoffwn ei gwneud yn glir bod hwn yn faes lle mae'r Llywodraeth yn cydnabod y flaenoriaeth wirioneddol y mae angen inni ei rhoi ar helpu pobl i ymdopi â chamddefnyddio sylweddau a symud ymlaen, a'r effaith y mae'n ei chael ar lefel lawer ehangach. Hoffwn gofnodi fy niolch i bob un o'r darparwyr yn y sectorau statudol a gwirfoddol, a phob un o'n partneriaid, am eu cefnogaeth barhaus a'u gwaith caled i leihau'r niwed sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau. Edrychaf ymlaen at ddarparu diweddariadau pellach i'r Aelodau am y cynnydd a wnaethpwyd drwy gydol 2015 ac yn adroddiad blynyddol y flwyddyn nesaf.

17:47

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? There is no objection. Amendment 1 is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Diolch. Y cynnig yw derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad. Mae gwelliant 1 felly'n cael ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 1 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:47

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

The proposal is to agree amendment 2. Does any Member object? There is no objection. Amendment 2 is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw derbyn gwelliant 2. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad. Mae gwelliant 2 felly'n cael ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 2 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 2 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:47

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

The proposal is to agree amendment 3. Does any Member object? There is objection. Therefore, I defer further voting under this item until voting time, which now follows. Before I conduct the votes, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not.

Y cynnig yw derbyn gwelliant 3. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad. Felly, gohiriaf bleidlais bellach o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio, sydd nawr yn dilyn. Cyn imi gynnal y pleidleisiau, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nac oes.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

# Cyfnod Pleidleisio

# Voting Time

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnig NDM5640]

[Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5640]

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 26, Against 27, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnig NDM5640]

[Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5640]

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 49, Yn erbyn 4, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 49, Against 4, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i gynnig NDM5640]

[Result of the vote on amendment 4 to motion NDM5640]

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 53, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 53, Against 0, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 5 i gynnig NDM5640]

[Result of the vote on amendment 5 to motion NDM5640]

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 25, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 25, Against 27, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 6 i gynnig NDM5640]

[Result of the vote on amendment 6 to motion NDM5640]

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 53, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 53, Against 0, Abstain 0.*

Cynnig NDM5640 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5640 as amended:

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

To propose that the National Assembly:

1. Yn nodi:

1. Notes:

a) yr effaith a gafwyd ar gaffael cyhoeddus ers lansio Datganiad Polisi Caffael Cymru ym mis Rhagfyr 2012;

a) the impact that has been made on public procurement since the launch of the Wales Procurement Policy Statement in December 2012;

b) y bydd Datganiad Polisi Caffael Cymru yn cael ei adolygu i fanteisio ar y newidiadau sydd ar fin digwydd i ddeddfwriaeth caffael yn yr UE a'r DU.

b) that the Wales Procurement Policy Statement will be reviewed to take advantage of the imminent changes in EU and UK procurement legislation.

2. Yn cydnabod:

2. Recognises:

a) yr effaith gadarnhaol y gall cynyddu cyfran y tendrau yn y sector cyhoeddus a gaiff eu dyfarnu i gwmnïau o Gymru ei chael ar yr economi a'r farchnad lafur;

a) the positive impact that increasing the proportion of public sector tenders being awarded to Welsh companies can have on the economy and the labour market;

b) cyfrifiad Gwerth Cymru y bydd pob cynnydd o 1% yng nghyfran y tendrau yn y sector cyhoeddus a gaiff eu dyfarnu i gwmnïau o Gymru yn creu 2,000 o swyddi newydd.

b) Value Wales's calculation that every 1% increase in the proportion of public sector tenders being awarded to Welsh companies will create 2,000 new jobs.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddeddfu i'w gwneud yn orfodol bod sefydliadau yn y sector cyhoeddus yn dilyn polisi caffael Llywodraeth Cymru.

3. Calls on the Welsh Government to legislate to make it mandatory for public sector organisations to follow Welsh Government procurement policy.

4. Yn credu bod angen i Lywodraeth Cymru ddarparu diweddariadau rheolaidd ynghylch y broses o fabwysiadu Datganiad Polisi Caffael Cymru gan awdurdodau lleol a'r contractau y maent yn eu dyfarnu.

4. Believes that the Welsh Government needs to provide regular updates on the adoption of the Wales Procurement Policy Statement by local authorities; and the contracts awarded by them.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i'w gwneud yn ofynnol bod cyrff cyhoeddus yn asesu'r economi leol cyn penderfynu sut y dylai contractau caffael cyhoeddus gael eu bwndelu.

5. Calls for the Welsh Government to require public bodies to assess the make-up of the local economy before deciding how public procurement contracts should be bundled.

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5640 fel y'i diwygiwyd

Result of the vote on motion NDM5640 as amended

*Derbyniwyd cynnig NDM5640 fel y'i diwygiwyd: O blaid 53, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Motion NDM5640 as amended agreed: For 53, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnig NDM5641

Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5641

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 26, Against 27, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i gynnig NDM5641

Result of the vote on amendment 4 to motion NDM5641

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 43, Yn erbyn 0, Ymatal 10.*

*Amendment agreed: For 43, Against 0, Abstain 10.*

Cynnig NDM5641 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5641 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran gweithredu'r strategaeth camddefnyddio sylweddau 'Gweithio gyda'n Gilydd i Leihau Niwed' fel y manylir arno yn adroddiad blynyddol 2014.

1. Notes the progress that has been made in delivering the substance misuse strategy 'Working Together to reduce Harm' as detailed in the 2014 annual report.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod cyflogwyr yn y gwasanaethau cyhoeddus yn cefnogi gweithwyr sydd â phroblemau mewn perthynas â chamddefnyddio sylweddau drwy ymyrraeth gynnar a chefnogaeth i gynnal cyflogaeth.

2. Calls on the Welsh Government to ensure that public service employers support employees with substance misuse problems through early intervention and support to maintain employment.

3. Yn llongyfarch arloeswyr therapi dibyniaeth a dulliau sy'n seiliedig ar adfer yng Nghymru.

3. Congratulates the pioneers of addiction therapy and recovery-based approaches in Wales.

4. Yn croesawu cyhoeddi adroddiad y Swyddfa Gartref ‘Drugs: International Comparators’ ac yn credu mai'r ffordd orau o helpu defnyddwyr cyffuriau yw drwy drin camddefnyddio sylweddau fel mater iechyd yn bennaf yn hytrach na mater troseddol.

4. Welcomes the publication of the Home Office's report 'Drugs: International Comparators' and believes that drug users would be best helped by treating substance misuse primarily as a health matter rather than criminal matter.

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5641 fel y’i diwygiwyd

Result of the vote on motion NDM5641 as amended

*Derbyniwyd cynnig NDM5641 fel y’i diwygiwyd: O blaid 41, Yn erbyn 0, Ymatal 11.*

*Motion NDM5641 as amended agreed: For 41, Against 0, Abstain 11.*

17:51

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

That concludes today's business.

Dyna ddiwedd busnes heddiw.

*Daeth y cyfarfod i ben am 17:51.*

*The meeting ended at 17:51.*